



# Asesiad o anghenion fferyllol

Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro

Hydref 2021



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro  
Cardiff and Vale  
University Health Board

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/ This document is available in English

## Cynnwys

1 Cyflwyniad.....	6
2 Trosolwg o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.....	41
3 Anghenion iechyd cyffredinol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro .....	65
4 Grwpiau cleifion a nodwyd - materion iechyd penodol .....	90
5 Darparu gwasanaethau fferyllol.....	106
6 Gwasanaethau eraill y GIG .....	150
7 Anghenion iechyd y gellir eu diwallu gan wasanaethau fferyllol .....	156
8 Clwstwr Dwyrain Caerdydd .....	163
10 Clwstwr Dinas a De Caerdydd .....	184
11 Clwstwr Gogledd Caerdydd.....	196
12 Clwstwr De-orllewin Caerdydd .....	209
13 Clwstwr Gorllewin Caerdydd .....	219
14 Clwstwr Canol y Fro .....	232
15 Clwstwr Dwyrain y Fro.....	244
16 Ardal Gorllewin y Fro.....	256
17 Casgliadau at ddiben atodlen 1 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 .....	268
Atodiad A - cyd-destun y polisi a phapurau cefndir .....	275
Atodiad B - gwasanaethau hanfodol.....	279
Atodiad C - gwasanaethau uwch.....	282
Atodiad D - gwasanaethau ychwanegol .....	285
Atodiad E - telerau gwasanaeth ar gyfer contractwyr cyfarpar gweinyddu .....	288
Atodiad F - Aelodau grŵp llywio'r PNA.....	291
Atodiad G - Arolwg ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd .....	292
Atodiad H – canlyniadau llawn holiadur y cleifion a'r cyhoedd .....	301
Atodiad I - holiadur i fferyllwyr ar contract.....	329
Atodiad J - holiadur practisau sy'n gweinyddu .....	332
Atodiad L - oriau agor.....	336

## Crynodeb gweithredol

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn gosod y ddyletswydd statudol a roddir ar bob bwrdd iechyd i baratoi a chyhoeddi asesiad o anghenion fferyllol (PNA) erbyn 1 Hydref 2021. Diben y PNA yw gwella'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, drwy ystyried anghenion fferyllol y boblogaeth ac alinio gwasanaethau'n fwy agos â hwy. Bydd yn golygu y gellir gwella ansawdd a chysondeb gwasanaethau fferyllol ar draws ardal y bwrdd iechyd. At hynny, fe'i defnyddir i bennu a ddylid cymeradwyo ceisiadau ar gyfer agor fferyllfeydd newydd, contractwyr cyfarpar a phractisau meddygon fferyllol, yn seiliedig ar anghenion cyfredol a rhai'r dyfodol, sydd wedi'u nodi yn PNA y bwrdd iechyd, yn ogystal â cheisiadau i newid gwasanaethau sy'n bodoli eisoes.

Sefydlwyd Grŵp Llywio PNA i oruchwylio datblygiad y PNA, ac i sicrhau bod y PNA yn bodloni gofynion statudol. Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid (Atodiad F). At ddibenion y PNA, mae'r ardaloedd wedi'u diffinio fel y naw clwstwr sy'n ffurfio Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Wrth ddatblygu'r PNA, defnyddiwyd sawl ffynhonnell o wybodaeth i gael trosolwg o nodweddion demograffig a phroffil iechyd preswylwyr Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, i bennu eu hanghenion fferyllol.

Cafodd safbwyntiau preswylwyr ar eu defnydd o fferyllfeydd, a gwybodaeth a ddarparwyd gan fferyllwyr ar gontract na ellid ei chael yn genedlaethol, eu casglu drwy'r defnydd o arolygon. Cafodd y wybodaeth a gafwyd ei defnyddio, ar y cyd â ffynonellau data eraill, i lywio'r PNA.

Yn ogystal, cafwyd ymgynghoriad, a gynhaliwyd o Dydd Gwener 21 Mai tan Dydd Mawrth 20 Gorffennaf, ar y PNA drafft a defnyddiwyd y wybodaeth a dderbyniwyd i lywio'r PNA terfynol (Atodiad K).

Mae trosolwg o nodweddion demograffig preswylwyr Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a'u hanghenion iechyd cyffredinol wedi'i nodi ar lefel y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol. Yn ogystal, mae unrhyw grwpiau penodol y nodwyd eu bod yn bresennol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn cynnwys y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a'u hanghenion iechyd tebygol, wedi'u cynnwys. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ffordd y gellir diwallu'r anghenion iechyd hyn gan fferyllwyr ar gontract yn ardal y bwrdd iechyd.

Mae'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir ar hyn o bryd wedi'u nodi a'u mapio. Cafodd y darparwyr hynny sydd wedi'u lleoli y tu allan i ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ond sydd hefyd yn darparu gwasanaethau i'w breswylwyr, eu hystyried hefyd. At hynny, mae rhai gwasanaethau sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, naill ai drwy gynyddu neu leihau'r galw. Mae gwasanaethau o'r fath yn cynnwys fferyllfeydd ysbytai, yr unedau Y Tu Allan i Oriau a CAF 24/7 a'r Uned Mân Anafiadau, ac mae'r rhain wedi'u hystyried fel rhan o'r PNA.

Er bod trosolwg wedi'i ystyried ar lefel y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol, mae adolygiad lefel clwstwr hefyd wedi'i gynnal o'r nodweddion demograffig, anghenion iechyd a'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir i breswylwyr ar hyn o bryd. Defnyddiwyd hyn i nodi a yw'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir ar hyn o bryd yn diwallu anghenion y preswylwyr hynny. Ystyriwyd hefyd a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir, a allai godi yn ystod oes pum mlynedd y PNA.

Mae 106 o fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y maent oll yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau hanfodol. Rhwng 2019 a 2020, cafodd 96.3% o'r holl eitemau presgripsiwn a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu eu gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y bwrdd iechyd. Mae fferyllfeydd hefyd yn darparu ystod o wasanaethau uwch ac ychwanegol.

Mae pedwar contractwr cyfarpar, sy'n gweinyddu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar y tu fewn a'r tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Mae'r pedwar contractwr cyfarpar yn cynnig naill ai'r gwasanaeth uwch Adolygiad o'r Defnydd o Gyfarpar (AUR) neu'r gwasanaeth uwch Teilwra Cyfarpar Stoma (SAC) neu'r ddau.

Mae un practis meddyg teulu fferyllol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sy'n gweinyddu i gleifion cymwys ac a wnaeth weinyddu neu ddarparu'n bersonol llai na 0.1% o'r holl eitemau a bresgripsiynwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Gwnaeth y practisau nad oeddent yn gweinyddu, ddarparu 1.9% o'r cyfanswm yn bersonol.

Er bod dull effeithiol o ddarparu'r gwasanaeth o fewn y bwrdd iechyd, gallai rhai preswylwyr ddewis cael mynediad at fferyllwyr ar gontract y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Rhwng 2019 a 2020, cafodd 1.8% o bresgripsiynau eu gweinyddu y tu allan i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Er bod llawer wedi cael eu gweinyddu gan fferyllwyr ar gontract mewn byrddau iechyd cyfagos, cafodd rhai eu gweinyddu mor bell i ffwrdd â Lloegr. Mae hyn yn awgrymu bod yn well gan rai preswylwyr ddefnyddio contractwr cyfarpar gweinyddu penodol neu ddarparwr arbenigol, gyda rhai presgripsiynau'n cael eu gweinyddu tra bod yr unigolyn ar wyliau neu'n agos at ei fan gwaith.

Mae'r mynediad i wasanaethau fferyllol ar gyfer preswylwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dda iawn, gyda'r mwyafrif helaeth yn gallu cael mynediad at fferyllfa yn ystod oriau gwaith arferol o fewn 20 munud. Gall y mwyafrif gael mynediad at fferyllfa o fewn pum i 10 munud yn y car. Er y dylid nodi nad oes gan bob cartref fynediad at gar, mae natur y clystyrau yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai na allant wneud y daith gyfan ar droed. Fodd bynnag, yn ardaloedd mwy gwledig clwstwr Gorllewin y Fro a Chanol y Fro, mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig. Er ei bod yn debygol bod nifer uchel o bobl yn berchen ar gar, gallai'r rhai nad oes ganddynt gar ac yn enwedig yr henoed, ei chael yn anodd cael mynediad at fferyllfa. Bydd gan y rhan fwyaf o fferyllfeydd yn y clystyrau hyn drefniadau ar waith sy'n golygu y gellir cael mynediad prydlon at feddyginiaethau ar gyfer y rhai sy'n gaeth i'w cartrefi neu y gallent ei chael yn anodd cyrraedd fferyllfa. Felly, prif gasgliad y PNA hwn yw nad oes bylchau yn y

dull o ddarparu gwasanaethau fferyllol ar hyn o bryd.

Wrth ystyried a fydd unrhyw anghenion yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau fferyllol a allai godi yn ystod oes pum mlynedd y PNA, rhoddwyd ystyriaeth i'r twf a ragwelir yn y boblogaeth, datblygiadau tai a gynlluniwyd a chapasiti a dosbarthiad darparwyr gwasanaethau ar draws y bwrdd iechyd. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dod i'r casgliad y bydd y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol i ddiwallu anghenion preswylwyr yn y dyfodol ac nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw wasanaethau lle y byddai angen gwelliannau, neu well mynediad, i'r gofal fferyllol a ddarperir, naill ai nawr neu o fewn oes y PNA.

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 - Diben asesiad o anghenion fferyllol

Diben asesiad o anghenion fferyllol (PNA) yw asesu a nodi sut y gall y dull o ddarparu gwasanaethau fferyllol ddiwallu anghenion iechyd poblogaeth ardal bwrdd iechyd am gyfnod o hyd at bum mlynedd, gan gysylltu'n agos â 'Deddf Asesiad o Anghenion Poblogaeth Caerdydd a'r Fro (Cymru) 2014' ac Asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (2017) ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg. Tra bod y ddau uchod yn canolbwyntio ar anghenion gofal a chymorth y boblogaeth, ac ar wella llesiant cymunedau, mae'r PNA yn edrych ar sut y gellir diwallu anghenion iechyd y boblogaeth drwy wasanaethau fferyllol a gomisiynir gan y bwrdd iechyd.

Os bydd unigolyn (fferyllfa neu contractwr cyfarpar gweinyddu) am ddarparu gwasanaethau fferyllol, bydd yn ofynnol iddo wneud cais i'r bwrdd iechyd, yn yr ardal lle caiff yr eiddo ei leoli, er mwyn ei gynnwys ar ei restr fferyllol. Rhaid i'w gais hefyd gynnig diwallu angen sydd wedi'i nodi yn PNA y bwrdd iechyd hwnnw. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau i hyn e.e. ceisiadau i newid perchenogaeth.

Os bydd meddyg teulu am weinyddu i ardal newydd, neu o eiddo newydd neu ychwanegol, bydd yn ofynnol iddo hefyd wneud cais i'r bwrdd iechyd i gael ei gynnwys ar ei restr meddygon fferyllol, neu er mwyn i ardal newydd, neu eiddo newydd neu ychwanegol gael ei restru mewn perthynas ag ef. Rhaid i'w gais hefyd gynnig diwallu angen sydd wedi'i nodi yn PNA y bwrdd iechyd hwnnw.

Yn ogystal â nodi a oes angen am eiddo ychwanegol, bydd y PNA hefyd yn nodi a oes angen am wasanaeth neu wasanaethau ychwanegol. Gallai anghenion a nodwyd naill ai fod yn rhai cyfredol, neu gallent godi o fewn oes pum mlynedd y PNA.

## 1.2 Dyletswyddau'r bwrdd iechyd mewn perthynas â'r asesiad o anghenion fferyllol

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ddyletswyddau penodol y bwrdd iechyd mewn perthynas â PNAs a chefnidir polisi PNAs yn atodiad A, fodd bynnag, yn gryno, rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Cyhoeddi ei PNA cyntaf erbyn 1 Hydref 2021;
- Cyhoeddi datganiadau diwygiedig (h.y. PNAs dilynol), bob pum mlynedd, sy'n cydymffurfio â'r gofynion rheoliadol;
- Cyhoeddi PNA dilynol yn gynt pan fydd yn nodi newidiadau i'r angen am wasanaethau fferyllol sydd o raddfa sylweddol, oni fyddai gwneud hynny yn ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny;
- Llunio datganiadau ategol sy'n egluro'r newidiadau i argaeledd gwasanaethau fferyllol mewn amgylchiadau penodol.

### 1.3 Gwasanaethau fferyllol

Mae'r gwasanaethau y mae'n rhaid i'r PNA eu cynnwys wedi'u diffinio o fewn Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

Gallai gwasanaethau fferyllol gael eu darparu gan y canlynol:

- Fferyllwydd ar gontract sydd wedi'i gynnwys ar restr fferyllol yr ardal honno o'r bwrdd iechyd;
- Contractwr cyfarpar gweinyddu, sydd wedi'i gynnwys ar y rhestr fferyllol a gynhelir ar yr gyfer yr ardal honno o'r bwrdd iechyd;
- Meddyg neu bractis meddyg teulu sydd wedi'i gynnwys ar y rhestr meddygon fferyllol a gynhelir ar gyfer yr ardal honno o'r bwrdd iechyd.

Mae pob bwrdd iechyd yn gyfrifol am baratoi, cynnal a chyhoeddi ei restrau. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro mae 106 o fferyllfeydd, pedwar contractwr cyfarpar gweinyddu ac un practis gweinyddu.

Gall fferyllwyr ar gontract weithredu fel unig fasnachwr, partneriaeth neu gorff corfforaethol. Mae Deddf Meddyginiaethau 1968 yn rheoli pwy all fod yn fferyllwydd ar gontract, ond nid oes cyfyngiad ar bwy all weithredu fel contractwr cyfarpar gweinyddu.

#### 1.3.1 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllwyr ar gontract

Yn wahanol i feddygon teulu, deintyddion ac optometryddion, nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dal contractau gyda'r fferyllwyr ar gontract yn yr ardal. Yn hytrach, maent yn darparu gwasanaethau o dan fframwaith contractiol, y cyfeirir ato weithiau fel fframwaith contractiol fferylliaeth gymunedol, y caiff ei fanylion (telerau gwasanaeth) eu nodi yn atodlen 5 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) (Cymru) 2005, a Chyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Cyfarpar) (Cymru) 2010.

Mae fferyllwyr ar gontract yn darparu tri math o wasanaeth sy'n perthyn i'r diffiniad o wasanaethau fferyllol a'r fframwaith contractiol fferylliaeth gymunedol. Yn eu plith mae:

- Gwasanaethau hanfodol - rhaid i bob fferyllfa ddarparu'r rhain
  - Gweinyddu presgripsiynau, gan gynnwys darparu cyffur neu gyfarpar ar frys, heb bresgripsiwn
  - Gweinyddu presgripsiynau amlroddadwy
  - Cael gwared ar gyffuriau nad oes eu hangen
  - Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw
  - Cyfeirio
  - Cymorth ar gyfer hunanofal

- Gwasanaethau uwch - gallai fferyllfeydd ddewis a ydynt am ddarparu'r gwasanaethau hyn ai peidio. Os ydynt yn dewis darparu un neu fwy o'r gwasanaethau uwch, rhaid iddynt fodloni gofynion penodol, a rhaid iddynt gydymffurfio'n llawn â'r gwasanaethau hanfodol a'r gofynion llywodraethu clinigol.
  - Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau a'r gwasanaeth ymyrryd o ran presgripsiynau (y cyfeirir ato'n fwy cyffredin fel yr adolygiad o'r defnydd o feddyginiaethau neu'r gwasanaeth MUR)
  - Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau'r claf (DMR)
  - Gwasanaeth teilwra cyfarpar stoma (SAC)
  - Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar (AUR)
  
- Gwasanaethau ychwanegol - caiff manylebau gwasanaeth ar gyfer y math hwn o wasanaeth eu datblygu'n genedlaethol neu gan y bwrdd iechyd, ac yna eu comisiynu i ddiwallu anghenion iechyd penodol.
  - Monitro gwrthgeulo
  - Gwasanaeth gofal cartref
  - Gwasanaeth rheoli meddyginiaethau sy'n ymwneud â chlefydau penodol
  - Gwasanaeth darparu bwyd heb glwten
  - Gwasanaeth dosbarthu i'r cartref
  - Gwasanaeth mynediad at iaith
  - Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau
  - Gwasanaeth asesu meddyginiaethau a chymorth cydymffurfio
  - Cynllun mân anhwylderau
  - Cyfnewid nodwyddau a chwistrellau
  - Gwasanaeth argaeledd cyffuriau arbenigol ar gais
  - Gwasanaeth Tu Allan i Oriau
  - Gwasanaeth cyfarwyddo grwpiau cleifion
  - Gwasanaeth cymorth i bresgripsiynwyr
  - Gwasanaeth ysgolion
  - Gwasanaeth sgrinio
  - Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu
  - Gwasanaeth gweinyddu o dan oruchwyliaeth
  - Gwasanaeth casglu gwrthfeirysol
  - Gwasanaeth cyflenwi mewn argyfwng

Ceir gwybodaeth bellach am ofynion y gwasanaethau hanfodol, uwch ac ychwanegol yn atodiadau B, C a D yn y drefn honno.

Yn sail i ddarparu'r holl wasanaethau hyn mae'r gofyniad ar bob fferyllfeydd ar contract i gymryd rhan mewn system llywodraethu clinigol. Caiff y system hon ei gosod o fewn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac mae'n cynnwys:

- Rhaglen cynnwys y cleifion a'r cyhoedd
- Rhaglen archwilio clinigol
- Rhaglen rheoli risg
- Rhaglen effeithiolrwydd clinigol

- Rhaglen staffio a rheoli staff
- Rhaglen llywodraethu gwybodaeth
- Rhaglen safonau eiddo

Mae'n ofynnol i fferyllfeydd fod ar agor am ddim llai na 40 awr yr wythnos, a chyfeirir at y rhain fel oriau agor craidd, ond mae llawer yn dewis agor am gyfnod hirach a chyfeirir at yr oriau ychwanegol hyn fel oriau agor ategol. O dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 mae'n bosibl i fferyllwyr ar gontract wneud cais yn llwyddiannus i agor fferyllfa gyda nifer uwch o oriau agor craidd, er mwyn diwallu angen a nodwyd mewn PNA.

Mae'r oriau agor a gynigir ar gyfer pob fferyllfa wedi'u nodi yn y cais cychwynnol, ac os caniateir y cais, ac y bydd y fferyllfa yn agor wedi hynny, rhain fydd oriau agor contractiol y fferyllfa. Gall y fferyllfeydd ar gontract wneud cais wedi hynny i newid ei oriau agor craidd, a bydd y bwrdd iechyd yn asesu'r cais yn erbyn anghenion poblogaeth ei ardal, fel y nodir yn y PNA, er mwyn penderfynu p'un ai i gytuno i'r newid yn yr oriau agor craidd neu beidio. Os bydd fferyllfeydd ar gontract yn dymuno newid ei oriau agor ategol, y cyfan fydd angen iddo wneud yw hysbysu'r bwrdd iechyd o'r newid, gan roi o leiaf tri mis o rybudd.

### **1.3.2 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan gontractwyr cyfarpar gweinyddu**

Yn debyg i fferyllwyr ar gontract, nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnal contractau gyda chontractwyr cyfarpar gweinyddu. Mae eu telerau gwasanaeth wedi'u nodi yn atodlen 6 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 a Chyfeiriadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Cyfarpar) (Cymru) 2010.

Mae contractwyr cyfarpar gweinyddu yn darparu'r gwasanaethau canlynol ar gyfer cyfarpar (dim cyffuriau), er enghraifft cathetrau a bagiau colostomi, sy'n perthyn i'w diffiniad o wasanaethau fferyllol:

- Gweinyddu presgripsiynau, gan gynnwys cyflenwi brys heb bresgripsiwn
- Gweinyddu presgripsiynau amlroddadwy
- Gwasanaeth dosbarthu i'r cartref ar gyfer rhai eitemau
- Darparu eitemau ategol priodol (e.e. clytiau tafladwy a bagiau tafladwy)
- Rhoi cyngor clinigol arbenigol ar y cyfarpar
- Cyfeirio

Efallai y byddant hefyd yn dewis darparu gwasanaethau uwch. Os ydynt yn dewis eu darparu, rhaid iddynt fodloni gofynion penodol, a rhaid iddynt gydymffurfio'n llawn â'u telerau gwasanaeth a'r gofynion llywodraethu clinigol. Y ddau wasanaeth uwch y gallent eu darparu yw:

- Gwasanaeth teilwra cyfarpar stoma (SAC)
- Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar (AUR)

Yn debyg i fferyllfeydd, mae gofyn i gontractwyr cyfarpar gweinyddu gyfrannu at system llywodraethu clinigol. Caiff y system hon ei gosod o fewn Rheoliadau'r

Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac mae'n cynnwys:

- Rhaglen cynnwys y cleifion a'r cyhoedd
- Rhaglen archwilio clinigol
- Rhaglen rheoli risg
- Rhaglen effeithiolrwydd clinigol
- Rhaglen staffio a rheoli staff
- Rhaglen llywodraethu gwybodaeth
- Rhaglen safonau eiddo

Ceir gwybodaeth bellach am ofynion y gwasanaethau hyn yn atodiad E.

Mae gofyn i gontractwyr cyfarpar gweinyddu agor am ddim llai na 30 awr yr wythnos, a chyfeirir at y rhain fel oriau agor craidd. Gallent ddewis agor am hirach a chyfeirir at yr oriau ychwanegol hyn fel oriau agor ategol. O dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 mae'n bosibl i gontractwyr cyfarpar gweinyddu wneud cais yn llwyddiannus i agor eiddo gyda nifer uwch o oriau agor craidd, er mwyn diwallu angen a nodwyd mewn PNA.

Mae'r oriau agor a gynigir ar gyfer pob contractwr cyfarpar gweinyddu wedi'u nodi yn y cais cychwynol, ac os caiff y cais ei gadarnhau, ac y bydd y contractwr cyfarpar gweinyddu yn agor wedi hynny, y rhain fydd oriau agor contractiol y contractwr cyfarpar gweinyddu. Gall y contractwr wneud cais wedi hynny i newid ei oriau agor craidd. Bydd y bwrdd iechyd yn asesu'r cais yn erbyn anghenion poblogaeth ei ardal, fel y nodir yn y PNA, er mwyn penderfynu p'un ai i gytuno i'r newid yn yr oriau agor craidd neu beidio.

### **1.3.3 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan feddygon**

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn caniatáu i feddygon weinyddu i gleifion cymwys o dan amgylchiadau penodol. Mae'r rheoliadau'n gymhleth ar y mater hwn, ond yn gryno:

- Rhaid bod cleifion yn byw mewn 'ardal wedi'i rheoli' (ardal sydd wedi'i phennu gan y bwrdd iechyd neu sefydliad blaenorol fel un sy'n wledig o ran ei chymeriad, neu gan apêl gan Weinidogion Cymru), sy'n fwy na 1.6m (wedi'i fesur mewn llinell syth) o fferyllfa
- Rhaid bod gan eu practis gymeradwyaeth eiddo a chaniatâd amlinellol i weinyddu i'r ardal honno.

Mae rhai eithriadau i hyn, er enghraifft cleifion sydd wedi bodloni'r bwrdd iechyd y byddent yn cael anhawster difrifol i gael mynediad at fferyllfa oherwydd pellter neu ddull cyfathrebu annigonol.

### **1.4 Gwasanaethau eraill y GIG**

Mae gwasanaethau eraill a gomisiynir neu a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol hefyd wedi'u cynnwys yn y PNA.

## **1.5 Sut y cynhaliwyd yr asesiad**

### **1.5.1 Grŵp llywio'r PNA**

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyfrifoldeb cyffredinol dros gyhoeddi'r PNA, ac mae Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd yn atebol am ei ddatblygu. Gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sefydlu grŵp llywio'r PNA, a'i ddiben oedd sicrhau bod PNA cadarn yn cael ei ddatblygu a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac yn diwallu anghenion y boblogaeth leol. Gwaeth aelodaeth y grŵp llywio sicrhau bod yr holl brif randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a gellir ei gweld yn atodiad F.

### **1.5.2 Ardaloedd y PNA**

Yng Nghymru mae 64 o glystyrau gofal sylfaenol, y mae pob un yn gwasanaethu poblogaeth rhwng 25,000 a 100,000. Cyfrifoldeb y clystyrau yw gwella mynediad i ofal sylfaenol, a'i ansawdd, er mwyn sicrhau gwell iechyd a lles a llai o anghydraddoldebau iechyd. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro mae naw clwstwr gofal sylfaenol.

Mae ardaloedd y PNA sydd wedi'u defnyddio ar gyfer y PNA yn cyfateb i ffiniau'r naw clwstwr hwn sy'n ffurfio ardal gyfunedig Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sef:

- Gogledd Caerdydd
- Gorllewin Caerdydd
- De-orllewin Caerdydd
- Dwyrain Caerdydd
- De-ddwyrain Caerdydd
- Dinas a De Caerdydd
- Gorllewin y Fro
- Canol y Fro
- Dwyrain y Fro

O fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae'r naw clwstwr wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng tair ardal, sy'n perthyn i ddau Gyngor Bwrdeistref neu awdurdod lleol fel y dengys isod yn nhabl 1.1.

**Tabl 1.1 Clystyrau, ardaloedd ac awdurdodau lleol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

<b>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</b>		
<b>Ardal y Gogledd-orllewin</b>	<b>Ardal y De-ddwyrain</b>	<b>Ardal y Fro</b>
<b>Gogledd Caerdydd</b>	<b>Dwyrain Caerdydd</b>	<b>Gorllewin y Fro</b>
<b>Gorllewin Caerdydd</b>	<b>De-ddwyrain Caerdydd</b>	<b>Canol y Fro</b>
<b>De-orllewin Caerdydd</b>	<b>Dinas a De Caerdydd</b>	<b>Dwyrain y Fro</b>
<b>Caerdydd Awdurdod Lleol</b>		<b>Bro Morgannwg Awdurdod Lleol</b>

Drwy gydol y ddogfen hon cyfeirir at ardaloedd y PNA fel clystyrau er mwyn cyfateb i'r derminoleg a ddefnyddiwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac i atal dryswch gyda thair ardal y bwrdd iechyd.

### **1.5.3 Ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd**

Er mwyn cael barn cleifion a'r cyhoedd ar wasanaethau fferyllol, datblygwyd holiadur a'i gyhoeddi rhwng 19 Ionawr a 15 Chwefror 2021. Hyrwyddwyd yr holiadur drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gydag o leiaf un postiad ar y cyfryngau ar gyfer pob wythnos yr oedd yr holiadur ar agor. Fe'i hanfonwyd allan ar adegau gwahanol o'r dydd er mwyn cael barn croestoriad o gleifion a'r cyhoedd. Fe'i rhannwyd hefyd gyda Chynghorau Iechyd Cymuned. Cafodd eitem newyddion am yr holiadur i gleifion a'r cyhoedd ei chynnwys ar wefan y Bwrdd Iechyd. Cafodd dwy eitem newyddion eu cynnwys hefyd ym mlog Connect wythnosol y Prif Weithredwr, y mae staff, cleifion a'r cyhoedd yn ei weld. Gan fod gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro boblogaeth myfyrwyr fawr, cafodd yr holiadur ei hyrwyddo drwy'r tair prifysgol. Cafodd yr ap StaffConnect hefyd ei ddefnyddio i hyrwyddo'r holiadur i staff sy'n byw yn ardal y bwrdd iechyd.

Gellir gweld copi, sy'n dangos y cwestiynau a ofynnwyd, yn atodiad G. Gellir gweld y canlyniadau llawn yn atodiad H.


Mae'n werth nodi bod Cymru yng nghanol y cyfyngiadau symud o ganlyniad i bandemig y coronfeirws (COVID-19) ar yr adeg y cynhaliwyd yr arolwg. Gan fod fferyllfeydd cymunedol wedi'u dynodi fel gwasanaeth hanfodol, roedd yn ofynnol iddynt barhau ar agor yn ystod yr adeg hon er mwyn darparu ar gyfer anghenion fferyllol y boblogaeth. Gwnaed nifer o newidiadau i arferion gweithio yn gyflym er mwyn galluogi hyn. Rhoddwyd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith, gan gyfyngu ar nifer y cleifion allai ddod i mewn i'r fferyllfa ar yr un pryd. Roedd newidiadau i oriau agor yn golygu bod hawl gan nifer o fferyllfeydd weithio y tu ôl i ddrysau caeëdig amser cinio, ac am awr gyntaf ac olaf y dydd. Arweiniodd y mesurau hyn at amseroedd aros hirach i gleifion, gan gyfrannu at orbryder a rhwystredigaeth cleifion. Gyda niferoedd fawr o gleifion yn gwarchod, gwnaeth y

galw am wasanaeth dosbarthu o fferyllfeydd cymunedol gynyddu hefyd. Gwnaeth llawer o wirfoddolwyr ac asiantaethau gwirfoddol gamu i'r adwy i helpu i ymateb i'r galw hwn mewn llawer o ardaloedd. Gwnaeth staff fferyllfeydd hefyd wynebu mwy o straen yn ystod yr adeg hon, o ganlyniad i bwysau pandemig y coronafeirws (COVID-19) yn y gwaith a gartref.

Gwnaeth cyfanswm o 311 o bobl neu ymatebwyr gwblhau'r holiadur; fodd bynnag, ni wnaeth bob un o'r 311 o ymatebwyr ateb pob cwestiwn. Roedd 80% o ymatebwyr (247 o 308 o bobl) yn fenywod, 18% (55 o bobl) yn ddynion ac 1% (2 o bobl) yn anneuaidd. Roedd yn well gan 2 ymatebwr beidio â dweud, dewisodd 2 ymatebwr 'arall' a gwnaeth 3 ymatebwr fynd ymlaen i'r cwestiwn nesaf.

Roedd yr holl ymatebwyr a ddarparodd wybodaeth am eu hoedran (309 o bobl) dros 16 oed. Roedd chwarter o ymatebwyr (25%, 78 o bobl) rhwng 16 a 44 oed. Roedd bron tri chwarter o ymatebwyr yn 45 oed a throsodd (74%, 229 o bobl), a chafwyd y nifer uchaf o atebion gan y grŵp oedran 45 i 54 oed (29%, 89 o bobl), wedi'i ddilyn gan y grŵp oedran 55 i 64 oed (27%, 82 o bobl). Roedd yn well gan ddau ymatebwr beidio â dweud.

**Ffigur 1.1: Ystod oedran yr ymatebwyr**




Dywedodd 96% o ymatebwyr (296 o 308 o bobl) mai Saesneg oedd eu dewis iaith pan oeddent yn defnyddio gwasanaethau mewn fferyllfa. Dim ond 4% (11 o bobl) a ddywedodd mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. Dywedodd un ymatebwr fod yn well ganddo'r naill iaith neu'r llall.

Pan ofynnwyd i bobl pam eu bod fel arfer yn ymweld â fferyllfa, atebodd 309 o bobl y cwestiwn, a chafwyd cyfanswm o 888 o ymatebion. Gellid rhoi nifer o atebion i'r cwestiwn hwn, ac mae nifer yr ymatebion a dderbyniwyd yn dangos bod rhai pobl wedi dewis mwy nag un rheswm dros ymweld â fferyllfa. Mae'r mwyafrif o ymatebion a dderbyniwyd yn dangos bod pobl yn ymweld â fferyllfa i gael neu gasglu presgripsiwn ar gyfer eu hunain (280 o ymatebion), neu i gael neu gasglu presgripsiwn ar ran rhywun arall (172 o ymatebion). O blith y pump o bobl a ymatebodd 'arall', roedd dau sylw yn cyfeirio at brynu colur a phethau ymolchi neu'r ddau, fel rheswm dros ymweld â fferyllfa. Roedd y tri sylw a oedd yn weddill yn cyfeirio at sut mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) a chanllawiau ar ofynion

gwarchod wedi gorfodi ymatebwyr i newid sut maent fel arfer yn casglu eu meddyginiaethau a weinyddir o fferyllfa:

- “Roeddwn i’n casglu fy hun tan i’r rheolau gwarchod ddod i rym.”
- “Ar hyn o bryd, mae fy ngŵr yn casglu fy meddyginiaeth er mwyn fy ngalluogi i warchod.”

**Ffigur 1.2: Rhesymau dros ymweld â fferyllfa**



Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr (63%, 194 o 308 o bobl) yn ymweld â fferyllfa yn fisol, gan adlewyrchu hyd eu presgripsiwn. O'r 23 o bobl a ymatebodd 'arall', roedd naw yn ymweld â fferyllfa i gasglu eu presgripsiwn rheolaidd bob dau fis, roedd un yn ymweld â fferyllfa bob chwe wythnos ac roedd 11 yn ymweld â fferyllfa yn anaml neu pryd bynnag yr oedd angen gwneud:


- “Pan fo angen, yn dibynnu ar lefelau salwch. Rydw i’n iach felly dydw i ddim yn mynd yn rheolaidd.”

Gwnaeth un gyfeirio at y ffaith bod yr amllder wedi newid oherwydd nad oedd eitem ar bresgripsiwn ar gael:

- “Bob mis fel arfer, ond mor aml â saith gwaith yn ddiweddar (chwarter diwethaf) gan nad oedd eitemau ar bresgripsiwn ar gael ar amser.”


Dyweddodd un person ei fod yn gwarchod felly roedd rhywun arall yn casglu ar ei ran.

**Ffigur 1.3: Pa mor aml y defnyddir fferyllfa**




Nid oedd gan y rhan fwyaf o ymatebwyr (37%, 113 o 307 o bobl) ffafriaeth o ran pryd yw'r amser gorau i ddefnyddio fferyllfa. O blith yr ymatebion oedd yn weddill, roedd yn well gan 42% ddefnyddio fferyllfa rhwng 9am a 6pm, a rhwng 2pm i 6pm oedd yr amser mwyaf poblogaidd, wedi'i ddilyn gan 6pm i 9pm.

**Ffigur 1.4: Yr amser mwyaf cyfleus i ddefnyddio fferyllfa**



Yn yr un modd, nid oedd gan y rhan fwyaf o ymatebwyr (52%, 160 o 308 o bobl) ffafriaeth o ran y diwrnod mwyaf cyfleus i ddefnyddio fferyllfa. O blith yr ymatebion a oedd yn weddill, roedd 19% o'r farn mai yn ystod yr wythnos yn gyffredinol oedd yr amser mwyaf cyfleus i ddefnyddio fferyllfa, ac roedd 11% o'r farn mai ar y penwythnos yn gyffredinol oedd yr amser mwyaf cyfleus iddynt ddefnyddio fferyllfa. Roedd yn well gan ymatebwyr eraill ddiwrnod penodol o'r wythnos, a dydd Sadwrn oedd y dewis mwyaf poblogaidd (6%).

**Ffigur 1.5: Y diwrnod mwyaf cyfleus i ddefnyddio fferyllfa**




Pan ofynnwyd a fu amser yn ddiweddar pan nad oeddent wedi gallu defnyddio eu fferyllfa arferol, atebodd 25% (76 o 307 o bobl), 'oedd', atebodd 73% (223 o bobl) 'nac oedd' a dywedodd 3% (8 bobl) bod y cwestiwn yn 'amherthnasol'. Pan ofynnwyd i bobl beth a wnaethant, atebodd 76 o bobl y cwestiwn, a chafwyd cyfanswm o 83 o ymatebion. Gellid rhoi nifer o atebion i'r cwestiwn hwn, ac mae nifer yr ymatebion a dderbyniwyd yn dangos bod rhai pobl wedi dewis mwy nag un cam gweithredu. Mae'r rhan fwyaf o ymatebion a dderbyniwyd yn dangos bod pobl wedi mynd i fferyllfa arall (47 ymateb) neu wedi aros nes bod y fferyllfa ar agor (26 ymateb). Dengys tri ymateb fod pobl wedi mynd at eu meddyg teulu, a bod un wedi cysylltu â'r gwasanaeth y tu allan i oriau. O'r chwech o bobl a ymatebodd 'arall': nid oedd gan un fferyllfa arferol yr oedd yn ei defnyddio, aeth un adref a phrofodd un broblemau oherwydd nad oedd y fferyllfa ar agor ar y penwythnos a bod y fferyllfa nesaf wedi'i chau oherwydd pandemig y coronafeirws (COVID-19). Roedd dau sylw arall yn gysylltiedig â'r gwasanaeth dosbarthu a phandemig y coronafeirws (COVID-19):

- “Nid oedd y person sydd fel arfer yn casglu fy mhresgripsiynau, gan fy mod i'n gaeth i fy nghartref, yn gallu mynd i'w nôl chwaith gan ei fod yn sâl ei hun. Roedd rhaid i fi ffonio i ofyn iddynt ei ddsbarthu ond cefais wybod nad ydynt fel arfer yn dosbarthu - ond y byddent yn gwneud y tro hwn yn unig. Cefais fy synnu gan yr agwedd hon.”

Dywedodd un person:

- “Mynd i fferyllfa ar alw.”

**Ffigur 1.6: Beth wnaeth yr ymatebwyr pan nad oeddent yn gallu defnyddio eu fferyllfa arferol**



Mae'n well gan y rhan fwyaf o ymatebwyr ddefnyddio'r un fferyllfa. O'r 308 o ymatebion a dderbyniwyd, dywedodd 197 o ymatebwyr (64%) eu bod bob amser yn defnyddio'r un fferyllfa, a dywedodd 101 o ymatebwyr (33%) eu bod yn defnyddio fferyllfeydd gwahanol, ond bod yn well ganddynt ymweld ag un yn fwyaf aml. Dywedodd tri ymatebwr eu bod bob amser yn defnyddio fferyllfeydd gwahanol, a dywedodd saith ymatebwr mai prin yr oeddent yn defnyddio fferyllfa.

Mae llawer o resymau sy'n dylanwadu ar y dewis o fferyllfa. Rhoddwyd nifer o atebion gwahanol (1664 o ymatebion) gan y 308 o bobl a atebodd y cwestiwn, o ran beth sy'n dylanwadu ar eu dewis o fferyllfa. Y rhesymau mwyaf poblogaidd oedd ei bod yn agos at gartref (229 o ymatebion), wedi'i ddilyn gan 'yn agos at fy meddyg' (157 o ymatebion) a bod lleoliad y fferyllfa yn hawdd i'w gyrraedd (144 o ymatebion). O'r 22 o ymatebwyr a atebodd 'arall', cafwyd 10 sylw am y system amlweinyddu, gan gynnwys archebu a chasglu presgripsiynau:

- "Maent yn rhoi gwybod dros y ffôn pan fydd fy mhresgripsiwn yn barod i'w gasglu."
- "Rwy'n casglu fy mhresgripsiwn o'r Meddyg Teulu ac rydw i'n ei gasglu o'r fferyllfa pan fydd yn barod."

Roedd dau sylw arall yn gysylltiedig â'r gwasanaeth dosbarthu a gynigiwyd yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19):

- "Maent wedi bod yn wych yn ystod y cyfyngiadau symud ac wedi dosbarthu ein presgripsiynau pan oedd fy ngŵr yn gwarchod."
- "Mae [enw'r fferyllfa] yn casglu fy mhresgripsiwn OND YN GWRTHOD DOSBARTHU - er fy mod i'n gwarchod."

Cafwyd dau sylw am amseroedd agor.


- "Pe baent ond yn agor ar adegau pan fydd pobl sy'n gweithio (yn y GIG) yn gallu eu defnyddio, byddwn yn mynd i'r un sydd 30 eiliad ar droed o'm cartref, yn hytrach na gorfod mynd yr holl ffordd i [enw'r fferyllfa]."

- “Ar agor ar ddydd Sadwrn.”

Roedd un sylw a gafwyd yn ymwneud â pha mor hawdd ydyw i barcio. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys:


- “Dyma’r fferyllfa y cefais gyfarwyddiadau gan y meddyg i’w defnyddio.”  
“Rydw i’n mynd i’r fferyllfa sydd ar agor ond mae hyn wedi bod yn anoddach yn ddiweddar gan fod fy fferyllfa leol wedi symud yn bellach i ffwrdd, ac rydw i’n gorfod gohirio fy nhriniaeth tan y diwrnod canlynol.”
- “Mae ganddynt fy newis o frandiau.”
- “Mae’r fferyllfa leol arall ar gau ond mae’r gwasanaeth yn ofnadwy.”
- “Ar ôl profiadau negyddol gyda fferyllfeydd eraill, dyma’r un orau yn [enw’r lleoliad].”

**Ffigur 1.7: Rhesymau sy’n dylanwadu ar y dewis o fferyllfa**



Mae’r rhan fwyaf o ymatebwyr (67%, 207 o 307 o bobl), yn defnyddio’r fferyllfa sy’n fwyaf cyfleus neu’n agosaf iddynt ei defnyddio. Dywedodd 11 o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oedd fferyllfa a oedd yn agosach neu’n fwy cyfleus. Fodd bynnag, ar gyfer 29% o ymatebwyr (89 o bobl), roedd fferyllfa fwy cyfleus neu agosach yr oeddent yn dewis peidio â’i defnyddio. Pan ofynnwyd i bobl pam eu bod fel arfer yn ymweld â fferyllfa, atebodd 90 o bobl y cwestiwn (un yn fwy nag a ymatebodd yn flaenorol), a chafwyd cyfanswm o 164 o ymatebion. Gellid rhoi nifer o atebion i’r cwestiwn hwn, ac mae nifer yr ymatebion a dderbyniwyd yn dangos bod rhai pobl wedi dewis mwy nag un rheswm. Roedd y tri phrif reswm a roddwyd yn ymwneud â pha mor hawdd ydoedd i barcio (18%, 29 o ymatebion), cyflymder y gwasanaeth (22 o ymatebion), a chael profiad gwael yn y gorffennol (21 o ymatebion).

**Ffigur 1.8: Rhesymau dros beidio â defnyddio fferyllfa agosach**



O'r 29 o bobl a ddewisodd 'arall', daeth y themâu canlynol i'r golwg o'r sylwadau a dderbyniwyd:

Roedd pum sylw yn ymwneud â'r ffaith bod pobl wedi meithrin perthynas â'r fferyllfa benodol honno, neu eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent yn ei derbyn gan y fferyllfa neu'r ddau:

- "Symudais dŷ ac rwy'n dal i fod o fewn yr ardal dalgylch ar gyfer fy meddyg teulu a'r fferyllfa bresennol, felly roedd yn well gen i beidio â'i newid gan fy mod yn hoffi'r staff a'r gwasanaeth, maent yn ymwybodol o'm meddyginiaethau (rwy'n cymryd rhai anarferol)."
- "Rydw i bob amser wedi bod yn fodlon ar yr un rwy'n ei defnyddio."

Roedd pum sylw yn ymwneud â pha mor agos oedd y fferyllfa i'r practis meddyg teulu:

- "Mae'r fferyllfa rwy'n ei defnyddio wrth ymyl fy meddygfa meddyg teulu, felly caiff fy manylion eu trosglwyddo i'r fferyllfa ar fy rhan, felly mae'n haws mynd yno nag i'r fferyllfa sy'n nes at fy nghartref, nad yw wrth ymyl fy meddyg teulu."
- "Mae ymhellach i ffwrdd o'r meddyg."

Roedd tri sylw ynghylch ble mae'r meddyg teulu'n anfon y presgripsiwn, sy'n awgrymu nad yw'r claf yn cael dewis gan ei feddyg teulu:

- "Mae fy meddyg teulu'n anfon fy mhresgripsiwn yno."
- "Ni fydd fy meddyg yn ei defnyddio."

Roedd dau sylw'n crybwyll oriau agor:

- "Rydw i'n mynd i rywle gwahanol pan fydd ar gau dros ginio."

Roedd wyth sylw'n crybwyll ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd fel aneffeithlonrwydd staff, camgymeriadau a wnaed (un sylw), presgripsiynau ddim yn barod ar amser, a'r ffaith nad oedd staff y fferyllfa mor gyfeillgar a dymunol â'r staff yn y fferyllfa roeddent yn dewis ei defnyddio:

- “Mae [enw'r fferyllfa] yn aneffeithiol ac angen hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid.”
- “Wedi gwneud camgymeriadau ar fwy nag un achlysur. Peryglus gan eu bod yn feddyginiaethau sy'n peryglu bywyd.”
- “Lle cyfyng mewn nifer o fferyllfeydd ac nid yw'r staff bob amser yn eich trin â pharch ac urddas.”

Roedd un sylw'n ymwneud â'r ffaith nad oedd y fferyllfa yn cadw'r eitem ar bresgripsiwn yr oedd ei hangen, mewn stoc:

- “Er ei bod o fewn pellter cerdded, mae'n golygu 2 ymweliad gan nad yw un o fy eitemau misol yn cael ei gadw mewn stoc. Mae fferyllfeydd eraill yn cadw'r cyffur hwn.”

Roedd dau sylw'n ymwneud â'r ffaith bod fferyllfeydd yn brysur:

- “Prysur iawn, gorfod aros amser hir.”

Roedd dau sylw'n ymwneud â gwasanaeth personol:

- “Rhan o gadwyn heb unrhyw ymdeimlad o gymuned.”
- “Dim gwasanaeth personol.”


Roedd dau'n sylw'n ymwneud yn uniongyrchol â sefyllfa pandemig y coronafeirws (COVID-19) a'r ffaith nad oedd staff yn gwisgo masgiau wyneb:

- “Staff ddim yn gwisgo masgiau wyneb y tu ôl i'r cownter. Mae wedi dod i'r amlwg nad yw feisorau yn cynnig digon o amddiffyniad a dylai defnyddwyr y fferyllfa allu bod yn hyderus bod yr holl gyfarpar diogelu personol yn cael ei wisgo. Y tro diwethaf, roedd dau berson heb fasiau!”

Y ffordd fwyaf poblogaidd o deithio i fferyllfa oedd mewn car (51%, 158 o 308 o bobl), ac wedyn ar droed (44%). Roedd 1% (2 berson) yn teithio ar fws a'r un nifer mewn tacsî. Mae'n debyg bod y dulliau teithio hyn wedi cael eu sgiwio gan gyfyngiadau teithio pandemig y coronafeirws (COVID-19) oedd ar waith ar adeg yr arolwg. O blith y pum person wnaeth ateb 'arall'. roedd dau sylw'n ymwneud â cherdded, yn ogystal â defnyddio dull arall o deithio i'r fferyllfa.

Gallai bron pob ymatebwr (96%, 293 o bobl o gyfanswm o 304) gyrraedd fferyllfa o fewn llai nag 20 munud. Dim ond 4% o ymatebwyr (11 o bobl) a gymerai fwy nag 20 munud i gyrraedd fferyllfa. Gallai 38% o ymatebwyr, (114 o bobl) gyrraedd fferyllfa o fewn llai na 5 munud. Yr ymateb mwyaf poblogaidd oedd rhwng 5 munud a 15 munud (52%, 159 o bobl).

**Ffigur 1.9: Faint o amser a gymerir i deithio i fferyllfa**



Dyweddodd y rhan fwyaf o ymatebwyr (90%, 276 o 308 o bobl) nad oeddent yn ei chael yn anodd cyrraedd fferyllfa. Dim ond 7% (23 o bobl) atebodd eu bod yn cael anhawster, a dywedodd 3% (9 o bobl) fod y cwestiwn yn amherthnasol. O'r 25 o bobl a atebodd 'arall':

Roedd saith sylw'n ymwneud ag iechyd gwael neu broblemau symudedd oherwydd anabledd, anaf neu gyflwr iechyd, fel y prif reswm dros ei chael yn anodd cyrraedd fferyllfa:

- "Rydw i'n anabl ac mae bellach yn rhy bell i mi gerdded. Mae hyn yn rhywbeth diweddar (yn y 5 mlynedd diwethaf)."
- "Weithiau rydw i'n rhy sâl i gasglu fy mhresgripsiwn felly mae fy nhad yn mynd drosta i."

Roedd wyth sylw'n crybwyll amseroedd agor, a oedd yn aml yn ymwneud ag ymrwymadau gwaith ac roedd un yn benodol yn crybwyll oriau cyfyngedig o ganlyniad i bandemig y coronafeirws (COVID-19), a oedd yn ei gwneud yn anodd cyrraedd fferyllfa:

- "Mae fy oriau gwaith ac ymrwymadau teulu a'u horiau agor yn golygu mai prin iawn yw'r cyfle i fynd yno."
- "Nid ydynt yn agor ar ddydd Sadwrn mwyach."

Roedd dau sylw'n ymwneud â'r angen i giwio, a oedd yn fwyaf tebygol o fod yn gysylltiedig â'r mesurau cadw pellter cymdeithasol oedd ar waith o ganlyniad i bandemig y coronafeirws (COVID-19):

- "Mae ciw bob amser, ac ni allaf aros am ormod o amser. Hefyd, mae'r ciw y tu allan yn agos iawn i safle bws prysur."

Gwnaeth sylw arall grybwyll pandemig y coronafeirws (COVID-19) a'r angen i warchod:

- “Rydw i'n ynysu gymaint â phosibl ar hyn o bryd. Gwnaeth fy fferyllfa argymell ffonio i sicrhau bod y presgripsiwn wedi'i lenwi, ac yna gwnaed yn siŵr ei fod yn y blwch casglu fel bod modd iddo gael ei gasglu yn hwylus iawn.”

Roedd chwe sylw yn ymwneud â pha mor hawdd ydoedd i gyrraedd fferyllfa, gan gynnwys pellter teithio neu fferyllfa yn cau neu'r ddau:


- “Rwy'n aml yn cael apwyntiadau yn hwyr y prynhawn gyda'm meddyg teulu yn [enw'r lleoliad]. Mae fy fferyllfa arferol yn [enw'r fferyllfa] wedi cau bellach. Nid yw fferyllfeydd eraill yn yr ardal ar agor erbyn i mi gyrraedd yno, felly ni allaf gael fy meddyginiaeth ar yr un diwrnod. Os ydw i'n gweithio y diwrnod nesaf, rwy'n aml ddim yn gallu dechrau fy meddyginiaeth am ychydig ddyddiau.”
- “Rhy bell i ffwrdd ac yn anodd i'w chyrraedd.”
- “Dydw i ddim yn gyrru ac mae'n rhaid i mi gerdded i fy meddygfa ac i fferyllfa i gasglu fy meddyginiaeth. Roeddwn i'n arfer defnyddio'r fferyllfa ar [enw'r lleoliad] ond gan fod honno bellach wedi cau rydw i'n cael trafferth cyrraedd fferyllfa yn agos at fy meddyg teulu. O ganlyniad i hyn, ar achlysuron rydw i wedi gorfod aros diwrnod neu ddau cyn gallu casglu fy meddyginiaeth sydd wedi arwain at ddirywiad yn fy nghyflwr. Rydw i'n dioddef o heintiau ar y frest ac mae dechrau gwrthfotigau a steroidau yn bwysig iawn i mi.”

Cyfeiriodd un sylw at anawsterau parcio a chyfeiriodd un arall at waith parhaus ar y ffordd.

Pan ofynnwyd i bobl sut roeddent yn dod o hyd i wybodaeth am fferyllfa, fel amseroedd agor neu'r gwasanaeth a gynigiwyd, atebodd 308 o bobl y cwestiwn, a derbyniwyd 562 o ymatebion. Gellid rhoi nifer o atebion i'r cwestiwn hwn, ac mae nifer yr ymatebion a dderbyniwyd yn dangos bod rhai pobl yn dewis mwy nag un dull. Yn gyffredinol, y rhyngwyd neu ap ffôn clyfar (221 o ymatebion) oedd y ffordd fwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd i gael gwybodaeth am fferyllfa, ac yn dilyn hynny, eu ffonio (105 o ymatebion) a'r cyfryngau cymdeithasol (61 o ymatebion). Roedd llai nag 1% (2 ymateb) yn cael gwybodaeth drwy ddarllen y papur newydd neu gylchgrawn lleol. Mae hyn yn adlewyrchu'r duedd ehangach o bobl sy'n troi at y rhyngwyd a'r cyfryngau cymdeithasol i ddod o hyd i newyddion a gwybodaeth, a'r ffaith bod cyrhaeddiad papurau newydd argraffedig yn dirywio. O'r saith o bobl a ymatebodd 'arall', roedd tri sylw yn cyfeirio at edrych ar wefan y fferyllfa. Dywedodd un ymatebwr:

- “Caiff ei hysbysebu, fodd bynnag, yn ystod y pandemig maent yn postio eu hamseroedd amrywiol ar y cyfryngau cymdeithasol.”


**Ffigur 1.10: Y ffyrdd mwyaf cyffredin i ddod o hyd i wybodaeth am fferyllfeydd**



O ran gallu trafod rhywbeth yn breifat gyda'r fferyllydd, nid oedd 10% o ymatebwyr (30 o bobl o blith 308) yn teimlo y gallent wneud hyn, yn wahanol i 56% (171 o bobl) oedd yn teimlo y gallent drafod rhywbeth preifat gyda'u fferyllydd. Nid oedd 31% erioed wedi bod angen gwneud, ac ymatebodd 3% nad oeddent yn gwybod.


Pan ofynnwyd i bobl a oeddent yn ymwybodol y gallent ddefnyddio rhai gwasanaethau mewn fferyllfeydd fel rhan o'r GIG, ymatebodd 305 o bobl i'r cwestiwn, a chafwyd cyfanswm o 1264 o ymatebion. Gellid rhoi nifer o atebion i'r cwestiwn hwn, ac mae nifer yr ymatebion a dderbyniwyd yn dangos bod rhai pobl yn ymwybodol o fwy nag un gwasanaeth. Brechlynnau ffliw (269 o ymatebion), wedi'i ddilyn gan y Cynllun Anhwylderau Cyffredin (221 o ymatebion) yw'r gwasanaethau yr oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn ymwybodol eu bod yn cael eu cynnig gan fferyllfeydd fel rhan o'r GIG. Yn gyffredinol, prin oedd yr ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Adolygu'r Defnydd o Gyfarpar (36 o ymatebion); fodd bynnag, byddai'r gwasanaeth arbenigol hwn ond yn cael ei ddefnyddio gan y rhai yr oedd angen cyfarpar megis stoma neu golostomi arnynt, yn hytrach na'r grŵp cleifion ehangach. Nid oedd 14 o bobl yn ymwybodol o unrhyw un o'r gwasanaethau a gynigiwyd gan fferyllfeydd fel rhan o'r GIG.

**Ffigur 1.11: Ymwybyddiaeth o argaeledd gwasanaethau mewn fferyllfeydd fel rhan o'r GIG**



Pan ofynnwyd i bobl a oeddent wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau, ymatebodd 281 o bobl i'r cwestiwn a chafwyd cyfanswm o 377 o ymatebion. Gellid rhoi nifer o atebion i'r cwestiwn hwn, ac mae nifer yr ymatebion a dderbyniwyd yn dangos bod rhai pobl wedi defnyddio mwy nag un gwasanaeth. Y gwasanaeth mwyaf poblogaidd yr oedd ymatebwyr wedi'i ddefnyddio oedd y Cynllun Anhwylderau Cyffredin (88 o ymatebion), wedi'i ddilyn gan y gwasanaeth Adolygu'r Defnydd o Feddyginiaethau (60 o ymatebion) ac wedyn y gwasanaeth brechlynnau ffliw (57 o ymatebion). Fodd bynnag, dywedodd y mwyafrif o ymatebwyr, (110 o bobl) nad oeddent erioed wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau hyn.

**Ffigur 1.12: Ydych chi wedi defnyddio unrhyw rai o'r gwasanaethau sydd wedi eu rhestru yng nghwestiwn**



Pan ofynnwyd i bobl a oedd unrhyw beth arall yr hoffai ymatebwyr ei rannu am eu profiad o'u fferyllfa leol, derbyniwyd cyfanswm o 131 o sylwadau. Dywedodd naw o'r sylwadau hyn 'na' neu 'amherthnasol'. O'r sylwadau a oedd yn weddill, daeth nifer o brif themâu i'r golwg gyda rhai sylwadau yn cynnwys mwy nag un thema. Roedd y rhain fel a ganlyn:

Roedd deg sylw'n cyfeirio at amseroedd agor, gyda phedwar yn crybwyll cau amser cinio, pedwar yn gofyn am agor dros y penwythnos a dau gyda'r nos hefyd:

- "Byddai'n ddefnyddiol pe gallai oriau agor y fferyllfeydd adlewyrchu oriau agor y practisau meddygon teulu."
- "Rhoi'r gorau i gau amser cinio, weithiau dyma'r unig amser y gallaf fynd."
- "Byddai'n well gennyf pe baent yn agor ar y penwythnos - hyd yn oed petai'n oriau byrrach. Mae fy mhresgripsiwn ar gael ar ddydd Gwener. Bu rhai adegau pan gafodd ei oedi a bu'n rhaid i fi aros tan ddydd Llun."
- "Dim ond ar agor 9-6 o ddydd Llun i ddydd Gwener. Angen iddo agor gyda'r nos ac ar y penwythnos hefyd."

Roedd pum sylw'n crybwyll y diffyg preifatrwydd ymhlith themâu eraill:

- "Yn ei chael yn anodd cael sgysiau cyfrinachol, ac yn anodd cael gafael ar y fferyllfeydd. Ni chredaf fod yr ystafelloedd ymgynghori'n cael eu defnyddio'n rheolaidd nac yn cynnig ryw lawer. Hoffwn petawn yn gallu archebu fy meddyginiaeth ar-lein, mae'n cymryd llawer o amser i ddefnyddio'r slipiau papur neu i ffonio. Rwyf wedi symud o Loegr lle roedd pethau'n llawer mwy effeithlon o ran archebu a chael fy mhresgripsiwn rheolaidd."
- "Gwagle bach, dim llawer o breifatrwydd er bod ystafell ar wahân, perygl o gael eich clywed."
- "Mae fferyllfeydd lleol yn gyfyngedig iawn. Nid yw'n hawdd cael sgwrs breifat, ac nid oes amser chwaith oherwydd eu bod yn brysur. Teimlaf fod gofyn am gyngor yn cythruddo fferyllwyr."

Gwnaeth chwe sylw grybwyll problemau'n ymwneud â meddyginiaeth nad oedd mewn stoc, neu eitemau a oedd ar goll o'r presgripsiwn:

- “Yn ddiweddar nid yw fy mhrofiad wedi bod yn dda. Nid oedd gan un fferyllfa fy meddyginiaeth mewn stoc. Ni wnaethant roi gwybod i fi. Pan gyrhaeddais, ar ôl aros 20 munud i gael fy ngweld, dyna pryd y cefais wybod, ac roeddent yn meddwl bod ei harchebu erbyn yr wythnos nesaf yn ddigon da. Ar achlysur arall, mewn fferyllfa wahanol, roeddent wedi rhoi deunydd pecynnu fy meddyginiaeth ar gontract allanol i [enw'r lleoliad]. Eto, ni chefais wybod tan i fi gyrraedd [ar ôl aros 48 awr wedi i mi anfon fy mhresgripsiwn ar y ddau achlysur] a bu'n rhaid i mi aros deuddydd arall i gael y feddyginiaeth. Yn gyffredinol, nid wyf yn deall pam mae'n cymryd cymaint o amser i fferyllfeydd becynnu fy meddyginiaeth unwaith rwyf wedi darparu'r presgripsiwn.”
- “Ymddengys nad ydynt gyda'r gorau o ran trefnu, ac ymddengys bob amser fod eitemau ar goll neu'n anghywir pan fyddaf yn casglu meddyginiaeth fy nheulu.”
- “Nid oes ganddynt yr hyn sydd ei angen arnaf bob amser, ac nid ydynt bob amser yn fy helpu i ddod o hyd iddo yn rhywle arall. “Problem staff.”

Gwnaeth chwe sylw gyfeirio at ansawdd y gwasanaeth o safbwynt materion staffio:

- “Mae'r fferyllfa rydym yn mynd iddi gan ei bod yn agos at ein meddyg teulu yn brin o staff yn gyffredinol, ac mae'n teimlo ychydig yn ddi-drefn yno, gan fod ganddynt ormod i'w wneud ac maent bob amser yn delio â phroblemau wrth iddynt godi yn hytrach na threfnu i'w hosgoi. Ddim yn gyfforddus iawn i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.”
- “Roedd yn arfer bod yn wasanaeth rhagorol ond mae bellach yn esgeulus iawn. Staff gwahanol o hyd, nad ydynt yn ymwybodol o'r hyn sydd ei angen.”
- “[Enw'r fferyllfa]. Profiad gwael gyda'r fferyllfa. Gwasanaeth cwsmeriaid gwael (diffyg tosturi) ac amseroedd amser hir (ymddengys nad yw wedi'i staffio'n ddigonol/systemau gwael ar waith)”

Roedd tri sylw'n crybwyll gwallau a wnaed gan y fferyllfa:

- “Rydym yn ystyried symud i fferyllfa arall, nid yw gwallau a staff anhapus yn helpu.”
- “Maent wedi gwneud rhai gwallau, 4 yn ddiweddar, sydd wedi gwneud i fi boeni am gael y feddyginiaeth gywir. Ni allaf gael mynediad at y fferyllfa a hoffwn newid, ond nid wyf yn hyderus i wneud hynny ar y foment oherwydd ni wn a fydd fferyllfeydd eraill yn cynnig darpariaeth well.”

Gwnaeth pedwar sylw fynd i'r afael â'r drefn o fewn y fferyllfa:

- “Mae'n rhaid aros yn hir iawn ac maent yn anhrefnus iawn.”
- “Anhrefnus. Yn delio ag un cwsmer ar y tro er bod llawer o staff y tu ôl i'r cownter.”
- “Maent bob amser yn brysur, yn aml yn anhrefnus. Rwyf bob amser yn ffonio o flaen llaw i sicrhau bod ganddynt fy mhresgripsiwn, oherwydd maent wedi ei gollu yn y gorffennol.”

Roedd saith sylw'n seiliedig ar y system archebu rheolaidd:

- “Nid yw'r meddyg teulu bob amser yn anfon y presgripsiwn at y fferyllfa yn brydlon...ond maent yn mynd ar ei drywydd.”

- Mae'r fferyllfa agosaf at fy nghartref yn [enw'r lleoliad] ar y stryd fawr, felly mae'n anodd parcio. Yn ddiweddar maent wedi dechrau codi tâl ychwanegol ar gyfer dosbarthu, ac nid ydynt mwyach yn gadael i mi archebu meddyginiaethau rheolaidd drwyddynt. Maent yn dweud bod yn rhaid i mi ffonio'r meddyg, ond mae'r feddygfa'n dweud na allant dderbyn ceisiadau rheolaidd dros y ffôn. Mae'n anobeithiol! Hoffwn petai mwy o ddewis o fferyllfeydd yn [enw'r lleoliad].
- "Mae'r amser y mae'n rhaid i chi ei aros i gael meddyginiaeth reolaidd a archebwyd dros y ffôn wedi cynyddu o 48 awr i 96 awr, sydd wedi bod yn anodd ei drefnu gan fy mod yn cymryd inswlin. Ni chefais wybod tan i mi siarad â nhw, ond diolch byth roedd gen i ddigon o gyflenwad. Mae'r ciwiau y tu allan weithiau'n cynnwys 15 o bobl, a chan fy mod yn nyrs ar y rheng flaen, gall fod yn anodd aros pan rydych yn brysur."
- "Mae'n rhwystredig gorfod casglu presgripsiwn gan y meddyg a mynd ag ef i'r fferyllfa, wedyn gorfod aros i'r feddyginiaeth gael ei gweinyddu. Maent wrth ymyl ei gilydd, felly nid oes syniad gen i pam na all y meddyg roi'r presgripsiynau i'r fferyllfa cyn gynted ag y bydd y meddyg wedi ysgrifennu'r presgripsiynau, fel bod y feddyginiaeth yn barod i'w chasglu. Mae'n gwneud mwy o synnwyr o lawer gyda COVID i fynd i'r fferyllfa yn unig, yn hytrach na'r feddygfa a'r fferyllfa, ac wedyn gorfod aros am gyfnod yn y fferyllfa. Mae angen bod yna broses symlach, yn enwedig ar gyfer presgripsiynau rheolaidd."

Roedd pum sylw'n crybwyll y ffaith nad oedd meddyginiaethau presgripsiwn yn barod mewn pryd ar gyfer eu casglu:

- "Gwasanaeth gwael iawn, dywedir wrthyf yn aml i ddychwelyd ar ôl cinio, a bydd yr eitemau ddim yn barod o hyd. Dywedir wrthyf ar y ffôn fod yr eitemau'n barod i'w casglu, ond pan dwi'n cyrraedd dywedir wrthyf nad ydynt mewn stoc eto. Ciwiau hir yn aml.
- "Mae wedi gwaethygu llawer. Yn [enw'r fferyllfa] mae'n rhaid i chi aros amser hir iawn iddynt baratoi eich presgripsiwn, ond ymddengys fod ffrindiau staff sy'n ymweld yn cael eu rhai nhw yn llawer cyflymach, tra eich bod chi'n dal i aros. Nid yw [enw'r fferyllfa] byth yn ateb y ffôn pan fyddwch yn ceisio canfod a yw eich presgripsiwn yn barod mewn gwirionedd, ac maent yn archebu meddyginiaeth rydych wedi dweud nad oes ei hangen arnoch y tro nesaf fel meddyginiaeth dymhorol, ond nid ydynt yn archebu'r feddyginiaeth sydd ei hangen arnoch yn rheolaidd mewn pryd, ac mae byth yn barod."
- "Y gwasanaeth o'r meddyg teulu i'r fferyllfa yn warthus. Yn ystod y pandemig, ni chaiff y presgripsiynau newydd sy'n cael eu hanfon yn uniongyrchol i'r fferyllfa eu paratoi mewn da bryd. Rwy'n aml yn galw heibio ryw 4 diwrnod i wythnos yn ddiweddarach, ac nid ydynt yn barod, sy'n golygu bod yn rhaid i mi aros iddynt ei brosesu (10 munud i 30 munud), sy'n mynd yn groes i rheolau diogelwch COVID-19."
- "Rydym yn casglu ein presgripsiynau o'r un fferyllfa, ond bob mis nid yw ein meddyginiaeth byth yn barod, ac er ei bod wedi'i pheycynnu'n barod, dim ond peth ohoni rydym yn ei chael ganddynt. Mae wir yn rhaid i mi wirio bod popeth gen i pan fyddaf yno, oherwydd mae'n rhaid i fi ddychwelyd bob amser, ac maent bob amser yn dweud eu bod wedi anghofio rhoi rhywbeth i fi. Mae'n rhwystredig iawn."
- "Dweud celwydd am gais y meddyg, er enghraifft roedd angen meddyginiaeth frys ar fy llystad, a gwnaeth y meddyg alw yn y tŷ a'i nodi fel achos brys. Nid oedd yn ymddangos fel bod staff y dderbynfya yn poeni ryw lawer a gwnaethant ddweud nad oedd yn barod, ac y dylwn ddychwelyd yfory. Pan ymchwiliwyd i'r achos, canfuwyd bod y meddyg wedi nodi ei fod yn frys, a gwnaeth y meddyg ymchwilio i'r sefyllfa hefyd gan ei fod yn peri

pryder iddo. Gwnaethom dderbyn ymddiheuriad, ond roedd yn brofiad mor ofidus fel bod fy mam yn gwrthod mynd i mewn yno. Rwy'n teimlo'n rhwystredig oherwydd bod y fferyllfa yn gwybod bod fy llystad yn ddifrifol wael, cymerodd ei feddyginiaeth, ond cynyddwyd y dos, ond gwnaethant wrthod delio ag ef ar frys. Gwnaethant hyd yn oed ddangos y papur o bell i fy mam, a oedd erbyn hyn yn ei dagrau. Mae'n anghyson pan maent yn dweud 'peidiwch â thrafferthu mynd i weld y meddyg teulu, ewch i weld y fferyllfydd!'

Gwnaeth pum sylw grybwyll, ymhlith pethau eraill, anawsterau wrth gasglu presgripsiynau:

- "Maent yn ei gwneud mor anodd â phosib i gasglu meddyginiaeth. Mae oriau agor yn anodd. Dim ond unwaith y dydd maent yn casglu presgripsiynau wrth y meddyg teulu. Os caiff presgripsiwn ei gyflwyno, gofynnir i chi aros y tu allan yn y glaw hyd yn oed os yw'n wag."
- "Gwasanaeth araf, ciwiau y tu allan. Nid yw'n ymddangos yn deg i fod ag un person ar y cownter yn unig i ddelio â'r gwaith casglu a'r ymholiadau. Yn ystod yr adeg hon, credaf y byddai gwasanaeth casglu cyflymach wedi bod yn well."
- "Ni wnaethant gysylltu â fi pan oedd fy mhresgripsiwn rheolaidd yn barod, felly roedd y bwyd ar bresgripsiwn wedi dyddio ac ni chafodd ei roi i mi - am wastraff arian cyhoeddus!! Dwi'n tybio y byddai'r fferyllfa wedi cael ei thalu am weinyddu presgripsiwn anghywir!!"

Roedd y sylwadau hyn yn ymwneud â lleoliad y fferyllfa:

- "Nid yw lleoliadau'r fferyllfydd sydd agosaf at fy meddyg teulu yn gyfleus ac rwy'n ei chael yn anodd pan dwi'n cerdded."
- "Byddai'n ddefnyddiol pe byddai fferyllfa wrth ymyl fy mhreactis meddyg teulu. [Enw'r feddygfa]."

Roedd tri sylw yn crybwyll 'addasrwydd i'r diben' i ddiwallu anghenion cynyddol yr ardal:

- "Mae'n rhy fach ac yn rhy brysur. Ni chynlluniwyd ar gyfer ystad dai newydd sy'n cynnwys miloedd ar filoedd o breswylwyr newydd. Mae lefel uwch o droiant staff a chyflenwadau os bydd eu hangen, ac nid yw meddyginiaethau ar bresgripsiwn bob amser ar gael mewn pryd. Gall hyn beri straen os bydd cyflenwad o feddyginiaeth yn isel. Mae eitemau sydd ar goll yn golygu sawl ymweliad â'r fferyllfa, ac mae hyn yn fater sy'n digwydd yn aml."
- "Wedi dirywio, ddim yn addas i'r diben ar gyfer ardal sy'n tyfu."

Roedd tri sylw'n ymwneud â'r cyngor a roddwyd gan fferyllfydd:

- "Credaf yn gyffredinol y gallai'r gwasanaeth cwnsela wrth roi meddyginiaethau fod yn well."
- "Mae'r fferyllwyr eu hunain fel arfer yn brysur iawn ac nid ydynt i'w gweld wrth y prif gownter. Mae'n debygol felly, petawn i angen cyngor, y byddwn yn gorfod ei drafod gydag aelod o'r staff gwerthu yn y lle cyntaf, a fyddai wedyn yn cyfeirio'r cwestiwn at y fferyllfydd. Mae hyn yn ymddangos yn rhesymol ond nid wyf bob amser yn teimlo fy mod yn cael cyngor 'arbenigol' yn yr un modd, er gwaethaf y ffaith fy mod yn siŵr bod y staff gwerthu wedi cael rhywfaint o hyfforddiant. Nid oes mynediad uniongyrchol i'r fferyllfydd, naill ai dros y ffôn neu'n bersonol. Mae un fferyllfa a ddefnyddiaf sydd gerllaw ddim hyd yn oed yn ateb y ffôn, a hynny siŵr o fod oherwydd nifer y galwadau y byddai'n rhaid iddynt eu cymryd pe baent yn ei ateb."

- “Teimlaf y gallaf gael cyngor ganddynt yn gynt nag y byddwn wrth feddyg teulu, yn haws mynd atynt.”

Roedd tri sylw ynghylch gwasanaethau fferyllol eraill a oedd ar gael ar y GIG:

- “Rwyf wedi bod yn cael brechlyn ffliw ers 2017 pan ddatblygodd fy mam a’ m brawd ganser gan nad oeddwn am eu rhoi mewn perygl uwch. “Rwy’n talu am fy mrechlyn ffliw.”
- “Teimlaf fod yr adolygiad meddyginiaeth wedi’i orfodi arnaf. Nid oedd o ddefnydd o gwbl a chefais yr argraff ei fod yn gyfle i roi tic mewn blwch a gwneud arian ar gyfer y fferyllfa, ac yn fwy o fudd iddyn nhw na fi.”
- “Dim ond un adolygiad meddyginiaeth erioed. Ni wyddwn beth ydoedd. Nid oedd o unrhyw ddefnydd o gwbl. Y cyngor yw gofyn yn yr ysbyty. Yn syml, dwi’n ceisio dod o hyd i’r ateb fy hun, neu dwi’n gofyn ar twitter.”

Gwnaeth un sylw grybwyll cais am wasanaeth nad yw ar gael yn rheolaidd gan y GIG, ac eithrio yn dilyn asesiad o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a lle y caiff addasiad rhesymol ei nodi’n ofynnol, megis darparu cymhorthyn cydymffurfio:

- “Mae’r fferyllfa sydd wrth ymyl practis meddyg teulu fy mam yn dosbarthu ei meddyginiaeth, fodd bynnag, yn aml iawn, ni chaiff y feddyginiaeth ei dosbarthu neu caiff y pypiau eu gadael yn yr oergell yn y fferyllfa. Mae fy mam sy’n 85 oed wedi bod yn yr ysbyty dros y 4 wythnos diwethaf gyda COVID, a disgwylir iddi ddod adref ddydd Llun 15 Chwefror, unwaith y bydd pecyn gofal wedi’i roi ar waith. Gofynnodd y Gweithiwr Cymdeithasol i ni drefnu bod meddyginiaeth mam yn cael ei rhoi mewn ‘Pecynnau Pothell’ fel bod y gweithwyr gofal yn gallu ei helpu gyda’i meddyginiaeth, ond, er gwaethaf y ffaith i ni ffonio bob fferyllfa yn [enw’r lleoliad], nid oedd un yn gallu ein helpu, ac nid yw fferyllfa arferol mam hyd yn oed yn cynnig y gwasanaeth hwn.”

Gwnaeth tri sylw awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella’r gwasanaeth:

- “Byddai’n dda gallu archebu presgripsiynau dros e-bost yn uniongyrchol i’r fferyllfa.”
- “Yn ystod y pandemig dylai’r fferyllfa osod ardal wrth y drws i weinyddu presgripsiynau rheolaidd yn hytrach na gorfod cerdded drwy’r siop gyfan a chiwio - ceir mesurau cadw pellter cymdeithasol, fodd bynnag mae llawer yn awyddus i leihau faint o amser a dreulir dan do.”
- **“1)BYDD GWASANAETH DOSBARTHU MEDDYGINIAETHAU I’R CARTREF YN DDEFNYDDIOL IAWN OS CAIFF EI DDARPARU DRWY WASANAETH DOSBARTHU CANOLOG AR DRAWS CAERDYDD, YN HYTRACH NA’I ADAEL FEL OPSIWN SYDD AR GAEL MEWN RHAI FFERYLLFEYDD YN UNIG.**
  - 2) AROLWG BODDHAD CWSMERIAID AR-LEIN GAN Y BWRDD IECHYD AR GYFER POB FFERYLLFA, A DYLLID DECHRAU EI ARDDANGOS YN GYHOEDDUS O FLAEN POB FFERYLLFA. YN DEBYG I SGÔR HYLENDID AR GYFER BWYTAI.
  - 3) Dylem fod yn gallu rhoi sylwadau, a rhoi adborth yn achos gwasanaeth gwael neu wasanaeth da i’r Bwrdd Iechyd neu Gyngor Caerdydd. Fel arall gallent weithredu heb lawer o atebolrwydd fel gwasanaeth cyflenwi mawr heb unrhyw reolaeth ar ansawdd.”

Gwnaeth tri sylw grybwyll y gallai fferyllfeydd gynnig mwy o wasanaethau:

- “Ni ddylent gau bob amser cinio. Angen cynnig mwy o wasanaethau. Gallent gymryd llawer o bwysau oddi ar feddygon teulu. Gallent fonitro lefelau haearn. Mae gen i anemia cronig a allai gael ei fonitro gan y fferyllfeydd. Hefyd gallai gweithrediad fy thyroid gael ei fonitro gan y fferyllfeydd. Y rhan fwyaf o wasanaethau dulliau atal cenhedlu. Gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc gan eu bod yn fwy hygyrch ac yn haws mynd atynt. Cynlluniau cerdyn C. Mae'r rhestr yn ddiderfyn, ni ddylent fod yn beiriannau gweinyddu.”
- “Mae'r fferyllfeydd yn glinigwr gwerthfawr a hanfodol yn y gymuned. Mae'r fferyllfeydd mor wybodus a chyfeillgar. Y staff yn hawdd i siarad â hwy. Mae'r broses o ddosbarthu presgripsiynau rheolaidd yn rhy araf. Dylent gynnig mwy o wasanaethau i leddfu'r pwysau ar feddygon teulu. Dylai fferyllfeydd wneud cynllun cerdyn C, dulliau atal cenhedlu ac ati. Mae angen mwy o barch arnynt.”
- “Yn gyffredinol dda, ond gallent wneud mwy.”

Roedd pum sylw yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd:

- “Maent yn taflu eitemau'n ddiogel ar fy rhan pan fydd angen gwneud hynny.”
- “Os nad yw'r cynnyrch ar gael, byddant yn ei archebu ar fy nghyfer, ar yr un diwrnod fel arfer!”
- Rwy'n archebu fy mhresgripsiwn unwaith y mis drwy MyHealthOnline, mae'n cymryd oddeutu 5 diwrnod. Mae'r fferyllfeydd yn anfon neges destun ataf i adael i fi wybod pryd fydd fy meddyginiaeth ar gael i mi ei chasglu. Credaf fod y system hon yn gweithio'n dda iawn.”
- “Byth problem fel arfer. Ni ddywedwyd wrthyf erioed a allaf gael meddyginiaeth ar bresgripsiwn wedi'i dosbarthu i'm cyfeiriad cartref, neu a yw'n orfodol i'w chasglu'n bersonol.”
- “Mae fy fferyllfeydd i - [enw'r fferyllfeydd] - yn wych, maent yn casglu fy mhresgripsiynau ac yn gymwynasgar os byddaf yn ffonio a gwneud ymholiadau OND mae'r ffaith nad ydynt yn dosbarthu, yn enwedig o ystyried rheolau'r cyfyngiadau symud, yn WARTHUS.”

Roedd pedwar sylw'n cyfeirio at hygyrchedd fferyllfeydd, a sut maent wedi cael eu defnyddio, neu sut y gellir eu defnyddio:

- “Byddai'n well gen i ddefnyddio fy fferyllfeydd leol yn y lle cyntaf, cyn ceisio cael apwyntiad yn y feddygfa.”
- “Mae'r fferyllfeydd gymunedol wedi darparu gwasanaeth o ansawdd uchel cyson yn ystod y pandemig COVID-19, gan gynnig mynediad agored pan mae gwasanaethau eraill wedi cau, neu wedi bod â hygyrchedd cyfyngedig. Wedi ymateb yn gadarnhaol iawn fel proffesiwn, i helpu i reoli salwch cronig a delio â mân anhwylderau, gan leihau'r baich mewn mannau eraill yn y GIG.”
- “Roedd fy fferyllfeydd leol yn barod iawn eu cymwynas pan oedd fy nghoes wedi chwyddo. Ni allwn gael apwyntiad gyda'r meddyg teulu tan y diwrnod nesaf, felly es i'r fferyllfeydd a'u cyngor hwy oedd y dylwn gael rhywun i edrych ar fy nghoes ar unwaith. Gan nad oeddwn yn gallu cael apwyntiad gyda'r meddyg teulu, er gwaethaf y ffaith i fi fynd i mewn i'r feddygfa ac esbonio bod fy nghoes yn chwyddo, es i'n syth i'r adran damweiniau ac achosion brys a chefais ddiagnosis ar gyfer llid yr isgroen. Heblaw am y fferyllfeydd, ac oherwydd na allwn gael

ymgyngoriad gyda'r meddyg teulu, byddwn fwy na thebyg wedi mynd adref a'i adael tan y diwrnod nesaf, gan oedi'r defnydd o wrthfotigau felly. Roeddwn yn eu cymryd am 3 wythnos, ac i ffwrdd o'r gwaith am bythefnos. Yn y practis meddyg teulu, roedd arwydd mawr yn awgrymu y gallai'r fferylllydd ddelio â rhai mân anhwylderau. Yn yr adran damweiniau ac achosion brys, roedd arwydd yn dweud wrth bobl i fynd at eu meddyg teulu yn hytrach nag adran damweiniau ac achosion brys. Credaf fod hon yn enghraifft dda sy'n dangos sut y gall fferylllydd helpu, ond mae hefyd yn enghraifft sy'n dangos pam mae pobl yn mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys yn y pen draw, er gwaethaf y ffaith eu bod yn ceisio mynd i'r man iawn."

- Byddai'n ddefnyddiol iawn gallu casglu presgripsiynau gan feddygon ymgynghorol yn y clinig yn y fferyllfa leol, yn hytrach na gorfod aros am amser hir yn fferyllfa'r ysbyty (weithiau ymhell dros awr) i gasglu meddyginiaethau newydd."

Cafwyd 50 o sylwadau cadarnhaol, yn canmol fferyllfeydd:

- "Staff effeithlon, rhagorol, bob amser yn gyfeillgar a byth unrhyw broblemau, 10\10."
- "Maent yn WYCH! Gwasanaeth cwsmeriaid a chyngor rhagorol."
- "Mae'r holl staff yn groesawgar a chyfeillgar iawn, gwybodaeth dda ac maent bob amser yn ceisio helpu mewn unrhyw ffordd a allant."
- "Staff cyfeillgar iawn. Mae fy nhabledi bob amser yn barod i'w casglu. Dim problemau, rwyf wedi bod yn defnyddio'r fferyllfa hon ers dros 20 mlynedd."
- "Bob amser yn gymwynasgar ac yn hapus i gynnig cyngor. Byddant yn dod o hyd i bethau'n gyflym os nad ydynt ar gael ar unwaith."

Pan ofynnwyd i bobl a oedd unrhyw rwystrau i gael mynediad at wasanaethau yn eu fferyllfa, nas crybwyllwyd yn barod, gwnaeth cyfanswm o 90 o bobl ateb y cwestiwn hwn. O'r rhai a atebodd, gwnaeth 47 o bobl ateb naill ai 'na', 'amherthnasol', 'fel uchod' neu 'dim'. Cafwyd cyfanswm o 43 sylw arall. O'r sylwadau a oedd yn weddill, daeth nifer o brif themâu i'r golwg gyda rhai sylwadau yn cynnwys mwy nag un thema. Roedd y rhain fel a ganlyn:

Roedd 11 sylw'n ymwneud ag amseroedd agor fferyllfeydd, a rhai yn ymwneud â'r newidiadau mewn amseroedd agor o ganlyniad i bandemig y coronafeirws (COVID-19):

- "Ar gau ar ddydd Sadwrn ac amser cinio rhwng 1 a 2, sy'n gallu bod yn anghyfleus i bobl."
- "Dylent fod ar agor fwy gyda'r nos ac ar benwythnosau."
- "Mae fy hen fferyllfa bellach ond ar agor rhwng 9-12 a rhwng 2-4, felly mae ciwiau hir iawn i lawr y stryd fawr er mwyn i bobl allu cael eu meddyginiaethau. Gan fod y feddygfa ar agor yn ystod oriau arferol, credaf y dylai'r fferyllfa fod hefyd. Rhoddwyd presgripsiwn i fi ar gyfer fy mhlentyn oedd yn sâl am 6pm, a bu'n rhaid i fi yrru i archfarchnad mewn sir arall i gael y feddyginiaeth gan nad oedd unrhyw le ar agor yn [enw'r lleoliad]."

Roedd chwe sylw'n ymwneud â'r angen i giwio, a oedd yn fwyaf tebygol o fod yn gysylltiedig â'r mesurau cadw pellter cymdeithasol oedd ar waith ar y pryd o ganlyniad i bandemig y coronafeirws (COVID-19):

- "Ar hyn o bryd, gyda'r cyfyngiadau, mae ciw weithiau y tu allan, ac er nad yw hynny'n broblem i fi, nid yw'n dda i'r sawl sy'n fregus, yr henoed a phobl sy'n sâl."

Efallai bod angen un o'r systemau tocynnau yna arnynt, lle mae'n dweud am ba hyd y mae'n rhaid i bobl aros, neu osod cysgodfan y tu allan."

- "Gallant fod yn araf iawn yn delio â phobl felly mae'r ciw y tu allan yn mynd yn hir iawn yn gyflym."
- "Ciwiau y tu allan, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf."

Roedd pedwar sylw'n ymwneud â phreifatrwydd neu gyfrinachedd:

- "Ddim yn siŵr a yw mor gyfrinachol â'r feddygfa, gyda chwsmeriaid eraill yn y siop!"
- "Fel uchod, cyfrinachedd, a ddim yn hollol ymwybodol o wybodaeth y Fferylllydd, felly ddim am roi gormod o wybodaeth breifat iddo, os mai'r cyfan fydd yn ei wneud yw fy anfon at feddyg teulu neu nyrs."
- "Byddwn ddim yn teimlo'n gyfforddus yn trafod materion preifat oherwydd y diffyg preifatrwydd."
- "Gofyn am gyfeiriad neu god post o flaen pobl eraill/darllen cyfeiriadau o flaen eraill (fel rhywun sydd wedi goroesi trais domestig ac wedi dioddef trosedd casineb nid wyf am i bobl wybod fy nghyfeiriad cartref). Yn gwrthod derbyn ID fel dewis arall i ddweud y cyfeiriad. Gofyniad i siarad (rwy'n defnyddio BSL i gyfathrebu)."

Roedd pedwar sylw'n ymwneud â theithio i fferyllfeydd, yn cynnwys pellter teithio, yr amser a'r dull o deithio:

- "Ar wahân i'r amser teithio yn y car. Mae'n rhaid i ni deithio i'r practis meddyg teulu hefyd."
- "Mae'r fferyllfa agosaf filltiroedd i ffwrdd ohonof, yn [enw'r lleoliad]."
- "Pellter teithio a mynediad ar y bws."

Roedd dau sylw'n trafod mynediad i'r fferyllfa:

- "Mae ganddynt ramp ond nid yw'n gadarn iawn, ac nid wyf yn teimlo'n gyfforddus yn ei ddefnyddio."
- "Drws trwm - mae hyn yn anodd mewn cadair olwyn."

Roedd wyth sylw'n crybwyll ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd, gan gynnwys problemau cyfathrebu, y ffaith nad oedd y staff yn ddymunol nac yn hawdd mynd atynt, problemau o safbwynt casglu presgripsiynau neu'r ffaith nad oedd eitemau ar bresgripsiwn mewn stoc, a oedd yn aml yn gofyn am ddychwelyd i'r fferyllfa ar adeg arall:

- "Ydyn, o ganlyniad i COVID, mae fy meddyginiaethau bellach yn rhai ar hap, ac rwyf wedi cael problemau ers misoedd. O ganlyniad i broblemau staff cyn y Nadolig, roeddent 3 wythnos yn hwyr gyda'r feddyginiaeth ac yn anghwrtais iawn gyda fi ar y ffôn. Gwnaethant addo y byddwn yn cael y feddyginiaeth ar noswyl Nadolig, ond ni ddigwyddodd hynny. O ganlyniad, nid oedd gennyf ddigon o fath penodol o feddyginiaeth dros y Nadolig nes i'r fferyllfa ailagor. Rwy'n parhau i brofi problemau parhaus h.y. dywedwyd wrthyf y mis hwn na allwn gasglu presgripsiwn untro hyd nes ei bod yn amser ar gyfer fy meddyginiaeth arferol ar ddiwedd y mis. Rwy'n poeni am ffonio oherwydd rwy'n amlwg yn boendod. Rwy'n gallu deall ei fod yn gysylltiedig â'r pandemig, ond nid wyf yn gwybod beth i'w wneud."

- “Mae rhai o’r meddyginiaethau yn barod i’w casglu bob mis, ond nid yw eraill yn barod. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i fi ffonio fy meddyg bob mis i ofyn am bresgripsiwn rheolaidd. Nid wyf yn siŵr pam mae rhai meddyginiaethau’n cael eu rhoi’n awtomatig tra nad yw eraill yn cael eu rhoi felly.”
- “Ciwiau hir iawn, yna oherwydd bod y staff mor brysur gwnaethant golli fy mhresgripsiwn a bu’n rhaid i mi ddychwelyd y diwrnod nesaf a chiwio eto, a hyd yn oed wedyn roedd pethau ar goll y bydd yn rhaid i fi aros 4 diwrnod arall amdanynt!!”

Cyfeiriodd pum sylw at botensial fferyllfeydd cymunedol neu gwnaed awgrymiadau ar gyfer y gwasanaeth:

- “Yn hanesyddol, roedd gan Gaerdydd rota o fferyllfeydd a oedd ar gael 24 awr y dydd, credaf y dylai hyn ddigwydd eto. Rwy’n gweithio ar gyfer gwasanaeth 24 awr ac ni all cleifion gael mynediad at feddyginiaeth dros nos, felly maent yn mynd i’r adran damweiniau ac achosion brys yn y pen draw, fel dinas fawr, mae cael mynediad 24 awr at fferyllfeydd yn hanfodol.”
- “Dylent gael y cyfle i wneud mwy. Dylai clystyrau ymgysylltu â hwy yn fwy. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid a chyfleoedd. Ystafelloedd ymgynghori ac ati.”
- “Byddai’n llawer haws pa bai system rhagnodi electronig o’r feddygfa i’r fferyllfa.”
- “Mae’n system sydd â photensial mawr i helpu pobl i fyw’n dda. Mae llawer o fferyllfeydd yn lleol ac maent oll yn siopau pwysig iawn yn y gymuned. Ond nid ydynt wedi’u trefnu mewn ffordd sy’n gwneud gwaith cynghori yn hawdd.”

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys:

- “Oherwydd problem iechyd meddwl rwy’n ei chael yn anodd mynd i mewn i’r siop pan fydd tipyn o bobl yno. Rwyf fel arfer yn aros y tu allan ac yn edrych i weld pryd fydd gen i’r cyfle iawn i fynd i mewn.”
- “Mae fferyllfeydd sy’n agosach ataf ond maent yn fach, heb lawer o le, na phreifatwydd, mae’n anodd parcio ac mae un ohonynt yn frwnt iawn.”
- “Nid oes diddordeb gan y fferyllfeydd mewn ymgysylltu â’r cyhoedd.”
- “Mae ganddynt naws hen ffasiwn iawn. Ni allaf ddychmygu y byddai pobl ifanc yn teimlo’n hyderus i fynd i mewn yno i ofyn am ddulliau atal cenhedlu er enghraifft.”
- “Nid yw bob amser yn hawdd gwneud apwyntiad gyda’r meddyg teulu i gasglu presgripsiynau.”


Roedd dau sylw’n ymwneud â’r nifer brin o staff a oedd yn gwisgo masgiau. Fodd bynnag, gallai hyn fod am resymau meddygol cyfreithlon.

Derbyniwyd ymatebion i’r holiadur gan bobl sy’n byw ar draws ardal y bwrdd iechyd, fel y gellir gweld o’r map isod. Daeth y nifer leiaf o ymatebion o CF72. Roedd 14 cod post yn annilys.



## Map 1: Lleoliad yr ymatebwyr

Pharmacy Needs Assessment public survey results



### 1.5.4 Ymgysylltu â fferyllwyr ar contract

Cynhaliwyd holiadur ar-lein ar gyfer fferyllfeydd drwy ymarfer dilysu Cronfa Ddata Fferyllfeydd Cymru Gyfan, a phenderfynwyd y dylid ond gofyn i fferyllwyr ar contract am wybodaeth na ellid dod o hyd iddi yn rhywle arall.

Ceir copi o'r holiadur yn atodiad I.

Roedd yr holiadur ar agor o 18 Tachwedd i 20 Rhagfyr 2020 a cheir crynodeb o'r canlyniadau isod.

Ymatebodd pob un o'r 106 o fferyllfeydd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sef cyfradd ymateb o 100%. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ddiolchgar am gefnogaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru i annog fferyllwyr ar contract i gwblhau'r holiadur.

Dywedodd 95% (101) o fferyllfeydd fod eu hadeiladau'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, a dywedodd pum fferyllfa nad oedd eu hadeiladau'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Mae ystafelloedd ymgynghori'n rhagamod ar gyfer darparu'r gwasanaethau uwch, ac fe'u cynhwysir yn aml fel gofyniad ar gyfer ystod ehangach o wasanaethau a gomisiynir gan fferyllfeydd. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, dywedodd 103 o'r 106 o fferyllfeydd fod ganddynt ardal ymgynghori ar y safle:

- Gwnaeth 87 o fferyllfeydd gadarnhau fod ganddynt ardal ymgynghori gyda mynediad i gadeiriau olwyn.
- Cadarnhaodd 15 o fferyllfeydd fod ganddynt ardal ymgynghori heb fynediad i gadeiriau olwyn.
- Cadarnhaodd un fferyllfa fod ganddi "fynediad i gadair olwyn 'arferol' ond nid i sgwter symudedd."

O blith y tair fferyllfa nad oedd ganddynt ardal ymgynghori, dywedodd dwy fod ganddynt drefniadau amgen ar waith ar gyfer trafodaethau cyfrinachol. Atebodd un yn negyddol.

Wrth ystyried a oedd yr ardal ymgynghori'n bodloni'r gofynion sylfaenol:

- Cadarnhaodd 102 o ymatebwyr fod eu hardal ymgynghori yn ystafell gaeedig.
- Cadarnhaodd 101 o ymatebwyr fod yr ardal ymgynghori'n ardal ddynodedig lle gallai'r fferyllfeydd a'r claf eistedd i lawr gyda'i gilydd.
- Ymatebodd 100 o fferyllfeydd fod y claf a'r fferyllwyr yn gallu siarad gyda thôn arferol heb fod staff neu ymwelwyr â'r fferyllfa yn eu clywed.
- Cadarnhaodd 101 o ymatebwyr fod eu hardal ymgynghori wedi'i dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghori cyfrinachol, sydd ar wahân i ardaloedd cyhoeddus y fferyllfa.

Caiff naw iaith, yn ogystal â Saesneg, eu siarad ar draws 18 o fferyllfeydd yn yr ardal. Ymhlith y rhain mae:

- Arabaidd (dwy fferyllfa)
- Tsieceg
- Ffrangeg
- Gwjarati (dwy fferyllfa)
- Hindi (dwy fferyllfa)
- Pwyleg
- Pwnjabeg (dwy fferyllfa)
- Tamil
- Cymraeg (11 fferyllfa, yn cynnwys un fferyllfa lle siaredir Cymraeg un diwrnod yr wythnos yn unig).

Dylid nodi bod pedair fferyllfa wedi rhestru mwy nag un iaith.

Wrth ystyried a oedd y fferyllfa yn gweinyddu cyfarpar:

- Cadarnhaodd 89 o ymatebwyr (79%) fod presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar yn cael eu gweinyddu o'r adeilad.
- Ymatebodd un fferyllfa eu bod yn gweinyddu cyfarpar ar wahân i gyfarpar stoma ac anymataliaeth.
- Roedd 17 fferyllfa ond yn gweinyddu gorchuddion.
- Dywedodd pedair fferyllfa nad oeddent yn gweinyddu unrhyw gyfarpar.

Pan ofynnwyd am y gwasanaethau casglu a dosbarthu a gynigir:

- Ymatebodd 100 o fferyllfeydd eu bod yn casglu presgripsiynau o'u practisau meddygon teulu.
- Dywedodd 68 fferyllfa eu bod yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gyfer meddyginiaethau a weinyddir, ar gais.
- Dywedodd 39 o fferyllfeydd eu bod yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim i gleifion dethol fel cleifion sy'n gaeth i'w cartrefi, y rhai dros 70 oed, cleifion anabl neu'r rhai â phroblemau symudedd, y rhai ag angen clinigol neu sy'n agored iawn i niwed yn glinigol, yr henoed a'r rhai sy'n agored i niwed, a'r rhai sy'n hunanynysu neu'n gwarchod oherwydd pandemig y coronafeirws (COVID-19), nad oes ganddynt unrhyw gymorth neu dull casglu yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.
- Dywedodd 24 o fferyllfeydd eu bod yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim i ardaloedd dethol.
- Dywedodd 12 o fferyllfeydd eu bod yn codi tâl ar gyfer dosbarthu meddyginiaethau a weinyddir. Dangosodd dadansoddiad pellach fod wyth o'r rheini hefyd yn cynnig gwasanaeth am ddim. Fodd bynnag, gallai hyn eto fod yn unol â chanllawiau cenedlaethol o ganlyniad i bandemig y coronafeirws (COVID-19).

Dylid nodi nad yw gwasanaethau casglu a dosbarthu yn wasanaethau contractiol, ac felly fe'u darperir yn breifat gan fferyllfeydd yn ôl eu disgrisiwn. Yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19), comisiynwyd gwasanaeth dosbarthu i'r cartref gan fferyllfeydd cymunedol, i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu dosbarthu i gleifion cymwys oedd yn gwarchod, na ddylent ddod i'r fferyllfa.

Pan ofynnwyd a oes gofyniad am wasanaeth ychwanegol presennol na chaiff ei ddarparu yn yr ardal ar hyn o bryd, atebodd 18 o ymatebwyr yn gadarnhaol:

- Dulliau atal cenhedlu brys (wyth fferyllfa)
- Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin
- Profi a Thrin Llwnc Tost (saith fferyllfa)
- Presgripsiynu annibynnol (pum fferyllfa)
- System Monitro Dosau (MDS)
- Rhoi'r gorau i smygu (dwy fferyllfa)
- Gofal lliniarol
- Cyfnewid nodwyddau

Dylid nodi bod wyth fferyllfa wedi rhestru mwy nag un awgrymu, ac nad yw MDS yn wasanaeth ychwanegol presennol.

Pan ofynnwyd a oes gofyniad am wasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd, atebodd 11 fferyllfa:

- Presgripsiynu annibynnol (pedair fferyllfa)
- Gofal lliniarol
- System Monitro Dosau (MDS) (tair fferyllfa)
- Dosbarthiadau
- Profi ar gyfer y coronafeirws (COVID-19)
- Brechu ar gyfer y coronafeirws (COVID-19)

- Proffylacsis cyn-gysylltiad (PrEP)
- Gwasanaethau Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion (PGD) ar gyfer UTI, dulliau atal cenhedlu, haint yn y glust a Strep y gwddf

Dylid nodi bod dwy fferyllfa wedi rhestru mwy nag un awgrym.

Mae'r galw am wasanaethau fferyllol yn gyffredinol yn cynyddu. Gofynnwyd i fferyllwyr ar gontract am eu gallu i ddiwallu anghenion yn y dyfodol. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

- Mae gan 89% (94) o fferyllfeydd ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol a digon o staff i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.
- Nid oes gan 8% (9) o fferyllfeydd ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau na digon o staff ar hyn o bryd, ond gallent wneud addasiadau i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.
- Nid oes gan 3% (3) o fferyllfeydd ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau na digon o staff a byddent yn ei chael hi'n anodd rheoli cynnydd mewn galw yn yr ardal.

Pan ofynnwyd a oes gan fferyllfeydd unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eu hadeiladau neu'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt, ymatebodd 24 o fferyllfeydd yn bositif a darparodd pob un ohonynt fanylion pellach. Roedd themâu'r ymatebion fel a ganlyn:

Roedd gan bum fferyllfa gynlluniau i ehangu eu fferyllfeydd:

- Ailosod y fferyllfa
- Ystafelloedd ymgynghori (dwy fferyllfa)
- Archwilio opsiynau i adleoli i safleoedd practisau meddygon teulu (dwy fferyllfa)

Roedd gan dair fferyllfa gynlluniau i awtomeiddio rhannau o'r gwasanaeth fferyllfa o safbwynt casglu presgripsiynau/meddyginiaethau sydd wedi'u cwblhau, a'u dosbarthu.

Roedd gan bymtheg fferyllfa gynlluniau i ehangu'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt, a rhoddwyd yr enghreifftiau canlynol:

- Presgripsiynu annibynnol (naw fferyllfa)
- Gwasanaethau ychwanegol wrth iddynt ddod ar gael (tair fferyllfa)
- Rhoi'r gorau i smygu
- Mwy o wasanaethau brechu
- Gwasanaethau brysbennu a thrin

Roedd un fferyllfa'n bwriadu cynnig gwasanaethau mwy preifat.

Cafwyd dau sylw gan fferyllfeydd a oedd yn dweud y byddent yn barod i ddarparu mwy o wasanaethau yn dibynnu ar y cyllid a oedd ar gael. Crybwyllodd un fferyllfa fod ganddi gynllun parhad busnes ar waith rhwng 2020 a 2021.

Cynhaliwyd holiadur ar-lein hefyd ar gyfer practisau sy'n gweinyddu meddyginiaeth gan ddefnyddio'r 'Smart Survey'. Yn yr un modd ag y gwnaed gyda'r fferyllfeydd,

penderfynwyd mai dim ond gwybodaeth na ellid ei chael yn unrhyw le arall y gofynnwyd i fferyllwyr ar gontract amdani.

Ceir copi o'r holiadur yn atodiad J.

Roedd yr holiadur ar agor i ddechrau rhwng 22 Rhagfyr 2020 a 24 Ionawr 2021. Cafodd y dyddiad cau ei ymestyn ymhellach hyd at 15 Chwefror 2021 i annog pobl i gyfranogi, ac i gydnabod y pwysau gwaith cynyddol yr oedd yr holl staff gofal iechyd a darparwyr yn ei wynebu o ganlyniad i bandemig parhaus y coronafeirws (COVID-19). Caiff y canlyniadau eu crynhoi isod.

Dim ond un practis sy'n gweinyddu meddyginiaethau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Gwnaeth y practis sy'n gweinyddu meddyginiaethau ymateb i'r holiadur gan roi cyfradd ymateb o 100%. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ddiolchgar am gymorth Ysgrifennydd Meddygol Pwyllgor Meddygol Lleol Bro Taf i annog y contractwr i gwblhau'r holiadur.

Mae'r practis meddyg teulu sy'n gweinyddu meddyginiaethau ond ar agor rhwng dydd Llun a dydd Iau. Mae'r practis sy'n gweinyddu meddyginiaethau yn darparu gwasanaeth gweinyddu, yn ogystal â gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau, i'r myfyrwyr sy'n byw yng Ngholeg yr Iwerydd, Sain Dunwyd. Nid yw'r practis meddyg teulu yn gweinyddu cyfarpar o'r adeilad. Y gwasanaethau gweinyddu eraill a ddarperir gan y practis yw cael gwared ar gyfarpar miniog cleifion. Yr unig iaith sydd ar gael i gleifion yn ddyddiol gan staff yn yr adeilad yw Saesneg. Cadarnhaodd y practis fod ganddo ddigon o gapasiti o fewn ei adeilad presennol a digon o staff i ddelio â chynnydd mewn galw yn yr ardal pe bai angen. Fodd bynnag, byddai hyn yn dibynnu ar y telerau a nodir yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

### **1.5.5 Ffynonellau eraill o wybodaeth**

Gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddarparu gwybodaeth am y canlynol:

- Gwasanaethau a ddarperir i breswylwyr ardal y bwrdd iechyd.
- Newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd.
- Datblygiadau tai y gwyddys amdanynt o fewn oes yr asesiad o anghenion fferyllol.
- Unrhyw ddatblygiadau eraill a allai effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.
- Gwybodaeth gefndir am anghenion iechyd y boblogaeth.

Cafwyd gwybodaeth am y boblogaeth, cyflogaeth a'r farchnad lafur ac anghenion iechyd y boblogaeth hefyd drwy'r canlynol:

- Iechyd Cyhoeddus Cymru - Uned Gwybodaeth Canser Cymru, yr adroddiad COVER, rhaglenni sgrinio, a'r Ffliw.

- Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru - gwybodaeth a data am iechyd y cyhoedd, yn cynnwys prif bynciau iechyd y cyhoedd a fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) - ystod eang o ystadegau sy'n ymwneud â'r boblogaeth, yr economi a'r gymdeithas ar lefel genedlaethol, bwrdd iechyd a lleol.
- StatsCymru - data ystadegol.
- Llywodraeth Cymru - Arolwg Cenedlaethol Cymru.
- Mapiau Iechyd Cymru - data marwolaeth.
- Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau - cofrestr practisau meddygon teulu ar gyffredinrwydd clefydau.

Cafwyd gwybodaeth am fferyllwyr ar gontract a gwasanaethau fferyllol hefyd drwy'r canlynol:

- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - data gweinyddu, data presgripsiynu, gweithgarwch contractwr gweinyddu fesul wasanaeth.
- Fferylliaeth yn y Gymuned Cymru - contract fferyllfa gymunedol, manylion am wasanaethau a chefnogi'r holiadur i fferyllwyr ar gontract.

Lluniwyd mapiau gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS). Hoffai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddiolch iddynt am eu cefnogaeth.

### **1.5.6 Ymgynghori**

Gwnaeth yr ymatebion i'r holiaduron ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd ac i fferyllwyr ar gontract lywio'r asesiad drafft o anghenion fferyllol.

Cychwynnodd yr ymgynghoriad statudol 60 diwrnod ar yr asesiad drafft o anghenion fferyllol ar Dydd Gwener 21 Mai ac fe'i cynhaliwyd tan Dydd Mawarth 20 Gorffennaf. Ysgrifennwyd at yr ymgynghoreion statudol ynghylch yr ymgynghoriad, rhoddwyd dolen iddynt i wefan y bwrdd iechyd, lle cyhoeddwyd yr asesiad drafft o anghenion fferyllol, ac fe'u gwahoddwyd i ymateb ar-lein.

Ceir adroddiad ar yr ymgynghoriad, yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r PNA yn atodiad K.

## 2 Trosolwg o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

### 2.1 Cyflwyniad

Mae gan Gaerdydd a Bro Morgannwg orffennol hanesyddol cyfoethog; o'r Rhufeiniaid i'r Normaniaid i'r trawsnewidiadau a ddaeth yn sgil y diwydiant glo, a wnaeth arwain at sefydlu Caerdydd fel prif borthladd a phrifddinas Cymru yn y dyfodol. Mae'r cyfan wedi cyfrannu at wneud Caerdydd a Bro Morgannwg yn un o'r cyrchfannau twristaidd mwyaf poblogaidd yn Nghymru.

Mae Caerdydd yn brifddinas ryngwladol ffyniannus, sy'n cynnwys llawer o safleoedd diwylliannol, cyswllt hir â chwaraeon a phoblogaeth fawr o fyfyrwyr; ac yn gartref i bedwar prif sefydliad addysg uwch. Mae gan y ddinas fwy o gestyll a mannau gwyrdd fesul unigolyn nag unrhyw ddinas arall yn y DU.

Mae Bro Morgannwg yn ardal amrywiol a phrydferth o Gymru, sy'n cynnwys cefn gwlad bryniog, cymunedau arfordirol, pentrefi gwledig a threfi prysur. Yma ceir y dref fwyaf yng Nghymru, y Barri, yn ogystal ag unig faes awyr Cymru.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw un o'r byrddau iechyd mwyaf yng Nghymru, ac mae'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG i awdurdod lleol Caerdydd ac awdurdod lleol Bro Morgannwg, a'u holl breswylwyr. Ei genhadaeth yw "Gofalu am Bobl, Cadw Pobl yn Iach", a'i weledigaeth yw y dylai siawns unigolyn o gael byw bywyd iach fod yr un peth ble bynnag y mae'n byw neu bwy bynnag ydyw.

### 2.2 Poblogaeth


Caerdydd yw'r awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru o safbwynt poblogaeth, gydag amcangyfrif o 366,903 o breswylwyr yn 2019. Mae gan Fro Morgannwg boblogaeth lai o faint, sef 133, 578 o breswylwyr.

Mae'r proffil oedran-rhyw yn wahanol rhwng Caerdydd a Bro Morgannwg (ffigur 2.1). Mae cyfran lawer mwy o boblogaeth Caerdydd yn y grwpiau oedran rhwng 19 oed a 40 oed, gyda'r ganran uchaf rhwng 19 oed a 22 oed o ganlyniad i'w phoblogaeth fawr o fyfyrwyr. I'r gwrthwyneb, mae poblogaeth Bro Morgannwg yn gostwng o gwmpas 19 oed ac mae'n debygol iawn bod hyn o ganlyniad i'r ffaith bod pobl yn gadael cartref i astudio y tu allan i'r ardal. Wedi hynny, mae'r boblogaeth yn cynyddu'n raddol gydag oedran. O gwmpas 60 oed, mae canran y boblogaeth yn gostwng yn gyflym gydag oedran, ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg. Ceir cynnydd canrannol bach ac amlwg o gwmpas 70 oed a chynnydd amlwg llawer mwy yn y grŵp 90 oed ac yn hŷn. Ar y cyfan, ceir cydbwysedd eithaf cyfartal o ran y rhywiau yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, gyda'r gwahaniaeth mwyaf amlwg yn y grŵp 90 oed ac yn hŷn, lle mae canran lawer uwch o fenywod yn y boblogaeth.

Ym Bro Morgannwg, yr oedran canolrifol (yr oedran y mae hanner y boblogaeth yn hŷn nag ef a hanner y boblogaeth yn iau nag ef), yw 43.8 oed. Mae hyn 1.3 blynedd

yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 42.5 oed. Yng Nghaerdydd, mae'r oedran canolrifol yn llawer iau, sef 33.6 oed, sy'n 10.2 mlynedd yn is na Bro Morgannwg ac 8.9 blynedd yn is na chyfartaledd Cymru.


**Ffigur 2.1: Pyramid poblogaeth awdurdod lleol Caerdydd a Bro Morgannwg, 2019**



Ffynhonnell: - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon 2020 (pyramid poblogaeth rhyngweithiol, 2019)

O blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru, Caerdydd sydd â'r gyfran isaf o boblogaeth dros 65 oed (14.2%), a'r gyfran uchaf o boblogaeth rhwng 16 a 64 oed (67.4%). Mae cyfran y boblogaeth 65 oed ac yn hŷn ym Mro Morgannwg (21.2%) yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (21.0%). Ar gyfer y grŵp oedran 16 i 64 oed, mae Bro Morgannwg (60.3%) ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (61.1%). Mae cyfran y boblogaeth 15 oed ac yn iau yn debyg yng Nghaerdydd (18.4%) a Bro Morgannwg (18.5%) ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (17.9%).

**Ffigur 2.2: Canrannau'r boblogaeth yn ôl grŵp oedran ac awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**



Ffynhonnell: StatsCymru - Amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ers 2018, mae poblogaeth Caerdydd wedi cynyddu 2,655 (0.7%) o 364,248 i 366,903. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i ymfudo rhyngwladol (2653) lle roedd mwy o fewnfudwyr rhyngwladol nag allfudwyr rhyngwladol. Roedd hefyd mwy o enedigaethau na marwolaethau yng Nghaerdydd, a arweiniodd at newid naturiol o 1112. Wrth edrych ar ymfudo mewnol, gwnaeth mwy o bobl symud allan o Gaerdydd i ardaloedd eraill yng Nghymru neu i wledydd eraill o fewn y Deyrnas Unedig nag a symudodd i mewn (-1102). Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaeth newidiadau i boblogaethau arbennig (y lluoedd arfog cartref, y lluoedd arfog tramor a phoblogaeth y carchardai) leihau poblogaeth Caerdydd fymryn bach (-8).

**Tabl 2.1 Elfennau newid yn y boblogaeth yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2018 i 2019.**


Ardal	Poblogaeth canol-blwyddyn 2018	Newid naturiol	Ymfudo mewnol net	Ymfudo rhyngwladol net	Poblogaeth canol-blwyddyn 2019
Caerdydd	364248	1112	-1102	2653	366903
Bro Morgannwg	132165	-23	1243	210	133587
BIP Caerdydd a'r Fro	496413	1089	141	2863	500490
Cymru	3138631	-2437	8685	7812	3152879

Ffynhonnell: StatsCymru - Amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dros yr un cyfnod, cafwyd cynnydd o 1,422 (1.1%) ym mhoblogaeth Bro Morgannwg, o 132,165 i 133,587 l'r gwrthwyneb i Gaerdydd, roedd hyn yn bennaf oherwydd ymfudo mewnol (1243). Roedd cyfran lai o'r cynnydd yn y boblogaeth o ganlyniad i ymfudo rhyngwladol (210). Yn debyg i Gymru, roedd mwy o farwolaethau na genedigaethau ym Mro Morgannwg, gan arwain at newid naturiol negyddol (-23). Roedd newidiadau o ganlyniad i boblogaethau arbennig (y lluoedd arfog cartref, y lluoedd arfog tramor a phoblogaeth y carchardai) yr un peth ag oedd ar gyfer Caerdydd (-8).


Mae ffigurau 2.3 a 2.4 isod yn dangos sut mae newid naturiol, ymfudo mewnol net ac ymfudo rhyngwladol net wedi dylanwadu ar y newid ym mhoblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg ers 2012.

**Ffigur 2.3: Elfennau newid yn y boblogaeth ar gyfer Caerdydd, 2012 i 2019**



Ffynhonnell: Offeryn Dadansoddi Amcangyfrifon o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Mehefin 2020)

**Ffigur 2.4: Elfennau newid yn y boblogaeth ar gyfer Bro Morgannwg, 2012 i 2019**




Ffynhonnell: Offeryn Dadansoddi Amcangyfrifon o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Mehefin 2020)

### 2.2.1 Amcanestyniadau poblogaeth 2018 i 2028 (sail-2018)<sup>1</sup>

<sup>1</sup>Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yng Nghymru: sail-2018 (diwygiedig). Datganiad cyntaf ystadegol. Llywodraeth Cymru. O: <sup>1</sup>Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yng Nghymru: sail-2018 (diwygiedig) (gov.wales)

Rhwng 2018 a 2028, rhagamcanir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu hyd at 3.2%, y chweched cynnydd canrannol mwyaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Disgwylir y bydd ganddi boblogaeth sy'n cyfateb i oddeutu 375,000 erbyn 2028, sy'n golygu mai dyma fydd yr awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Yn wahanol i'r holl awdurdodau lleol eraill, bydd y cynnydd yn y boblogaeth wedi'i sbarduno'n bennaf gan newid naturiol h.y. mwy o enedigaethau na marwolaethau, a bydd cyfran lai o'r cynnydd o ganlyniad i ymfudo net h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Caerdydd sydd â'r lefel uchaf o ymfudo rhyngwladol amcanestynedig o blith yr holl awdurdodau lleol. Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ar draws yr holl grwpiau oedran eang, ac eithrio'r grŵp 0 i 15 oed, lle rhagwelir gostyngiad. Bydd y cynnydd mwyaf mewn poblogaeth yn y grŵp oedran 65 oed ac yn hŷn, wedi'i ddilyn gan y boblogaeth oedran gweithio rhwng 16 oed a 64 oed. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol.

**Ffigur 2.5: Rhagamcanestyniadau'r boblogaeth (sail-2018) yn ôl grwpiau oedran eang ar gyfer awdurdod lleol Caerdydd, 2018 i 2028.**




Ffynhonnell: StatsCymru Llywodraeth Cymru

Rhwng 2018 a 2028, rhagamcanir y bydd poblogaeth Bro Morgannwg yn cynyddu hyd at 6%, yr ail gynnydd canrannol mwyaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Disgwylir y bydd ganddi boblogaeth sy'n cyfateb i oddeutu 140,000 erbyn 2028, sy'n golygu mai dyma fydd y degfed awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Bydd y cynnydd yn y boblogaeth wedi'i sbarduno'n fwyaf gan ymfudo net h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Disgwylir i nifer y genedigaethau gynyddu dros y cyfnod hwn, a hefyd nifer y marwolaethau, gan arwain at newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau). Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ar draws pob grŵp oedran eang. Yn gyffredinol, bydd cynnydd bach yn nifer y plant a phobl ifanc rhwng 0 i 15 oed ac yn y boblogaeth oedran gweithio, rhwng 16 i 64 oed. Bydd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth yn y grŵp 65 oed ac yn hŷn, lle disgwylir i Fro Morgannwg weld y cynnydd mwyaf o blith yr holl awdurdodau lleol, sef hyd at 20.5%. Dilynir hyn gan y grŵp 75 oed ac yn hŷn. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol.



**Ffigur 2.6: Rhagamcanestyniadau'r boblogaeth (sail-2018) yn ôl grwpiau oedran ar gyfer awdurdod lleol Bro Morgannwg, 2018 i 2028.**



Ffynhonnell: StatsCymru Llywodraeth Cymru

Caerdydd yw'r awdurdod lleol mwyaf poblog yng Nghymru gyda 2,604 o bobl fesul cilomedr sgwâr (2019). I gymharu, Casnewydd yw'r ail awdurdod mwyaf poblog gyda 182 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Mae Bro Morgannwg yn llai poblog, gyda 403 o bobl fesul cilomedr sgwâr, a dyma'r degfed ardal mwyaf poblog yng Nghymru yn 2019. Mae gan Gaerdydd a Bro Morgannwg ddwysedd poblogaeth llawer uwch o gymharu â Chymru (152 o bobl fesul cilomedr sgwâr). Rhwng 2014 a 2019 a 2018 a 2019, ym Mro Morgannwg y gwelwyd yr ail gynnydd canrannol mwyaf mewn dwysedd poblogaeth o blith yr holl awdurdodau lleol.

**Tabl 2.2: Dwysedd poblogaeth ([nifer y bobl fesul cilomedr sgwâr) a newid canrannol yn ôl awdurdod lleol a Chymru, canol-blwyddyn 2014, 2018 a 2019.**

Ardal	2014	2018	% cynnydd	2019	% cynnydd
Caerdydd	2518.3	2585.2	2.7	2604.0	0.7
Bro Morgannwg	386.6	399.1	3.2	403.4	1.1
Cymru	149.1	151.4	1.5	152.0	0.5

Ffynhonnell: StatsCymru - Amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

## 2.3 Ethnigrwydd

Caerdydd sydd â'r boblogaeth fwyaf amrywiol o ran ethnigrwydd yng Nghymru, ac amcangyfrifir bod 21.1% o'i phoblogaeth yn ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Ym Mro Morgannwg, amcangyfrifir bod 2.3% o'r boblogaeth yn ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Mae hyn yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 5.9%.

**Tabl 2.3: Ethnigrwydd yn ôl grŵp ethnig ac awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019 i 2020**

Ardal	Gwyn	Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	Cyfanswm	% y bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
Caerdydd	291700	78100	370600	21.1
Bro Morgannwg	124200	3000	127200	2.3
BIP Caerdydd a'r Fro	415900	81100	497800	16.3
Cymru	2934100	184500	3121500	5.9

Ffynhonnell: StatsCymru - Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (y flwyddyn yn gorffen Mehefin 2020)

## 2.4 Iaith y cartref

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gall 23.8% o'i boblogaeth tair oed ac yn hŷn siarad Cymraeg. Mae hyn yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn uwch nag ydyw ym Mro Morgannwg.

**Tabl 2.4: Pobl tair oed ac yn hŷn sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019 i 2020**


Ardal	Pawb sy'n dair oed ac yn hŷn	Ydw, gallaf siarad Cymraeg	Canran y bobl sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg
Caerdydd	357500	89700	25.1
Bro Morgannwg	124000	25000	20.2
BIP Caerdydd a'r Fro	481500	114700	23.8
Cymru	3030700	861700	28.5

Ffynhonnell: StatsCymru - Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (y flwyddyn yn gorffen 30 Mehefin)

## 2.5 Crefydd

Amcangyfrifir bod ychydig dros hanner poblogaeth Caerdydd (51.4%) a Bro Morgannwg (58.1%) yn Gristnogion. Mae oddeutu traean nad oes ganddynt unrhyw grefydd. Mwslim yw'r ail grefydd mwyaf cyffredin yng Nghaerdydd (6.8%) a Bro Morgannwg (0.6%).

**Ffigur 2.7: Crefydd preswylwyr Cymru yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2011**



Ffynhonnell: StatsCymru - Cyfrifiad 2011: Crefydd preswylwyr Cymru

## 2.6 Mynegai amddifadedd lluosog

Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl mewn cymdeithas. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019, yw'r dull a ddefnyddir yng Nghymru i nodi ardaloedd bach o Gymru sydd fwyaf difreintiedig. Mae'n cyfuno wyth math gwahanol o amddifadedd: incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, tai, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol, i greu cyfres o fynegeion a mynegai cyffredinol. Mae hyn yn golygu y gellir graddio ardaloedd bach yn unol â'u sgôr amddifadedd cymharol, er mwyn pennu a yw ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig o gymharu ag ardaloedd bach eraill yng Nghymru. Mae 1,909 o ardaloedd bach neu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Nghymru, sydd wedi'u graddio rhwng 1 (y mwyaf difreintiedig) i 1,909 (y lleiaf difreintiedig).

Yn gyffredinol, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Mae 294 o'r 1,909 LSOA ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y mae 14% ohonynt ymhlith yr 14% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ar gyfartaledd, dyma'r ail uchaf o blith y saith o fyrddau iechyd yng Nghymru. Fodd bynnag, wrth ystyried yr 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gostwng i'r pedwerydd uchaf, sef 24%. Mae 133 (45%) o'r holl LSOAs ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o fewn y 50% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru, y pumed uchaf o gymharu â byrddau iechyd eraill yng Nghymru.

O fewn ardal y bwrdd iechyd, Caerdydd (18%) sydd â'r ganran uchaf o LSOAs ymhlith y 10% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru, y pedwerydd uchaf o blith pob un o'r 22 o awdurdodau lleol. Mae 49% o'r holl LSOAs yng Nghaerdydd ymhlith y 50% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru, y degfed uchaf o'r holl awdurdodau lleol. Yr LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghaerdydd yw'r Sblot 6 (safle

12), Trowbridge 8 (safle 13) a Threlái 5 (safle 14). Yr ardal leiaf difreintiedig yng Nghaerdydd yw Radur a Threforgan 3 (safle 1900).

Ar y cyfan, mae Bro Morgannwg yn llai difreintiedig na Chaerdydd, gyda dim ond 4% o'i LSOAs yn y 10% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae 35% o'r holl LSOAs ym Mro Morgannwg o fewn y 50% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Y ddau LSOAs sy'n fwyaf difreintiedig yw Gibbonsdown 2 (safle 105) a Court 3 (safle 142). Yr ardal leiaf difreintiedig yw Plymouth (Bro Morgannwg) 1 (safle 1899).

**Tabl 2.5: Nifer a chanran yr LSOAs fesul pumedau amddifadedd yn ôl awdurdod lleol a bwrdd iechyd, 2019.**

Ardal	Cyfanswm yr LSOAs	% yr LSOAs yn y 10% mwyaf difreintiedig			
		(safleoedd 1-191)	(safleoedd 1-382)	(safleoedd 1-573)	(safleoedd 1-955)
Caerdydd	214	39	59	74	105
	11%	18%	28%	35%	49%
Bro Morgannwg	79	3	10	15	28
	4%	4%	13%	19%	35%
BIP Caerdydd a'r Fro	293	42	69	89	133
	15%	14%	24%	30%	45%

Ffynhonnell: StatsCymru - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru

Mae maes iechyd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 yn nodi amddifadedd sy'n ymwneud ag iechyd gwael. Mae 16% o LSOAs Caerdydd o fewn y 10% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru a dim ond 5% sydd gan Fro Morgannwg.

## 2.7 Genedigaethau

Yn 2019, roedd 4,939 o enedigaethau byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gostyngiad o 7.7% ers 2018. Roedd 3,738 o enedigaethau byw yng Nghaerdydd yn 2019, gostyngiad o 7.2% ers 2018. Roedd gan Fro Morgannwg 1,201 o enedigaethau byw, gostyngiad o 9.2% ers 2018.

Yn 2019, cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb (y nifer gyfartalog o blant y mae menyw yn rhoi genedigaeth iddynt yn ystod blynyddoedd atgenhedlu) yng Nghymru oedd 1.54 o blant fesul menyw. Roedd hyn yn ostyngiad o 1.63 o blant fesul menyw yn 2018, a'r nifer isaf ers i'r cofnodion ddechrau yn 1982.<sup>2</sup> Wrth ystyried y cyfraddau ffrwythlondeb sy'n ymwneud ag oedran penodol, roedd y cyfraddau'n gostwng ym

<sup>2</sup> Genedigaethau yng Nghymru a Lloegr (2019). <sup>2</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. O: <sup>2</sup>Genedigaethau yng Nghymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

mhob grŵp oedran ac eithrio menywod 40 oed ac yn hŷn, lle cynyddodd o 11.2 i 11.6 o enedigaethau fesul 1,000 o fenywod. Mae hyn yn awgrymu y gallai menywod fod yn oedi cael babanod nes eu bod yn hŷn, ac mae'n adlewyrchu'r duedd a welir yn y DU.

Gwelwyd gostyngiad yng nghyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yng Nghaerdydd o 1.45 o blant fesul menyw yn 2018 i 1.35 o blant fesul menyw yn 2019. Wrth ystyried y cyfraddau ffrwythlondeb sy'n ymwneud ag oedran penodol, roedd y cyfraddau'n gostwng ym mhob grŵp oedran ac eithrio menywod 40 oed ac yn hŷn. Gwelwyd cynnydd hefyd mewn cyfraddau ffrwythlondeb yn ymwneud ag oedran penodol yn y grŵp 18 i 19 oed.

Dros yr un cyfnod, roedd cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb ar gyfer Bro Morgannwg yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru a Chaerdydd, sef 1.60 o blant fesul menyw, gostyngiad o 1.79 o blant fesul menyw y flwyddyn flaenorol. Wrth ystyried y cyfraddau ffrwythlondeb sy'n ymwneud ag oedran penodol, roedd y cyfraddau'n gostwng ym mhob grŵp oedran ac eithrio menywod 18 i 19 oed, lle na welwyd newid.

Yn 2019, oedran cymedrig safonedig menyw adeg geni baban oedd 32.1 oed yng Nghaerdydd a 30 oed ym Mro Morgannwg, ychydig yn uwch a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 29.9 oed.

**Tabl 2.6: Newid canrannol mewn genedigaethau byw, a chyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb (TFR) yn ôl awdurdod lleol a Chymru, 2018 a 2019**

Ardal	2018		2019		Genedigaeth au byw Newid canrannol
	Genedigaeth au byw	TFR	Genedigaeth au byw	TFR	
Caerdydd	4,027	1.45	3,738	1.35	-7.2%
Bro Morgannwg	1,322	1.79	1,201	1.60	-9.2%
Cymru	31,274	1.63	29,704	1.54	-5.0%

Ffynhonnell: Nomis - Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## 2.8 Disgwyliad oes

Yng Nghymru, y disgwyliad oes ar gyfartaledd ar gyfer menywod adeg genedigaeth oedd 82.3 oed a 78.3 oed ar gyfer dynion rhwng 2016 a 2018. Y bwlch rhwng awdurdodau lleol ledled Cymru oedd 4.5 blynedd ar gyfer dynion (80.8 oed i 76.3 oed) a 3.6 blynedd ar gyfer menywod (84.3 oed i 80.6 oed).

Y disgwyliad oes ar gyfartaledd ar adeg genedigaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw 83.1 oed ar gyfer menywod a 78.6 oed ar gyfer dynion, sef gwahaniaeth o bedair blynedd a hanner rhwng y rhywiau. Mae'r disgwyliad oes ar gyfartaledd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac yn sylweddol uwch ar gyfer menywod adeg genedigaeth. Y disgwyliad oes yn 65 oed ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw 21.1 blynedd ar gyfer menywod a 18.1 blynedd ar gyfer dynion. Eto mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac yn sylweddol uwch ar gyfer menywod sy'n 65 oed.

Ar y cyfan, gall menywod yng Nghaerdydd ddisgwyl byw'n hirach o gymharu â phoblogaeth gyfartalog Cymru, gyda'r disgwyliad oes adeg genedigaeth ar gyfer menywod yn sylweddol uwch. Fodd bynnag, mae gan ddynion yng Nghaerdydd ddisgwyliad oes byrrach, ac yn fwy sylweddol ar gyfer dynion sy'n 65 oed.

**Tabl 2.7: Disgwyliad oes adeg genedigaeth ac yn 65 oed yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2016 i 2018**

Ardal	Menywod adeg genedigaeth Blynedd	Dynion adeg genedigaeth Blynedd	Menywod yn 65 oed Blynedd	Dyn yn 65 oed Blynedd
Caerdydd	82.9	78.2	20.8	17.7
Bro Morgannwg	83.4	79.3	21.6	18.5
BIP Caerdydd a'r Fro	83.1	78.6	21.1	18.1
Cymru	82.3	78.3	20.6	18.2

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol - Disgwyliad oes, disgwyliad oes iach a disgwyliad oes heb anabled adeg genedigaeth ac yn 65 oed yn ôl rhyw, DU, 2016 i 2018

Ar y cyfan, gall dynion a menywod ym Mro Morgannwg ddisgwyl byw'n hirach na'r sawl yng Nghaerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chymru. Mae'r disgwyliad oes yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac eithrio ar gyfer dynion yn 65 oed.

Ceir rhagor o wybodaeth am ddisgwyliad oes, disgwyliad oes iach a'r bwch anghyfartaleddau ar gyfer 2015 i 2017 yn y penodau lefel clwstwr.

## 2.9 Marwolaethau

Ar gyfer Cymru, roedd y gyfradd marwolaethau safonedig yn ôl oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth yn uwch ar gyfer menywod (915.9) a dynion (1,231.0) o gymharu â'r DU yn 2018. Roedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyfradd marwolaethau safonedig yn ôl oedran uwch fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer menywod (931.3) a dynion (1,342.5) na chyfartaledd Cymru.

Ar lefel awdurdod lleol, roedd gan Gaerdydd gyfradd marwolaethau safonedig yn ôl oedran uwch fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer dynion (1327.8) o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ond cyfradd is ar gyfer menywod (880.9). Bro Morgannwg oedd â'r cyfraddau marwolaethau safonedig yn ôl oedran isaf fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer menywod (821.1) a dynion (1151.2) o fewn ardal y bwrdd iechyd. Roedd y ddwy gyfradd yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

**Tabl 2.8: Cyfradd marwolaethau safonedig yn ôl oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd, Cymru a'r DU, 2018**

Ardal	Cyfradd marwolaethau safonedig yn ôl oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth		
	Personau	Menywod	Dynion
Caerdydd	1,073.7	880.9	1,327.8
Bro Morgannwg	959.0	821.2	1,151.2
BIP Caerdydd a'r Fro	1,111.2	931.3	1,342.5
Cymru	1,058.7	915.9	1,231.0
DU	981.2	852.9	1,138.4

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol - Marwolaethau wedi'u cofrestru yn ôl preswylfa arferol, 2018

Y gyfradd marwolaethau y gellid bod wedi eu hosgoi (marwolaethau a ddiffiniwyd fel rhai y gellid bod wedi eu hatal neu eu trin) ar gyfer menywod yng Nghymru oedd

206.1 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth o fenywod, a 330.5 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth o ddynion, rhwng 2016 a 2018. Yng Nghymru, cafodd 57.3% o farwolaethau y gellid bod wedi eu hosgoi ymhlith menywod, eu priodoli i gyflyrau y gellid bod wedi eu hatal (drwy ymyriadau atal sylfaenol ac iechyd y cyhoedd effeithiol) a 67.5% ymhlith dynion.

Roedd gan Fro Morgannwg un o'r cyfraddau marwolaethau y gellid bod wedi eu hosgoi isaf ar gyfer menywod (165.6 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth o fenywod) a dynion (271.6 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth o ddynion) o blith y 22 o awdurdodau lleol, ac roedd yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Roedd ganddi hefyd un o'r cyfraddau isaf o safbwynt marwolaethau y gellid bod wedi eu hosgoi a marwolaethau y gellid bod wedi eu trin. Roeddent oll yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac eithrio ar gyfer cyfraddau marwolaethau y gellid bod wedi eu trin ymhlith menywod.

Roedd gan Gaerdydd (123.8 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth o ddynion) y bumed gyfradd marwolaethau y gellid bod wedi eu trin uchaf ar gyfer dynion o blith pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, ac roedd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Roedd ganddi hefyd gyfradd marwolaethau safonedig yn ôl oedran uwch o safbwynt marwolaethau y gellid bod wedi eu hosgoi a'u hatal ar gyfer dynion, o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Un peth i'w nodi yw nad yw ffigurau marwolaethau yma yn adlewyrchu effaith pandemig y coronafeirws (COVID-19), a wnaeth gynyddu cyfraddau marwolaethau yn uwch na lefelau hanesyddol ar draws y DU.

**Tabl 2.9: Nifer a chyfraddau marwolaethau safonedig yn ôl oedran y gellid bod wedi eu hosgoi, eu hatal a'u trin, yn ôl rhyw, awdurdod lleol a Chymru, 2016 i 2018**

		Gellid bod wedi eu hosgoi		Gellid bod wedi eu hatal		Gellid bod wedi eu trin	
		Cyfradd	Marwolaethau	Cyfradd	%	Cyfradd	%
Menywod	Caerdydd	195.4	766	111.5	57.1	83.8	42.9
Dynion	Caerdydd	350.4	1,309	226.6	65.4	123.8	34.6
Menywod	Bro Morgannwg	165.6	326	85.6	51.7	80.1	48.3
Dynion	Bro Morgannwg	271.6	486	184.7	67.9	86.9	32.1
Menywod	Cymru	206.1	9,316	118.1	57.3	88.0	42.7
Dynion	Cymru	330.5	14,124	223.9	67.5	106.6	32.5


Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol - marwolaethau y gellid bod wedi eu hosgoi yn y DU

## 2.10 Pobl ag anableddau

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru (NSW) yn casglu data hunangofnodedig ar iechyd cyffredinol a salwch ymhlith oedolion. Mae'n darparu amcangyfrifon o nodweddion y boblogaeth yn hytrach nag union fesurau. Ar gyfer y flwyddyn gyfunol 2018 i 2019 a

2019 i 2020, gwnaeth 7.8% o oedolion yng Nghaerdydd a 7.1% ym Mro Morgannwg adrodd fod eu hiechyd yn 'wael neu'n wael iawn'. Roedd hyn yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (8.8%).

**Ffigur 2.8: Iechyd cyffredinol oedolion yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2018 i 2019 a 2019 i 2020**



Ffynhonnell: StatsCymru - Arolwg Cenedlaethol Cymru

Ar gyfer Caerdydd, adroddodd 44.8% fod ganddynt salwch hirdymor. Adroddodd 17.5% fod ganddynt ddau neu fwy salwch hirdymor, a oedd yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (19.7%). Y cwynion yr adroddwyd amdanynt yn fwyaf cyffredin oedd anhwylderau cyhyrysgerbydol (15.8%), salwch yn ymwneud â'r galon a chylchrediad (12%) ac anhwylderau iechyd meddwl (9.3%).

Ar gyfer Bro Morgannwg, adroddodd 47.8% fod ganddynt salwch hirdymor ac adroddodd 21.0% fod ganddynt ddau neu fwy salwch hirdymor. Y cwynion yr adroddwyd amdanynt yn fwyaf cyffredin oedd anhwylderau cyhyrysgerbydol (16.4%), salwch yn ymwneud â'r galon a chylchrediad (12.9%) ac anhwylderau iechyd meddwl (10.7%).

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (16.2%) a Chaerdydd (15.6%), adroddodd cyfran lawer is o oedolion fod ganddynt salwch a oedd yn cyfyngu ar eu gweithgarwch i raddau helaeth, o gymharu â Chymru (18.4%). Ym Mro Morgannwg, adroddodd 18.8% fod ganddynt salwch a oedd yn cyfyngu ar eu gweithgarwch i raddau helaeth, a oedd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

**Tabl 2.10: Iechyd cyffredinol a salwch oedolion yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2018 i 2019 a 2019 i 2020**

Ardal	Salwch hirdymor			Wedi eu cyfyngu llawer ganddo
	Unrhyw rai	2 neu fwy	Heb eu cyfyngu o gwbl ganddo	
Caerdydd	44.8	17.5	32.4	15.6
Bro Morgannwg	47.8	21.0	36.6	18.8
BIP Caerdydd a'r Fro	45.5	18.5	33.4	16.2
Cymru	46.6	19.7	34.1	18.4

Ffynhonnell: StatsCymru - Arolwg Cenedlaethol Cymru

## 2.11 Cartrefi

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae 11.5% o'r boblogaeth sy'n 65 oed ac yn hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (13.7%). O fewn ardal y bwrdd iechyd, Bro Morgannwg (13.2%) sydd â'r gyfran uchaf o boblogaeth 65 oed ac yn hŷn sy'n byw ar eu pennau eu hunain.

**Tabl 2.11: Cyfansoddiad cartrefi, nifer a chanran y cartrefi un person, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2011**

Ardal	Cartref un person			
	65 oed ac yn hŷn		O dan 65 oed	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Caerdydd	15,436	10.8	31,705	22.2
Bro Morgannwg	7057	13.2	8,794	16.4
BIP Caerdydd a'r Fro	22,493	11.5	40,499	20.7
Cymru	178,334	13.7	222,434	17.1

Ffynhonnell: Nomis - Cyfrifiad, 2011

## 2.12 Nifer y bobl sy'n berchen ar gar

Mae ychydig dros chwarter o gartrefi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (26.4%) heb gar na fan ar adeg Cyfrifiad 2011. Mae'r ganran ychydig yn uwch yng Nghaerdydd (29%) na Bro Morgannwg (19.4%).

**Tabl 2.12: Nifer a chanran y cartrefi heb geir na faniau yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2011**

Ardal	Nifer y cartrefi heb geir na faniau	Canran y cartrefi heb geir na faniau
Caerdydd	41,400	29.0
Bro Morgannwg	10,368	19.4
BIP Caerdydd a'r Fro	51,768	26.4
Cymru	298,519	22.9

Ffynhonnell: Nomis - Cyfrifiad, 2011

## 2.13 Gweithgarwch economaidd

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen Mehefin 2019, mae gan Gaerdydd a Bro Morgannwg gyfraddau diweithdra tebyg (canran y boblogaeth economaidd weithgar sy'n ddiwaith), sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

**Tabl 2.13: Crynodeb o weithgarwch economaidd yn ôl awdurdod lleol a Chymru, 2019**

Ardal	Oedran y boblogaeth			
	16 oed ac yn hŷn		16 i 64 oed	
	Cyfradd diweithdra (canran)	Lefel cyflogaeth (nifer y bobl)	Cyfradd diweithdra (canran)	Anweithgarwch (canran)
Caerdydd	3.7	193,000	76.3	14.7


Bro Morgannwg	3.8	63,600	78.6	15.5
Cymru	4.2	1,459,700	73.2	19.8

Ffynhonnell: StatsCymru - Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth / Arolwg Llafurlu Lleol, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Caerdydd sydd â'r gyfradd cyflogaeth uchaf (cyfanswm y bobl 16 oed ac yn hŷn sydd mewn cyflogaeth) yng Nghymru, sef 193,000. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod ganddi'r boblogaeth fwyaf yng Nghymru. Wrth ystyried y gyfradd cyflogaeth (canran y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed sydd mewn cyflogaeth), Bro Morgannwg sydd â'r gyfradd uchaf yng Nghymru, sef 78.6% dros y cyfnod hwn.

Mae'r graff isod yn dangos y newid mewn cyfradd cyflogaeth rhwng y blynyddoedd yn gorffen Mehefin 2014 hyd at Mehefin 2019. Ar y cyfan, mae pob awdurdod lleol wedi dangos cynnydd mewn cyfradd cyflogaeth ers 2014. Rhwng Mehefin 2018 a 2019, gwelodd Caerdydd y cynnydd mwyaf mewn cyfradd cyflogaeth o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghaerdydd. Gwelodd Bro Morgannwg y pedwerydd cynnydd mwyaf.

**Ffigur 2.9: Cyfradd cyflogaeth fesul awdurdod lleol a Chymru, 2014 i 2019**



Ffynhonnell: StatsCymru - Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Y gyfradd anweithgarwch economaidd yw canran y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed nad ydynt yn gweithio, nac yn chwilio am waith, nac ar gael i weithio. Mae pobl sy'n anweithgar yn economaidd yn cynnwys pobl sy'n gofalu am y teulu neu'r cartref, pobl sydd wedi ymddeol a phobl â salwch neu anabledd. Nid yw'n cynnwys myfyrwyr. Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen Mehefin 2019, Caerdydd (14.7%) oedd â'r gyfradd anweithgarwch economaidd isaf, a Bro Morgannwg (15.5%) oedd â'r ail gyfradd anweithgarwch isaf o blith yr holl awdurdodau lleol.

Dylid nodi nad yw'r data anweithgarwch economaidd yma yn cynnwys effaith pandemig y coronafeirws (COVID-19), nad yw ei effeithiau hirdymor yn glir eto.

## 2.14 Cyfeiriadedd rhywiol


Yn y DU, gwnaeth 94.6% o bobl 16 oed ac yn hŷn nodi eu bod yn heterorywiol/syth yn 2018. O blith y 2.2% a nododd eu bod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (LGB):

- Roedd dynion (2.5%) yn fwy tebygol o nodi eu bod yn LGB na menywod (2.0%).
- Pobl ifanc (rhwng 16 a 24 oed) oedd fwyaf tebygol o nodi eu bod yn LGB (4.4%).
- Roedd dros dwy ran o dair (68.7%) o bobl a nododd eu bod yn LGB yn sengl (byth wedi priodi nac mewn partneriaeth sifil).<sup>3</sup>

Yn 2018, gwnaeth 95.2% o bobl 16 oed ac yn hŷn nodi eu bod yn heterorywiol/syth. Mae hyn yn cymharu ag 1.5% a nododd eu bod yn hoyw/lesbiaidd, 0.8% a nododd eu bod yn ddeurywiol, a 0.8% a nododd eu bod yn y categori 'arall'. Ymatebodd 1.7% nad oeddent yn gwybod, neu eu bod yn gwrthod dweud.

Mae Ffigur 2.10 yn dangos, yn 2018, fod canran y bobl a oedd yn nodi eu bod yn lesbiaidd, hoyw neu'n ddeurywiol yn debyg i'r ganran ar gyfer Lloegr (2.3%), Cymru (2.4%), yr Alban (2.0%) a'r DU (2.2%).

**Ffigur 2.10: Gwledydd cyfansoddol y DU yn ôl poblogaeth lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, 2014 a 2018**



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Wrth ystyried cyfeiriadedd rhywiol ar lefel yr awdurdod lleol, gwnaeth data o set ddata gyfunol 3 blynedd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer 2016 i 2018 ddangos, yng Nghaerdydd, bod 93.8% o'r boblogaeth yn ystyried eu hunain yn heterorywiol o gymharu â 96.1% ym Mro Morgannwg. Roedd canran y bobl a nododd eu bod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol ar ei huchaf yng Nghaerdydd (5.2%) a chafwyd y drydedd ganran uchaf ym Mro Morgannwg (2.8%) o gymharu â'r awdurdodau eraill yng Nghymru.

<sup>3</sup>Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020). Sexual Orientation UK, argaffiad 2012 - 2018. Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. O: <sup>3</sup>Sexual orientation, UK - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)



**Tabl 2.14: Cyfeiriadedd rhywiol yn ôl awdurdod lleol, 2016-2018**


Ardal	Heterorywi ol neu syth	Hoyw neu lesbiaidd	Deurywiol	Arall	Ddim yn gwybod neu'n gwrthod dweud
Caerdydd	93.8	3.3	1.9	0.3	0.7
Bro Morgannwg	96.1	2.5	0.3	0.5	0.6

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

## 2.15 Gofalwyr<sup>4</sup>

Yng Nghyfrifiad 2011, gwnaeth 50,580 o oedolion adrodd eu bod yn ofalwyr di-dâl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Roedd hyn yn 12% o gynnydd ar y nifer yn y Cyfrifiad blaenorol 10 mlynedd yn gynharach. Roedd canran y bobl yn y boblogaeth a oedd yn ystyried eu hunain yn ofalwyr ac yn darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos, yn is na chyfartaledd Cymru yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

**Ffigur 2.11: Canran y boblogaeth sy'n darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos, yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2011**



Ffynhonnell: Nomis - Cyfrifiad 2011

Cynhaliwyd arolwg o ofalwyr sy'n oedolion yng Nghaerdydd a'r Fro yn 2011, a chafwyd 292 o ymatebwyr. O blith yr ymatebwyr, roedd y rhan fwyaf yn fenywod (72%) ac yn ofalwyr llawn amser (72%). Roedd y rhan fwyaf o bobl yn gofalu am un person (87%) er bod mwy nag un o bob deg (13%) yn gofalu am ddau neu fwy. Roedd dwy draean o ofalwyr (67%) wedi bod yn gofalu am dros bum mlynedd, gan gynnwys bron hanner (46%) oedd wedi bod yn gofalu ers dros 10 mlynedd. Roedd tri chwarter (77%) yn 40 oed neu'n hŷn, gan gynnwys chwarter (24%) oedd yn 75 oed neu'n hŷn.

Gofalwr ifanc yw rhywun sy'n 18 oed neu'n iau sy'n helpu i ofalu am berthynas sydd â chyflwr, fel anabledd, salwch, cyflwr iechyd meddwl, neu broblem alcohol neu

<sup>4</sup>Caerdydd a Bro Morgannwg. Aseidiadau o anghenion y boblogaeth ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. O: <sup>4</sup>Population-Needs-Assessment-1.pdf (cvihs.co.uk)

gyffuriau. Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr ifanc yn gofalu am un o'u rhieni neu'n gofalu am frawd neu chwaer. Yng Nghyfrifiad 2011, nodwyd 1,579 o ofalwyr ifanc yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, er bod hyn yn debygol o fod yn amcangyfrifiad rhy isel.

Caiff gofalwyr sy'n oedolion ifanc eu diffinio fel gofalwyr rhwng 18 i 25 oed. Mae'r grŵp hwn yn arbennig o agored i drawsnewid pan fyddant yn gadael yr ysgol, ac yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu brofi anawsterau wrth geisio cydbwysu cyfrifoldebau gofalu gyda choleg neu brifysgol.

## 2.16 Cymunedau teithwyr a sipsiwn

Ym mis Ionawr 2020, roedd 227 o garfannau Sipsiwn a Theithwyr ac 13 safle (naw wedi'u hawdurdodi a phedwar heb eu hawdurdodi) wedi'u nodi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. O'r cyfanswm o garfannau, roedd 89% (203 o garfannau) ar safleoedd wedi'u hawdurdodi. O'r rhain, roedd 164 (81%) ar safleoedd awdurdod lleol ac roedd 39 (19%) ar safleoedd preifat.

Mae gan Gaerdydd y nifer uchaf o garfannau o blith yr holl 22 o awdurdodau lleol, sef 202. Adroddwyd bod yr holl garfannau yng Nghaerdydd ar y chwe safle awdurdodedig sydd ar gael.

Roedd gan Fro Morgannwg 25 o garfannau a nodwyd mai dim ond un oedd ar y tri safle awdurdodedig oedd ar gael. Adroddwyd bod y 24 carafan a oedd yn weddill ar bedwar safle heb eu hawdurdodi a oedd yn cael eu 'goddef', lle nad oedd yr awdurdod wedi mynd ati i gael gwared ar y gwrsyll. Dyma'r nifer uchaf o blith yr holl awdurdodau lleol. Roedd 19 o'r carfannau hyn ar diroedd nad oedd Sipsiwn a Theithwyr yn berchen arnynt.

**Tabl 2.15: Nifer y Carfannau Sipsiwn a Theithwyr yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, Ionawr 2020**

Ardal	Awdurdod		Safleoedd wedi'u hawdurdodi	Safleoedd heb eu hawdurdodi	Pob carafan
	Lleol	Preifat			
Caerdydd	164	38	202	0	202
Bro Morgannwg	0	1	1	24	25
BIP Caerdydd a'r Fro	164	39	203	24	227
Cymru	614	358	972	120	1092

Ffynhonnell: StatsCymru - Nifer y carfannau Sipsiwn a Theithwyr, Llywodraeth Cymru

Caerdydd sydd â'r nifer uchaf o leiniau a ddarperir gan awdurdodau lleol, gydag 80 o leiniau preswyl. Nid oedd unrhyw leiniau gan Fro Morgannwg. O'r 80 o leiniau preswyl a oedd ar gael yng Nghaerdydd, roedd 78 (98%) wedi'u meddiannu. Mae hyn ychydig yn llai na 2019, lle roedd 100% wedi'u meddiannu.

**Tabl 2.16: Nifer y lleiniau fesul statws preswyl, statws a feddiennir ac awdurdod lleol, ar Ionawr 2019 ac Ionawr 2020**

Ardal	Ionawr 2019			Ionawr 2020		
	Preswyl wedi'i feddiannu	Preswyl yn wag	Cyfanswm yr holl leiniau	Preswyl wedi'i feddiannu	Preswyl yn wag	Cyfanswm yr holl leiniau
Caerdydd	80	0	80	78	2	80
Bro Morgannwg	0	0	0	0	0	0

StatsCymru: Nifer y carafannau Sipsiwn a Theithwyr, Llywodraeth Cymru

## 2.17 Troseddwyr

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro un carchar EM yng Nghaerdydd, carchar lleol categori B ar gyfer carcharorion gwrywaidd sy'n oedolion. Mae'n garchar traddodiadol, sydd wedi'i leoli yng nghalon y ddinas, ac yn gwasanaethu llysoedd de-ddwyrain Cymru. Yn gyffredinol, mae'r carchar yn dal carcharorion heb eu heuogfarnu ac ar remand a charcharorion tymor byr sydd â dedfryd hyd at 12 mis. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a Bro Morgannwg yn darparu gwasanaethau iechyd i'r carchar.

Cynhaliwyd arolygiad heb ei gyhoeddi gan Arolygiaeth Carchardai EM rhwng 15 a 26 Gorffennaf 2019. Daw'r wybodaeth isod o adroddiad yr arolygiad ac mae'n rhoi cipolwg ar boblogaeth y carchar ac anghenion iechyd y carchar yn ystod y cyfnod hwn.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y carchar yn dal ychydig o dan 750 o garcharorion. Roedd gan tua 20% o'r carcharorion ddedfrydau byr ac roedd 70% wedi bod yng Nghaerdydd ers llai na thri mis. Mae gan y carchar drosiant uchel, ac yn rhyddhau dros 200 o garcharorion y mis ar gyfartaledd. Yr oedran isaf a'r oedran uchaf yn y carchar yw 18 oed a 75 oed. Roedd y mwyafrif helaeth o'r carcharorion rhwng 21 a 49 oed (89%), ac roedd y gyfran uchaf rhwng 30 a 39 oed (39%). Roedd 92% o'r carcharorion yn Brydeinig. Mae canfyddiadau allweddol o'r adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- Nododd 65% o garcharorion a oedd yn cyrraedd y carchar fod ganddynt broblem iechyd meddwl.
- Nododd 44% fod ganddynt anabledd.
- Dywedodd 33% fod ganddynt broblem alcohol cyn iddynt ddod i'r carchar. Yn ystod y chwe mis cyn yr arolygiad, roedd angen dadwenwyno dros 350 o gleifion rhag alcohol.
- Dywedodd 51% fod ganddynt broblem cyffuriau cyn iddynt ddod i'r carchar. Dywedodd 20% eu bod wedi datblygu problem cyffuriau anghyfreithlon tra eu bod yn y carchar.
- Roedd 40% o boblogaeth y carchar wedi cael eu cyhuddo, neu eu cael yn euog o drais domestig.
- Roedd nifer yr achosion o hunan-niweidio wedi treblu ers yr arolygiad blaenorol yn 2016, gyda nifer fach o garcharorion yn hunan-niweidio yn rheolaidd.

- Dros y chwe mis blaenorol, roedd 47% o garcharorion wedi cael eu rhyddhau heb fod ganddynt gartref i fynd iddo.

## 2.18 Y digartref a'r sawl sy'n cysgu allan

Mae'r ymarfer monitro cenedlaethol ar gyfer y sawl sy'n cysgu allan yn cynnwys cyfrif ciplun un noson, yn ogystal â data a gesglir dros gyfnod o bythefnos, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sawl sy'n cysgu allan ledled Cymru. Gall ystod o ffactorau effeithio ar yr ymarfer monitro, yn enwedig ar y cyfrif un noson, gan gynnwys lleoliad, amseru, tywydd a dulliau ymwneud â gwasanaethau, ac mae'n bwysig cofio hyn wrth ystyried y canlyniadau.

Mae'r cyfrif amcangyfrifedig yn seiliedig ar ddata a gasglwyd dros gyfnod o bythefnos, rhwng 14 a 27 Hydref 2019, gyda chymorth gan y sector gwirfoddol, grwpiau ffydd, busnesau/preswylwyr lleol, asiantaethau iechyd a chamddefnyddio sylweddau, a'r heddlu. Dros y cyfnod hwn, roedd gan Gaerdydd y nifer amcangyfrifedig uchaf o bobl a oedd yn cysgu allan (92) yng Nghymru, sef gostyngiad o wyth o bobl ers 2018. Roedd gan Fro Morgannwg un o'r niferoedd amcangyfrifedig isaf o bobl a oedd yn cysgu allan, gyda dim ond un person a oedd yn cysgu allan, yr un peth â 2018.

Cynhaliwyd y cyfrif ciplun un noson rhwng 10pm ddydd Iau 7 Tachwedd a 5am ddydd Gwener 8 Tachwedd 2019. Caerdydd (57) oedd â'r nifer uchaf o bobl a oedd yn cysgu allan (57) o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd ganddi hefyd y nifer uchaf o welyau brys (114), yr oeddent oll wedi'u meddiannu ar noson y cyfrif. I gymharu, roedd gan Fro Morgannwg y nifer isaf o bobl a oedd yn cysgu allan (un) ac felly nid oes ganddi unrhyw welyau brys.

Mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith ar nifer y bobl sy'n cysgu allan, gyda mwy o bobl yn cael eu cefnogi i gael llety, a llai o bobl yn cysgu allan yn ystod y pandemig.

**Tabl 2.17: Nifer y bobl sy'n cysgu allan fesul awdurdod lleol, bwrdd iechyd, Cymru, 2019-2020.**

Ardal	Cyfanswm y bobl sy'n cysgu allan	Cyfanswm nifer y gwelyau brys	Nifer oedd ar gael ar noson y cyfrif	Nifer amcangyfrifedig y bobl sy'n cysgu allan
Caerdydd	57	114	0	92
Bro Morgannwg	1	0	0	1
BIP Caerdydd a'r Fro	58	114	0	93
Cymru	176	210	16	405

Ffynhonnell: StatsCymru - Cyfrif Cenedlaethol y Bobl sy'n Cysgu Allan, Llywodraeth Cymru

### 3 Anghenion iechyd cyffredinol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro


Drwy gydol y bennod hon, mae cyfraddau wedi'u safoni yn ôl oedran oni nodir fel arall, i addasu ar gyfer effaith oedran rhwng ardaloedd ac i ganiatáu gwell cymhariaeth. Lle caiff cyfraddau safonedig yn ôl oedran eu cyflwyno, mae'r cyfraddau wedi'u safoni'n uniongyrchol i'r boblogaeth safonol Ewropeaidd yn 2013.

Lle defnyddir data o'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau (QOF), dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data. Mae data QOF a adroddir yn dibynnu ar ddiagnosis a chofnodi o fewn y practis cyffredinol. Mae hefyd yn dibynnu ar nodweddion cymdeithasol a demograffig y boblogaeth a'u parodrwydd i ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd.

#### 3.1 Cyflyrau hirdymor

Mae DALY (blynyddoedd bywyd wedi'u haddasu yn ôl anabledd) yn ystyried marwolaeth gynamserol a dioddef sy'n gysylltiedig ag iechyd, i bortredu cyfanswm nifer y blynyddoedd o fywyd iach a gollwyd oherwydd yr holl achosion. Yng Nghymru, mae clefyd isgemia'r galon yn parhau i fod y prif achos o farwolaeth ac anabledd yng Nghymru yn 2019, er bod hyn wedi gostwng ers 2009. Ers 2009, gwelir y cynnydd mwyaf mewn haint anadlu isaf, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD), cwmpadau a chlefyd Alzheimer.

**Ffigur 3.1: Deg prif achos marwolaeth ac anabledd (DALYs) yng Nghymru yn 2019 a newid canrannol rhwng 2009 a 2019, pob oedran wedi'i gyfuno**



Ffynhonnell: Y Sefydliad Metrigau a Gwerthuso Iechyd (IHME). Proffil Cymru.

Mae cyflyrau iechyd cronig yn dueddol o ddod yn fwy cyffredin gydag oedran. Yn seiliedig ar ddata gan bractisau meddygon teulu a adroddwyd gan QOF 2019, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro nifer amcangyfrifedig is o achosion o

gyflyrau iechyd cronig, o gymharu â chyfartaledd Cymru. Ar lefel awdurdod lleol, mae gan Gaerdydd hefyd nifer is o achosion o gyflyrau iechyd cronig tra bod gan Fro Morgannwg nifer amcangyfrifedig is o achosion o gyflyrau cronig ac eithrio methiant y galon, a strôc a phyliau o isgemia dros dro, sydd yr un peth â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Ar y cyfan, mae gan Fro Morgannwg nifer amcangyfrifedig uwch o achosion o gyflyrau iechyd cronig o gymharu â Chaerdydd, gan adlewyrchu ei phoblogaeth hŷn.

**Tabl 3.1: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o gyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**


Ardal	Canran					
	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	COPD	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phyliau o isgemia dros dro
Caerdydd	6.6	2.5	1.6	4.9	0.8	1.6
Bro Morgannwg	6.8	3.3	1.9	5.5	1.1	2.1
BIP Caerdydd a'r Fro	6.7	2.7	1.7	5.0	0.9	1.7
Cymru	7.1	3.6	2.4	6.1	1.1	2.1

Ffynhonnell: QOF 2019

### 3.1.1 Canser

Y ffurfiau mwyaf cyffredin o ganser yng Nghymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chaerdydd yw canser y prostad, y fron, yr ysgyfaint, y colon a'r rhefr, a'r colon (2013 i 2017). Ym Mro Morgannwg, mae nifer yr achosion o ganser y colon a'r rhefr yn uwch na chanser yr ysgyfaint.

**Ffigur 3.2: Cyfraddau safonedig yn ôl oedran Ewropeaidd (EASR) ar gyfer nifer yr achosion o ganser, yn ôl math o ganser ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, 2013 i 2017**



Ffynhonnell: Cofrestrfa Canser  
Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru

Yng Nghymru, Caerdydd, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y ffurfiau mwyaf cyffredin o ganser ymhlith menywod yw canser y fron, yr ysgyfaint, y colon a'r rhefr, y colon a'r groth. Ym Mro Morgannwg, mae canser y colon a'r rhefr yn fwy cyffredin na chanser yr ysgyfaint ac mae melanoma yn fwy cyffredin na chanser y groth. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y ffaith, o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill:

- bod gan Fro Morgannwg (58.2 fesul 100,000 o fenywod) y bedwaredd gyfradd isaf o ganser yr ysgyfaint, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (69.1 fesul 100,000 o fenywod).
- Mae gan Fro Morgannwg (34.2 fesul 100,000 o fenywod) y nifer uchaf o achosion o felanoma, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (24.8 fesul 100,000 o fenywod).

Y mathau mwyaf cyffredin o ganserau ar gyfer dynion yng Nghymru a Bro Morgannwg yw canser y prostad, y colon a'r rhefr, yr ysgyfaint, y colon a'r rectwm. Roedd hyn yn wahanol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chaerdydd, lle mai canser yr ysgyfaint yw'r ail ganser uchaf, wedi'i ddilyn gan ganser y colon a'r rhefr, ac mae canser y pen a'r gwddf yn fwy cyffredin na chanser y rectwm. O'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill:

- Mae gan Fro Morgannwg (208.2 fesul 100,000 o ddynion) y bedwaredd gyfradd uchaf o ran nifer yr achosion o ganser y prostad, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (184.5 fesul 100,000 o ddynion).
- Caerdydd (19.9 fesul 100,000 o ddynion) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (19.8 fesul 100,000 o ddynion) sydd â'r nifer uchaf o achosion o ganser yr afu mewn dynion o blith yr holl awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (14.3 fesul 100,000 o ddynion). Bro Morgannwg sydd â'r ail gyfradd uchaf (19.2 fesul 100,000 o ddynion).
- Mae gan Fro Morgannwg (38.2 fesul 100,000 o ddynion) yr ail nifer uchaf o achosion o felanoma o blith yr holl awdurdodau lleol, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (29.9 fesul 100,000 o ddynion). Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (35.9 fesul 100,000 o ddynion) sydd â'r gyfradd uchaf o'r holl fyrddau iechyd ac mae'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Caerdydd (34.8 fesul 100,000 o ddynion) sydd â'r drydedd gyfradd uchaf.
- Caerdydd (101.7 fesul 100,000 o ddynion) sydd â'r pumed nifer uchaf o achosion o ganser yr ysgyfaint yng Nghymru a Bro Morgannwg (81.7 fesul 100,000 o ddynion) sydd â'r pedwerydd nifer isaf.
- Bro Morgannwg (100.8 fesul 100,000 o ddynion) sydd â'r pumed nifer uchaf o achosion o ganser y colon a'r rhefr yng Nghymru.
- Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (725.3 fesul 100,000 o ddynion) gyfradd sylweddol uwch o bob canser malaen ac eithrio canser y croen nad yw'n felanoma, na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (699 fesul 100,000 o ddynion), yr ail uchaf o blith yr holl fyrddau iechyd.

Rhwng 2015 a 2017, roedd gan Fro Morgannwg gyfradd marwolaeth is ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o ganser ac eithrio canser y colon a'r rhefr (31.1 fesul 100,000 o'r boblogaeth) o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Roedd ganddo gyfradd

marwolaeth sylweddol is ar gyfer cancer y tracea, y broncws a'r ysgyfaint (48.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth) o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (59.7 fesul 100,000 o'r boblogaeth).

Roedd gan Gaerdydd gyfradd marwolaeth o ganser ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ar draws y rhan fwyaf o fathau o ganser ac eithrio cancer y prostad (42.1 fesul 100,000 o ddynion), lle roedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (45.4 fesul 100,000 o ddynion).

**Tabl 3.2: Cyfraddau marwolaeth o ganser (safonedig yn ôl oedran fesul 100,000) ar gyfer pob cancer, cancer y colon a'r rhefr, cancer y fron ymhlith menywod, cancer y prostad a'r tracea, y broncws a chanser yr ysgyfaint, yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2015 i 2017**

Cyfraddau marwolaeth (safonedig yn ôl oedran) fesul 100,000 o'r boblogaeth						
Ardal	Pob cancer	Pob cancer - o dan 75 oed	Canser y colon a'r rhefr	Canser y fron ymhlith menywod	Canser y prostad	Canser y tracea, y broncws a'r ysgyfaint
Caerdydd	279.0	146.8	29.4	36.1	42.1	62.5
Bro Morgannwg	270.8	132.8	31.1	29.3	43.2	48.0
BIP Caerdydd a'r Fro	275.7	141.8	29.8	33.8	42.4	57.4
Cymru	278.6	144.4	28.9	33.9	45.5	59.7

Ffynhonnell: Mapiau Iechyd Cymru

### 3.1.2 Iechyd meddwl

Yn 2012, gwnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth deng mlynedd o'r enw "Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru". Ei phrif nod oedd gwella iechyd meddwl pawb ledled Cymru, a sicrhau bod pobl yn gallu cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn, ac yn y lle iawn.<sup>5</sup>

Yn seiliedig ar gyfraddau nifer yr achosion a adroddwyd yn QOF 2019, mae canrannau'r cleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru..

**Tabl 3.3: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

Ardal	Canran
Caerdydd	0.90
Bro Morgannwg	0.90
BIP Caerdydd a'r Fro	0.90
Cymru	1.00

Ffynhonnell: QOF 2019

<sup>5</sup>Llywodraeth Cymru (2012). "Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru". O: DRAFFT fersiwn 3 (gov.wales)

Mae lles meddyliol yn ffactor pwysig o safbwynt iechyd cyffredinol unigolyn. I fesur lles meddyliol, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn defnyddio Graddfa Lles Meddyliol Warwick a Chaeredin (WEMWBS), sy'n cynnwys 14 o gwestiynau sydd wedi'u hunanasesu. Mae'r sgorau'n amrywio o 14 i 70, lle mae'r sgorau uwch yn awgrymu lles meddyliol uwch. O'r holl fyrddau iechyd yng Nghymru, adroddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y sgôr gymedrig WEMWBS uchaf sef 52.5 allan o 70, a oedd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (51.4). Caerdydd (53.2) oedd â'r drydedd sgôr uchaf o'r holl awdurdodau lleol, ac roedd hefyd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Roedd gan Fro Morgannwg sgôr gymedrig WEMWBS is sef 50.0 allan o 70, a oedd yn ostyngiad o'r flwyddyn flaenorol a'r bedwaredd isaf o blith yr holl awdurdodau lleol. Mae hyn yn awgrymu bod gan bobl yng Nghaerdydd les meddyliol uwch na'r rhai ym Mro Morgannwg.

**Tabl 3.4: Arolwg Cenedlaethol Cymru - graddfa lles meddyliol gymedrig Warwick a Chaeredin (WEMWBS) wedi'i safoni yn ôl oedran ar gyfer oedolion sy'n 16 oed ac yn hŷn, yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2016 i 2019**

Ardal	2016 i 2017	2018 i 2019
Caerdydd	51.8	53.2
Bro Morgannwg	51.0	50.0
BIP Caerdydd a'r Fro	51.6	52.5
Cymru	50.9	51.4

Ffynhonnell: StatsCymru - Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn mesur lefelau unigrwydd yng Nghymru. Rhwng 2019 a 2020, adroddodd 15% o bobl 16 oed ac yn hŷn yng Nghymru eu bod yn unig. Roedd Caerdydd ychydig yn uwch ar 17%, ac roedd Bro Morgannwg ychydig yn is ar 14%. Yn ogystal, dangosodd canlyniadau'r arolwg fod 44% o'r rhai â salwch meddwl (yn cynnwys gorbryder ac iselder) yn unig, a dim ond 12% o'r rhai nad oedd ganddynt salwch o'r fath oedd yn unig, a oedd yn cefnogi ymhellach y cyswllt rhwng cyflyrau iechyd meddwl ac unigrwydd. Ymhlith y ffactorau allweddol eraill a nodwyd a oedd yn cyfrannu at unigrwydd, roedd iechyd cyffredinol gwael ac amddifadedd materol. Yn ogystal, adroddodd pobl unig eu bod yn llawer llai bodlon ar fywyd na'r rhai nad oeddent yn unig. Adroddodd pobl ifanc eu bod yn llawer llai tebygol o fod yn unig na phobl hŷn.<sup>6</sup> Gallai hyn esbonio'r ganran uwch o unigrwydd a adroddir yng Nghaerdydd o gymharu â Bro Morgannwg a Chymru. Nid yw effaith hirdymor pandemig y coronafeirws (COVID-19) ar lefelau unigrwydd yn glir eto.

Mae codi ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio a cheisio ei leihau wedi bod yn flaenoriaeth yng Nghymru ers lansio'r cynllun gweithredu cenedlaethol, 'Beth am siarad â fi' yn 2009 wedi'i ddilyn gan Beth am siarad â fi 2' bum mlynedd yn ddiweddarach. Dros y cyfnod 2014 i 2018, cyfradd safonedig yn ôl oedran yr achosion o hunanladdiad yng Nghymru oedd 12 fesul 100,000 o bobl 10 oed ac yn hŷn. Roedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyfradd safonedig yn ôl

6Llywodraeth Cymru (2020). Unigrwydd (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2019 i Fawrth 2020 O: [Unigrwydd \(Arolwg Cenedlaethol Cymru\): Ebrill 2019 i Fawrth 2020 | GOV.WALES](#)


oedran debyg sef 11.8 fesul 100,000 o bobl 10 oed ac yn hŷn. Ar lefel yr awdurdod lleol, roedd Caerdydd (11.4 fesul 100,000) ychydig yn is ac roedd Bro Morgannwg (13.7 fesul 100,000) yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.<sup>7</sup> Roedd yr holl gyfraddau wedi gostwng ers 2013 i 2017; fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli cyfraddau hunanladdiad oherwydd y niferoedd bach sydd dan sylw.

Mae'r Pum Ffordd at Les yn gyfres o negeseuon iechyd meddwl cyhoeddus sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sydd wedi'u hanelu at wella iechyd meddwl a lles y boblogaeth gyfan. Mae'n annog unigolion i wneud pum peth bob dydd i wella eu lles personol: cysylltu; bod yn egniol; cymryd sylw; dal ati i ddysgu; a rhoi.

### 3.2 Ymddygiadau ffordd o fyw

Mae'r defnydd o dybaco, pwysedd gwaed uchel, deiet afiach, gordewdra a defnydd niweidiol o alcohol wedi'u nodi fel y pum prif ffactor risg ar gyfer clefydau anhrosoglwyddadwy yng Nghymru yn 2019.

**Ffigur 3.3: Y 10 prif risg sy'n cyfrannu at gyfanswm nifer y DALYs yn 2019 a newid canrannol 2009 i 2019, gyda'r holl oedrannau wedi'u cyfuno<sup>8</sup>**



Ffynhonnell: Y Sefydliad Metrigau a Gwerthuso Iechyd (IHME). Proffil Cymru

#### 3.2.1 Smygu

Smygu sigarêts yw prif symbylydd marwolaethau ac anabledau cyfunol yng Nghymru yn 2019. Mae smygu a smygu goddefol yn gysylltiedig ag ystod o salwch difrifol gan gynnwys canserau a chlefyd y galon. Mae Llywodraeth Cymru wedi

<sup>7</sup> Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru (2019). Cyfraddau hunanladdiad 2014 i 2018, cyfraddau safonedig yn ôl oedran (EASR) fesul 100,000 o bobl sy'n 10 oed ac yn hŷn, sy'n defnyddio PHMY a MYE (ONS)

<sup>8</sup> Y Sefydliad Metrigau a Gwerthuso Iechyd (IHME).

Proffil Cymru. Seattle, WA: IHME, Prifysgol Washington, 2018. O: <http://www.healthdata.org/Wales>. (Cyrchwyd 11/02/2021)

cyflwyno nifer o bolisiau a deddfwriaethau yn ei ymrwymiad i leihau hyn, gan gynnwys y gwaharddiad ar smygu yn 2007, y gwaharddiad ar smygu mewn cerbydau gyda phlant yn 2015 a Chynllun Cyflawni Cymru ar Reoli Tybaco 2017 i 2020. Mae hyn wedi cyfrannu'n llwyddiannus at leihau baich clefydau o ganlyniad i smygu rhwng 2009 a 2019. O fis Mawrth 2021, mae deddfwriaeth newydd yn ehangu'r gofynion di-fwg i gynnwys tiroedd ysbyty, tiroedd ysgol a meysydd chwarae cyhoeddus, yn ogystal â gofal dydd awyr agored a lleoliadau gofalu am blant. At hynny, o fis Mawrth 2022, bydd gofyn i ystafelloedd gwely i smygwyr mewn gwestai, tai llety a llety hunan-ddarpar fod yn ddi-fwg. Yn ogystal, bydd angen i Unedau Iechyd Meddwl gael gwared ar unrhyw ystafelloedd smygu yn raddol erbyn 1 Medi 2022, a chaiff newidiadau eu gwneud i bwy sy'n gallu defnyddio ystafelloedd smygu penodedig mewn cartrefi gofal i oedolion a hosbisau i oedolion.<sup>9</sup>

Yn seiliedig ar ddata a gasglwyd rhwng 2018 a 2019 a 2019 a 2020 fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae 14.4% o oedolion yn adrodd eu bod yn smygu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Dyma'r gyfradd isaf o blith yr holl fyrddau iechyd ac roedd yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (17.4%). Ar lefel yr awdurdod lleol, adroddodd 14.2% o bobl eu bod yn smygu yng Nghaerdydd, yr ail gyfradd isaf o blith yr holl awdurdodau lleol. Dywedodd 16.2% o bobl eu bod yn smygu ym Mro Morgannwg. Cafwyd y gyfradd uchaf a adroddwyd o ddefnyddwyr e-sigaréts ym Mro Morgannwg (11.2%), a oedd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (6.4%).

**Tabl 3.5: Patrymau smygu ymhlith oedolion yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2018 i 2020**

Ardal	Canran y Smygwyr	Canran Cyn-smygwyr	Canran sydd erioed wedi smygu	Canran Defnyddwyr e-sigaréts
Caerdydd	14.2	31.1	54.7	6.2
Bro Morgannwg	16.2	31.1	52.7	11.2
BIP Caerdydd a'r Fro	14.4	31.3	54.3	7.1
Cymru	17.4	29.4	53.2	6.4

Ffynhonnell: StatsCymru - Arolwg Cenedlaethol Cymru

Dangosodd canlyniadau a gymerwyd o arolwg iechyd a lles y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) ar gyfer y flwyddyn adacemaidd 2017 i 2018, fod gan Gaerdydd (2.8%) a Bro Morgannwg (2.7%) nifer sylweddol is o smygwyr yn eu harddegau (rhwng 11 ac 16 oed) o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (3.6%). Roedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (2.8%) y nifer isaf o blith yr holl fyrddau iechyd ac roedd hefyd yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Ar gyfer e-sigaréts, roedd gan Gaerdydd (2.6%) gyfradd sylweddol is o ddefnyddwyr yn eu harddegau o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (3.3%). Roedd y defnydd o e-sigaréts ymhlith pobl yn eu harddegau yn uwch ym Mro Morgannwg (3.5%).

**Tabl 3.6: Canran yr ysmygwyr a defnyddwyr e-sigaréts ymhlith pobl yn eu harddegau yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2017 i 2018**

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2020). Y gyfraith ddi-fwg: canllaw ar y newidiadau o fis Mawrth 2021, Llywodraeth Cymru. <https://gov.wales/smoke-free-law-guidance-changes-march-2021-html>

Ardal	Canran y smygwyr Plant rhwng 11 ac 16 oed	Canran y defnyddwyr e-sigaréts Plant rhwng 11 ac 16 oed
Caerdydd	2.8	2.6
Bro Morgannwg	2.7	3.5
BIP Caerdydd a'r Fro	2.8	3.0
Cymru	3.6	3.3

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru - HBSC a SHRN (DECIPHer)

Dangosodd data yn seiliedig ar ddarparwyr a gasglwyd rhwng 2017 a 2018, fod gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (13.4%) gyfradd sylweddol is o smygu yn ystod beichiogrwydd o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (17.8%)<sup>10</sup>.

Er bod cyfraddau smygu yn gostwng yng Nghymru, ceir gwahaniaeth sylweddol o hyd rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol. Mae'r gyfradd smygu yn y pumed mwyaf difreintiedig yn parhau i fod yn fwy na dwbl y gyfradd yn y pumed lleiaf difreintiedig.


<sup>10</sup>Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru (2020). <sup>10</sup>Smygu yng Nghymru Set ddata dangosyddion mamolaeth, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)

### Ffigur 3.4: Nifer yr oedolion sy'n smygu, canran safonedig yn ôl oedran, pobl 16 oed ac yn hŷn, fesul pumedau amddifadedd, Cymru, 2016 i 2017 a 2018 i 2019

Adult smoking prevalence, age-standardised percentage, persons aged 16+, Wales by deprivation fifth, 2016/17 to 2018/19

Produced by Public Health Wales Observatory, using NSW & WIMD (WG)

— 95% confidence interval



Yn ogystal â newidiadau i ddeddfwriaeth, mae gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu wedi cyfrannu at leihau baich clefydau o ganlyniad i smygu rhwng 2009 a 2019. Mae gan y gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3 a ddarperir gan fferyllfeydd yng Nghymru y ganran uchaf o smygwyr a gafodd driniaeth (50.6%) a smygwyr y cadarnhawyd drwy fonitro carbon monocsid (CO) eu bod wedi llwyddo i roi'r gorau i smygu (46.2%).

**Tabl 3.7: Smygwyr a gafodd driniaeth a'r rhai y cadarnhawyd drwy fonitro carbon monocsid eu bod wedi llwyddo i roi'r gorau i'r smygu (drwy ddefnyddio monitor carbon monocsid) 4 wythnos ar ôl y dyddiad rhoi'r gorau i smygu, nifer a chanran, pobl 16 oed ac yn hŷn, Cymru, 2018 i 2019**

Gwasanaeth	Smygwyr y cadarnhawyd drwy fonitro carbon monocsid (CO) eu bod wedi llwyddo i roi'r gorau i smygu	Canran y smygwyr y cadarnhawyd drwy fonitro carbon monocsid (CO) eu bod wedi llwyddo i roi'r gorau i smygu	Smygwyr a gafodd driniaeth	Canran y smygwyr a gafodd driniaeth
Pob gwasanaeth	6753		15599	
Gwasanaethau meddygon teulu mewnol	58	0.9	110	0.7
Gwasanaethau ysbyty mewnol	824	12.2	1703	10.9
Gwasanaethau lefel 3 mewn fferyllfeydd	3117	46.2	7889	50.6

Gwasanaeth Mamolaeth Arbenigol	71	1.1	238	1.5
Dim Smygu Cymru	2683	39.7	5659	36.3

Ffynhonnell: Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cynru, gan ddefnyddio Casgliad Data Gwasanaethau Rhoi'r Gorau i Smygu (Llywodraeth Cymru)

### 3.2.2 Gorbwysedd

Yng Nghymru, gorbwysedd neu bwysedd gwaed uchel yw'r ail ffactor risg mwyaf ar gyfer anabledd a chlefydau yn 2019. Mae'n ffactor risg mawr ar gyfer clefyd y galon, strôc, clefyd yr arennau, clefyd rhydweliol ymylol a dementia fasgwlaidd. Gall ei ganfod yn gynnar a'i reoli'n effeithiol ei atal rhag datblygu'n glefyd cardiofasgwlaidd. Er bod gorbwysedd yn cael ei ddisbarthu fel mwy o ffactor risg glinigol, mae dewisiadau ffordd o fyw megis gormod o halen, deiet wael a gordewrda, gormod o alcohol, dim digon o ymarfer corff, lles meddyliol a straen oll yn effeithio ar ymdrechion i'w atal neu ei leihau. Mae baich pwysedd gwaed uchel ar ei uchaf ymhlith unigolion o gartrefi incwm isel a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig<sup>11</sup>.

Yn seiliedig ar gyfraddau a adroddwyd gan QOF 2019, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (12.6%) nifer is o achosion o orbwysedd na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (15.8%). Caerdydd (11.8%) sydd â'r nifer isaf o achosion o orbwysedd o fewn ardal y bwrdd iechyd, sy'n adlewyrchu ei boblogaeth iau, a Bro Morgannwg sydd â'r nifer uchaf, sef 14.9%.

**Tabl 3.8: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

Ardal	Nifer ganrannol yr achosion o orbwysedd
Caerdydd	11.8
Bro Morgannwg	14.9
BIP Caerdydd a'r Fro	12.6
Cymru	15.8

Ffynhonnell: QOF 2019

### 3.2.3 Deiet, Gweithgarwch Corfforol a Gordewrda

Mae bod dros bwysau neu'n ordew yn cynyddu'r risg o ystod eang o glefydau cronig, yn bennaf diabetes math 2, gorbwysedd, clefyd cardiofasgwlaidd yn cynnwys strôc yn ogystal â rhai mathau o ganser. Gall hefyd effeithio ar les unigolyn, ansawdd ei

<sup>11</sup>Public Health England (2017). Guidance Health matters: combating high blood pressure. O: <https://www.gov.uk/government/publications/health-matters-combating-high-blood-pressure/health-matters-combating-high-blood-pressure>

fywyd a'i allu i ennill arian. Deiet wael a diffyg ymarfer corff yw prif achosion bod dros bwysau ac yn ordew.<sup>12</sup>

Yn seiliedig ar ddata ar gyfer 2018 i 2019 a 2019 i 2020 a gasglwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru, gwnaeth 41.7% o'r boblogaeth oedolion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro adrodd eu bod o bwysau iach, gyda Mynegai Màs y Corff rhwng 18.5kg/m<sup>2</sup> ac o dan 25kg/m<sup>2</sup>. Dim ond 20.2% a nododd eu bod yn ordew, sef yr ail ganran isaf o blith yr holl fyrddau iechyd ac roedd yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (24.1%). Ar lefel yr awdurdod lleol, Caerdydd sydd â'r ail gyfran uchaf o bobl sy'n adrodd eu bod o bwysau iach (43.2%), sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae ganddo hefyd yr ail gyfran isaf o bobl sy'n adrodd eu bod yn ordew (18.4%), a oedd hefyd yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae gan Fro Morgannwg gyfran uwch o'i boblogaeth sy'n adrodd eu bod yn ordew (25.6%) a chyfran is sy'n adrodd eu bod o bwysau iach (36.5%) o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

---

<sup>12</sup>Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru. Gordewdra. O: <sup>12</sup>Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru Gordewdra yng Nghymru (2019).

**Tabl 3.9: Canran yr oedolion (16 oed ac yn hŷn) sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau ffordd o fyw yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2018 i 2019 a 2019 i 2020**

Ardal	Canran						
	Ffrwythau a llysiau		Gweithgarwch Corfforol			Mynegai Màs y Corff (kg/m <sup>2</sup> )	
	Dim o gwbl	O leiaf pum dogn	Llai na 30 munud	O leiaf 150 munud	18.5 - o dan 25 (pwysau iach)	25+ (dros bwysau neu'n ordedw)	30+ (gordew)
Caerdydd	4.3	33.9	29.4	56.9	43.2	55.3	18.4
Bro Morgannwg	6.2	26.4	29.7	55.2	36.5	60.3	25.6
BIP Caerdydd a'r Fro	4.8	32.1	29.4	56.8	41.7	56.3	20.2
Cymru	7.9	24.3	33.0	53.2	38.2	59.9	24.1

Ffynhonnell: StatsCymru - Arolwg Cenedlaethol Cymru

Cydnabyddir bod deiet a maeth gwael yn ffactorau risg mawr sy'n cyfrannu at salwch a marwolaeth gynamserol. O blith yr holl fyrddau iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sydd â'r gyfradd uchaf a adroddir ar gyfer y rhai sy'n bwyta o leiaf pum dogn o ffrwythau a llysiau'r dydd (32.1%), sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (24.3%). Mae ganddo hefyd y gyfran isaf o'r boblogaeth sy'n adrodd eu bod wedi bwyta dim ffrwythau na llysiau ar y diwrnod blaenorol (4.8%), sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (7.9%). O gymharu â Chymru, mae gan Gaerdydd (33.9%) gyfran sylweddol uwch sy'n honni eu bod yn bwyta o leiaf pum dogn o ffrwythau a llysiau'r dydd, yr uchaf o blith yr holl awdurdodau lleol. Mae ganddo gyfran sylweddol is (4.3%) o bobl sy'n adrodd eu bod wedi bwyta dim y diwrnod blaenorol, yr ail isaf o blith yr holl awdurdodau lleol. Mae gan Fro Morgannwg gyfran is o'i boblogaeth sy'n adrodd eu bod yn bwyta o leiaf pum dogn o ffrwythau a llysiau'r dydd (26.4%) a chyfran uwch (6.2%) sy'n adrodd eu bod wedi bwyta dim ffrwythau na llysiau'r diwrnod blaenorol.

Yn gyffredinol, po fwyaf o amser a dreulir yn gwneud ymarfer corff, y mwyaf yw'r manteision iechyd. I oedolion, argymhellir y canlynol bob wythnos: o leiaf 150 munud (2 1/2 awr) o weithgarwch cymedrol (megis cerdded yn gyflym neu seiclo); neu 75 munud o weithgarwch egnïol (fel rhedeg); neu hyd yn oed cyfnodau byrrach o weithgarwch egnïol iawn (fel gwibio neu ddringo'r grisiau); neu cyfuniad o weithgarwch cymedrol, egnïol ac egnïol iawn. Argymhellir hefyd bod oedolion yn gwneud gweithgareddau i ddatblygu neu gynnal eu cryfder yn y prif grwpiau cyhyrau, a dylent anelu at leihau faint o amser a dreulir yn bod yn llonydd.<sup>13</sup>

Mae poblogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar y cyfan, yn gwneud mwy o weithgarwch corfforol na'r rhan fwyaf o Gymru. Roedd gan Gaerdydd (56.9%) a Bro Morgannwg (55.2%) ganran uwch o'u poblogaeth a oedd yn adrodd eu bod yn gwneud gweithgarwch corfforol am o leiaf 150 o funudau'r wythnos, o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (53.2%). Roedd gan Gaerdydd (29.4%) a Bro Morgannwg (29.7%) hefyd ganran is o'u poblogaeth a oedd yn adrodd eu bod yn

<sup>13</sup>Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2020). Canllawiau Gweithgarwch Corfforol Prif Swyddogion Meddygol y DU.

Ar gael yn: [Error! Hyperlink reference not valid.](#)

gwneud gweithgarwch corfforol am lai na 30 o funudau'r wythnos, o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (33.0%).

### 3.2.4 Alcohol

Mae alcohol yn parhau i fod yn her iechyd cyhoeddus fawr yng Nghymru. Mae'n gysylltiedig â datblygu llawer o gyflyrau iechyd fel pwysedd gwaed uchel, clefyd y galon, sirosis yr afu a chanserau'r geg, y gwddf a chanser y fron. Mae camddefnyddio alcohol yn gallu achosi cwympiadau, damweiniau ac anafiadau, yn ogystal â phroblemau cymdeithasol fel trais a throseddau.

Yn 2016, cyhoeddodd Prif Swyddog Meddygol y DU ganllawiau newydd yn cynghori na ddylid yfed mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos i gadw risgiau iechyd yn isel.<sup>14</sup> Yn seiliedig ar ddata cyfunol ar gyfer 2018 i 2019 a 2019 i 2020, a gasgwlyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae mwy nag un o bob pum oedolyn (18.6%) yn genedlaethol yn yfed mwy na'r terfyn wythnosol a argymhellir sef 14 uned o alcohol yr wythnos.

O blith yr holl fyrddau iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (21.6%) sydd â'r gyfran uchaf o'i boblogaeth sy'n adrodd eu bod yn yfed yn fwy na'r unedau wythnosol a argymhellir. Bro Morgannwg (25.2%) sydd â'r gyfran uchaf o blith yr holl awdurdodau lleol, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae gan Gaerdydd gyfran is (20.2%), er ei bod yn dal i fod yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

**Tabl 3.10: Faint o alcohol a yfir ar gyfartaledd yr wythnos yn uwch na'r canllawiau a argymhellir yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2018 i 2020**


Faint o alcohol a yfir ar gyfartaledd yr wythnos - yn fwy na'r 14 uned (dros y canllawiau)	
Ardal	
Caerdydd	20.2
Bro Morgannwg	25.2
BIP Caerdydd a'r Fro	21.6
Cymru	18.6

Ffynhonnell: StatsCymru - Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae'r siart isod yn amlygu'r patrymau yfed a adroddir yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o gymharu â Chymru.

<sup>14</sup>Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2016). Guidance: Alcohol consumption: advice on low risk drinking. Ar gael yn: [UK Chief Medical Officers' Low Risk Drinking Guidelines \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/544212/uk-chief-medical-officers-low-risk-drinking-guidelines.pdf)

**Ffigur 3.5: Lefelau yfed wythnosol oedolion yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru**



Ffynhonnell: StatsCymru - Arolwg Cenedlaethol Cymru

**Lefelau yfed**

Unigolyn nad yw'n yfed  
- 0 uned fel arfer

Cymedrol - Hyd at ac  
yn cynnwys 14 uned

Peryglus - > 14 i 50  
uned ar gyfer dynion  
neu >14 i 35 uned ar  
gyfer menywod

Niweidiol - 50 uned yr  
wythnos neu fwy ar  
gyfer dynion a 35 uned  
yr wythnos neu fwy ar


Mae gan Fro Morgannwg (15.0%) ganran sylweddol is o bobl nad ydynt yn yfed o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (20.9%). Mae ganddo hefyd gyfran sylweddol uwch o'i boblogaeth (21.5%) sy'n adrodd eu bod yn yfed ar lefel beryglus, o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (16.1%), yr uchaf o blith yr holl awdurdodau lleol.

Mae derbyniadau i'r ysbyty sy'n ymwneud ag alcohol yn cael eu defnyddio fel ffordd o ddeall effaith alcohol ar iechyd y boblogaeth. Yn 2017 i 2018, cafwyd oddeutu 14,600 o dderbyniadau i'r ysbyty a oedd yn ymwneud yn benodol ag alcohol (yn gwbl briodoladwy i alcohol) yng Nghymru, ac roedd bron dwbl y derbyniadau yn ddynion yn hytrach na menywod.

Roed gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (428 fesul 100,000 o bobl) a Chaerdydd (415 fesul 100,000 o bobl) gyfraddau derbyn a oedd yn ymwneud yn benodol ag alcohol sylweddol llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (477 fesul 100,000 o bobl). Roedd gan Fro Morgannwg gyfradd derbyniadau a oedd yn ymwneud yn benodol ag alcohol o 462 fesul 100,000 o bobl, a oedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

**Ffigur 3.6: Derbyniadau sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol (yn gwbl briodoladwy i alcohol - naill ai fel diagnosis sylfaenol neu eilaidd), cyfraddau safonedig yn ôl oedran Ewropeaidd fesul 100,000 o bobl yn ôl awdurdod lleol, 2017 i 2018**

Alcohol-specific admissions, European age-standardised rates per 100,000, persons, Wales local authorities, 2017/18  
 Produced by Public Health Wales Observatory, using PEDW(NWIS) and MYE(ONS)  
 ┆ 95% confidence interval




Mae marwolaethau sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol yn cynrychioli marwolaethau yr ystyrir eu bod wedi'u hachosi'n gyfan gwbl gan alcohol. Cafodd y mwyafrif helaeth o'r 1,170 o farwolaethau a oedd yn ymwneud yn benodol ag alcohol yng Nghymru yn 2015 i 2017 eu hachosi gan glefyd alcoholaidd yr afu - bron naw o bob 10 o ddynion a thros wyth o bob 10 o fenywod. Roedd achosion eraill yn cynnwys cyflyrau meddyliol ac ymddygiadol a gwenwyno damweiniol gan alcohol/trwy gysylltiad ag alcohol.<sup>15</sup>

Yn 2015 i 2017, roedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyfradd marwolaeth yn ymwneud yn benodol ag alcohol o 11.5 fesul 100,000 o bobl, a oedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (12.7 fesul 100,000 o bobl).

<sup>15</sup>Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru (2019). Alcohol yng Nghymru. O: [Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru Alcohol yng Nghymru \(2019\)](#)

### Ffigur 3.7: Cyfraddau marwolaeth sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol, safonedig yn ôl oedran Ewropeaidd, fesul 100,000 o bobl, yn ôl bwrdd iechyd a Chymru, 2015 i 2017.

Alcohol-specific mortality, European age-standardised rates per 100,000, persons, Wales health boards, 2015-17  
Produced by Public Health Wales Observatory, using PHM and MYE (ONS)  
— 95% confidence interval



Mae marwolaethau priodoladwy i alcohol yn cofnodi marwolaethau y gellir eu priodoli'n rhannol i ddefnyddio alcohol, yn seiliedig ar achos sylfaenol y farwolaeth. Mae gan Gaerdydd a Bro Morgannwg yr un gyfradd marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol (50.50 fesul 100,000 o bobl), sy'n llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (52.6 fesul 100,000 o bobl).<sup>6</sup>

### 3.3. Heneiddio iach

#### 3.3.1 Pwysau geni isel

Mae ffordd o fyw ymhlith mamau megis smygu yn effeithio ar bwysau geni isel. Mae pwysau geni yn wrthgysylltiedig â marwolaethau babanod, disgwyliad oes, ac mae'n rhoi arwydd o gychwyn cyflyrau cronig yn ystod bywyd oedolyn.<sup>16</sup>

Yn 2018, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (4.6%) oedd â'r ganran isaf o bwysau geni isel o blith yr holl fyrddau iechyd. Roedd gan Fro Morgannwg (4.1%) yr ail ganran isaf o bwysau geni isel o blith yr holl awdurdodau lleol ac roedd gan Gaerdydd y drydedd gyfradd isaf, sef 4.7%. Roeddent i gyd yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (5.6%).

**Tabl 3.11: Canran y genedigaethau pwysau geni isel (o dan 2500g) yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2018**

Ardal	Canran
Caerdydd	4.7
Bro Morgannwg	4.1
BIP Caerdydd a'r Fro	4.6
Cymru	5.6

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru.

<sup>16</sup>Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014). Pwysau Geni Isel Adolygiad o ffactorau risg ac ymyriadau Adroddiad Cryno. O: [Pwysau Geni Isel - crynodeb v1.pdf \(wales.nhs.uk\)](#)

### 3.3.2 Bwydo ar y fron

Mae bwydo ar y fron yn rhoi'r dechreuad maethol gorau mewn bywyd i'ch babi. Roedd canran y babanod a gafodd eu bwydo ar y fron yn unig yn 10 diwrnod oed yn dilyn eu genedigaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (46.1%) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (35.2%). Yn ogystal, roedd gan Gaerdydd (47.5%) a Bro Morgannwg (41.9%) ganran sylweddol uwch o fabanod a gafodd eu bwydo ar y fron yn unig yn 10 diwrnod oed yn dilyn eu genedigaeth, o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

**Tabl 3.12: Canran y babanod a oedd yn cael eu bwydo ar y fron yn 10 diwrnod oed yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2018**

Ardal	Canran
Caerdydd	47.5
Bro Morgannwg	41.9
BIP Caerdydd a'r Fro	46.1
Cymru	35.2

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru.

### 3.3.3 Plant sy'n byw mewn tloidi

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae 27% o bobl yng Nghaerdydd sydd o dan 18 oed yn byw mewn tloidi. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (24%) a'r pumed uchaf o blith yr holl awdurodau lleol. Mae gan Fro Morgannwg gyfran is, sef 19%.

**Tabl 3.13: Canran y bobl sy'n 0 i 18 oed sy'n byw mewn tloidi yn ôl awudrod lleol, a Chymru, 2017**

Ardal	Canran
Caerdydd	27
Bro Morgannwg	19
Cymru	24

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru.

### 3.3.4 Iechyd y geg

Mae pydredd dannedd ymhlith pobl ifanc yn rhywbeth y gellir ei atal i raddau helaeth. Gall arwain at boen, heintiau ac anawsterau o ran bwyta, cysgu a chymdeithasu. Mae iechyd y geg yn agwedd bwysig ar statws iechyd cyffredinol plentyn a'i barodrwydd at ysgol. Fe'i ystyrir yn arwydd o broblemau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, gan gynnwys maeth gwael a gordewdra.<sup>17</sup>

<sup>17</sup>Public Health England. Health Matters: Child dental health. O: [Health Matters: Child dental health - Public health matters \(blog.gov.uk\)https://publichealthmatters.blog.gov.uk/2017/06/14/health-matters-child-dental-health/](https://publichealthmatters.blog.gov.uk/2017/06/14/health-matters-child-dental-health/)

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (1.0), roedd nifer cyfartalog y dannedd oedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi mewn plant pum mlwydd oed yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (1.2). Roedd Bro Morgannwg (0.5) hefyd yn sylweddol is ac roedd ganddo'r nifer cyfartalog isaf o ddannedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi mewn plant pum mlwydd oed o blith yr holl awdurdodau lleol.

**Tabl 3.14: Nifer cyfartalog y dannedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi mewn plant pum mlwydd oed, yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2015 i 2016**

Ardal	Nifer cyfartalog y dannedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi mewn plant pum mlwydd oed
Caerdydd	1.1
Bro Morgannwg	0.5
BIP Caerdydd a'r Fro	1.0
Cymru	1.2

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru

### 3.3.5 Iechyd rhywiol

Yn 2018, roedd cyfradd y beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau yng Nghaerdydd yn 19.2 beichiogrwydd fesul 1,000 o ferched o dan 18 oed. Mae hyn yn uwch na'r cyfradd beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau ym Bro Morgannwg (13.3 beichiogrwydd fesul 1,000 o fenywod o dan 18 oed) a Chymru (18.9 beichiogrwydd fesul 1,000 o ferched o dan 18 oed).


**Tabl 3.15: Beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau, cyfradd fras fesul 1,000 o fenywod rhwng 15 ac 17 oed, yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2018.**

Enw	Cyfradd beichiogi fesul 1,000 o fenywod 15 i 17 oed
Caerdydd	19.2
Bro Morgannwg	13.3
Cymru	18.9

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Ystadegau Beichiogi, Cymru a Lloegr, 2018

Mae cyfraddau yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi parhau i ostwng dros y 10 mlynedd diwethaf.

**Ffigur 3.8: Bechiogrwydd fesul 1,000 o ferched o dan 18 oed yn ôl awdurdod lleol, 2009 i 2018**



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae achosion parhaus o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yng Nghymru. Rhwng 2011 a 2017, cafwyd cynnydd yn nifer yr achosion o sifflis, gonorea, clamydia, HIV, a herpes, a chafwyd gostyngiad yn nifer yr achosion o ddafadennau. Rhwng 2016 a 2017, cafwyd cynnydd sylweddol yn y diagnosisau ar gyfer sifflis a gonorea, tra bod y diagnosisau ar gyfer clamydia a HIV wedi aros yn sefydlog a'r achosion cyntaf o ddafadennau a herpes yr organau cenhedlu wedi gostwng.

Yng Nghymru, mae amrywiaeth daearyddol yn nifer yr achosion o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, yn ogystal â chyfraddau profi. Yn 2017, yn debyg i flynyddoedd blaenorol, roedd cyfradd gonorea ar ei uchaf yng Nghaerdydd, ac roedd cyfraddau clamydia ar eu huchaf yng Nghasnewydd, wedi'i ddilyn gan Dorfaen a Chaerdydd. Roedd canran y profion gonorea o glinigau iechyd rhywiol y cafwyd diagnosis positif ar eu cyfer ar ei huchaf ymhlith y rhai oedd yn byw yn awdurdodau lleol Caerdydd a Chonwy. Ar gyfer clamydia, roedd canran y profion positif ar ei huchaf ymhlith y rhai oedd yn byw ym Mro Morgannwg, Wrecsam a Merthyr Tudful.<sup>18</sup>

### 3.6.6 Eiddilwch a chwmpiadau ymhlith pobl hŷn <sup>19</sup>

Yng Nghymru, cwmpiadau yw seithfed prif achos anabledd a marwolaeth yng Nghymru yn 2019. Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o gwmpo. Maent hefyd yn fwy tebygol o ddioddef canlyniadau sylweddol, fel colli annibyniaeth a hyder, sy'n arwain at ddirywiad corfforol a meddyliol ac eiddilwch. Gall eiddilwch ei hun achosi

<sup>18</sup>Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru (Medi 2018). Tueddiadau HIV ac STI yn Adroddiad Arolygu Cymru [4ydd adroddiad chwarterol 1994 \[WP\] \(wales.nhs.uk\)](https://www.nhs.uk)

<sup>19</sup> NICE (2018). NICE impact falls and fragility fractures. O: <https://www.nice.org.uk/media/default/about/what-we-do/into-practice/measuring-uptake/nice-impact-falls-and-fragility-fractures.pdf>

chwmpadau. Gall eiddilwch naill fod yn gorfforol neu'n seicolegol, neu'n gyfuniad o'r ddau. Yn nodweddiadol, mae'n golygu bod person yn wynebu risg uwch o ddirywiad sydyn yn ei iechyd corfforol a meddyliol. Mae nodi pobl a allai fod yn byw gydag eiddilwch yn ymyrraeth allweddol wrth geisio atal chwmpadau.

Yn y DU, mae bron traean o bobl dros 65 oed yn chwmpo o leiaf unwaith a cheir amcangyfrif o 500,000 o doriadau esgyrn brau y flwyddyn. Mae osteoporosis yn gyflwr sy'n peri i'r esgyrn wanhau a mynd yn fwy brau. Mae pobl ag osteoporosis yn fwy tebygol o ddioddef toriad esgyrn brau.

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yr un ganran o gleifion wedi'u cofrestru ag osteoporosis â Chymru (0.3%). Mae Bro Morgannwg ychydig yn is, sef 0.2%.

**Tabl 3.16: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru ag osteoporosis yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

Ardal	Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru ag osteoporosis
Caerdydd	0.3
Bro Morgannwg	0.2
BIP Caerdydd a'r Fro	0.3
Cymru	0.3

Ffynhonnell: QOF 2019

Toriad clun yw un o'r toriadau esgyrn brau mwyaf cyffredin. Mae'n broblem iechyd y cyhoedd fawr, o ganlyniad i'r boblogaeth sy'n heneiddio'n gynyddol. Nododd y Gronfa Ddata Genedlaethol ar gyfer Toriadau Clun (NHFD), yn 2016, fod 6.7% o bobl wedi marw o fewn 30 diwrnod i gael toriad clun. Mae hyd at draean o bobl yn marw o fewn blwyddyn. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod gan lawer o'r bobl hyn gyflyrau hirdymor eraill, neu gallent fod yn byw gyda eiddilwch, yn hytrach na'r toriad clun ei hun.

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (569.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth) gyfradd toriad clun is ar gyfer personau sy'n 65 oed ac yn hŷn o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (579.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth). Bro Morgannwg sydd â'r gyfradd isaf (548.9 fesul 100,000 o'r boblogaeth) o fewn ardal y bwrdd iechyd a Chaerdydd sydd â'r gyfradd uchaf (582.7 fesul 100,000 o'r boblogaeth), sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

**Tabl 3.17: Toriadau clun, cyfradd safonedig yn ôl oedran Ewropeaidd fesul 100,000 o'r boblogaeth, pob person sy'n 65 oed ac yn hŷn yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2018 i 2019**

Ardal	Cyfradd
Caerdydd	582.7
Bro Morgannwg	548.9
BIP Caerdydd a'r Fro	569.6
Cymru	579.0

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru

### 3.3.7 Dementia

Mae Dementia yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio casgliad o symptomau yn cynnwys colli cof, problemau rhesymu, canfyddiad a sgiliau cyfathrebu. Fe'i achosir gan glefydau gwahanol yr ymennydd, yn fwyaf cyffredin clefyd Alzheimer. Mae dementia yn broblem iechyd a gofal cymdeithasol sylweddol sy'n effeithio nid yn unig ar y rhai sy'n byw gyda dementia, ond eu teuluoedd, ffrindiau a'u gofalwyr hefyd. Mae'n fwy cyffredin ymhlith pobl hŷn.

Clefyd Alzheimer yw degfed prif achos anabledau a marwolaeth (baich clefyd) yng Nghymru yn 2019.

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yr un gyfradd o achosion o ddementia â Chymru (0.7%). Mae Caerdydd ychydig yn is ar 0.6%.

**Tabl 3.18: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru â dementia yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

Ardal	Canran
Caerdydd	0.6
Bro Morgannwg	0.7
BIP Caerdydd a'r Fro	0.7
Cymru	0.7

Ffynhonnell: QOF 2019

### 3.4 Diogelu Data

Yn 2019 i 2020, roedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y ganran isaf o bobl a oedd yn manteisio ar frechlynnau o blith yr holl fyrddau iechyd, ar gyfer brechlynnau a roddir ar oeddrannau penodol. Roedd gan Gaerdydd y nifer isaf o bobl a oedd yn manteisio ar frechlynnau yng Nghymru, gyda Bro Morgannwg ychydig yn uwch, ac eithrio'r brechlyn '6 yn 1' DTaP/IPV/Hib/HepB1. Roedd canran y plant a oedd yn manteisio ar eu eu tri dos cyn cyrraedd eu pen-blwydd cyntaf yn 95.3% ym Mro Morgannwg, a oedd yn uwch na'r targed cenedlaethol, sef 95%. Roedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (94.2%) a Chaerdydd (93.9%) y nifer isaf o bobl a oedd yn manteisio ar frechlynnau o blith yr holl fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol, ac nid oeddent yn cyflawni'r targed cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod cyfradd ganrannol y bobl sy'n manteisio ar frechlynnau yn gymharol gul ar draws y 22 o awdurdodau lleol, gan amrywio o 93.9% yng Nghaerdydd i 98.3% yn Ynys Môn.

Cyflwynwyd y brechlyn Meningococcal serotype B (MenB) ym mis Medi 2015 ar gyfer y rhai a anwyd ar 1 Mai 2015 ymlaen. Roedd canran y plant a fanteisiodd ar y cwrs cyfan yn ddwy flwydd oed yn 93.8% ar gyfer cyfartaledd Cymru, a chafwyd y ganran isaf o blith yr holl fyrddau iechyd yng Nghymru ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (90.4%). Ar lefel awdurdod lleol, Caerdydd (89.3%) oedd â'r ganran isaf a dyma'r unig awdurdod lleol oedd o dan 90%. Roedd ystod y bobl a fanteisiodd ar y brechlynnau unwaith eto yn gymharol gul, yn amrywio o 89.3% yng Nghaerdydd i 96.7% yng Nghaerffili.

Roedd canran y plant preswyl a oedd yn cyrraedd eu pen-blwydd yn bedair mlwydd oed ac a oedd wedi cael yr holl frechlynnau a drefnwyd yn 86.7% ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Roedd y ganran hon yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (88%), fel yr oedd Caerdydd hefyd (85.6%). Roedd Bro Morgannwg yn uwch (89.8%). O blith yr holl imiwneiddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y mesur cyfansawdd hwn, mae nifer y bobl sy'n manteisio ar yr ail ddos o'r MMR yn parhau i fod yr isaf. Roedd canran y bobl a oedd wedi cael eu brechiadau rheolaidd i gyd erbyn eu bod yn bedair blwydd oed yn amrywio yn ôl cwntel amddifadedd cenedlaethol yr Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) yr oeddent yn preswyl ynddi. Yn genedlaethol, roedd canran y plant a oedd wedi cael eu himiwneiddiadau rheolaidd i gyd erbyn eu bod yn bedair blwydd oed yn amrywio o 84.0% yn y cwntel mwyaf difreintiedig o LSOAs i 91.7% yn y cwntel lleiaf difreintiedig o LSOAs. Roedd y

gwahaniaeth o ran nifer y bobl a gafodd y brechlynnau rhwng y cwintel lleiaf difrientiedig a'r cwintel mwyaf difreintiedig yn 7.7%.

Roedd canran y plant a fanteisiodd ar ddau ddos o'r MMR erbyn eu bod yn bum mlwydd oed yn 92.1% ar gyfer y bwrdd iechyd, yr un peth â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Roedd nifer y plant yn eu harddegau a oedd wedi manteisio ar y ddau ddos o MMR yn 16 oed rhwng 01/09/2019 a 31/08/2020 yn 91.5% ar gyfer cyfartaledd Cymru ac 88.3% ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Caerdydd (87.8%) oedd â'r gyfradd isaf o bobl a fanteisiodd ar y brechlynnau o blith yr holl awdurdodau lleol. Roedd Bro Morgannwg (89.6%) hefyd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ond roedd ganddo'r gyfradd uchaf o fewn ardal y bwrdd iechyd. Roedd ystod y bobl a fanteisiodd ar y brechlynnau unwaith eto yn gymharol gul, yn amrywio o 87.8% yng Nghaerdydd i 95.9% ym Mlaenau Gwent.

**Tabl 3.19: Canran y plant a fanteisiodd ar frechlynnau yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019 i 2020**

Ardal	Imiwneiddio				
	'6 mewn 1'	Men B	Diweddariad	MMR 2 5	MMR 2 16
	1 flynedd	2 flynedd	4 blynedd	mlynedd	mlynedd
Caerdydd	93.9	89.3	85.6	91.7	87.8
Bro Morgannwg	95.3	93.6	89.8	93.3	89.6
BIP Caerdydd a'r Fro	94.2	90.4	86.7	92.1	88.3
Cymru	95.8	93.8	88.0	92.1	91.5

Ffynhonnell: COVER - Nifer y Plant sy'n Manteisio ar Frechlynnau yng Nghymru. Adroddiad blynyddol 2020

Roedd canran y bobl 65 oed ac yn hŷn a fanteisiodd ar y brechlyn fflw yng Nghymru yn 69.4%, cynnydd o gymharu â 68.3% rhwng 2018 a 2019. O'r holl imiwneiddiadau fflw a roddwyd i'r rhai 65 oed ac yn hŷn, cafodd 90% eu rhoi erbyn yr wythnos yn gorffen 1 Rhagfyr 2019. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, roedd nifer y bobl a fanteisiodd ar frechlynnau yn uwch, sef 71.2%, cynnydd o gymharu â 69.9% y flwyddyn flaenorol. Roedd nifer uwch o bobl yn manteisio ar frechlynnau ym Mro Morgannwg (71.7%) o gymharu â Chaerdydd (71%). Ni chyflawnwyd y targed cenedlaethol o 75% gan unrhyw fwrdd iechyd nac awdurdod lleol yng Nghymru.

Yng Nghymru, roedd nifer y bobl fanteisiodd ar frechlynnau rhwng 6 mis oed a 64 oed mewn grŵp risg glinigol yn 44.1%, yr un peth â 2018 i 2019. O'r holl imiwneiddiadau a roddwyd i'r rhai rhwng chwe mis oed a 64 oed mewn grwpiau risg glinigol, cafodd 90% eu rhoi erbyn yr wythnos yn gorffen 5 Ionawr 2020<sup>21</sup>. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, roedd nifer y bobl a fanteisiodd ar frechlynnau yn is, sef 43.8%, gostyngiad bach o gymharu â 44.0% y flwyddyn flaenorol. Roedd nifer is o bobl yn manteisio ar frechlynnau ym Mro Morgannwg (42.8%) o gymharu â Chaerdydd (44.2%). Ni chyflawnwyd y targed cenedlaethol o 55% gan unrhyw fwrdd iechyd nac awdurdod lleol yng Nghymru.

Yng Nghymru, cafodd 50.7% o blant rhwng dwy a tair blwydd oed (ar 31 Awst 2019) eu himiwneiddio yn erbyn y fflw mewn practisau cyffredinol rhwng 1 Medi 2019 a 31

Mawrth 2020. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (46.2%) oedd â'r ganran isaf o bobl a fanteisiodd ar frechlynnau o blith yr holl fyrddau iechyd.

**Tabl 3.20: Canran y bobl a fanteisiodd ar imiwneiddiad fflw fesul grŵp oedran, yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019 i 2020**

Ardal	Cleifion 65 oed ac yn hŷn		Cleifion 6 mis oed i 64 oed sy'n wynebu risg		Cleifion 2 a 3 blwydd oed	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Caerdydd	39,116	71.0	22,108	44.2	3,981	45.8
Bro Morgannwg	19,654	71.7	7,279	42.8	1,364	47.3
BIP Caerdydd a'r Fro	58,770	71.2	29,387	43.8	5,345	46.2
Cymru	469,497	69.4	197,481	44.1	34,504	50.7

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru - Y Fflw Tymhorol yng Nghymru - Adroddiad Blynyddol 2019 i 2020

## 4 Grwpiau cleifion a nodwyd - materion iechyd penodol

Nodwyd bod y grwpiau cleifion canlynol yn byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, neu'n ymweld â'r ardal:

- Y rheini sy'n rhannu un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig canlynol Deddf Cydraddoldeb 2010,
  - Oedran
  - Anabledd, a ddiffinnir fel amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol fawr neu hirdymor ar allu unigolyn i wneud tasgau beunyddiol arferol
  - Beichiogrwydd a mamolaeth
  - Hil, sy'n cynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol
  - Crefydd (yn cynnwys diffyg crefydd) neu gred (unrhyw gred crefyddol neu athronyddol)
  - Rhyw
  - Cyfeiriadedd rhywiol
  - Ailbennu rhywedd
  - Priodas a phartneriaeth sifil
- Myfyrwyr y brifysgol
- Troseddwyr a phlant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuencid
- Y digartref a'r sawl sy'n cysgu allan
- Cymunedau teithwyr a sipsiwn
- Ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr
- Cyn-filwyr
- Ymwelwyr ag atyniadau i dwristiaid:
  - Atyniadau mawr e.e. Canolfan Mileniwm Cymru.
  - Digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol mawr e.e. Stadiwm Principality.
  - Ardaloedd o harddwch naturiol e.e Arfordir Treftadaeth Morgannwg.
  - Atyniadau treftadaeth e.e. Castell Caerdydd.

Er bod cyfeiriad at rai o'r grwpiau hyn mewn rhannau eraill o'r PNA, mae'r adran hon yn canolbwyntio ar eu materion iechyd penodol.

### 4.1 Oedran <sup>20</sup>

Mae materion iechyd yn dueddol o fod yn fwy sylweddol ymhlith pobl sy'n ifanc iawn a phobl sy'n hen iawn. Mae demograffeg Caerdydd a Bro Morgannwg yn gwahaniaethu'n sylweddol. Yn gyffredinol, mae gan Gaerdydd boblogaeth ifancach tra bod gan y Fro boblogaeth sy'n cynnwys mwy o bobl hŷn, sy'n unol â chyfartaledd Cymru. Yn y ddwy ardal, fodd bynnag, rhagamcanir y bydd cynnydd parhaus yn nifer y bobl sydd dros 65 oed, a thros 85 oed.

Ar gyfer pobl hŷn:

---

<sup>20</sup> Asesiad o Anghenion Poblogaeth Caerdydd a'r Fro (2017). Ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. O: [Population-Needs-Assessment-1.pdf \(cvihsco.co.uk\)](https://www.cvihsco.co.uk/Population-Needs-Assessment-1.pdf)

- Oedran yw'r ffactor mwyaf unigol sy'n gysylltiedig â chael cyflwr hirdymor. Mae nifer y bobl sydd â dau salwch cronig neu fwy yn cynyddu, ac wrth i bobl heneiddio, maent yn fwy tebygol o brofi nifer o gyflyrau ar yr un pryd ('aml-afiachedd').
- Mae ymddygiadau afiach yn gyffredin ymhlith pobl hŷn hefyd, yn union fel gweddill y boblogaeth. Mae ymddygiadau fel smygu, yfed gormod o alcohol, deiet afiach a dim digon o ymarfer corff yn brif ffactor sy'n achosi cyflyrau hirdymor. Yn arbennig, mae pryderon ynghylch nifer sylweddol o bobl hŷn sy'n yfed gormod o alcohol.
- Mae atal achosion o gwmpo yn fater allweddol wrth wella iechyd a lles pobl hŷn. Mae cwmpadau yn ffactor allweddol sy'n achosi anabledd a marwolaeth ymhlith pobl hŷn yng Nghymru, ac yn arwain at ganlyniadau sylweddol o safbwynt poen, colli hyder ac annibyniaeth. Amcangyfrifir bod rhwng 230,000 a 460,000 o bobl dros 60 oed yn cwmpo yng Nghymru bob blwyddyn. Mae rhwng 11,500 a 45,900 o'r rhain yn dioddef anafiadau difrifol: toriadau, anafiadau i'r pen, neu rwygiadau difrifol.
- Gall teimlo'n unig neu ddim mewn cysylltiad â ffrindiau gael effaith negyddol ar iechyd a lles. Mae'n gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael a chyflyrau fel clefyd cardiofasgwlaidd, gorbwysedd a dementia. Mae unigrwydd hefyd yn cael effaith lawer ehangach ar iechyd y cyhoedd, am ei fod yn gysylltiedig â nifer o ganlyniadau iechyd negyddol yn cynnwys marwolaeth, afiachedd, iselder a hunanladdiad. Mae'r cyfyngiadau symud a osodwyd yn ystod y pandemig COVID-19 yn debygol o fod wedi gwaethygu'r materion hyn ar draws pob grŵp oedran. Mae pobl unig yn dueddol o wneud mwy o ddefnydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn fwy tebygol o gael eu derbyn yn gynnar i ofal preswyl neu ofal nyrsio. Mae'n bwysig edrych ar ffyrdd gwahanol o sicrhau bod pobl hŷn yn cadw mewn cysylltiad â'r pethau sy'n bwysig iddynt a bod cyfleoedd i bobl hŷn fod yn actif ac yn gysylltiedig.
- Dangosodd gwybodaeth o Gyfrifiad 2011, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, fod oddeutu 22,493 o bobl 65 oed ac yn hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain, sef tua 11.5% o'r boblogaeth. Ym Mro Morgannwg, mae'r ganran yn uwch, sef 13.2%. Heb y gallu i adael eu cartrefi, neu ag ymweliadau llai gan weithwyr cymunedol a darparwyr gwasanaeth, bydd nifer gynyddol o bobl hŷn yn teimlo'n unig ac yn ynysig, gan arwain at effeithiau niweidiol ar eu hiechyd meddwl.
- Iselder yw'r angen iechyd meddwl mwyaf cyffredin ar gyfer pobl hŷn, ac mae nifer yr achosion yn cynyddu gydag oedran. Fel arfer caiff mwy o fenywod ddiagnosis o iselder na dynion. Ar unrhyw un adeg, bydd oddeutu 10% i 15% o'r boblogaeth dros 65 oed yn genedlaethol yn dioddef iselder a bydd 25% yn dangos symptomau iselder. Mae nifer yr achosion o iselder ymhlith pobl hŷn mewn ysbytai aciwt yn cyfateb i 29%, ac mae'n 40% ymhlith y rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae iselder mwy difrifol yn llai cyffredin, ac yn effeithio ar 3% i 5% o bobl hŷn.
- Mae'r risg o ddatblygu dementia yn cynyddu wrth i chi fynd yn hŷn, ac mae'r cyflwr fel arfer yn digwydd ymhlith pobl dros 65 oed. Dangosodd asesiad o anghenion iechyd pobl â dementia ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fod dementia wedi achub y blaen ar glefyd y galon o safbwynt prif achos marwolaeth ymhlith menywod yng Nghymru a Lloegr. Amcangyfrifir fod 5,000 o

bobl â dementia yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, y mae gan bron 6 allan o 10 (58%) ohonynt ddiagnosis. O ganlyniad i boblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio, disgwylir i'r nifer hwn gynyddu i bron 7,000 erbyn 2025. Gellid atal un allan o bum achos o ddementia drwy wneud ymarfer corff, gwella'r deiet, atal diabetes, a thrin achosion o iselder yn gynnar.<sup>21</sup>

- Po hynaf yr ydych, y mwyaf eich risg o golli eich golwg. Mae un o bob pump o bobl sy'n 75 oed ac yn hŷn wedi colli eu golwg.

Ar gyfer pobl ifanc:

- Mae tystiolaeth bod mil o ddiwrnodau cyntaf bywyd (mae hyn yn cynnwys cyn bod y plentyn yn cael ei eni, hyd at ei fod yn ddwy flwydd oed) yn cael effaith sylweddol ar weddill bywyd y plentyn. Fel y mae Cymru Well Wales yn egluro; "mae'r blynyddoedd hyn yn cael effaith hirhoedlog ar unigolion a theuluoedd. Maent yn llunio dyfodol plant wrth iddynt dyfu'n oedolion: eu cyflawniadau addysgol, eu gallu i gael incwm, eu dylanwadau ar eu plant eu hunain, a'u hiechyd pan fyddant yn hŷn."<sup>22</sup>
- Mae plant sy'n cael eu magu mewn tlodi yn fwy tebygol o fod yn oedolion sydd ag iechyd gwael na'r rheini sy'n cael eu magu mewn cyfoeth.
- Mae tystiolaeth dda fod bwydo ar y fron yn darparu manteision iechyd i'r fam a'r babi ac yn hyrwyddo ymlyniad; fodd bynnag, mae mamau ifanc ymhlith y grwpiau sy'n lleiaf tebygol o fwydo ar y fron.
- Mae mam sy'n ordew ac yn smygu drwy gydol ei beichiogrwydd yn rhoi ei babi mewn perygl uwch o ddatblygu ymddygiadau a ffordd o fyw afiach yn y dyfodol, a chyflyrau cronig difrifol. Bydd hyn yn effeithio ar ansawdd bywyd yr unigolyn a'i ddisgwyliad oes.
- Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn brofiadau gofidus sy'n digwydd yn ystod plentyndod, ac sy'n gallu peri niwed uniongyrchol i blentyn (e.e. camdriniaeth rywiol neu gorfforol) neu sy'n gallu effeithio ar yr amgylchedd lle mae'r plentyn yn byw, (e.e. cael ei fagu mewn cartref lle mae trais domestig). Gwnaeth bron hanner (47%) o oedolion yng Nghymru brofi o leiaf un profiad niweidiol yn ystod plentyndod, a gwnaeth 14% ddiodeff 4 neu fwy. O'u cymharu â phobl heb unrhyw brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, mae pobl sydd wedi diodeff 4 profiad neu fwy chwe gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael rhyw o dan oed; 15 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cyflawni trais yn erbyn unigolyn arall yn y flwyddyn flaenorol; 16 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio heroin neu grac cocên; ac 20 gwaith yn fwy tebygol o gael eu carcharu yn ystod eu hoes. Yng Nghymru, roedd chwarter (23%) o oedolion wedi profi cam-drin geiriol fel plentyn; un rhan o bump (20%) wedi profi rhieni'n gwahanu; 17% wedi profi cam-drin corfforol; 16% wedi profi trais domestig; 14% wedi profi salwch meddwl; 14% wedi camdefnyddio alcohol; 10% wedi profi cam-drin rhywiol; a 5% wedi defnyddio cyffuriau neu wedi gweld rhiant yn cael ei garcharu. Gall

---

<sup>21</sup>BIP Caerdydd a'r Fro (2017). Aseiad o anghenion iechyd dementia Caerdydd a'r Fro. O: [http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1143/Dementia%20Strategy%20C%20and%20V%202018-2028%20FINAL%20\(003\).pdf](http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1143/Dementia%20Strategy%20C%20and%20V%202018-2028%20FINAL%20(003).pdf)

<sup>22</sup> Cymru Well Wales. Y 1000 diwrnod cyntaf

gwasanaethau 'sy'n ystyriol o drawma' ddarparu amgylchedd cefnogol i bobl sydd wedi profi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan annog ymgysylltu a gwell dull o reoli cyflyrau.

- Mae blynyddoedd yr arddegau hefyd yn bwysig a cheir tystiolaeth gref fod ymddygiadau a ffordd o fyw yn ystod yr arddegau yn cael effaith ar ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol tymor hwy yn y dyfodol. Mae llawer o bobl yn datblygu ymddygiadau afiach o safbwynt gweithgarwch corfforol a deiet. Mae dros chwarter o blant yng Nghymru dros bwysau neu'n ordew, gan gynnwys 12.4% sy'n ordew. Gwnaeth 40% o oedolion sy'n smygu ddechrau smygu'n rheolaidd cyn eu bod yn 16 oed.
- Gall heintiau a drosglwyddir yn rhywiol gael effaith ar iechyd yn y tymor hwy, gan gynnwys anffrwythlondeb. Gall ymddygiad rhywiol pobl ifanc hefyd arwain at feichiogrwydd nas cynlluniwyd, sy'n cyflwyno risgiau sylweddol i iechyd ac yn niweidio cyfleoedd iechyd a bywyd mamau a babanod yn y tymor hwy. Mae nifer yr achosion o feichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau, er eu bod yn gostwng yng Nghaerdydd, yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae nifer yr achosion o feichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau yn Mro Morgannwg yn is na'r cyfartaledd.
- At hynny, gwyddys fod pwysau geni isel yn gallu fod yn gysylltiedig â beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau a mamau sy'n smygu yn ystod eu beichiogrwydd. Er mwyn lleihau'r risg o fabanod yn cael eu geni'n gynnar, gyda phwysau geni isel, a'r risg o anableddau sy'n gysylltiedig â hyn, mae'n bwysig bod help ar gael i'r rhai a allai fod mewn perygl.
- Mae oddeutu 50% o salwch meddwl gydol oes yn dechrau erbyn y bydd unigolyn yn 14 oed. Mae plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg uwch o broblemau iechyd meddwl yn cynnwys y rhai sy'n profi chwalfa deuluol; y rhai yn y System Unigolion sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n dangos problemau ymddygiadol; a phlant sydd wedi profi trawma.
- Rhagamcanir y bydd nifer y bobl sy'n 15 oed ac yn iau sydd â salwch hirdymor yn cynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf, gyda chyfnod o dwf arbennig o uchel yn dechrau yn 2020. Rhagamcanir cynnydd tebyg ar gyfer cyfraddau anabledd difrifol yng Nghaerdydd. Rhagamcanir y bydd cyfraddau salwch hirdymor a salwch difrifol ym Mro Morgannwg yn parhau'n sefydlog.
- Bydd hyrwyddo ymddygiad iechyd cadarnhaol ymhlith yr arddegau yn cael effaith ar ganlyniadau iechyd pobl ifanc, ac ar y galw am ystod eang o wasanaethau gan oedolion yn y dyfodol.

## 4.2 Anabledd <sup>23,24</sup>

Rhwng 2018 a 2020, gwnaeth 7.8% o oedolion yng Nghaerdydd a 7.1% ym Mro Morgannwg hunanadrodd fod eu hiechyd yn 'wael neu'n wael iawn'. Gwnaeth traean o bobl (33.4%) yn ardal y bwrdd iechyd adrodd fod ganddynt salwch a oedd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

---

<sup>23</sup> <https://www.cvihsc.co.uk/wp-content/uploads/2017/02/Population-Needs-Assessment-1.pdf> Asesiad o Anghenion Poblogaeth Caerdydd a'r Fro (2017). Ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. O: [Population-Needs-Assessment-1.pdf \(cvihsc.co.uk\)](https://www.cvihsc.co.uk)

<sup>24</sup> RNIB: Offeryn data colli golwg. [Offeryn Data Colli Golwg - RNIB - Gweld yn wahanol.](#)

Caiff nam ar y synhwyrâu ei leihau neu golli golwg, clyw neu'r ddau. Gallai anabledd fod yn bresennol o adeg geni neu gallai ddigwydd yn ystod oes unigolyn. Yn 2020, amcangyfrifwyd bod 10,700 o bobl (2.8% o gyffredinrwydd) yn byw gyda rhyw lefel o golli golwg yng Nghaerdydd, a bod 5,210 o bobl (4% o gyffredinrwydd) ym Mro Morgannwg. Disgwylir i hyn gynyddu dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r cyflyrau mwyaf cyffredin sy'n peryglu golwg yn cynnwys dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint (AMD), cataract, glawcoma a retinopathi diabetig. Yn 2020, amcangyfrifwyd bod gan 13,500 o bobl yng Nghaerdydd y cyflyrau hyn, a 6,850 o bobl ym Mro Morgannwg. Rhagwelir y bydd y ddwy ardal yn gweld cynnydd o 16% erbyn 2030, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Gall colli golwg fod yn gysylltiedig ag iechyd gwael a chyflyrau iechyd eraill. Mae pobl hefyd yn fwy tebygol o brofi strôc wrth iddynt fynd yn hŷn, sy'n gallu arwain at golli golwg neu gamweithrediad gweledol. Gall ffactorau risg penodol hefyd gynyddu'r siawns o golli golwg. Er enghraifft, gall smygu ddyblu'r risg o AMD ac mae gordewdra yn cynyddu'r risg o ddatblygu diabetes sy'n gallu achosi rhywun i golli ei olwg. Mae achosion o gwmpo yn fwy cyffredin, ac yn fwy tebygol o arwain at ganlyniadau difrifol ymhlith pobl hŷn, a gallant gael eu hachosi'n uniongyrchol gan golli golwg. Amcangyfrifir bod 45 achos difrifol o gwmpo'r flwyddyn yn uniongyrchol briodoladwy i golli golwg yng Nghaerdydd, a 25 ym Mro Morgannwg.

Amcangyfrifir (2020) bod gan 33,000 o bobl nam cymedrol neu ddifrifol ar eu clyw yng Nghaerdydd, a 16,000 ym Mro Morgannwg, a bod 2,080 o bobl yn byw â nam deuol ar y synhwyrâu (h.y. golwg a chlyw) o unrhyw ddifrifoldeb, yng Nghaerdydd, a 990 ym Mro Morgannwg.

Rhwng 2018 i 2019 roedd 1,389 o bobl wedi'u cofrestru ag anabledd dysgu yng Nghaerdydd a 496 o bobl ym Mro Morgannwg. Mae pobl ag anabledau dysgu yn fwy tebygol o ddatblygu problemau iechyd meddwl a chorfforol o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Er enghraifft, mae cyfradd uchel o ddementia ymhlith pobl sydd â Syndrom Down. Mae ymchwil yn awgrymu bod pobl ag anabledau dysgu 58 gwaith yn fwy tebygol o farw cyn eu bod yn 50 oed. Maent hefyd yn fwy tebygol o gael diabetes, namau ar y synhwyrâu, problemau iechyd meddwl neu epilepsi, ac mae ganddynt siawns uwch o farw o gyflyrau sy'n gysylltiedig â'u cyflyrau dysgu. Gallai pobl ag anabledau dysgu hefyd fod ag iechyd gwaeth o ganlyniad i broblemau o ran eu ffordd o fyw, megis deiet ac ymarfer corff, nad ydynt wedi cael digon o gyngor a chymorth yn eu cylch.<sup>25</sup>

Mae pobl ag anabledau dysgu bellach yn byw'n hirach a rhagamcanir cynnydd sylweddol yn nifer y bobl hŷn sydd ag anabledau dysgu yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae angen mwy o gymorth ar bobl hŷn sydd ag anabledd dysgu, i heneiddio'n dda, ac i barhau'n egnïol ac iach cyhyd â phosibl.

---

<sup>25</sup> Canllaw NICE (2018): Gofal a chymorth i bobl sy'n tyfu'n hŷn gydag anabledau dysgu. O:[www.nice.org.uk/guidance/ng96](http://www.nice.org.uk/guidance/ng96)

Rhagamcanir cynnydd hefyd yn nifer y plant a phobl ifanc sydd ag anhawster dysgu neu anhwylder sbectrwm awtistiaeth.

Mae ynysigrwydd cymdeithasol a theimlo'n unig yn broblem i bobl ag anableddau yn cynnwys anableddau corfforol, nam ar y synhwyrau a phobl ag anableddau dysgu. Mae angen mynediad i ddulliau cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch, yn cynnwys am y gwasanaethau sydd ar gael.

### 4.3 Beichiogrwydd a mamolaeth

Mae llawer o broblemau iechyd cyffredin sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd. Ymhlith rhai o'r problemau mwyaf cyffredin mae:

- Troethi'n rheolaidd
- Poen yn y pelfis
- Y peils (haemoroidau)
- Newidiadau i'r croen a'r gwallt
- Diffyg cwsg
- Olion ymestyn
- Pigyrnau, traed a bysedd wedi chwyddo
- Deintgig chwyddedig a phoenus, a allai waedu
- Blinder
- Rhedlif o'r wain
- Gwaedu o'r wain
- Gwythiennau chwyddedig

### 4.4 Hil

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi canfod bod ethnigrwydd yn fater pwysig oherwydd, yn ogystal â bod ag anghenion penodol sy'n ymwneud ag iaith a diwylliant, mae pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddod o deuluoedd ag incwm isel, dioddef amodau byw gwaeth a chyflawni lefelau is o gymwysterau addysgol.

Yn ogystal, mae gan grwpiau ethnig penodol gyfraddau uwch o rai cyflyrau iechyd. Er enghraifft, mae gan boblogaethau sy'n hangu o Dde Asia ac Ynysoedd y Caribi risg sylweddol uwch o ddiabetes; mae poblogaethau sy'n hangu o Ffngladesh yn fwy tebygol o osgoi alcohol, ond i smygu, ac mae anemia y crymangelloedd yn anhwylder gwaed a etifeddir, sy'n effeithio'n bennaf ar bobl o darddiad Affricanaidd neu Garibiaidd.

Mae gwahaniaethau ethnig mewn iechyd yn fwyaf amlwg ym meysydd lles meddwl, cancer, clefyd y galon, Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol, twbercwlosis a diabetes.

Mae'r adroddiad Ethnigrwydd ac Iechyd yng Nghymru<sup>26</sup> yn rhoi disgrifiad o gyfansoddiad ethnig Cymru, ynghyd â gwybodaeth am y penderfyniadau iechyd a'r canlyniadau iechyd maent yn eu profi, gan ddefnyddio Cyfrifiad 2011 fel y ffynhonnell ddata. Mae'n nodi'r canlynol:

- Mae'r boblogaeth Gwyn Prydeinig neu Wyddelig yn cyfrif am bron 94% o'r boblogaeth.
- Mae strwythur oedran y boblogaeth Gwyn Prydeinig neu Wyddelig yn llawer hŷn na'r grwpiau eraill. Mae'r strwythurau oedran iau mewn grwpiau eraill yn adlewyrchu patrymau mewnfudo ac, mewn rhai achosion, cyfraddau geni uwch.
- Ar ôl rhoi cyfrif am oedran, mae gan y grŵp Gwyn Prydeinig neu Wyddelig ganran uwch o'i boblogaeth sy'n adrodd ynghylch salwch cyfyngus na grwpiau eraill ac eithrio'r grŵp Cymysg/Grwpiau aml-ethnig.
- Gwnaeth y grŵp Cymysg/Grwpiau aml-ethnig adrodd ynghylch y lefelau uchaf o iechyd cyffredinol gwael neu wael iawn, ond nid oedd y gwahaniaethau rhwng grwpiau yn amlwg.
- Roedd y grŵp Gwyn Prydeinig neu Wyddelig yn fwy tebygol o fod yn darparu gofal di-dâl na'r rhai mewn grwpiau ethnig eraill. Mae hyn yn adlewyrchu strwythur oedran hŷn y grŵp hwn.

Mae nifer y rhai sy'n manteisio ar imiwneiddiadau yn ystod plentyndod yn is mewn rhai grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghaerdydd a'r Fro, ac mae gwaith yn mynd rhagddo drwy glystyrau gofal sylfaenol sy'n gwasanaethu cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol er mwyn cynyddu cyfraddau ymgysylltu a nifer y rhai sy'n manteisio ar imiwneiddiadau.

Yn fwy diweddar, mae effeithiau COVID-19 wedi bod yn llawer mwy amlwg mewn cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

#### 4.5 Crefydd a chred<sup>27</sup>

Gall credoau ynghylch iechyd, salwch a gofal iechyd amrywio rhwng crefyddau a diwylliannau, ac o fewn unrhyw grŵp crefyddol neu ddiwylliannol penodol. Gall cred grefyddol effeithio ar dderbyn agweddau ar ofal meddygol, er enghraifft gweithdrefnau diagnostig a mathau penodol o driniaeth, ac effaith bosibl defodau crefyddol ar gynlluniau iechyd a thriniaeth, megis cyfnodau ymprydio.

Ni ddylid byth tybio y bydd unigolyn sy'n perthyn i grŵp crefyddol penodol yn cydymffurfio o reidrwydd â safbwyntiau ac arferion y grŵp hwnnw, neu'n gwbl ufudd iddynt. Gall sawl ffactor ddylanwadu ar ymateb cleifion unigol i sefyllfa glinigol benodol, yn cynnwys pa gangen o grefydd neu gred benodol maent yn perthyn iddi, a pha mor gryf yw eu credoau crefyddol (er enghraifft, uniongred neu ddiwygiedig,

---

<sup>26</sup>Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru (2015). Ethnigrwydd ac Iechyd yng Nghymru. O: [www.publichealthwalesobservatory.wales.nhs.uk/ethnicity](http://www.publichealthwalesobservatory.wales.nhs.uk/ethnicity)

<sup>27</sup> Government UK: Culture, spirituality and religion: migrant health guide. Advice and guidance on the health needs of migrant patients for healthcare practitioners. O: [Culture, spirituality and religion: migrant health guide - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk/culture-spirituality-and-religion-migrant-health-guide)

cymedrol neu ffundamentalaid). Am y rheswm hwn, dylid trin pob person fel unigolyn.

Mae credoau a defodau ynghylch beichiogrwydd a genedigaeth, 'dod i oed', mislif, priodas a marwolaeth yn amrywio'n fawr rhwng crefyddau a diwylliannau, a gallant oll effeithio ar iechyd ac ymddygiadau'n gysylltiedig ag iechyd.

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn ymwneud â ffactorau diwylliannol, crefyddol a chymdeithasol o fewn teuluoedd a chymunedau, er nad oes cyswllt uniongyrchol ag unrhyw grefydd neu ffydd. Mae'n arfer anghyfreithlon sy'n codi pryderon iechyd difrifol iawn.

Mae 'trais ar sail anrhydedd', sef math o drais domestig sydd wedi'i ysgogi gan y syniad o anrhydedd, yn digwydd yn y cymunedau hynny lle mae'r syniad o anrhydedd yn gysylltiedig ag ymddygiadau disgwylidig teuluoedd ac unigolion.

Mae posibilrwydd o drosedd gasineb sy'n ymwneud â chrefydd a chred.

## 4.6 Rhyw

- Y disgwyliad oes ar gyfartaledd ar adeg genedigaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw 83.1 oed ar gyfer menywod a 78.6 oed ar gyfer dynion, sef gwahaniaeth o bedair blynedd a hanner rhwng y rhywiau.
- Mae dynion yn dueddol o ddefnyddio gwasanaethau iechyd yn llai na menywod, ac yn cyflwyno eu clefydau yn hwyrach na menywod. Dengys ymchwil defnyddwyr gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol <sup>28</sup>i'r defnydd o fferyllfeydd yn 2009 fod dynion rhwng 16 a 55 yn dueddol o fod yn 'osgowyr' h.y., maent yn mynd ati'n fwriadol i osgoi mynd i fferyllfeydd, yn teimlo'n anghyfforddus yn amgylchedd presennol y fferyllfa oherwydd eu bod yn teimlo ei fod wedi'i fenyweiddio/ar gyfer pobl hŷn/heb ddigon o breifatrwydd a bod y gwasanaeth i gwsmeriaid yn fusneslyd.
- Mae dynion yn fwy tebygol o farw o glefyd coronaidd y galon yn gynnar, ac maent hefyd yn fwy tebygol o farw yn ystod digwyddiad cardiaidd sydyn. Mae risg menywod o glefyd cardiofasgwlaidd yn cynyddu'n gyffredinol yn hwyrach mewn bywyd, ac mae menywod yn fwy tebygol o farw o strôc.
- Mae canran yr oedolion sy'n adrodd eu bod dros bwysau neu'n ordew yn uwch ymhlith dynion na menywod ar gyfer pob grŵp oedran.
- Mae menywod yn fwy tebygol o adrodd am iselder a gorbryder, ymgynghori yn eu cylch, a chael diagnosis ar eu cyfer. Mae'n bosibl nad yw iselder a gorbryder wedi'i ddiagnosisio'n ddigonol ymhlith dynion. Mae hunanladdiad yn fwy cyffredin ymhlith dynion, yn ogystal â phob math o gamddefnyddio sylweddau.
- Roedd 19% o oedolion yng Nghymru yn yfed yn fwy na'r canllawiau wythnosol rhwng 2018 a 2019 a rhwng 2019 a 2020. Roedd yfed yn fwy na'r canllawiau yn fwy cyffredin ymhlith dynion na menywod.

---

<sup>28</sup> O: [Ymchwil i ddefnyddwyr fferyllfeydd. Pharmacy usage and communications mapping – Executive summary. Mehefin 2009](#)

- Mae afiachusrwydd a marwolaeth yn gyson uwch ymhlith dynion ar gyfer bron pob math o ganser nad ydynt yn ymwneud yn benodol â'r rhywiau.

#### 4.7 Cyfeiriadedd rhywiol

Gwnaeth y papur gwyn iechyd y cyhoedd 'Healthy Lives, Healthy People' nodi iechyd meddwl gwael, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, defnyddio cyffuriau ac alcohol mewn ffordd broblemus a smygu fel y prif broblemau iechyd y cyhoedd a wynebai'r DU.

Mae'r rhain i gyd yn effeithio'n anghymesur ar boblogaethau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT):

- Mae defnydd anghyfreithlon o gyffuriau ymhlith pobl LGB o leiaf wyth gwaith yn fwy nag ydyw ymhlith y boblogaeth gyffredinol.
- Mae oddeutu 25% o bobl LGB yn nodi lefel o ddibyniaeth ar alcohol.
- Mae bron hanner unigolion LGBT yn smygu, o gymharu â chwarter o'u cyfoedion heterorywiol.
- Mae pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn wynebu risg uwch o salwch meddwl, cael syniadau am hunanladdiad, camddefnyddio sylweddau a hunan-niweidio bwriadol.
- Gwnaeth 41% o bobl draws adrodd eu bod wedi ceisio cyflawni hunanladdiad o gymharu ag 1.6% o'r boblogaeth gyffredinol.

#### 4.8 Ailbennu rhywedd<sup>29</sup>

- Caiff cyffuriau ac alcohol eu prosesu gan yr afu, fel y caiff hormonau croesrywiol. Gall defnydd sylweddol o alcohol a/neu gyffuriau tra'n cymryd hormonau gynyddu'r risg o wenwyndra'r afu a niwed i'r afu.
- Gall alcohol, cyffuriau a thybaco a'r defnydd o therapi hormonau gynyddu risg gardiofasgwlaidd. Gyda'i gilydd, gallant hefyd gynyddu'r risg a gyflwynir eisoes gan therapi hormonaidd.
- Gall smygu effeithio ar lefelau oestrogen, gan gynyddu'r risg o osteoporosis a lleihau effeithiau benyweiddio meddyginiaeth oestrogen.
- Mae pobl drawsrywiol yn wynebu nifer o rwystrau sy'n gallu eu hatal rhag gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer o bobl drawsrywiol yn anfodlon ar ddelwedd eu corff ac o ganlyniad gallant fod yn amharod i wneud gweithgarwch corfforol.
- Dysfforia rhywedd yw'r term meddygol a ddefnyddir i ddisgrifio'r anghysur hwn. Mae pobl drawsrywiol yn debygol o ddiodef salwch meddwl mewn ymateb i'r anghysur a deimlant. Caiff hyn ei lywio'n bennaf gan synnwyr o fod yn wahanol a pheidio â chael eich derbyn gan gymdeithas. Os bydd unigolyn trawsrywiol yn dymuno trawsnewid a byw yn y rôl rywedd y mae'n uniaethu â hi, gallai boeni hefyd am chwalu cydberthnasau, colli ei swydd, bod yn ddiodefwr trosedd

<sup>29</sup> Gender Identity Research and Education Society. O: [Trans Health Factsheets](#)

gasineb a bod pobl yn gwahaniaethu yn ei erbyn. Gall ofni rhagfarn a gwahaniaethu o'r fath, y gallai fod yn real neu wedi'i ddychmygu, achosi gofid seicolegol sylweddol.

## 4.9 Myfyrwyr y brifysgol

I lawer o fyfyrwyr y brifysgol, dyma'r tro cyntaf y byddant wedi symud i ffwrdd o gartref i fyw'n annibynnol. Mae'n gyfnod o newid a gall heriau bywyd prifysgol gael effaith ar ofal iechyd. Ymhlith yr anghenion iechyd a nodwyd mae:

- Sgrinio ar gyfer, a thrin, clefydau a drosglwyddir yn rhywiol.
- Rhoi'r gorau i smygu.
- Brechu rhag llid yr ymennydd.
- Cymorth i'r sawl sy'n defnyddio alcohol a chyffuriau.
- Darparu dulliau atal cenhedlu, yn cynnwys dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys.
- Mae problemau iechyd meddwl yn cynyddu o fewn y boblogaeth myfyrwyr. Mae 94% o brifysgolion yn y DU wedi profi cynnydd sydyn yn nifer y bobl sy'n ceisio cael mynediad at wasanaethau cymorth, ac mae rhai sefydliadau wedi gweld cynnydd deirgwaith drosodd. Mae hyn yn debygol o fod wedi cael ei waethygu gan y pandemig COVID-19
- Yn ôl adroddiad Unite Students Insight 2019<sup>30</sup>, mae canran y myfyrwyr sy'n ystyried bod ganddynt gyflwr iechyd meddwl wedi codi, ac mae bellach yn 17%. Mae hyn wedi codi o 12% yn 2016 pan ofynnwyd y cwestiwn yn gyntaf. Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, gorbryder ac iselder - y ddau yn aml - oedd y cyflyrau yr ardoddwyd amdanynt yn fwyaf cyffredin.
- Mae nifer y myfyrwyr sy'n dewis gadael y brifysgol o ganlyniad i broblemau iechyd meddwl wedi mwy na threblu dros y blynyddoedd blaenorol.

## 4.10 Troseddwr a phlant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid<sup>31</sup>

Gwnaeth asesiad o anghenion iechyd Carchar Ei Mawrhydi, Caerdydd nodi nifer o faterion allweddol ymhlith carcharorion. Mae'r rhai sy'n ymwneud yn benodol ag angen sy'n effeithio ar y gymuned, neu y mae'r gymuned yn effeithio arno, yn cynnwys:

- Camddefnyddio sylweddau
- Iechyd meddwl
- Iechyd rhywiol

---

<sup>30</sup> O: [Adroddiad Unite Students Insight 2019](#)

<sup>31</sup> Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid / Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2019/2020). Assessing the needs of sentenced children in the Youth Justice System, England and Wales. O: [Microsoft Word - Assessing the needs of sentenced children in the Youth Justice System 2019-20.docx \(publishing.service.gov.uk\)](#)

Gall fod gan blant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid fwy o anghenion iechyd a lles na phlant eraill o'r un oedran. Dangosodd adroddiad diweddar yn seiliedig ar ystadegau arbrofol ynghylch anghenion asesedig plant sydd wedi'u dedfrydu yn y system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru a Lloegr (adroddiad Mawrth 2020), fod nifer y pryderon a oedd gan bob plentyn yn cynyddu'n unol â difrifoldeb y math o ddedfryd yr oeddent wedi'i chael. O blith 5 o'r 19 o bryderon, aseswyd bod gan 71% o'r plant bryder. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- Diogelwch a Lles (90%),
- Risg i eraill (87%),
- Camddefnyddio sylweddau (76%),
- Iechyd meddwl (72%)
- Lleferydd, iaith a chyfathrebu (71%).

At hynny, aseswyd bod dros hanner y plant yn 'Blentyn mewn Angen' ar hyn o bryd neu yn flaenorol; roedd bron traean yn wynebu risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol; ac roedd gan bron hanner sgôr Diogelwch a Lles uchel neu uchel iawn.

#### 4.11 Y digartref a'r sawl sy'n cysgu allan

Mae cysgu allan yn beryglus ac yn achosi niwed difrifol i iechyd corfforol a meddyliol unigolyn. Gwnaeth ymchwil gan yr elusen i'r digartref, Crisis<sup>32</sup>, ganfod fod pobl sy'n cysgu allan 17 gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddiodefwyr trais na'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae mwy nag un o bob tri o bobl sy'n cysgu allan wedi cael eu taro neu eu cicio'n fwriadol, neu wedi profi rhyw fath o drais pan oeddent yn ddigartref. Mae pobl ddigartref fwy na naw gwaith yn fwy tebygol o gyflawni hunanladdiad na'r boblogaeth gyffredinol.

Yr oedran cymedrig adeg marwolaeth ar gyfer rhywun sy'n ddigartref yng Nghymru a Lloegr yw 45 oed ar gyfer dynion a 43 oed ar gyfer menywod, o gymharu â'r oedran cymedrig adeg marwolaeth ar gyfer y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru a Lloegr, sef 76 oed ac 81 oed yn y drefn honno (2018). Roedd dwy o bum marwolaeth ymhlith pobl ddigartref yn ymwneud â gwenwyno â chyffuriau (294 o farwolaethau amcangyfrifedig), ac mae nifer y marwolaethau o'r achos hwn wedi cynyddu 55% ers 2017. Roedd y mwyafrif o'r marwolaethau a nodwyd mewn ardaloedd trefol (95%), a oedd yn gyson â data a ddangosai fod niferoedd uwch o bobl yn cysgu allan mewn ardaloedd trefol yng Nghymru a Lloegr.<sup>33</sup>

Yng Nghymru, cynhelir ymarfer cenedlaethol i fonitro nifer y bobl sy'n cysgu allan, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o gysgu allan. Yn 2019, dangosodd fod gan Gaerdydd y nifer amcangyfrifedig uchaf o bobl a oedd yn cysgu allan (92) yng Nghymru a bod

---

<sup>32</sup> Crisis Sanders, B. & Albanese, F. (2016) "It's no life at all": Profiadau'r sawl sy'n cysgu allan o drais a chamdriniaeth ar y strydoedd yng Nghymru a Lloegr. O: [crisis\\_its\\_no\\_life\\_at\\_all2016.pdf](#)

<sup>33</sup>Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018). Marwolaethau pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr. O: [Marwolaethau pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

gan Fro Morgannwg (1) un o'r niferoedd amcangyfrifedig isaf o bobl a oedd yn cysgu allan.

Yn ôl adroddiad gan Centrepoint,<sup>34</sup> mae pobl ifanc ddigartref ymhlith y rhai o dan yr anfantais gymdeithasol fwyaf mewn cymdeithas. Mae ymchwil flaenorol wedi dangos bod gan lawer broblemau cymhleth gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl a chorfforol, ac wedi dioddef camdriniaeth neu wedi profi digwyddiadau trawmatig. Mae 42% o bobl ifanc ddigartref wedi cael diagnosis o broblem iechyd meddwl neu'n adrodd am symptomau iechyd meddwl gwael, mae 18% wedi rhoi cynnig ar hunanladdiad, mae gan 31% broblem iechyd corfforol (fel problemau anadlu, problemau gyda'u cymalau a chyhyrau, neu gur pen rheolaidd), mae gan 21% hanes o hunan-niwed, mae 52% yn adrodd am broblemau cysgu, mae 55% yn smygu, ac mae 50% yn defnyddio sylweddau anghyfreithlon.

#### 4.21 Cymunedau teithwyr a sipsiwn<sup>35</sup>

Mae sipsiwn a theithwyr ymhlith poblogaethau ethnig leiafrifol mwyaf hirsefydlog y DU. Mae Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig yn grwpiau ethnig cydnabyddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae amcangyfrif o 2,785 o Sipsiwn a Theithwyr yn byw yng Nghymru. Mae hyn yn 0.1% o gyfanswm y boblogaeth ac maent yn byw o fewn ychydig dros 1,000 o gartrefi (Cyfrifiad 2011).

Yng Nghymru, mae hawl gan Sipsiwn a Theithwyr gael mynediad at driniaeth gan feddyg teulu fel preswylwyr parhaol neu dros dro. Mae astudiaethau wedi dangos fod Sipsiwn a Theithwyr yn wynebu heriau wrth gael mynediad at wasanaethau, a allai fod o ganlyniad i'r canlynol:

- Natur dros dro eu hamser yn yr ardal.
- Lleoliad safleoedd
- Trafnidiaeth - sy'n ymwneud yn benodol â menywod na allant yrru'n aml iawn.
- Lefelau llythrennedd iechyd isel o ran pa wasanaethau y mae ganddynt hawl i'w defnyddio, neu sut i gael mynediad atynt.

Mae'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn wynebu canlyniadau iechyd gwaeth o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, ac mae'r canlynol yn berthnasol iddynt:

- Byw bywydau byrrach.
- Dioddef o salwch cronig fel clefyd cardiofasgwlaidd, canserau, diabetes, asthma a chyflyrau anadlol eraill. Ceir cyfraddau uwch o strôc hefyd.
- Iechyd meddwl gwaeth, o gyflyrau ysgafn, i rai difrifol a pharhaus.
- Iechyd deintyddol gwaeth.
- Cyfraddau uwch o farw-enedigaethau, marwolaeth amenedigol ac iselder ôl-enedigol.

<sup>34</sup> [Toxic Mix: The health needs of homeless young people, Centrepoint 2014](#)

<sup>35</sup> Llywodraeth Cymru (2015). Teithio at Iechyd Gwell - Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr. O <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/teithio-i-iechyd-gwell.pdf>

- Cyfraddau uwch o gyflyrau etifeddol o ganlyniad i briodasau o'r un gwaed.
- Lefelau is o frechiadau/imiwneiddiadau yn ystod plentyndod.
- Smygu ac yfed mwy.
- Deietau gwaeth.
- Cyfraddau uwch o ddamweiniau;
- Cyfraddau uwch o drais domestig.

Mae'r materion hyn yn cynrychioli ffactorau ffordd o fyw amrywiol, ochr yn ochr â materion megis addysg wael, diffyg integreiddio â gwasanaethau cymorth prif ffrwd a diffyg ymddiriedaeth mewn sefydliadau o'r fath.

Mae bod yn Sipsiwn, Roma neu Deithiwr fel arfer yn rhan bwysig o hunaniaeth rhywun. Mae credoau diwylliannol yn cynnwys ystyried y dylai aelodau o'r cartref ddelio ag unrhyw broblemau iechyd, neu eu cadw o fewn yr uned deuluol estynedig. Mae hefyd rhaniad cryf o ran y rhywiau yn niwylliant y Sipsiwn a'r Teithiwr, a rhoddir gwerth ar breifatrwydd.

#### 4.21 Ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr<sup>36</sup>

Ceisiwr lloches yw rhywun sydd wedi dod i'r DU i arfer ei hawl i geisio lloches o dan Gonfensiwn 1951 sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid, ac sy'n aros am benderfyniad ynghylch a fydd yn cael statws ffoadur. Ymhlith yr enghreifftiau o'r rhai sy'n ceisio lloches mae'r bobl hynny sydd wedi gadael gwlad a oedd yn rhyfela, lle roeddent yn cael eu herlid oherwydd eu lle mewn cymdeithas. Ffoadur yw unigolyn y mae llywodraeth y DU wedi'i gydnabod fel rhywun sydd angen amddiffyniad o dan Gonfensiwn 1951, ac y rhoddwyd hawl iddo aros yn y DU, i gychwyn am gyfnod o bum mlynedd, er y gellid ymestyn hwn yn ddiddiwedd.<sup>37</sup> Mae sawl ffordd o ddehongli'r term 'mudwr' ac nid oes diffiniad o 'fudwr' o dan y gyfraith.

Mae Caerdydd yn ganolfan llety gychwynnol ac yn ganolfan wasgaru ar gyfer ceiswyr lloches yn y DU. Mae nifer y bobl sy'n cyrraedd yn gysylltiedig â maint y boblogaeth, ac mae terfyn ar waith. Mae nifer gyfredol y ceiswyr lloches newydd yn is na'r lefel honno.

Mae gan lawer o geiswyr lloches anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth. Mae menywod beichiog, plant ar eu pennau eu hunain, y rhai â phroblemau iechyd meddwl sylweddol, a'r rhai sydd wedi profi digwyddiadau trawmatig fel trais neu artaith, yn debygol o fod yn hynod o agored i niwed. Mae'r ceiswyr lloches wedi'u lleoli ledled Caerdydd, ond ceir y crynodiad mwyaf yn ne Caerdydd. Mae Rhaglen Adsefydlu Ffoaduriaid Syria yn gweithredu yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Yng Nghaerdydd, mae Practis Mynediad i Ofal Iechyd Caerdydd (CHAP) yn darparu cyngor a chymorth gofal iechyd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

<sup>36</sup> Aseiad o Anghenion Poblogaeth Caerdydd a'r Fro (2017). Ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. O: [Population-Needs-Assessment-1.pdf \(cvihsco.co.uk\)](https://www.cvihsco.co.uk/Population-Needs-Assessment-1.pdf)

<sup>37</sup> [Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid | Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

Mae tystiolaeth bod gan unigolion nad ydynt wedi'u geni yn y DU, ac sy'n preswyllo yn y DU, ganlyniadau gwaeth o safbwynt iechyd corfforol a meddyliol na phreswylwyr eraill, er bod hyn yn amrywio yn ôl hanes mudo. Mae amgylchiadau economaidd-gymdeithasol a rheoliadau mewnfudo sy'n berthnasol i rai grwpiau mudol yn effeithio'n negyddol ar eu mynediad at ofal iechyd a'u defnydd ohono. Mae cyfraddau clefydau heintus, gan gynnwys twbercwlosis a HIV, yn uwch nag ydynt ar gyfer pobl nad ydynt yn fudwyr. Gall diffyg ymwybyddiaeth o gymhwysra ar gyfer gofal iechyd, problemau o ran iaith, ac ofn y bydd rhywun yn adrodd amdanynt i Asiantaeth Ffiniau'r DU, fod yn rhwystrau i'r sawl sy'n ceisio cael mynediad i ofal.

Ceir tystiolaeth o lefelau uwch o iselder a gorbryder ymhlith ceiswyr lloches a ffoaduriaid o gymharu â'r boblogaeth genedlaethol, ac mae llawer o ymchwil wedi canolbwyntio ar effaith gorfforol a meddyliol gwrthdaro a rhyfel mewn gwledydd tarddiad. Y grwpiau sy'n fwyaf agored i niwed yw plant, a menywod sydd wedi dioddef camdriniaeth rywiol a chorfforol.

Mae nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt wedi cynyddu yng Nghaerdydd. Er ei bod yn debygol bod achosion gwirioneddol o droseddau casineb wedi cynyddu yng Nghaerdydd, ystyrir bod pobl bellach yn fwy tebygol o roi gwybod amdanynt hefyd.

Prif anghenion

- Diffyg rhuglder mewn Cymraeg neu Saesneg
- Mynediad at ESOL (Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill)
- Mynediad rheolaidd i broses ddehongli ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus
- Mynediad i wybodaeth a hygyrchedd gwasanaethau
- Mynediad i'r farchnad lafur
- Sefydlu cysylltiadau yn y gymuned - integreiddio a chydlyniant cymunedol, mynd i'r afael â throseddau casineb
- Gofal plant
- Trafnidiaeth
- Ymgysylltu ag ysgolion
- Gwell mynediad i wasanaethau iechyd meddwl cymunedol

#### 4.14 Cyn-filwyr

Diffinnir cyn-filwyr fel unrhyw un sydd wedi gwasanaethu am o leiaf un diwrnod yn Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi (Rheolaidd neu Wrth Gefn) neu'r Llynges Fasnachol sydd wedi cyflawni dyletswydd ar weithrediadau milwrol a ddiffiniwyd yn gyfreithiol. Mae oddeutu 5.61 o gyn-filwyr fesul 1000 o breswylwyr yng Nghaerdydd a'r Fro, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 6.24, a'r ail gyfradd isaf yng Nghymru. Fodd bynnag, mae hyn yn cuddio cyfradd isel iawn yng Nghaerdydd (3.29) o gymharu â'r gyfradd uchaf yng Nghymru ym Mro Morgannwg, sef 11.6 fesul 1000 o breswylwyr.

Gwnaeth y Lleng Brydeinig Frenhinol (RBL) gynnal arolwg cartrefi helaeth yn 2014 ar y gymuned o gyn-filwyr. Mae'r 'gymuned cyn-filwyr' yn cynnwys cyn-filwyr (y mae 89% ohonynt yn ddyinion) a'u dibynyddion (y mae 96% ohonynt yn fenywod). Yn

gyffredinol, mae'r arolwg yn amcangyfrif bod oddeutu 1 o bob 10 (9.5 - 9.6%) o gyfanswm poblogaeth y DU yn gyn-filwyr. Mae hyn yn nodi bod mwy o achosion o oryfed ymhlith cyn-filwyr, yn enwedig y rhai o Irac ac Affganistan, o gymharu â gweddill y boblogaeth. Mae cyfraddau PTSD (anhwylder straen ôl-drawmatig) yn cyfateb i oddeutu 1 o bob 25 (4%) o gyn-filwyr. Mae'r arolwg yn nodi bod y rhan fwyaf o'r gymuned cyn-filwyr yn bobl hŷn: mae bron hanner dros 75 oed ac mae dwy ran o dair (64%) dros 64 oed. Mae hyn yn cyfateb i'r canfyddiad mai 41 blynedd yw'r amser cyfartalog ers i gyn-filwr adael gwasanaeth. Mae cyfanswm nifer y cyn-filwyr hefyd yn lleihau o ran maint, ac ar y cyd â'r newidiadau sy'n digwydd yn Lluoedd Arfog y DU ar hyn o bryd, mae hyn yn golygu y bydd cyfran uwch o'r boblogaeth cyn-filwyr yn cynnwys pobl iau yn y dyfodol agos. Fel y cyfryw, mae eu hanghenion iechyd yn debygol o fod yn wahanol i rai y boblogaeth cyn-filwyr hŷn.

Ymhlith y gymuned cyn-filwyr o oedran gweithio, canfu'r arolwg fod cyfraddau diweithdra yn uwch na gweddill y boblogaeth (8% o gymharu â 5%) a'u bod yn fwy tebygol o fod yn anweithgar yn economaidd (32% o gymharu â 22%). Mae'r gymuned cyn-filwyr o oedran gweithio hefyd yn fwy tebygol o adrodd am salwch cyfyngus hirdymor o gymharu â gweddill y boblogaeth (24% o gymharu â 13%), gan gynnwys cyfraddau uwch o iselder, problemau gyda'r cefn, problemau gyda'r aelodau, problemau ar y galon, diabetes, problemau gyda'r clyw a'r golwg. Mae cyn-filwyr o oedran gweithio hefyd ddwywaith mor debygol o adrodd bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu di-dâl o gymharu â gweddill y boblogaeth (23% o gymharu â 12%). Mae'r materion ymhlith y sawl dros 75 oed yn cynnwys unigrwydd ac ynysigrwydd, problemau symudedd ac anawsterau hunan-ofal. Yn ddiddorol, mae problemau iechyd ymhlith cyn-filwyr yn y grŵp oedran hwn yn llai cyffredin nag ydynt ymhlith gweddill y boblogaeth sydd o oedran tebyg - yn wahanol i'r cyfraddau uwch a welir ymhlith cyn-filwyr o oedran gweithio.

Prif anghenion

- Iechyd meddwl - diagnosis a gofal
- Ynysigrwydd cymdeithasol
- Tai
- Cyngor ariannol
- Sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer cyflyrau ar wahân i PTSD
- Camddefnyddio sylweddau a hunanfeddyginiaeth
- Diagnosis cynnar a thriniaeth ataliol
- Cymorth trawsnewid
- Gwell mynediad i wasanaethau
- Materion diogelu sy'n ymwneud â thrais domestig

#### 4.15 Ymwelwyr ag atyniadau i dwristiaid

Mae ymwelwyr a'r sawl sy'n mynd ar wyliau i'r ardal yn debygol o fod â'r un anghenion iechyd â phoblogaeth gyffredinol ardal y bwrdd iechyd. Gan y gallant ond fod yn yr ardal am arhosiad byr, mae eu hanghenion iechyd yn debygol o fod fel a ganlyn:

- Trin cyflwr aciwt sy'n gofyn am ddsbarthu presgripsiwn.

- Gwasanaethau ar gyfer meddwdod e.e. mewn digwyddiadau chwaraeon mawr (Canolfan Triniaeth Alcohol yng Nghaerdydd)
- Yr angen am feddyginiaeth reolaidd
- Cymorth ar gyfer hunanofal, neu
- Gyfeirio at wasanaethau iechyd eraill fel meddyg teulu neu ddeintydd.

## 5 Darparu gwasanaethau fferyllol

Mae'r mapiau a ddefnyddir yn y bennod hon, ynghyd â'r rhestr lawn o fferyllwyr ar gontract yn ôl clwstrw a geir yn Atodiad L a'r safle gweinyddu meddygon teulu yn 5.1.21 yn nodi'r safleoedd lle caiff gwasanaethau fferyllol a gwasanaethau gweinyddu meddygon teulu eu darparu yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mewn penodau dilynol, ac yn enwedig y rhai sy'n darparu gwybodaeth lefel clwstrw, dylid ystyried bod unrhyw fapiau yn dangos lleoliadau adeiladau a'u darllen ar y cyd â data perthnasol. Dylid nodi, o ganlyniad i faint yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd iechyd, a graddfa fach y mapiau hyn, na ellir nodi llawer o'r adeiladau ar wahân.


### 5.1 Darpariaeth bresennol o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae 106 o fferyllfydd wedi'u cynnwys ar y rhestr fferyllol ar gyfer ardal y bwrdd iechyd ym mis Mawrth 2021, wedi'u gweithredu gan 42 o fferyllwyr ar gontract gwahanol. Mae pedwar contractwr cyfarpar gweinyddu wedi'u lleoli o fewn y bwrdd iechyd, sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer Cymru a Lloegr, ac fe'u gweithredir gan bedwar contractwr.

O blith y 60 o bractisau meddygon teulu yn ardal y bwrdd iechyd, mae un yn gweinyddu i gleifion cymwys o un safle o fewn ardal y bwrdd iechyd. Ar ddiwedd mis Awst 2020, roedd y practis meddyg teulu yn gweinyddu i 372 o'i gleifion cofrestredig (5% o gyfanswm maint rhestr y practis).


Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfa, adeilad y contractwr cyfarpar gweinyddu a'r practis gweinyddu o fewn ardal y bwrdd iechyd, o gymharu â dwysedd y boblogaeth. Fel y gellir gweld o'r map, mae'r mwyafrif o fferyllfydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, neu'n agos atynt. Mae'r practis meddyg fferyllol, fel y gellir ei ddisgwyl, wedi'i leoli mewn ardal fwy gwledig sydd â dwysedd poblogaeth is. O ganlyniad i faint yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd iechyd, mae llawer o'r adeiladau nad ydynt wedi'u dangos yn unigol.

**Map 5.1: Lleoliad fferyllfeydd, adeiladau contractwyr cyfarpar gweinyddu a phractisau gweinyddu o gymharu â dwysedd y boblogaeth**



Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfa, adeilad y contractwr cyfarpar gweinyddu a'r practis gweinyddu o fewn ardal y bwrdd iechyd, o gymharu â lefelau amddifadedd. Fel y gellir gweld, mae'r rhan fwyaf o adeiladau fferyllfeydd a chontractwyr cyfarpar o fewn ardaloedd mwy difreintiedig, neu'n agos atynt. Mae'r practis meddyg fferyllol yn un o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig, fodd bynnag mae'r ardal hon yn wledig o ran ei natur.

**Map 5.2: Lleoliad fferyllfeydd, adeiladau contractwyr cyfarpar gweinyddu a phractisau gweinyddu o gymharu â lefelau amddifadedd**



Wrth ystyried yr holl eitemau ar bresgripsiwn a bresgripsiynwyd gan feddygon teulu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn 2019 i 2020, cafodd 96.3% eu gweinyddu gan fferyllfeydd o fewn ardal y bwrdd iechyd. Roedd yr un practis meddyg teulu a oedd yn gweinyddu, yn gweinyddu neu'n rhoi presgripsiynau'n bersonol i lai na 0.1% ac roedd y practisau nad oeddent yn fferyllol yn rhoi presgripsiynau'n bersonol i 1.9%.


### **5.1.1. Mynediad i adeiladau**

Ar gyfer mynediad mewn car, defnyddiwyd amser teithio o 20 munud yn y car fel amser rhesymol neu safonol i breswylwyr ei gymryd i fynd i fferyllfa<sup>38</sup>. Er mwyn asesu a all preswylwyr gyrraedd fferyllfa o fewn yr amser gyrru safonol o 20 munud, lluniwyd mapiau ar lefel y bwrdd iechyd a'r clwstwr. Roedd y rhain yn seiliedig ar ddadansoddiad o amser gyrru a theithio gan ddefnyddio'r ategyn RouteFinder ar gyfer MapInfo Professional a rhwydwaith trafndiaeth priffyrdd yr Arolwg Ordnans, gan amcangyfrif cyflymder ffordd cyfartalog gan ddefnyddio astudiaeth gan yr Arolwg Ordnans a Gwasanaeth Ambiwlans Canolbarth y De. Fel y gellir gweld o'r map isod, gall preswylwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyrraedd fferyllfa o fewn 20 munud yn y car.

#### **Map 5.3: Amser a gymerir i gyrraedd fferyllfa yn y car**

---

<sup>38</sup>Yr Adran Iechyd (2008). Pharmacy in England: Building Strengths – delivering the future.



Mae'r maes mynediad at wasanaethau ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn nodi amddifadedd o ganlyniad i anallu cartref i gael mynediad at ystod o wasanaethau a ystyrir yn angenrheidiol ar gyfer byw o ddydd i ddydd, gan gynnwys fferyllfeydd. Mae'n defnyddio amser taith ddwy ffordd ar gyfartaledd i fferyllfa, yn hytrach na thaith un ffordd. Mae amser y daith ddwy ffordd ar gyfartaledd (mewn munudau) yn cael ei gyfrif o'r anheddiad preswyl i'r fferyllfa agosaf ar drafnidiaeth gyhoeddus neu deithio llesol (bws, trê, ar droed neu ar goets) neu mewn trafndiaeth breifat h.y. yn y car. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, amser taith ddwy ffordd ar gyfartaledd i fferyllfa ar drafnidiaeth gyhoeddus neu deithio llesol yw 26 munud a phedair munud yn y car. Mae gan y ddau awdurdod lleol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro amser taith ddwy ffordd byrrach ar gyfartaledd i fferyllfa, o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

**Tabl 5.1: Amser teithio i fferyllfa ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn trafndiaeth breifat yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

Ardal	Amser taith ddwy ffordd ar gyfartaledd ar drafnidiaeth gyhoeddus		Amser taith ddwy ffordd ar gyfartaledd mewn trafndiaeth breifat	
	Ystod amser taith ddwy ffordd ar drafnidiaeth gyhoeddus	Ystod amser taith ddwy ffordd ar drafnidiaeth gyhoeddus	Ystod amser taith ddwy ffordd ar gyfartaledd mewn trafndiaeth breifat	Ystod amser taith ddwy ffordd mewn trafndiaeth breifat
Caerdydd	24 munud	17 i 41 munud	4 munud	2 i 8 munud
Bro Morgannwg	33 munud	16 i 136 munud	6 munud	1 i 25 munud
BIP Caerdydd a'r Fro	26 munud		4 munud	
Cymru	38 munud		7 munud	

Ffynhonnell: StatsCymru - Data Dangosol Awdurdodau Lleol MALIC 2019


Yn seileidig ar wybodaeth o Gyfrifiad 2011, roedd ychydig dros chwarter o gartrefi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (26.4%) heb gar na fan. Mae'r ganran ychydig yn uwch yng Nghaerdydd (29%) na Bro Morgannwg (19.4%).

Mae ymatebion i holiadur y cyhoedd a'r cleifion yn darparu'r mewnwelediadau canlynol i'r ffyrdd o gael mynediad i fferyllfeydd:

Y ffordd fwyaf poblogaidd o deithio i fferyllfa oedd mewn car (51%, 158 o 308 o bobl), ac wedyn ar droed (44%). Roedd 1% (2 berson) yn teithio ar fws a'r un nifer mewn tacsî. Mae'n debyg bod y dulliau teithio hyn wedi cael eu sgiwio gan gyfyngiadau teithio pandemig y coronafeirws (COVID-19) oedd ar waith ar adeg yr arolwg. O blith y pum person wnaeth ateb 'arall', roedd dau sylw'n ymwneud â cherdded, yn ogystal â defnyddio dull arall o deithio i'r fferyllfa.

Gallai bron pob ymatebwr (96%, 293 o bobl o gyfanswm o 304) gyrraedd fferyllfa o fewn llai nag 20 munud. Dim ond 4% o ymatebwyr (11 o bobl) a gymerai fwy nag 20 munud i gyrraedd fferyllfa. Gallai 38% o ymatebwyr, (114 o bobl) gyrraedd fferyllfa o fewn llai na 5 munud. Yr ymateb mwyaf poblogaidd oedd rhwng 5 munud a 15 munud (52%, 159 o bobl).

**Ffigur 5.1: Faint o amser a gymerir i deithio i fferyllfa**



Dyweddodd y rhan fwyaf o ymatebwyr (90%, 276 o 308 o bobl) nad oeddent yn ei chael yn anodd cyrraedd fferyllfa. Dim ond 7% (23 o bobl) atebodd eu bod yn cael anhawster, a dywedodd 3% (9 o bobl) fod y cwestiwn yn amherthnasol. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys y canlynol:

Roedd saith sylw'n ymwneud ag iechyd gwael neu broblemau symudedd oherwydd anabledd, anaf neu gyflwr iechyd, fel y prif reswm dros ei chael yn anodd cyrraedd fferyllfa:

- “Rydw i'n anabl ac mae bellach yn rhy bell i mi gerdded. Mae hyn yn rhywbeth diweddar (yn y 5 mlynedd diwethaf).”
- “Weithiau rydw i'n rhy sâl i gasglu fy mhresgripsiwn felly mae fy nhad yn mynd drosta i.”

Roedd chwe sylw yn ymwneud â pha mor hawdd ydoedd i gyrraedd fferyllfa, gan gynnwys pellter teithio neu fferyllfa yn cau neu'r ddau:

- “Rwy'n aml yn cael apwyntiadau yn hwyr y prynhawn gyda'm meddyg teulu yn [enw'r lleoliad]. Mae fy fferyllfa arferol yn [enw'r fferyllfa] wedi cau bellach. Nid yw fferyllfeydd eraill yn yr ardal ar agor erbyn i mi gyrraedd yno, felly ni allaf gael fy meddyginiaeth ar yr un diwrnod. Os ydw i'n gweithio y diwrnod nesaf nid wyf yn aml yn dechrau fy meddyginiaeth am ychydig o ddiwrnodau.”
- “Rhy bell i ffwrdd ac yn anodd i'w chyrraedd.”
- “Dydw i ddim yn gyrru ac mae'n rhaid i mi gerdded i fy meddygfa ac i fferyllfa i gasglu fy meddyginiaeth. Defnyddiais y fferyllfa ar [enw'r lleoliad] ond oherwydd bod honno bellach wedi cau, rwy'n ei chael yn anodd mynd i fferyllfa sy'n agos at fy meddygfa. O ganlyniad i hyn, ar achlysuron rydw i wedi gorfod aros diwrnod neu ddau cyn gallu casglu fy meddyginiaeth sydd wedi arwain at ddirywiad yn fy nghyflwr. Rydw i'n dioddef o heintiau ar y frest ac mae dechrau gwrthfotigau a steroidau yn bwysig iawn i mi.”

Gwnaeth un sylw gyfeirio at y gwaith parhaus ar y ffordd.

### 5.1.2 Mynediad i wasanaethau hanfodol a gwasanaethau cyfatebol contractwyr cyfarpar gweinyddu

Er y bydd y mwyafrif o bobl yn ymweld â fferyllfa yn ystod y cyfnod 8.30am i 6.30pm, rhwng dydd Llun a dydd Gwener, yn dilyn ymweliad â'u meddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, bydd adegau pan fydd pobl angen, neu'n dewis cael mynediad at fferyllfa y tu allan i'r amseroedd hynny. Gallai hyn fod er mwyn cael presgripsiwn ar ôl gweld gwasanaethau y tu allan i oriau CAF 24/7, neu i gasglu eitemau a weinyddir ar eu ffordd i'r gwaith neu o'r gwaith, neu gallai fod er mwyn defnyddio un o'r gwasanaethau eraill a ddarperir gan fferyllfa y tu allan i ddiwrnod gwaith arferol unigolyn.

Dangosodd yr holiadur ymgysylltu â'r claf a'r cyhoedd nad oes gan y rhan fwyaf o ymatebwyr ffafriaeth o ran pryd yw'r amser gorau neu'r diwrnod gorau i ddefnyddio fferyllfa. O blith yr ymatebion oedd yn weddill, roedd yn well gan 42% ddefnyddio fferyllfa rhwng 9am a 6pm, a rhwng 2pm i 6pm oedd yr amser mwyaf poblogaidd (21%), wedi'i ddilyn gan 6pm i 9pm (17%). Lle nodwyd diwrnod, diwrnodau'r wythnos oedd yr amser mwyaf cyfleus i ymatebwyr ymweld â fferyllfa (19%), wedi'i ddilyn gan y penwythnosau'n gyffredinol (11%) yn hytrach na diwrnodau penodol.

Mae gofyn i fferyllfeydd agor am ddim llai na 40 awr yr wythnos (ac eithrio gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus), a chyfeirir at y rhain fel oriau agor craidd. Mae llawer o fferyllfeydd yn dewis agor am hirach a chyfeirir at yr oriau ychwanegol hyn fel oriau agor ategol. Mae Atodiad L yn darparu gwybodaeth am oriau agor fferyllfeydd a chontractwyr cyfarpar gweinyddu o 30 Medi 2021 ac ar yr adeg honno roedd:

- 15 fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- 19 fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- 33 fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn
- 39 fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener

*Gwelir yr oriau agor diweddaraf ar wefan GIG 111.*

Mae gofyn i gontractwyr cyfarpar gweinyddu agor am ddim llai na 30 awr yr wythnos, a chyfeirir at y rhain fel oriau agor craidd. Amseroedd agor y pedwar contractwr cyfarpar, o fis Mawrth 2021 yw:

Respond – Greypoint, Parc Busnes Caerdydd, Caerdydd, CF14 5WF

- Amseroedd agor: 8.00am i 5.00pm, dydd Llun i ddydd Gwener.

Salts Healthcare Ltd – 3 Hickman Road, Penarth. CF64 2AJ.

- Amseroedd agor: 9.00am i 5.00pm, dydd Llun i ddydd Gwener.

Great Bear Healthcare - 1 Lambourne Crescent, Parc Busnes Caerdydd, Caerdydd, CF14 5GF

- Amseroedd agor: 8.30am i 5.00pm, dydd Llun i ddydd Gwener.

Fittleworth Medical Ltd – 9-11 Stryd y Castell, Caerdydd, CF10 1BS

- Amseroedd agor: Ar agor 6 diwrnod yr wythnos (ac eithrio gwyliau banc).
- Dydd Llun i ddydd Gwener 8:00am – 8:00pm Dydd Sadwrn 9.00am i 1.00pm

Mae practisau meddygon teulu yn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yn ystod oriau craidd, sef rhwng 8.00am a 6.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Yn ogystal mae'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty'r Barri, Heol Colcot, y Barri, De Morgannwg, CF62 8YH, ar agor rhwng 8.30am a 3.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi datblygu Cynllun Gwasanaethau Clinigol Strategol sy'n nodi'r weledigaeth ar gyfer sut y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu darparu, gan gynnwys darparu mwy o driniaeth a gofal yn y gymuned mewn Hybiau Lles ym mhob ardal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Gallai hyn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol yn yr ardaloedd hynny.

Mae gan y bwrdd iechyd y gallu i wahodd a/neu gyfeirio fferyllwyr ar gontract presennol i addasu eu horiau agor er mwyn diwallu unrhyw anghenion yn y dyfodol yn ôl yr angen.

Ar adeg ysgrifennu adrannau 5.1.3 i 5.1.19, roedd y data a oedd ar gael yn ymwneud â 107 o fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn hytrach na 106 (o ganlyniad i gau fferyllfa ym Medi 2020) ac mae'r wybodaeth a geir yn yr adrannau hyn yn adlewyrchu hyn. Mae'r mapiau a ddefnyddir drwy gydol yr adrannau hyn yn rhoi arwydd o leoliad fferyllwyr ar gontract perthnasol o fewn ardal y bwrdd iechyd, sy'n darparu gwasanaethau uwch ac ychwanegol. O ganlyniad i faint yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd iechyd, mae llawer o'r adeiladau nad ydynt wedi'u dangos yn unigol.

### **5.1.3 Mynediad i Wasanaeth Uwch yr Adolygiad o'r Defnydd o Feddyginiaethau (MUR)**

Diben sylfaenol y gwasanaeth MUR yw gwella gwybodaeth y claf a'i ddefnydd o feddyginiaethau. Yn 2018 i 2019, darparwyd cyfanswm o 30,049 o MURs gan 101 o'r 107 o fferyllfeydd. Gall hyd at 400 o MURs gael eu darparu ym mhob fferyllfa bob blwyddyn, gan roi uchafswm posibl o 42,800 o adolygiadau'r flwyddyn. Fodd bynnag, gan nad yw chwe fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth, nifer gwirioneddol yr MURs y gellid bod wedi'u cynnal yw 40,400 o adolygiadau'r flwyddyn. Dim ond 42 fferyllfa wnaeth hawlio'r uchafswm o 400 MURs yn 2018 i 2019.


Yn 2019 i 2020, darparwyd cyfanswm o 27,060 o MURs cymwys gan 103 o'r fferyllfeydd. Gall hyd at 400 o MURs gael eu darparu ym mhob fferyllfa bob blwyddyn, gan roi uchafswm posibl o 42,800 y flwyddyn. Fodd bynnag, gan nad yw pedair fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth, nifer gwirioneddol yr MURs y gellid bod wedi'u cynnal yw 41,200. Dim ond 21 fferyllfa wnaeth hawlio'r uchafswm o 400 MURs yn 2019 i 2020.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru roi terfyn dros dro ar y gwasanaeth MUR yn ffurfiol ar 13 Mawrth 2020. Ar yr adeg ysgrifennu, ni wyddys a fydd y gwasanaeth yn ailgychwyn.


Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd hynny a ddarparodd y gwasanaeth rhwng 2019 a 2020.

# Map 5.4: Lleoliad y fferyllfeydd a ddarparodd MURs rhwng 2019 a 2020 yn ôl awdurdod lleol

Cardiff & Vale UHB - Cardiff locality Medicines use reviews



Cardiff & Vale UHB - Vale of Glamorgan Locality Medicines use review



Yn seiliedig ar lefel y ddarpariaeth rhwng 2018 a 2019 a 2019 i 2020, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon bod digon o gapasiti ymhlith fferyllwyr ar contract presennol i ddarparu mwy o MURs:

- Rhwng 2019 a 2020, ni ddarparodd pedair fferyllfa y gwasanaeth.
- O'r 103 o fferyllfeydd a ddarparodd y gwasanaeth, roedd 82 fferyllfa (80%) yn darparu llai na'r uchafswm o MURs y flwyddyn, yr oedd 32 ohonynt (31%) yn darparu llai na 200 o MURs.

Fodd bynnag, efallai nad dyma'r achos ar lefel clwstwr, a cheir dadansoddi pellach o fewn y penodau clwstwr.

#### **5.1.4 Mynediad i Wasanaeth Uwch yr Adolygiad o Feddyginiaethau wrth Ryddhau'r Claf (DMR)**


Nod y gwasanaeth DMR yw darparu cymorth i gleifion sydd wedi'u rhyddhau o'r ysbyty'n ddiweddar, drwy sicrhau bod newidiadau a gaiff eu gwneud i'w meddyginiaethau yn cael eu gwneud fel y bwriadwyd yn y gymuned.

Rhwng 2018 a 2019, roedd 85 o'r 107 o fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, a hawliwyd cyfanswm o 2,195 o ymyriadau gwasanaeth llawn dros y flwyddyn. Gall hyd at 140 o DMRs gael eu darparu ym mhob fferyllfa bob blwyddyn, gan roi uchafswm posibl o 14,980 y flwyddyn. Fodd bynnag, gan nad yw 22 fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth, nifer gwirioneddol y DMRs y gellid bod wedi'u cynnal yw 11,900. Dim ond dwy fferyllfa a ddarparodd yr uchafswm o 140 o ymyriadau gwasanaeth DMR.


Rhwng 2019 a 2020, roedd 91 o fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, a hawliwyd cyfanswm o 2,752 o ymyriadau gwasanaeth llawn dros y flwyddyn. Gall hyd at 140 o DMRs gael eu darparu ym mhob fferyllfa bob blwyddyn, gan roi uchafswm posibl o 14,980 y flwyddyn. Fodd bynnag, gan nad yw 16 fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth, nifer gwirioneddol y DMRs y gellid bod wedi'u cynnal yw 12,740. Dim ond pedair fferyllfa a ddarparodd yr uchafswm o 140 o ymyriadau gwasanaeth DMR.

### Map 5.5: Lleoliad y fferyllfeydd a oedd yn darparu DMRs rhwng 2019 a 2020

Cardiff & Vale UHB - Cardiff locality Discharge medicines review



Cardiff & Vale UHB - Vale of Glamorgan Discharge medicines review



Yn seiliedig ar lefel y ddarpariaeth rhwng 2018 a 2019 a 2019 i 2020, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon bod digon o gapasiti ymhlith fferyllwyr ar contract presennol i ddarparu mwy o DMRs:

- Rhwng 2019 a 2020, ni wnaeth 16 o fferyllfeydd ddarparu'r gwasanaeth.
- O'r 91 o fferyllfeydd a ddarparodd y gwasanaeth, roedd 87 fferyllfa (96%) yn darparu llai na'r uchafswm o 140 o DMRs y flwyddyn, yr oedd 78 ohonynt (86%) yn darparu llai na 70 o DMRs.

At hynny, fel rhan o'r newidiadau i'r Fframwaith Contractiol Fferylliaeth Gymunedol ar gyfer 2021, mae'r terfyn ar nifer y DMRs a dalwyd wedi'i dynnu bellach, sy'n golygu y gall fferyllfeydd ddarparu mwy na 140 o DMRs y flwyddyn. Nid oes unrhyw reswm i feddwl bod capasiti'r gwasanaeth wedi newid yn ystod 2020 i 2021. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith ar y ddarpariaeth a'r angen ar gyfer y gwasanaeth hwn yn ystod 2020 i 2021. Ceir dadansoddi pellach o fewn y penodau clwstwr.

#### **5.1.5 Mynediad i Wasanaeth Uwch yr Adolygiad o'r Defnydd o Gyfarpar (AUR)**

Nid oedd unrhyw fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn rhwng 2018 a 2019 ac yn ystod pum mis cyntaf 2020 i 2021.

O'r pedwar contractiwr cyfarpar a leolir ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, dim ond un sy'n cynnig y gwasanaeth AUR a darparodd gyfanswm o 2,526 o AURs rhwng 2018 a 2019, darparwyd 1,578 o AURs rhwng 2019 a 2020 a 326 o AURs yn ystod Hydref 2020. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r ffath bod y contractiwr cyfarpar gweinyddu yn darparu gwasanaethau ledled Cymru ac i Loegr, nid yw'r rhain i gyd wedi'u darparu i breswylwyr ardal y bwrdd iechyd. O ganlyniad i'r ffodd y caiff data ei gasglu a'i gyhoeddi, ni wyddys faint o'r rhain a ddarparwyd i breswylwyr y bwrdd iechyd.

#### **5.1.6 Mynediad i'r Gwasanaeth Uwch Teilwra Cyfarpar Stoma (SAC)**

Nid oedd unrhyw fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn rhwng 2018 a 2019 ac yn ystod misoedd cyntaf 2020 i 2021.


Mae pob un o'r pedwar contractiwr cyfarpar sydd wedi'u lleoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnig y gwasanaeth SAC. Darparwyd cyfanswm o 39,264 SAC rhwng 2018 a 2019, darparwyd 39,111 SAC rhwng 2019 a 2020 a darparwyd 21,078 SAC ym mis Hydref 2020. Fodd bynnag, oherwydd bod contractwyr cyfarpar gweinyddu'n darparu gwasanaethau ledled Cymru ac i Loegr, ni fydd pob un o'r rhain wedi'u darparu ar gyfer preswylwyr yn ardal y bwrdd iechyd. O ganlyniad i'r ffodd y caiff data ei gasglu a'i gyhoeddi, ni wyddys faint o'r rhain a ddarparwyd i breswylwyr y bwrdd iechyd.

### 5.1.7 Mynediad i'r Gwasanaeth Ychwanegol Dulliau Atal Cenhedlu Brys

Yn 2011, cafodd gwasanaeth Dulliau Atal Cenhedlu Brys cenedlaethol ei gomisyntu gan fferyllfeydd cymunedol. Mae hyn yn caniatáu i fenywod a merched 13 oed ac yn hŷn gael gafael ar levonorgestrel am ddim o dan gyfarwyddyd grŵp cleifion (PGD). Ym mis Ebrill 2015, cafodd y gwasanaeth ei ehangu er mwyn galluogi ulipristal acetate i gael ei roi 72 a 120 awr ar ôl cael rhyw heb ddiogelwch (UPSI). O fis Ebrill 2021, cafodd 75 o fferyllfeydd eu comisiynu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddarparu'r gwasanaeth ychwanegol Dulliau Atal Cenhedlu Brys.


Rhwng 2018 a 2019, darparodd 66 o fferyllfeydd gyfanswm o 8,869 o ymgynghoriadau o dan y gwasanaeth hwn dros y flwyddyn. Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a ddarparwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd dros y cyfnod hwn.

**Ffigur 5.2: Nifer yr ymgynghoriadau dulliau atal cenhedlu brys a hawliwyd rhwng 2018 a 2019**



Rhwng 2019 a 2020, darparodd 68 o fferyllfeydd gyfanswm o 8,105 o ymgynghoriadau o dan y gwasanaeth hwn dros y flwyddyn. Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd dros y cyfnod rhwng 2019 a 2020.


**Ffigur 5.3: Nifer yr ymgynghoriadau dulliau atal cenhedlu brys a hawliwyd rhwng 2019 a 2020**



Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd hynny a ddarparodd y gwasanaeth rhwng 2019 a 2020.

### Map 5.6: Lleoliad y fferyllfeydd sy'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Dulliau Atal Cenhedlu Brys rhwng 2019 a 2020

Cardiff & Vale UHB - Cardiff locality Emergency hormonal contraception




**Cardiff & Vale UHB - Vale of Glamorgan Emergency hormonal contraception**



Yn ystod y pum mis cyntaf rhwng 2020 a 2021, darparodd 63 o fferyllfeydd gyfanswm o 2,246 o ymgynghoriadau o dan y gwasanaeth hwn.


Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau dulliau atal cenhedlu brys a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd yn ystod y pum mis cyntaf rhwng 2020 a 2021.

**Ffigur 5.4: Nifer yr ymgynghoriadau dulliau atal cenhedlu brys a hawliwyd rhwng 2020 a 2021**



Mae'r ffigur isod yn cymharu darpariaeth y gwasanaeth dros y tair blynedd ariannol diwethaf.

**Ffigur 5.5: Nifer yr ymgynghoriadau dulliau atal cenhedlu brys a ddarparwyd rhwng Ebrill 2018 ac Awst 2021**



Yn seiliedig ar lefel y ddarpariaeth rhwng 2018 i 2019 a 2019 i 2020, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon bod digon o gapasiti ymhlith fferyllwyr ar gontract presennol i ddarparu mwy o ymgynghoriadau dulliau atal cenhedlu brys.

O'r data sydd ar gael ar gyfer 2020 i 2021, nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi casgliad gwahanol. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith ar y ddarpariaeth a'r angen ar gyfer y gwasanaeth hwn yn ystod 2020 i 2021. Ceir dadansoddi pellach o fewn y penodau clwstwr.

### 5.1.8 Mynediad i'r Gwasanaeth Ychwanegol Lefel 2 Rhoi'r Gorau i Smygu


Mae'r Gwasanaeth Ychwanegol Lefel 2 Rhoi'r Gorau i Smygu yn cysylltu fferyllfeydd â'r gwasanaeth cymorth ymddygiadol dwys a ddarperir gan Helpa fi i Stopio. O dan y trefniant hwn, mae fferyllwyr ar gontract yn darparu therapi disodli nicotin i smygwyr sy'n derbyn cymorth ymddygiadol i roi'r gorau i smygu gan Helpa fi i Stopio, mewn ymateb i lythyr atgyfeirio neu gerdyn apwyntiad sy'n dangos dibyniaeth y cleient ar nicotin. Ar ôl cwblhau'r rhaglen chwe wythnos yn llwyddiannus, bydd Helpa fi i Stopio yn rhoi llythyr atgyfeirio ar ryddhau i fferyllfa am gyflenwad chwe wythnos bellach o therapi disodli nicotin, i'w rhoi bob pythefnos.

Dechreuodd y gwasanaeth ym mis Mai 2020, ac mae 34 o fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Lefel 2 Rhoi'r Gorau i Smygu.

O fis Awst 2020, roedd pedair fferyllfa'n darparu cyfanswm o 13 o ymgynghoriadau. Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd o dan y

gwasanaeth gan fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd dros y cyfnod rhwng 2020 a 2021.

**Ffigur 5.6: Nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd rhwng 2020 a 2021**




Yn seiliedig ar y ffaith bod y gwasanaeth ond wedi dechrau ym mis Mai 2020 a dim ond pedair fferyllfa oedd yn darparu'r gwasanaeth ar yr adeg honno, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon bod digon o gapasiti ymhlith fferyllwyr ar contract presennol i ddarparu mwy o wasanaethau Lefel 2 Rhoi'r Gorau i Smygu.

### 5.1.9 Mynediad i'r Gwasanaeth Ychwanegol Lefel 3 Rhoi'r Gorau i Smygu

Cafodd y Gwasanaeth Ychwanegol Lefel 3 Rhoi'r Gorau i Smygu ei gomisiynu yn 2015 ac mae wedi'i gynllunio i ddarparu gwasanaeth cymorth a thriniaeth cynhwysfawr i gleifion i'w helpu i roi'r gorau i smygu dros raglen 12 wythnos, sy'n cynnwys wyth ymgynghoriad gyda fferyllfydd achrededig. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys asesiad cychwynnol i bennu parodrwydd cleient i roi'r gorau i smygu; technegau cyfweld cymhellol i helpu cleientiaid yn eu hymgais i roi'r gorau i smygu; cyflenwi a chymorth o ran y defnydd o gynhyrchion therapi disodli nicotin (NRT) i sicrhau'r manteision therapiwtig mwyaf posibl a dulliau monitro carbon monocsid i gefnogi ymgais i roi'r gorau i smygu. O fis Ebrill 2021, cafodd 39 o fferyllfeydd eu comisiynu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddarparu'r gwasanaeth ychwanegol lefel 3 rhoi'r gorau i smygu.


Rhwng 2018 a 2019, darparodd 20 o fferyllfeydd gyfanswm o 279 o ymgynghoriadau dros y flwyddyn. Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd dros y cyfnod rhwng 2018 a 2019.

**Ffigur 5.7: Nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd rhwng 2018 a 2019**




Rhwng 2019 a 2020, darparodd 22 o fferyllfeydd gyfanswm o 407 o ymgynghoriadau o dan y gwasanaeth hwn dros y flwyddyn. Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd dros y cyfnod rhwng 2019 a 2020.

**Ffigur 5.8: Nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd rhwng 2019 a 2020**



Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd hynny a ddarparodd y gwasanaeth rhwng 2019 a 2020.

### Map 5.7: Lleoliad y fferyllfeydd sy'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Lefel 3 Rhoi'r Gorau i Smygu rhwng 2020 a 2021




Cardiff & Vale UHB - Vale of Glamorgan Locality Smoking cessation level 3




Yn ystod y pum mis cyntaf rhwng 2020 a 2021 darparodd 14 o fferyllfeydd gyfanswm o 87 o ymgynghoriadau. Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd yn ystod y pum mis cyntaf rhwng 2020 a 2021.

**Ffigur 5.9: Nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd rhwng 2020 a 2021**



Mae'r ffigur isod yn cymharu darpariaeth y gwasanaeth dros y tair blynedd ariannol diwethaf.

**Ffigur 5.10: Nifer yr ymgynghoriadau rhwng Ebrill 2018 ac Awst 2021**



Yn seiliedig ar lefel y ddarpariaeth rhwng 2018 i 2019 a 2019 i 2020, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon bod digon o gapasiti ymhlith fferyllwyr ar contract presennol i ddarparu mwy o ymgynghoriadau lefel 3 rhoi'r gorau i smygu.

O'r data sydd ar gael ar gyfer 2020 i 2021 nid oes tystiolaeth i gefnogi casgliad gwahanol. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith ar y ddarpariaeth a'r angen ar gyfer y gwasanaeth hwn yn ystod 2020 i 2021. Ceir dadansoddi pellach o fewn y penodau clwstwr.


### 5.1.10 Mynediad i Wasanaeth Ychwanegol y Brechiad Ffliw

Cafodd Gwasanaeth Ychwanegol y Brechiad Ffliw ei gomisiynu yn 2021. Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi fferyllfeydd i ddarparu imiwneiddiad fflw i'r cleifion hynny mewn grwpiau risg y cytunwyd arnynt yn genedlaethol a lleol. Mae'n cefnogi darpariaeth ehangach imiwneiddiad fflw ac yn anelu at gynyddu cyfran yr unigolion sy'n wynebu risg sy'n derbyn yr imiwneiddiad, gan helpu i leihau afiachusrwydd a marwolaeth.

Rhwng 2020 a 2021, cafodd 88 o fferyllfeydd eu comisiynu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddarparu gwasanaeth ychwanegol y brechlyn fflw.


Rhwng 2018 a 2019, darparodd 88 o fferyllfeydd gyfanswm o 8,274 o frechiadau dros dymor y fflw (Medi i Fawrth). Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y brechiadau a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd rhwng 2018 a 2019.

**Ffigur 5.11: Nifer y brechiadau fflw a hawliwyd rhwng 2018 a 2019**



Rhwng 2019 a 2020, darparodd 86 o fferyllfeydd gyfanswm o 9,164 o frechiadau dros dymor y fflw. Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y brechiadau a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd rhwng 2019 a 2020.


**Ffigur 5.12: Nifer y brechiadau fflw a hawliwyd rhwng 2019 a 2020**




Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd hynny a ddarparodd y gwasanaeth rhwng 2019 a 2020.

## Map 5.8: Lleoliad y fferyllfeydd sy'n darparu Gwasanaeth Ychwanegol y Brechiad Ffliw rhwng 2019 a 2020

Cardiff & Vale UHB - Cardiff locality Flu




Cardiff & Vale UHB - Vale of Glamorgan Locality Flu



Mae'r ffigur isod yn cymharu darpariaeth y gwasanaeth dros ddau dymor y fflw.

**Ffigur 5.13: Nifer y brechiadau a hawliwyd bob blwyddyn ar gyfer tymhorau fflw 2018 i 2019 a 2019 i 2020**



Yn seiliedig ar lefel y ddarpariaeth rhwng 2018 i 2019 a 2019 i 2020, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon bod digon o gapasiti ymhlith fferyllwyr ar contract presennol i ddarparu mwy o ymgynghoriadau brechiadau fflw.

Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith ar y ddarpariaeth a'r angen ar gyfer y gwasanaeth hwn yn ystod 2020 i 2021. Ceir dadansoddi pellach o fewn y penodau clwstwr.


### 5.1.11 Mynediad i Wasanaeth Ychwanegol y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin (CAS)

Mae'r gwasanaeth CAS yn rhoi cyngor a thriniaeth ar ystod o gyflyrau penodedig megis acne, brech yr ieir, llid pilen y llygad, llau pen, llwnc tost/tonsilitis a dafadennau. Mae cleifion yn cofrestru gyda fferyllfa ac yn derbyn ymgynghoriad gyda fferyllfydd a chynghor ar reolaeth a thriniaeth lle bo angen, neu atgyfeiriad os bydd angen, ac fe'i darperir fel dewis amgen i wneud apwyntiad gyda meddyg teulu.

Mae 102 o fferyllfeydd wedi'u comisiynu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddarparu'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin, yr oedd 24 ohonynt yn gallu darparu'r elfen Profi a Thrin Llwn Tost (STTT) o'r gwasanaeth cyn pandemig y coronafeirws (COVID-19).

Rhwng 2019 a 2020, roedd 102 o'r fferyllfeydd yn darparu cyfanswm o 6,597 o ymgynghoriadau dros y flwyddyn. Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd dros y cyfnod rhwng 2019 a 2020.


**Ffigur 5.14: Nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd rhwng 2019 a 2020**




Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd hynny a ddarparodd y gwasanaeth rhwng 2019 a 2020.

## Map 5.9: Lleoliad y fferyllfeydd sy'n darparu Gwasanaeth Ychwanegol y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin rhwng 2019 a 2020

Cardiff & Vale UHB - Cardiff locality Common ailment service




Cardiff & Vale UHB - Vale of Glamorgan Common ailment service




Yn ystod y pum mis cyntaf rhwng 2020 a 2021 darparodd 97 o fferyllfeydd gyfanswm o 3,409 o ymgynghoriadau. Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd yn ystod y pum mis cyntaf rhwng 2020 a 2021.

**Ffigur 5.15: Nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd rhwng 2020 a 2021**



Mae'r ffigur isod yn cymharu darpariaeth y gwasanaeth rhwng Ebrill 2019 ac Awst 2021.

**Ffigur 5.16: Nifer yr ymgynghoriadau bob blwyddyn rhwng Ebrill 2019 ac Awst 2021**



Yn seiliedig ar lefel y ddarpariaeth rhwng 2019 i 2019 a 2020 i 2020, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon bod digon o gapasiti ymhlith fferyllwyr ar gontract presennol i ddarparu'r gwasanaeth CAS.

O'r data sydd ar gael ar gyfer 2020 i 2021 nid oes tystiolaeth i gefnogi casgliad gwahanol. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith ar y ddarpariaeth a'r angen ar gyfer y gwasanaeth hwn yn ystod 2020 i 2021. Ceir dadansoddi pellach o fewn y penodau clwstwr.

### **5.1.12 Mynediad i'r Gwasanaeth Ychwanegol Cyflenwad Meddyginiaethau Brys (EMS)**

Cafodd y gwasanaeth ychwanegol EMS ei gomisiynu i ddechrau yn 2015 i alluogi cleifion i gael cyflenwadau brys o feddyginiaethau drwy fferyllfeydd cymunedol, gyda'r GIG yn talu am y gost cyflenwi. Diben y gwasanaeth hwn yw lleihau'r baich ar y gwasanaethau y tu allan i oriau a gofal brys mewn perthynas â rheoli ceisiadau cleifion am gyflenwadau brys o feddyginiaethau y tu allan i oriau gweithio arferol meddygon teulu.


Deddf Meddyginiaeth Dynol 2012 yw'r brif ddeddfwriaeth o hyd sy'n llywodraethu'r cyflenwad brys o feddyginiaeth ar gais claf, a rhaid i'r holl gyflenwadau meddyginiaeth gael eu rhoi'n unol â'r rheoliadau hyn.

O fis Ebrill 2021, cafodd 93 o fferyllfeydd eu comisiynu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddarparu'r gwasanaeth EMS fel rhan o'r ymateb i'r coronafeirws (COVID-19).

Rhwng 2019 a 2020, darparodd 33 o fferyllfeydd gyfanswm o 681 o ymgynghoriadau dros y flwyddyn.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd dros y cyfnod rhwng 2019 a 2020.


**Ffigur 5.17: Nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd rhwng 2019 a 2020**



Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd hynny a ddarparodd y gwasanaeth rhwng 2019 a 2020.

## Map 5.10: Lleoliad y fferyllfeydd sy'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol EMS rhwng 2019 a 2020

Cardiff & Vale UHB - Cardiff locality Emergency medicines supply




**Cardiff & Vale UHB - Vale of Glamorgan Emergency medicines supply**




Yn ystod y pum mis cyntaf rhwng 2020 a 2021 darparodd 53 o fferyllfeydd gyfanswm o 819 o ymgynghoriadau. Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd yn ystod y pum mis cyntaf rhwng 2020 a 2021.

**Ffigur 5.18: Nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd rhwng 2020 a 2021**



Mae'r ffigur isod yn cymharu darpariaeth y gwasanaeth rhwng Ebrill 2019 ac Awst 2021.

**Ffigur 5.19: Nifer yr ymgynghoriadau rhwng Ebrill 2019 ac Awst 2020**



Yn seiliedig ar lefel y ddarpariaeth rhwng 2019 a 2019 a 2020 i 2020, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon bod digon o gapasiti ymhlith fferyllwyr ar contract presennol i ddarparu mwy o ymgynghoriadau EMS.

O'r data sydd ar gael ar gyfer 2020 i 2021, nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi casgliad gwahanol. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd pandemig y coronafeirws (COVID-19) a newidiadau canlyniadol o ran mynediad i feddygon teulu wedi ysgogi darpariaeth y gwasanaeth hwn yn ystod 2020 i 2021. Ceir dadansoddi pellach o fewn y penodau clwstr.

### 5.1.13 Mynediad i'r Gwasanaeth Ychwanegol Gweinyddu Meddyginiaeth o dan Oruchwyliaeth

Nod y gwasanaeth ychwanegol hwn yw darparu, yn unol â phresgripsiwn priodol, dull o weinyddu meddyginiaeth o dan oruchwyliaeth, megis methadon a Buprenorphine, gan gyfrannu at leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnydd amhriodol o feddyginiaethau ar bresgripsiwn neu eu dargyfeirio

O fis Ebrill 2021, cafodd 52 o fferyllfeydd eu comisiynu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddarparu'r gwasanaeth Gweinyddu Meddyginiaethau dan Oruchwyliaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Rhwng 2019 a 2020, darparodd 49 o fferyllfeydd y gwasanaeth hwn a gwnaeth cyfanswm o 4,531 o gleifion ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Yn seiliedig ar lefel y ddarpariaeth, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon bod digon o gapasiti ymhlith fferyllwyr ar gontract presennol i ddarparu mwy o ddulliau gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth.

Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith ar y ddarpariaeth a'r angen ar gyfer y gwasanaeth hwn yn ystod 2020 i 2021. Ceir dadansoddi pellach o fewn y penodau clwstwr.

#### **5.1.14 Mynediad i'r Gwasanaeth Ychwanegol Darpariaeth Nodwydd a Chwistrell**

Nod y Gwasanaeth Ychwanegol Darpariaeth Nodwydd a Chwistrell yw lleihau lledaeniad HIV, Hepatitis C a chlefydau eraill a gludir yn y gwaed ymhlith pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau drwy chwistrellu, a darparu mynediad cyfleus i ddefnyddwyr y gwasanaeth i offer chwistrellu di-haint, a chyfleuster ar gyfer cael gwared ar gyfarpar a ddefnyddiwyd yn ddiogel. Er mwyn iddo fod yn effeithiol, rhaid i'r cynllun weithredu ar sail cyfnewid, a rhaid i fferyllfeydd sy'n cymryd rhan wneud pob ymdrech i annog defnyddwyr y gwasanaeth i ddychwelyd cyfarpar a ddefnyddiwyd yn gyfnewid am becynnau newydd. Rhwng 2019 a 2020, cafodd 14 o fferyllfeydd eu comisiynu gan y Bwrdd Cynllunio Ardal, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Er bod y gwasanaeth Darpariaeth Nodwydd a Chwistrell yn cael ei ddarparu gan fferyllfeydd, caiff ei ddarparu hefyd gan wasanaethau arbenigol, gwasanaethau hostel ac allgymorth. Gwnaeth fferyllfeydd ddarparu'r gwasanaeth Darpariaeth Nodwydd a Chwistrell i 39% o gleientiaid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro dros y cyfnod hwn.

#### **5.1.15 Mynediad i'r Gwasanaeth Ychwanegol Feirws a Gludir yn y Gwaed**

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r broses o ganfod a rhoi diagnosis cynnar i'r rhai sy'n wynebu risg o gael feirysau a gludir yn y gwaed fel HIV, hepatitis B a C, ac mae'n sicrhau bod triniaeth yn cael ei chychwyn yn gynnar, gan atal y feirws rhag trosglwyddo ymhellach. Mae'r grŵp o gleientiaid yr ystyrir eu bod yn wynebu risg o haint yn mynychu'r gwasanaethau a ddarperir gan y fferyllfeydd yn rheolaidd, megis y gwasanaeth darpariaeth nodwydd a chwistrell a defnydd dan oruchwyliaeth. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnal peilot gwasanaeth ychwanegol lleol graddfa fach o'r gwasanaeth profi ar gyfer feirws a gludir yn y gwaed, mewn pedair fferyllfa ledled yr ardal. Ar yr adeg ysgrifennu, mae'r gwasanaeth hwn wedi'i atal dros dro oherwydd pandemig y coronafeirws (COVID-19).

### **5.1.16 Mynediad i'r Gwasanaeth Ychwanegol Cymorth Cartref Gofal (Lefel 1)**

Mae'r gwasanaeth ychwanegol yn cefnogi'r broses o archebu, cyflenwi, storio a gweinyddu meddyginiaethau a chyfarpar yn ddiogel o fewn cartrefi gofal. Mae'n cynnwys adolygiad systematig o'r holl brosesau rheoli meddyginiaethau yn y cartref gofal, a'r gwaith o ddatblygu protocolau a gweithdrefnau meddyginiaethau i gefnogi defnydd effeithiol o feddyginiaethau, gan leihau risg a lleihau gwastraff y gellir ei osgoi.

Cyflwynwyd y gwasanaeth cymorth cartref gofal lefel un yn ardal y bwrdd iechyd yn 2018, i gefnogi 20 o'r 129 o gartrefi gofal yng Nghaerdydd.

### **5.1.17 Y Gwasanaeth Ychwanegol Gofal Lliniarol**

Mae mynediad i feddyginiaethau gofal lliniarol o fewn oriau gwaith yn ofynnol er mwyn cefnogi gofal cleifion y mae eu cyflwr yn dirywio'n annisgwyl. Ni chaiff meddyginiaethau gofal lliniarol eu cadw'n rheolaidd o reidrwydd gan bob fferyllfa sy'n golygu, weithiau, y bydd yn rhaid i gleifion fynd i fwy nag un fferyllfa i gael yr holl feddyginiaethau sydd eu hangen arnynt. Mae'r gwasanaeth hwn yn sicrhau mynediad prydlon ac effeithiol i ystod o feddyginiaethau gofal lliniarol o fewn oriau gwaith arferol, gan achosi'r anghyfleustra lleiaf posibl i gleifion a gweithwyr proffesiynol, drwy nodi fferyllfeydd allweddol sydd wedi cytuno i gadw rhestr stoc benodol o feddyginiaethau gofal lliniarol.

Mae 31 fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth gofal lliniarol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a rhwng 2019 i 2020, gwnaeth 29 fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth hwn.

### **5.1.18 Presgripsiynu annibynnol**

Gall presgripsiynwyr annibynnol mewn fferyllfeydd roi unrhyw feddyginiaeth drwyddedig ar bresgripsiwn ar gyfer unrhyw gyflwr meddygol, o fewn eu maes cymhwysedd therapiwtig.

Rhoddwyd y cyfle i fferyllfeydd cymunedol a byrddau iechyd ledled Cymru

gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu safleoedd braenaru a threialu gwasanaethau newydd a allai ddefnyddio fferyllwyr cymunedol a phresgripsiynwyr annibynnol mewn fferylliaeth yn y gymuned.

Ar y cyd â'r Adran Iechyd Rhywiol, gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddatblygu gwasanaeth dulliau atal cenhedlu drwy'r geg mewn fferyllfeydd cymunedol. Yn 2020, gwnaeth y bwrdd iechyd lansio gwasanaeth dulliau atal cenhedlu drwy'r geg gan bresgripsiynwyr annibynnol mewn pedair fferyllfa gymunedol, gyda chynlluniau i ehangu i chwe safle erbyn 2022.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn bwriadu lansio gwasanaeth cyflyrau aciwt gan bresgripsiynwyr annibynnol o fewn pedair fferyllfa gymunedol ychwanegol yn 2021. Bydd y gwasanaeth cyflyrau aciwt yn rhoi cyfle i gleifion sy'n ymweld â'r fferyllfa gymunedol gyda chyflwr aciwt perthnasol, gael mynediad i gyngor a thriniaeth effeithiol, a ddarperir gan bresgripsiynwr annibynnol mewn fferyllfa gymunedol. Bydd y gwasanaeth yn cefnogi model gofal 'fferyllfa gymunedol yn gyntaf', er mwyn lleihau nifer y cleifion sy'n ymgynghori â'u meddyg teulu ynghylch cyflyrau aciwt y gellir eu rheoli'n briodol yn y fferyllfa gymunedol.

### **5.1.19 Mynediad i wasanaethau fferyllol yn ystod gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc**

Mae gan y bwrdd iechyd ddyletswydd i sicrhau bod preswylwyr ei ardal yn gallu cael mynediad at wasanaethau fferyllol bob dydd. Nid yw'n ofynnol i fferyllfeydd a chontractwyr cyfarpar gweinyddu agor yn ystod gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc, na Sul y Pasg, er bod rhai yn dewis gwneud hynny. Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro system rota gwyliau banc ar waith i sicrhau bod nifer benodol o fferyllfeydd ar agor am gyfnod cyfyngedig ar draws ardal y bwrdd iechyd yn ystod gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc.

### **5.1.20 Rhaglen imiwneiddio torfol - y Gwasanaeth Imiwneiddio Contractwyr Gofal Sylfaenol (PCCIS) mewn fferyllfeydd cymunedol**

Drwy gydol 2020 ac i mewn i 2021, mae fferyllfeydd wedi chwarae rhan hanfodol i gefnogi ymateb gofal sylfaenol y bwrdd iechyd i bandemig y coronafeirws (COVID-19), drwy'r gwasanaethau fferyllol Hanfodol, Uwch ac Ychwanegol a ddarperir ganddynt. Mae datblygu'r Gwasanaeth Imiwneiddio Contractwyr Gofal Sylfaenol (PCCIS) gan Lywodraeth Cymru wedi golygu y gellir cynnwys fferyllfeydd fel safleoedd brechu. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi comisiynu tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac mae saith safle arall wedi'u nodi, gyda 40 o fferyllfeydd â diddordeb mewn darparu'r gwasanaeth hwn. Bydd fferyllfeydd yn parhau i fod yn rhan o'r rhaglen imiwneiddio torfol o fewn gofal sylfaenol wrth i ni symud drwy 2021 a thu hwnt i hynny.

### **5.1.21 Gwasanaeth gweinyddu a ddarperir gan rai practisau meddygon teulu**

Mae practisau meddygon teulu sy'n gweinyddu meddyginiaethau yn darparu'r gwasanaeth gweinyddu yn ystod eu horiau craidd, sef 8.00am i 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc. Gall y gwasanaeth hwn hefyd gael ei ddarparu yn ystod oriau agor estynedig a ddarperir gan y practisau.

Roedd gan y practis meddyg teulu sy'n gweinyddu ym Mhractis Meddygol y Bont-faen a'r Fro, Canolfan Iechyd y Bont-faen, Bro Morgannwg, CF71 7DA, 372 o bobl wedi'u cofrestru fel cleifion gweinyddu gyda'u practis ym mis Awst 2020. Roedd hyn yn 5% o gyfanswm rhestr y practis.

Mae gan y practis meddyg teulu gweinyddu gymeradwyaeth safle i ddarparu gwasanaeth gweinyddu o Goleg yr Iwerydd, Castell Sain Dunwyd, Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg, CF71 1WF, i'r myfyrwyr sy'n byw yng Ngholeg yr Iwerydd. Ni chaiff unrhyw gyfarpar ei weinyddu ar y safle hwn. Coleg preswyl yw hwn.

Mae'r practis wedi hysbysu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fod ganddo ddigon o gapasiti o fewn ei adeilad presennol a digon o staff i ddelio â chynnydd mewn galw yn yr ardal pe bai angen. Fodd bynnag, byddai hyn yn dibynnu ar y telerau a nodir yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

## **5.2 Darpariaeth bresennol y tu allan i ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

### **5.2.1 Mynediad i wasanaethau hanfodol a gwasanaethau cyfatebol contractwyr cyfarpar gweinyddu**

Mae gan gleifion ddewis o ran ble maent yn cael gafael ar wasanaethau fferyllol; gallai hyn fod yn agos at eu cartref, eu practis meddyg teulu, eu man gwaith neu lle maent yn mynd i siopa, gwneud gweithgareddau hamdden neu resymau eraill. O ganlyniad, ni chaiff yr holl bresgripsiynau a ysgrifennir ar gyfer preswylwyr ardal y bwrdd iechyd eu gweinyddu o fewn yr un ardal, er hynny, fel y nodir yn yr adran flaenorol, mae'n wir am y mwyafrif helaeth o eitemau. Rhwng 2019 a 2020, cafodd 1.8% o eitemau eu gweinyddu y tu allan i ardal y bwrdd iechyd, y cafodd 1.2% ohonynt eu gweinyddu mewn mannau eraill yng Nghymru gan 505 o fferyllwyr ar gontract gwahanol (a oedd yn masnachu yn ystod y cyfnod hwn.) Cafodd 0.6% eu gweinyddu yn Lloegr.

O blith y 121,774 o eitemau a weinyddwyd mewn mannau eraill yng Nghymru:

- cafodd 78,128 eu gweinyddu gan 129 o fferyllwyr ar gontract yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan,
- cafodd 605 eu gweinyddu gan 78 o fferyllwyr ar gontract yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr,
- cafodd 34,185 eu gweinyddu gan 108 o fferyllwyr ar gontract yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg,
- cafodd 2,488 eu gweinyddu gan 90 o fferyllwyr ar gontract yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda,
- cafodd 224 eu gweinyddu gan 20 o fferyllwyr ar gontract yn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, a
- chafodd 6,144 eu gweinyddu gan 80 o fferyllwyr ar gontract yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Gwnaeth y mathau canlynol o fferyllwyr ar gontract weinyddu'r 64,576 o eitemau yn Lloegr:

- Fferyllfeydd
- Contractwyr cyfarpar gweinyddu
- Safleoedd gwerthu o bell (a elwir hefyd yn fferyllfeydd ar y rhyngrwyd)

Yn gyffredinol, roedd tri rheswm penodol dros weinyddu presgripsiwn y tu allan i ardal y bwrdd iechyd:

- cafodd y presgripsiwn ei weinyddu gan gontractwr cyfarpar gweinyddu (naill ai yng Nghymru neu Loegr), neu
- gan fferlyllfa a oedd wedi'i lleoli dros y ffin o fewn ardal bwrdd iechyd arall neu yn Lloegr, neu
- fe'i gweinyddwyd tra bod yr unigolyn ar wyliau, yn y gwaith neu'n siopa.

### **5.2.2 Mynediad i wasanaethau uwch**

Nid oes gwybodaeth am y math o wasanaethau uwch a ddarperir gan fferyllfeydd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd i'w preswylwyr ar gael. Wrth hawlio ar gyfer gwasanaethau uwch, mae fferyllwyr ar gontract yn hawlio ar gyfer y cyfanswm a ddarperir ar gyfer pob gwasanaeth. Yr eithriad i hyn yw'r gwasanaeth teilwra cyfarpar stoma, lle gwneir taliad yn seiliedig ar y wybodaeth a geir yn y presgripsiwn. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r gwasanaeth hwn, dim ond cyfanswm yr eitemau cyfarpar perthnasol a nodir at ddibenion talu. Gellir tybio fodd bynnag y bydd preswylwyr ardal y bwrdd iechyd yn cael gafael ar y gwasanaethau hyn gan fferyllwyr ar gontract y tu allan i'r ardal.

### **5.2.3 Mynediad i wasanaethau ychwanegol**

Yn debyg i wasanaethau uwch, nid oes gwybodaeth am y gwasanaethau ychwanegol a ddarperir gan fferyllfeydd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd i'w preswylwyr ar gael. Gellir tybio fodd bynnag y bydd preswylwyr ardal y bwrdd iechyd yn cael gafael ar y gwasanaethau hyn gan fferyllwyr ar gontract y tu allan i'r ardal.

### **5.2.4 Gwasanaeth gweinyddu a ddarperir gan rai practisau meddygon teulu**

Bydd rhai o breswylwyr ardal y bwrdd iechyd yn dewis cofrestru gyda phractis meddyg teulu y tu allan i'r ardal a byddant yn defnyddio'r gwasanaeth gweinyddu os caiff ei gynnig gan eu practis.

## **5.3 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol**

Fel y gellir gweld o adrannau 5.1 a 5.2, mae preswylwyr ardal y bwrdd iechyd, ar hyn o bryd, yn arfer eu dewis o ran ble i gael gafael ar wasanaethau fferyllol i raddau sylweddol. O fewn ardal y bwrdd iechyd, mae ganddynt ddewis o 106 o fferyllfeydd, a weithredir gan 39 o fferyllwyr ar gontract gwahanol, a phedwar contractwr cyfarpar gweinyddu a weithredir gan bedwar fferyllydd ar gontract gwahanol. Y tu allan i ardal y bwrdd iechyd, mae preswylwyr yn dewis defnyddio 402 o fferyllwyr ar gontract pellach, er bod llawer ohonynt na chânt eu defnyddio'n rheolaidd.

Pan ofynnwyd iddynt beth sy'n dylanwadu ar eu defnydd o fferyllfa, yr ymatebion mwyaf cyffredin yn yr holiadur i'r cleifion a'r cyhoedd oedd 'agos at gartref' wedi'i ddilyn gan 'agos at fy meddyg' a bod lleoliad y fferyllfa yn hawdd i'w gyrraedd. Nodwch y gellid rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn.

O'r 22 o ymatebwyr a atebodd 'arall', cafwyd 10 sylw am y system amlweinyddu, gan gynnwys archebu a chasglu presgripsiynau:

- "Maent yn rhoi gwybod dros y ffôn pan fydd fy mhresgripsiwn yn barod i'w gasglu."
- "Rwy'n casglu fy mhresgripsiwn o'r Meddyg Teulu ac rydw i'n ei gasglu o'r fferyllfa pan fydd yn barod."

Roedd un sylw a gafwyd yn ymwneud â pha mor hawdd ydoedd i barcio, ac roedd un arall yn crybwyll profiadau negyddol blaenorol gyda fferyllfeydd a dod o hyd i'r un orau yn eu lleoliad.

Roedd dau sylw arall yn gysylltiedig â'r gwasanaeth dosbarthu a gynigiwyd yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19):

- "Maent wedi bod yn wych yn ystod y cyfyngiadau symud ac wedi dosbarthu ein presgripsiynau pan oedd fy ngŵr yn gwarchod."
- "Mae [enw'r fferyllfa] yn casglu fy mhresgripsiwn OND YN GWRTHOD DOSBARTHU - er fy mod i'n gwarchod."


Cafwyd dau sylw am amseroedd agor.

- "Pe baent ond yn agor ar adegau pan fydd pobl sy'n gweithio (yn y GIG) yn gallu eu defnyddio, byddwn yn mynd i'r un sydd 30 eiliad ar droed o'm cartref, yn hytrach na gorfod mynd yr holl ffordd i [enw'r fferyllfa]."
- "Ar agor ar ddydd Sadwrn."

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys:


- "Dyma'r fferyllfa y cefais gyfarwyddiadau gan y meddyg i'w defnyddio."
- "Rydw i'n mynd i'r fferyllfa sydd ar agor ond mae hyn wedi bod yn anoddach yn ddiweddar gan fod fy fferyllfa leol wedi symud yn bellach i ffwrdd, ac rydw i'n gorfod gohirio fy nhriniaeth tan y diwrnod canlynol."

**Ffigur 5.20: Rhesymau sy'n dylanwadu ar y dewis o fferyllfa**



Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr (67%, 207 o 307 o bobl), yn defnyddio'r fferyllfa sy'n fwyaf cyfleus neu'n agosaf iddynt ei defnyddio. Dywedodd 11 o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod. Fodd bynnag, ar gyfer 29% o ymatebwyr (89 o bobl), roedd fferyllfa fwy cyfleus neu agosach yr oeddent yn dewis peidio â'i defnyddio. Pan ofynnwyd i bobl pam eu bod fel arfer yn ymweld â fferyllfa, atebodd 90 o bobl y cwestiwn (un yn fwy nag a ymatebodd yn flaenorol), a chafwyd cyfanswm o 164 o ymatebion. Gellid rhoi nifer o atebion i'r cwestiwn hwn, ac mae nifer yr ymatebion a dderbyniwyd yn dangos bod rhai pobl wedi dewis mwy nag un rheswm. Roedd y tri phrif reswm a roddwyd yn ymwneud â pha mor hawdd ydoedd i barcio, cyflymder y gwasanaeth, a chael profiad gwael yn y gorffennol.

**Ffigur 5.21: Rhesymau dros beidio â defnyddio fferyllfa agosach**



O'r 29 o bobl a ddewisodd 'arall', cafwyd y sylwadau canlynol:

Roedd pum sylw'n ymwneud â theyrngarwch a/neu fod yn fodlon ar y gwasanaeth a dderbyniwyd gan y fferyllfa roeddent yn ei defnyddio.

- "Pan symudais i'r ardal, cafodd yr un dwi'n ei defnyddio ei hargymell felly rydw i wedi aros gyda nhw, fodd bynnag roedd y llall yn dda iawn hefyd ar yr achlysuron rydw i wedi'i defnyddio."
- "Symudais dŷ ac rwy'n dal i fod o fewn yr ardal dalgylch ar gyfer fy meddyg teulu a'r fferyllfa bresennol, felly roedd yn well gen i beidio â'i newid gan fy mod yn hoffi'r staff a'r gwasanaeth, maent yn ymwybodol o'm meddyginiaethau (rwy'n cymryd rhai anarferol)."
- "Rydw i bob amser wedi bod yn fodlon ar yr un rwy'n ei defnyddio."

Roedd pum sylw yn ymwneud â pha mor agos oedd y fferyllfa i'r practis meddyg teulu:

- "Mae'r fferyllfa rwy'n ei defnyddio wrth ymyl fy meddygfa meddyg teulu, felly caiff fy manylion eu trosglwyddo i'r fferyllfa ar fy rhan, felly mae'n haws mynd yno nag i'r fferyllfa sy'n nes at fy nghartref, nad yw wrth ymyl fy meddyg teulu."
- "Mae ymhellach i ffwrdd o'r meddyg."

Roedd tri'n sylw'n ymwneud â ble mae'r meddyg teulu'n anfon y presgripsiwn:

- "Mae fy meddyg teulu'n anfon fy mhresgripsiwn yno."
- "Ni fydd fy meddyg yn ei defnyddio."

Roedd dau sylw'n trafod yr oriau agor.

“Rydw i’n mynd i rywle gwahanol pan fydd ar gau dros ginio.”

Roedd wyth sylw’n crybwyll ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd fel aneffeithlonrwydd staff, camgymeriadau a wnaed (un sylw), presgripsiynau ddim yn barod ar amser, a’r ffaith nad oedd staff y fferyllfa mor gyfeillgar a dymunol â’r staff yn y fferyllfa roeddent yn dewis ei defnyddio:

- “Mae [enw’r fferyllfa] yn aneffeithiol ac angen hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid.”
- “Wedi gwneud camgymeriadau ar fwy nag un achlysur. Peryglus gan eu bod yn feddyginiaethau sy’n peryglu bywyd.”
- “Mae’n rhaid i fi wneud cais am bresgripsiwn rheolaidd gan fy meddyg bob tro rydw i ei angen - nid yw’r fferyllfa’n ei wneud drosta i.”
- “Lle cyfyng mewn nifer o fferyllfeydd ac nid yw’r staff bob amser yn eich trin â pharch ac urddas.”

Roedd un sylw a dderbyniwyd yn ymwneud yn benodol â phrinder eitem stoc a gadwyd yn y fferyllfa:

- “Er ei bod o fewn pellter cerdded, mae’n golygu 2 ymweliad gan nad yw un o fy eitemau misol yn cael ei gadw mewn stoc. Mae fferyllfeydd eraill yn cadw’r cyffur hwn.”

Roedd dau sylw’n ymwneud â’r ffaith bod fferyllfeydd yn brysur:

- “Prysur iawn, gorfod aros amser hir.”

Roedd dau sylw’n ymwneud â gwasanaeth personol:

- “Rhan o gadwyn heb unrhyw ymdeimlad o gymuned.”
- “Dim gwasanaeth personol.”

Roedd dau’n sylw’n ymwneud yn uniongyrchol â sefyllfa pandemig y coronafeirws (COVID-19) a’r ffaith nad oedd staff yn gwisgo masgiau wyneb:

- “Staff ddim yn gwisgo masgiau wyneb y tu ôl i’r cownter. Mae wedi dod i’r amlwg nad yw feisorau yn cynnig digon o amddiffyniad a dylai defnyddwyr y fferyllfa allu bod yn hyderus bod yr holl gyfarpar diogelu personol yn cael ei wisgo. Y tro diwethaf, roedd dau berson heb fasgiau!”

## 6 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn ystyried bod gwasanaethau canlynol y GIG yn galw am yr angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal:

- Fferyllfeydd mewn ysbytai - lleihau'r angen am y gwasanaeth gweinyddu hanfodol oherwydd caiff presgripsiynau a ysgrifennir yn yr ysbyty eu gweinyddu gan wasanaeth fferyllfa'r ysbyty.
- Gweinyddu eitemau yn bersonol gan feddygon teulu - yn debyg i fferyllfeydd ysbyty, mae hyn hefyd yn lleihau'r galw ar y gwasanaeth gweinyddu hanfodol. Caiff eitemau eu cyrchu a'u gweinyddu'n bersonol gan feddygon teulu a chlinigwyr eraill yn y practis, gan arbed cleifion rhag gorfod mynd â phresgripsiwn i fferyllfa, er enghraifft ar gyfer brechlyn, ac wedyn gorfod dychwelyd gyda'r brechlyn i'r practis er mwyn iddo gael ei weinyddu.
- Gofal Sylfaenol Brys - Gwasanaeth Tu Allan i Oriau (CAF 24/7) - bydd p'un a fydd claf yn cael cwrs llawn o driniaeth neu gwrs rhannol o driniaeth ar ôl cael ei weld gan y Gwasanaeth Tu Allan i Oriau neu'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty'r Barri, yn dibynnu ar natur ei gyflwr. Bydd y gwasanaeth hwn felly yn gofyn am yr angen am wasanaethau fferyllol, yn enwedig y gwasanaeth gweinyddu hanfodol. Ymhellach, wrth i gleifion gael eu cyfeirio at y gwasanaethau iawn drwy'r system un alwad, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynyddu'r angen ar gyfer pob gwasanaeth fferyllol.
- Fferyllfeydd mewn carchardai - lleihau'r galw ar y gwasanaeth gweinyddu hanfodol gan nad yw presgripsiynau a ysgrifennir yng Ngharchar Ei Mawrhydi Caerdydd yn cael eu gweinyddu gan fferyllfeydd cymunedol neu gontractwyr cyfarpar gweinyddu.
- Presgripsiynwyr annibynnol - yn debygol o gynyddu dros y pum mlynedd nesaf, a allai gael effaith ddilynol ar yr angen am wasanaethau fferyllol, yn enwedig y gwasanaeth gweinyddu hanfodol, wrth i fwy o gleifion gael eu trin.
- System gorchuddion y Gwasanaeth Archebu Ar-lein Heb Bresgripsiwn (ONPOS) – bydd hyn yn lleihau'r angen am orchuddion ar bresgripsiwn i lawer o gleifion, ac felly'r galw am y gwasanaeth gweinyddu hanfodol. Fodd bynnag, bydd angen presgripsiwn o hyd ar gyfer gorchuddion nad ydynt yn y llyfr fformiwlâu.

### 6.1 Fferyllfeydd mewn ysbytai

Mae 8 ysbyty yn ardal y bwrdd iechyd:

#### 6.1.1 Ysbyty Athrofaol Cymru (YAC), Parc y Mynydd Bychan, Caerdydd CF14 4XW

Mae Ysbyty Athrofaol Cymru yn ysbyty mawr â 1,000 o welyau yn ardal y Mynydd Bychan yng Nghaerdydd, Cymru. Mae'r ysbyty yn darparu gofal eilaidd i boblogaeth Gogledd a Dwyrain Caerdydd a gofal lefel trydyddol mewn areneg, niwrowyddorau, hematoleg, pediatreg a neonatoleg, cardiothoraseg a gofal critigol. Mae'r ysbyty yn darparu'r unig ofal brys (damweiniau ac achosion brys) i'r ardal. Mae ganddo fferyllfa ar y safle.

### **6.1.2 Ysbyty Athrofaol Llandochau (YALI), Ffordd Penlan, Llandochau, CF64 2XX**

Wedi'i leoli ger Penarth ym Mro Morgannwg, mae Ysbyty Athrofaol Llandochau yn darparu gwasanaethau gofal eilaidd meddygol i Orllewin Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'n gartref i Ganolfan Orthopedig Caerdydd a'r Fro (CAVOC), sy'n darparu gwasanaethau orthopedig dewisol a gwasanaethau anadlol trydyddol yn cynnwys gwasanaeth ffeibrosis systig; ac Uned Iechyd Meddwl Oedolion Hafan y Coed. Mae hefyd yn darparu gwasanaethau cardiothorasig. Mae gan yr ysbyty fferyllfa ar y safle.

### **6.1.3 Ysbyty Plant Cymru Arch Noa, Parc y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 4XW**

Mae Ysbyty Plant Cymru Arch Noa wedi'i leoli yn Ysbyty Athrofaol Cymru ar safle Parc y Mynydd Bychan, ac mae'n darparu gofal eilaidd ar gyfer plant Caerdydd a Bro Morgannwg a gofal trydyddol ar gyfer plant ar draws Canolbarth, Gorllewin a De Cymru. Mae fferyllfa lloeren yn yr ysbyty plant sydd wedi'i gwasanaethu gan brif fferyllfa Ysbyty Athrofaol Cymru.

### **6.1.4 Ysbyty Brenhinol Caerdydd, Glossop Terrace, Caerdydd, CF24 0SZ**

Mae'r ysbyty'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae clinigau'n cael eu cynnal o hyd yn yr ysbyty megis Iechyd Meddwl, clinigau'r Adran Iechyd Rhywiol, Podiatreg a'r Adran Radioleg, yr Adran Ffisiotherapi a'r Tîm Cyffuriau ac Alcohol. Mae fferyllfa lloeren yn yr ysbyty a gaiff ei gwasanaethu gan brif fferyllfa Ysbyty Athrofaol Cymru ar gyfer clinigau'r Adran Iechyd Rhywiol yn unig. Mae fferyllfa Clifton City hefyd wedi'i lleoli yn yr ysbyty.

### **6.1.5 Yr Ysbyty Athrofaol Deintyddol, Parc y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 4XW**

Mae gan yr Ysbyty Deintyddol nifer o adrannau arbenigol, gan gynnwys Llawfeddygaeth y Genau a'r Wyneb, Meddygaeth y Geg, Deintyddiaeth Adferol, Pediatreg ac Orthodonteg. Mae pob arbenigedd yn gweld cleifion newydd ar gyfer asesiadau a allai arwain at driniaeth o fewn yr ysbyty. Mae'r Ysbyty Deintyddol hefyd yn cynnal Adran Archwiliadau ac Achosion Brys sy'n cynnig meddyginiaeth lleddfu poen a thriniaeth dros dro yn dilyn atgyfeiriad gan y Llinell Gymorth Deintyddol (029 20 444 500).

### **6.1.6 Ysbyty'r Barri, Heol Colcot, y Barri, CF62 8HY**

Mae Ysbyty Cymunedol y Barri yn darparu Uned Mân Anafiadau, ysbytai dydd, gofal cleifion mewnol a chlinigau cleifion allanol. Ymhlith y gwasanaethau eraill a ddarperir mae radioleg, fflebotomi, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, podiatreg, therapi iaith a lleferydd a gwasanaeth deietegydd.

### **6.1.7 Ysbyty Dewi Sant, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Caerdydd, CF11 9XB**

Mae'r ysbyty yn ardal Treganna yng Nghaerdydd. Mae'n darparu gwasanaethau cleifion allanol cyffredinol ac arbenigol, cyfleusterau cleifion mewnol ar gyfer pobl hŷn, gwasanaethau plant cymunedol ac amrywiaeth o glinigau arbenigol eraill. Mae Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT) Gorllewin Caerdydd wedi'i leoli yma.

### **6.1.8 Ysbyty Rookwood, 18-20 Heol y Tyllgoed, Llandaf, Caerdydd, CF5 2YN.**

Ysbyty arbenigol yw hwn wedi'i leoli yng Ngogledd Caerdydd. Mae'n gartref i wasanaeth Clefyd Parkinson Caerdydd, Canolfan Cymru ar gyfer Adsefydlu yn Dilyn Anaf i Fadruddyn y Cefn, uned adsefydlu niwro ranbarthol, Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar, y Gwasanaeth Technoleg Gynorthwyol Electronig, Headway (elusen anafiadau i'r ymennydd), Gwasanaeth Symudedd ac Asesu Gyrru De Cymru a nifer o glinigau cleifion allanol niwroleg arbenigol (e.e. sglerosis ymledol, clefyd niwronau motor, dementia, clefyd Parkinson) yn ogystal â rhai gwasanaethau gerontoleg cleifion allanol.

Efallai y bydd angen i'r cleifion sy'n mynychu'r ysbytai hyn, naill ai fel cleifion mewnol neu gleifion allanol, gael presgripsiwn wedi'i weinyddu yn y gymuned. Yn gyffredinol, bydd cleifion mewnol yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Ysbyty Athrofaol Llandochoau ac Ysbyty Plant Arch Noa Cymru, yn cael eu meddyginiaethau wedi'u gweinyddu gan eu fferyllfa yn yr ysbyty. Ar ôl eu rhyddhau, bydd cleifion yn derbyn cyflenwad hyd at bedair wythnos o'u meddyginiaethau. Bydd cleifion sy'n mynychu'r ysbytai ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol, hefyd yn derbyn cyflenwad pedair wythnos o feddyginiaethau yn gyffredinol.

Gallai clinigau cleifion allanol a'r adran Damweiniau ac Achosion Brys ddarparu presgripsiwn a roddwyd gan yr ysbyty (WP10HP) i'w weinyddu yn y gymuned, yn enwedig os na fydd fferyllfa ar y safle, neu wrth weld cleifion y tu allan i oriau gweithredu'r fferyllfa yn yr ysbyty.

Mae nifer y presgripsiynau a roddwyd gan ysbyty (WP10HP) a weinyddwyd gan fferyllfeydd yn y gymuned, wedi cynyddu bob blwyddyn o 616,598 rhwng 2016 a 2017 i 715,242 rhwng 2019 a 2020.

## **6.2 Gweinyddu eitemau yn bersonol gan feddygon teulu**

O dan eu contract gwasanaethau meddygol sylfaenol gyda'r bwrdd iechyd, bydd adegau lle bydd meddyg teulu neu broffesiwn gofal iechyd arall yn y practis yn gweinyddu eitem yn bersonol i'r claf.

Yn gyffredinol, pan fydd angen meddyginiaeth neu gyfarpar ar glaf, bydd ei feddyg teulu yn rhoi presgripsiwn a gaiff ei weinyddu gan ei fferyllfa neu gontractwr cyfarpar gweinyddu dewisol. Mewn rhai achosion, bydd y meddyg teulu neu nyrs y practis yn rhoi'r eitem ar bresgripsiwn, a'r enw a ddefnyddir i gyfeirio at hyn yw gweinyddu personol, oherwydd bydd yr eitem a gyflenwir yn cael ei weinyddu wedi hynny i'r claf gan y meddyg teulu neu'r nyrs. Mae hyn yn wahanol i weinyddu presgripsiynau ac

mae ond yn berthnasol i rai eitemau penodedig, er enghraifft, brechlynnau, anaestetig, pigladau, dyfeisiau atal cenhedlu yn y groth a phwythau.

Ar gyfer yr eitemau hyn, bydd y practis yn llunio presgripsiwn; fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i'r claf fynd ag ef i fferyllfa, bod y fferyllfa yn ei weinyddu ac wedyn bod y claf yn dychwelyd i'r practis er mwyn iddo gael ei ddarparu. Yn hytrach, bydd y practis yn cadw'r presgripsiwn ac yn ei gyflwyno ar gyfer ad-daliad i Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru ar ddiwedd y mis.

Nid yw'n bosibl cyfrif cyfanswm yr eitemau a weinyddwyd yn bersonol gan bractisau meddygon teulu yng Nghymru, gan fod y ffigurau a gyhoeddwyd yn cynnwys eitemau sydd naill ai wedi cael eu gweinyddu'n bersonol neu eu gweinyddu gan bractisau sy'n gweinyddu meddyginiaethau. Fodd bynnag, fel isafswm, rhwng 2019 a 2020, cafodd 187,850 o eitemau eu gweinyddu'n bersonol gan bractisau nad ydynt yn gweinyddu meddyginiaethau hefyd.

### **6.3 Gofal Sylfaenol Brys - Gwasanaeth Tu Allan i Oriau (CAF 24/7)**

Mae CAF 24/7 yn fodel ffonio yn gyntaf a sefydlwyd ar gyfer pobl sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn Awst 2020, mewn ymateb i bandemig y coronafeirws (COVID-19). Mae'n galluogi pobl i gael ymgynghoriad o bell a chael eu harwain at y gofal mwyaf priodol. Gallai hyn gynnwys ymweld â fferyllfa gymunedol.

Rhif penodedig CAF 24/7 yw 0300 10 20 247 ac mae ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Mae'n darparu un pwynt mynediad i wasanaethau gofal heb eu trefnu, gan gynnwys Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu, yr Uned Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol Cymru a'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty'r Barri.

Bydd swyddogion galwadau hyfforddedig yn derbyn y galwadau yng nghanolfan brysbennu CAF 24/7 yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Gofynnir cyfres o gwestiynau i'r sawl sy'n galw i bennu natur y broblem ac i wneud asesiad cychwynnol. Os bydd yn argyfwng sy'n bygwth bywyd, caiff yr alwad ei hatgyfeirio i 999. Os na, bydd clinigwr (meddyg, nyrs neu barafeddyg) yn rhoi galwad yn ôl o fewn 20 munud os yw'r angen yn un brys, neu 60 munud os yw'n llai brys. Gall y clinigwr ddarparu cyngor iechyd, cyngor i fynd at wasanaeth amgen, fel fferyllfa gymunedol, neu gyngor i gysylltu â'r meddyg teulu yn ystod oriau gwaith arferol. Efallai y bydd angen trefnu apwyntiad gyda chlinigwr priodol o fewn yr Uned Achosion Brys, Uned Mân Anafiadau, Canolfan Gofal Sylfaenol Brys, neu gyfleuster gofal iechyd priodol arall. Os penderfynir bod meddyginiaeth yn ofynnol yn dilyn asesiad, caiff presgripsiwn ei drefnu er mwyn ei ddosbarthu mewn fferyllfa gymunedol.

Mae'r Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Brys - y Tu Allan i Oriau yn gweithredu yn ystod yr adegau pan fydd practisau meddygon teulu ar gau. Mae'n darparu gofal iechyd i'r rhai sydd â phroblemau meddygol brys (ond nad ydynt yn rhai mewn argyfwng) na allant aros nes bod eu practis meddyg teulu yn agor nesaf. Mae'r gwasanaeth yn cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg yn gyfan gwbl a gellir cael mynediad iddo drwy CAF 24/7 drwy ffonio 0300 10 20 247. Mae'r Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Brys - y Tu Allan i Oriau yn gweithredu o dair Canolfan Gofal Sylfaenol:

- Ysbyty Athrofaol Cymru - Parc y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 4XW
- Ysbyty Brenhinol Caerdydd - Glossop Terrace, Caerdydd, CF24 0SZ
- Ysbyty'r Barri - Heol Colcot, y Barri, CF62 8HY

Mae'r gwasanaeth ar gael:

- Yn ystod yr wythnos: 6.30pm i 8am
- Ar y penwythnos: 6.30pm dydd Gwener i 8am dydd Llun
- Gwyliau Banc: Gwasanaeth 24 awr

Gellir cael mynediad at yr Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty'r Barri, Heol Colcot, y Barri, De Morgannwg, CF62 8YH, drwy CAF 24/7 drwy ffonio 0300 10 20 247.

Gellir trin yr anafiadau canlynol yn yr uned:

- briwiau a chrafiadau
- ysigiadau a streifiadau
- esgyrn sydd wedi torri
- brathiadau a phigiadau (gan gynnwys brathiadau gan bobl)
- clwyfau heintus
- mân anafiadau i'r pen
- problemau gyda'r golwg fel crafiadau neu rywbeth sydd wedi mynd yn sownd yn y llygad.

Mae'r gwasanaeth ar gael:

- Dydd Llun i ddydd Gwener 8.30am – 3.30pm

Mae'r uned ar gau ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.

## 6.4 Carchardai

Mae Carchar Ei Mawrhydi Caerdydd yn garchar categori B sy'n cynnal carcharorion sy'n ddynton ac yn oedolion ar remánd, neu'r rhai sydd wedi'u dedfrydu i lai na dwy flynedd fel arfer. Fe'i lleolir yng nghanol y ddinas ac mae'n gwasanaethu llysoedd ardal De-ddwyrain Cymru.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn darparu gwasanaethau iechyd yn y carchar, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae gan Garchar Ei Mawrhydi Caerdydd fferyllfa fewnol sydd wedi'i chomisiynu a'i chyflogi'n uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r fferyllfa yn defnyddio ystod eang o gyfarwyddiadau grŵp cleifion (PGD) sy'n cwmpasu brechlynnau a meddyginiaethau ar gyfer mân anhwylderau, gan gynnwys triniaeth ar gyfer symptomau diddyfnu ar ôl rhoi'r gorau i gyffuriau ac alcohol. Pan gânt eu rhyddhau, caiff carcharorion gyflenwad o'u meddyginiaeth neu gwneir trefniadau iddynt gael meddyginiaeth o fferyllfa gymunedol.

## **6.5 System gorchuddion y Gwasanaeth Archebu Ar-lein Heb Bresgripsiwn(ONPOS)**

Mae'r ONPOS yn system caffael gorchuddion clwyfau ac fe'i cyflwynwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i wella'r dull o reoli gofal clwyfau ac i leihau gwastraff. Mae'n caniatáu i wasanaethau cymunedol archebu gorchuddion y cytunwyd arnynt yn y llyfr fformiwlâu drwy borth ar-lein, i'w cyflenwi drwy fferyllfeydd cymunedol sy'n cymryd rhan, heb yr angen am bresgripsiwn. Mae'n golygu y gall cyflenwadau o orchuddion gael eu cadw mewn lleoliadau a ganiateir, gan alluogi cleifion i gael triniaeth yn fwy effeithlon. Mae hefyd yn atal gwastraff, oherwydd, yn wahanol i orchuddion a roddir ar bresgripsiwn, gall cynhyrchion gofal clwyfau a gyrchwyd drwy ONPOS gael eu defnyddio ar unrhyw glaf o fewn llwyth achosion tîm. Mae hyn yn atal yr angen i daflu blychau o orchuddion a ddefnyddiwyd yn rhannol os nad ydynt yn addas i'r claf, fel y gwneir ar hyn o bryd gyda gorchuddion ar bresgripsiwn, er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

Mae'n debygol y caiff y defnydd o'r system ONPOS ei ehangu dros y pum mlynedd nesaf.

## **6.6. Presgripsiynwyr anfeddygol**

Roedd dogfen Llywodraeth Cymru 'Ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018 (2014)', yn annog gweithwyr gofal iechyd proffesiynol anfeddygol a oedd yn gweithio mewn gofal sylfaenol i hyfforddi fel presgripsiynwyr annibynnol. Ymhellach, mae cynllun mwy diweddar Pwyllgor Fferyllol Cymru 'Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach (2019)', yn gosod y nod, erbyn 2030, y bydd presgripsiynydd annibynnol ym mhob fferyllfa gymunedol, a ffocws cynyddol ar atal a chanfod salwch yn gynnar. Mae'r cynllun yn cefnogi ac wedi'i alinio â'r weledigaeth hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach (2018)'.

Yn unol â'r cynlluniau cenedlaethol hyn, disgwylir i nifer y presgripsiynwyr annibynnol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gynyddu dros y pum mlynedd nesaf.

## 7 Anghenion iechyd y gellir eu diwallu gan wasanaethau fferyllol

Yng Nghymru, ceir dros 11,000 o ymgynghoriadau cyngor bob dydd ar draws y rhwydwaith fferyllfeydd cymunedol.<sup>39</sup> Mae'r rhain yn darparu cyfle gwerthfawr i gefnogi newid mewn ymddygiad drwy wneud yn siŵr bod pob un o'r cysylltiadau hyn yn cyfrif. Gallai gwneud dewisiadau iach fel rhoi'r gorau i smygu, gwella deiet a maeth, gwneud mwy o ymarfer corff, colli pwysau a lleihau faint o alcohol a yfir wneud cyfraniad sylweddol at leihau'r risg o glefyd, gwella canlyniadau iechyd y rhai sydd â chyflyrau hirdymor, lleihau nifer y marwolaethau cynamserol a gwella lles meddyliol. Mae fferyllfeydd yn y sefyllfa ddelfrydol i annog a chefnogi pobl i wneud y dewisiadau iach yma fel rhan o'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir ganddynt.

### 7.1 Angen am gyffuriau a chyfarpar

Bydd angen i bawb, ar ryw adeg, gael presgripsiynau wedi'u gweinyddu waeth p'un a ydynt yn perthyn i un o'r grwpiau a nodir yn adran pedwar neu beidio. Gallai hyn fod ar gyfer cwrs o wrthfotigau untro neu ar gyfer meddyginiaeth y bydd angen iddynt ei chymryd, neu ar gyfer cyfarpar y bydd angen iddynt ei ddefnyddio, am weddill eu bywyd er mwyn rheoli cyflwr hirdymor. Dim ond o fewn gofal sylfaenol y gellir diwallu'r angen iechyd hwn, drwy'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfeydd, contractwyr cyfarpar gweinyddu neu feddygon fferyllol.

Ar y cyd â hyn mae dull diogel o gasglu a chael gwared ar gyffuriau a weinyddir nad oes eu hangen neu sydd wedi dyddio. Ond mae dyletswydd ar y bwrdd iechyd a fferyllfeydd i sicrhau bod pobl sy'n byw gartref neu mewn cartref gofal preswyl yn gallu dychwelyd cyffuriau a weinyddir nad oes eu hangen neu sydd wedi dyddio er mwyn cael gwared arnynt yn ddiogel.

Dylid nodi nad yw gwasanaethau casglu a dosbarthu yn wasanaethau contractiol, ac felly fe'u darperir yn breifat gan fferyllfeydd yn ôl eu disgrisiwn.

### 7.2 Camddefnyddio sylweddau

Gall darparu gwasanaeth ychwanegol defnydd o dan oruchwyliaeth gan fferyllwyr wneud y canlynol:

- Helpu cinigwyr sy'n presgripsiynu i ddarparu gwasanaeth presgripsiynau yn y gymuned;
- Sicrhau bod y claf yn cymryd y dos cywir o feddyginiaeth fel y presgripsiynwyd;
- Atal meddyginiaeth a bresgripsiynwyd rhag cael ei dargyfeirio i'r farchnad anghyfreithlon;
- Lleihau'r posibilrwydd o wenwyno damweiniol, yn enwedig ymhlith plant; a
- Lleihau nifer y marwolaethau damweiniol drwy orddos.

---

<sup>39</sup>Fferylliaeth Gymunedol Cymru (2020). Archwiliad o gyngor gan fferyllfeydd, Richard Brown.

Bydd gwasanaeth ychwanegol darpariaeth nodwydd a chwistrell yn helpu i leihau'r broses o rannu nodwyddau (a chyfarpar) sydd, o ganlyniad, yn gallu arwain at feirysau a gludir yn y gwaed a heintiau eraill (fel y Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol (HIV), hepatitis B a C) rhag cael eu trosglwyddo. Yn ei dro gallai hyn arwain at leihau nifer yr achosion o feirysau a gludir yn y gwaed, gan fod o fudd hefyd i'r gymdeithas ehangach.

Mae hefyd elfennau o ddarparu gwasanaethau hanfodol a allai helpu i ddiwallu'r angen iechyd hwn:

- Mae gofyn i fferyllfeydd gyfrannu at chwe ymgyrch iechyd y cyhoedd bob blwyddyn galendr drwy hybu negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Fe'u cynhelir fel arfer dros gyfnod o bedair wythnos, ond gall rhai gael eu ehangu. Caiff y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn eu dewis gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Gallai ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd gynnwys codi ymwybyddiaeth o risgiau yfed alcohol drwy drafod risgiau yfed alcohol dros y symiau a argymhellir, arddangos poster, a dosbarthu taflenni, cardiau crafu a deunyddiau perthnasol eraill. Mae'n werth nodi, ar yr adeg ysgrifennu, y cafodd ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd eu hatal dros dro o ganlyniad i bandemig y coronafeirws (COVID-19).
- Lle nad yw'r fferyllfa yn darparu'r gwasanaethau ychwanegol cyfnewid nodwydd a chwistrell a defnydd o dan oruchwyliaeth o feddyginiaethau camddefnyddio sylweddau, cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr eraill y gwasanaethau.
- Cyfeirio pobl a allai fod yn ddibynnol ar alcohol at ddarparwyr triniaeth alcohol arbenigol lleol.
- Defnyddio'r cyfle a gyflwynwir gan Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau, e.e. ar gyfer meddyginiaethau gwrth-orbwysedd a meddyginiaethau ar gyfer trin diabetes, i drafod risgiau yfed alcohol ac yn enwedig, yn ystod ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd neu mewn trafodaeth â chwsmeriaid sy'n gofyn am feddyginiaethau penodol dros y cownter, i godi ymwybyddiaeth o risgiau camddefnyddio alcohol.
- Darparu cyngor ar fyw'n iach yn ystod ymgynghoriadau Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau.

### 7.3 Canser

Yn ogystal â gweinyddu presgripsiynau, gall fferyllfeydd gyfrannu at lawer o faterion iechyd y cyhoedd sy'n ymwneud â gofal canser, fel rhan o'r gwasanaethau hanfodol a ddarperir ganddynt:

- Cael gwared ar gyffuriau nad oes eu hangen, gan gynnwys cyffuriau rheoledig.
- Mae gofyn i fferyllfeydd gyfrannu at chwe ymgyrch iechyd y cyhoedd bob blwyddyn galendr drwy hybu negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Caiff y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn eu dewis gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys ymwybyddiaeth o ganser a/neu sgrinio.

- Darparu cyngor priodol i bobl sy'n defnyddio'r fferyllfa ac yr ymddengys eu bod yn smygu neu eu bod dros bwysau, gyda'r nod o gynyddu gwybodaeth yr unigolyn hwnnw a'i ddealltwriaeth o'r materion iechyd sy'n berthnasol i'w amgylchiadau personol.
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr cymorth neu wasanaethau eraill.
- Mae gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan fferyllfeydd, yn rhan o'r broses adsefydlu cyn i bobl gael eu derbyn ar gyfer triniaethau canser.

Mae'r gwasanaethau ychwanegol rhoi'r gorau i smygu hefyd yn cefnogi materion iechyd y cyhoedd sy'n ymwneud â chanser.

## 7.4 Cyflyrau hirdymor

Yn ogystal â gweinyddu presgripsiynau, gall fferyllfeydd gyfrannu at lawer o faterion iechyd y cyhoedd sy'n ymwneud â chyflyrau hirdymor, fel rhan o'r gwasanaethau hanfodol a ddarperir ganddynt:

- Lle bydd unigolyn yn cyflwyno presgripsiwn, ac yr ymddengys fod ganddo ddiabetes, yn wynebu risg o glefyd coronaidd y galon (yn enwedig y rhai â phwysedd gwaed uchel), yn smygu neu dros bwysau, mae'n ofynnol i'r fferyllfa roi cyngor priodol gyda'r nod o gynyddu gwybodaeth yr unigolyn a'i ddealltwriaeth o'r materion iechyd sy'n berthnasol i'w amgylchiadau.
- Mae gofyn i fferyllfeydd gyfrannu at chwe ymgyrch iechyd y cyhoedd bob blwyddyn galendr drwy hybu negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Caiff y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn eu dewis gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys cyflyrau hirdymor.
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr cymorth neu wasanaethau eraill.
- Darparu cyngor ar fyw'n iach yn ystod ymgynghoriadau Adolygiad o'r Defnydd o Feddyginiaethau.

Darparu'r gwasanaethau uwch canlynol - Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau, Adolygiadau o'r Defnydd o Gyfarpar, teilwra cyfarpar stoma a'r Adolygiad o Feddyginiaethau wrth Ryddhau'r Claf, a bydd y gwasanaeth ychwanegol brechiad ffliw hefyd yn helpu pobl i reoli eu cyflyrau hirdymor er mwyn gwella ansawdd eu bywyd.

## 7.5 Bod dros bwysau a gordewdra

Bydd pedair elfen o'r gwasanaethau hanfodol yn mynd i'r afael â'r angen iechyd hwn:

- Lle bydd unigolyn yn cyflwyno presgripsiwn, ac y bydd dros bwysau, mae'n ofynnol i'r fferyllfa roi cyngor priodol gyda'r nod o gynyddu gwybodaeth yr

unigolyn a'i ddealltwriaeth o'r materion iechyd sy'n berthnasol i'w amgylchiadau.

- Mae gofyn i fferyllfeydd gyfrannu at chwe ymgyrch iechyd y cyhoedd bob blwyddyn galendr drwy hybu negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Caiff y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn eu dewis gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys gordewdra.
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr cymorth neu wasanaethau eraill.
- Darparu cyngor ar fyw'n iach yn ystod ymgynghoriadau Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau.

## **7.6 Iechyd rhywiol**

Ochr yn ochr â gwasanaethau ychwanegol dulliau atal cenhedlu brys, mae elfennau o ddarparu gwasanaethau hanfodol a allai helpu i ddiwallu'r angen iechyd hwn:

- Mae gofyn i fferyllfeydd gyfrannu at chwe ymgyrch iechyd y cyhoedd bob blwyddyn galendr drwy hybu negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Caiff y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn eu dewis gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a HIV.
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr gwasanaethau iechyd rhywiol eraill, gan gynnwys profi ar gyfer gwasanaethau profi a thrin ar gyfer clamydia.
- Darparu cyngor ar fyw'n iach yn ystod ymgynghoriadau Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau.

## **7.7. Beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau**

Bydd gwasanaeth ychwanegol dulliau atal cenhedlu brys, ynghyd ag elfennau o ddarparu gwasanaethau hanfodol yn helpu i ddiwallu'r angen iechyd hwn:

- Mae gofyn i fferyllfeydd gyfrannu at chwe ymgyrch iechyd y cyhoedd bob blwyddyn galendr drwy hybu negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Caiff y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn eu dewis gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau.
- Lle nad yw'r fferyllfa yn darparu gwasanaeth ychwanegol dulliau atal cenhedlu brys, cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr eraill y gwasanaeth.

Mae gwasanaeth dulliau atal cenhedlu brys presgripsiynwr y fferyllfa annibynnol a lansiwyd yn 2020 yn ardal y bwrdd iechyd, yn diwallu'r angen hwn ymhellach.

## **7.8 Smygu**

Ochr yn ochr â gwasanaeth ychwanegol rhoi'r gorau i smygu, mae elfennau o ddarparu gwasanaeth hanfodol a allai helpu i ddiwallu'r angen iechyd hwn:

- Lle bydd unigolyn yn cyflwyno presgripsiwn, ac yr ymddengys fod ganddo ddiabetes, yn wynebu risg o glefyd coronaidd y galon (yn enwedig y rhai â phwysedd gwaed uchel), yn smygu neu dros bwysau, mae'n ofynnol i'r fferyllfa roi cyngor priodol gyda'r nod o gynyddu gwybodaeth yr unigolyn a'i ddealltwriaeth o'r materion iechyd sy'n berthnasol i'w amgylchiadau.
- Mae gofyn i fferyllfeydd gyfrannu at chwe ymgyrch iechyd y cyhoedd bob blwyddyn galendr drwy hybu negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Caiff y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn eu dewis gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys smygu.
- Lle nad yw'r fferyllfa yn darparu gwasanaeth ychwanegol rhoi'r gorau i smygu, cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr eraill y gwasanaeth.
- Trafod rhoi'r gorau i smygu yn rheolaidd wrth werthu meddyginiaethau perthnasol dros y cownter.
- Darparu cyngor ar fyw'n iach yn ystod ymgynghoriadau Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau.

## 7.9. Cymorth ar gyfer hunanofal

Mae cymorth ar gyfer hunanofal yn wasanaeth hanfodol ac ychwanegol, a chyfeirir at yr olaf fel y gwasanaeth anhwylderau cyffredin. Mae'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn gynllun lle caiff cleifion eu hannog i ymgynghori â fferyllfa sy'n cymryd rhan, yn hytrach na'u meddyg teulu, ar gyfer rhestr ddiffiniedig o anhwylderau cyffredin. Bydd y fferyllfeydd yn darparu'r feddyginiaeth o lyfr fformiwlâu y cytunwyd arni, gan roi cyngor neu atgyfeirio'r claf at y meddyg teulu os bydd angen. Caiff meddyginiaethau eu darparu'n rhad ac am ddim, gan ddileu'r rhwystr talu, a all atal cleifion rhag dewis gweld fferyllfeydd yn lle eu meddyg teulu.

Ymhlith yr anhwylderau a gwmpesir gan y gwasanaeth ychwanegol mae:

- |                                    |                                |
|------------------------------------|--------------------------------|
| • Acne                             | • Diffyg treulwiad ac adlifiad |
| • Tarwden y traed (Athlete's Foot) | • Tarwden (Intertrigo)         |
| • Poen Cefn                        | • Wlser yn y geg               |
| • Colig                            | • Brech cewynnau               |
| • Llid pilen y llygad              | • Llindag y geg                |
| • Rhwymedd                         | • Clefyd crafu                 |
| • Y dolur rhydd                    | • Llwnc tost                   |
| • Llygaid sych                     | • Trafferthion tyfu dannedd    |
| • Croen sych                       | • Llyngyr edau                 |
| • Haemoroidau                      | • Llindag y wain               |
| • Clefyd y gwair                   | • Dafadennau                   |
| • Llau pen                         |                                |

Bydd y bwriad i gyflwyno gwasanaeth cyflyrau aciwt presgripsiynydd annibynnol yn 2021, yn cefnogi'r gwasanaeth hwn ymhellach.

Mae'r Gwasanaeth Profi a Thrin Llwnc Tost (STTT) yn y fferyllfa gymunedol yn wasanaeth sy'n adeiladu ar y gwasanaeth llwnc tost sydd ar gael yn barod o fewn Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin GIG Cymru. Bydd y gwasanaeth yn galluogi cleifion cymwys i gael mynediad at asesiad clinigol ac yn rhoi cyngor a meddyginiaeth briodol, ar draul y GIG, pan fydd pobl yn dangos symptomau llwnc tost aciwt. Mae hyn yn darparu lleoliad amgen lle gall cleifion gael cyngor a thriniaeth, yn hytrach na cheisio cael triniaeth drwy bresgripsiwn gan eu meddyg teulu neu ddarparwr y tu allan i oriau neu'r adran damweiniau ac achosion brys. Ar yr adeg ysgrifennu, mae'r gwasanaeth hwn wedi'i atal dros dro oherwydd pandemig y coronafeirws (COVID-19).

## **7.10 Firysau a gludir yn y gwaed**

Mae'r gwasanaeth ychwanegol yn cefnogi'r broses o ganfod a rhoi diagnosis cynnar i'r rhai sy'n wynebu risg o gael feirysau a gludir yn y gwaed fel HIV, hepatitis B a C, ac mae'n sicrhau bod triniaeth yn cael ei chychwyn yn gynnar, gan atal y feirws rhag trosglwyddo ymhellach. Mae'r grŵp o gleientiaid yr ystyrir eu bod yn wynebu risg o haint yn mynychu'r gwasanaethau a ddarperir gan y fferyllfeydd yn rheolaidd, megis y gwasanaeth darpariaeth nodwydd a chwistrell a defnydd dan oruchwyliaeth.

## **7.11 Cymorth gofal cartref**

Mae'r gwasanaeth ychwanegol yn cefnogi'r broses o archebu, cyflenwi, storio a gweinyddu meddyginiaethau a chyfarpar yn ddiogel o fewn cartrefi gofal. Mae'n cynnwys adolygiad systematig o'r holl brosesau rheoli meddyginiaethau yn y cartref gofal, a'r gwaith o ddatblygu protocolau a gweithdrefnau meddyginiaethau i gefnogi defnydd effeithiol o feddyginiaethau, gan leihau risg a lleihau gwastraff y gellir ei osgoi.

## **7.12 Presgripsiynu annibynnol**

Gall presgripsiynwyr annibynnol mewn fferyllfeydd roi unrhyw feddyginiaeth drwyddedig ar bresgripsiwn ar gyfer unrhyw gyflwr meddygol, o fewn eu maes cymhwysedd therapiwtig.

Rhodddwyd y cyfle i fferyllfeydd cymunedol a byrddau iechyd ledled Cymru, gan Lywodraeth Cymru, i ddatblygu safleoedd braenaru a threialu gwasanaethau newydd a allai ddefnyddio fferyllwyr cymunedol a phresgripsiynwyr annibynnol mewn fferylliaeth yn y gymuned. Ar y cyd â'r Adran Iechyd Rhywiol, gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddatblygu gwasanaeth dulliau atal cenhedlu drwy'r geg mewn fferyllfeydd cymunedol. Yn 2020, gwnaeth y bwrdd iechyd lansio gwasanaeth dulliau atal cenhedlu drwy'r geg gan bresgripsiynwyr annibynnol mewn pedair fferyllfa gymunedol, gyda chynlluniau i ehangu i chwe safle erbyn 2022.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn bwriadu lansio gwasanaeth cyflyrau aciwt gan bresgripsiynwyr annibynnol o fewn pedair fferyllfa gymunedol

ychwanegol yn 2021. Bydd y gwasanaeth cyflyrau aciwt yn rhoi cyfle i gleifion sy'n ymweld â'r fferyllfa gymunedol gyda chyflwr aciwt perthnasol, gael mynediad i gyngor a thriniaeth effeithiol, a ddarperir gan bresgripsiynwr annibynnol mewn fferyllfa gymunedol. Bydd y gwasanaeth yn cefnogi model gofal 'fferyllfa gymunedol yn gyntaf', er mwyn lleihau nifer y cleifion sy'n ymgynghori â'u meddyg teulu ynghylch cyflyrau aciwt y gellir eu rheoli'n briodol yn y fferyllfa gymunedol.

### **7.13 Gwasanaeth Gofal Lliniarol**

Mae mynediad i feddyginiaethau gofal lliniarol o fewn oriau gwaith yn ofynnol er mwyn cefnogi gofal cleifion y mae eu cyflwr yn dirywio'n annisgwyl. Ni chaiff meddyginiaethau gofal lliniarol eu cadw'n rheolaidd o reidrwydd gan bob fferyllfa, sy'n golygu, weithiau, y bydd yn rhaid i gleifion fynd i fwy nag un fferyllfa i gael yr holl feddyginiaethau sydd eu hangen arnynt. Mae'r gwasanaeth hwn yn sicrhau mynediad prydlon ac effeithiol i ystod o feddyginiaethau gofal lliniarol o fewn oriau gwaith arferol, gan achosi'r anghyfleustra lleiaf posibl i gleifion a gweithwyr proffesiynol, drwy nodi fferyllfeydd allweddol sydd wedi cytuno i gadw rhestr stoc benodol o feddyginiaethau gofal lliniarol.

## 8 Clwstwr Dwyrain Caerdydd

### 8.1 Ffeithiau allweddol

#### 8.1.1 Poblogaeth ac amcanestyniadau poblogaeth 2018 i 2028 (sail-2018)

Gan nad yw data poblogaeth lefel clwstwr yn cael ei gasglu'n rheolaidd ar sail flynyddol, defnyddiwyd data cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu i roi arwydd o boblogaeth clwstwr, a defnyddiwyd data yn seiliedig ar awdurdod lleol i roi arwydd o amcanestyniadau poblogaeth.

Nodwch fod data poblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn uwch na'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn cyfatebol sy'n seiliedig ar y cyfrifiad, a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar lefel awdurdod lleol a bwrdd ieched, fel yr amlinellir yn 2.2. Mae hyn fwy na thebyg o ganlyniad i gleifion sydd wedi'u gor-gofrestru neu 'gleifion ysbryd' a achoswyd gan nifer o ffactorau gwahanol.

**Tabl 8: Nifer y cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn ôl rhyw a grwpiau oedran eang, ac yn ôl clwstwr, awdurdod lleol a bwrdd ieched (2019)**

	Blwyddyn	Rhyw		Ystod oedran		
	2019	Menywod	Dynion	O dan 65	65 i 84	85 ac yn hŷn
Dwyrain Caerdydd	57775	29116	28659	49479	7226	1070
Caerdydd	389619	193044	196575	335252	46599	7768
BIP Caerdydd a'r Fro	521177	260027	261150	439365	70412	11400

Ffynhonnell: StatsCymru – Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

Rhwng 2018 a 2028, rhagamcanir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu hyd at 3.2%, y chweched cynnydd canrannol mwyaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Disgwylir y bydd ganddi boblogaeth sy'n cyfateb i oddeutu 375,000 erbyn 2028, sy'n golygu mai dyma fydd yr awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Yn wahanol i'r holl awdurdodau lleol eraill, bydd y cynnydd yn y boblogaeth wedi'i sbarduno'n bennaf gan newid naturiol h.y. mwy o enedigaethau na marwolaethau, a bydd cyfran lai o'r cynnydd o ganlyniad i ymfudo net h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Caerdydd sydd â'r lefel uchaf o ymfudo rhyngwladol amcanestynedig o blith yr holl awdurdodau lleol. Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ar draws yr holl grwpiau oedran eang, ac eithrio'r grŵp 0 i 15 oed, lle rhagwelir gostyngiad. Bydd y cynnydd mwyaf mewn poblogaeth yn y grŵp oedran 65 oed ac yn hŷn, wedi'i ddilyn gan y boblogaeth oedran gweithio rhwng 16 oed a 64 oed. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol.

#### 8.1.2 Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwllch anghydraddoldebau'

Mae'r disgwyliad oes adeg geni yng Nghaerdydd yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer menywod a dynion. Yr enw ar y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig

yw'r 'bwlch anghydraddoldebau'. Mae'r bwlch anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes adeg geni rhwng y pumed mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig ar gyfer Caerdydd, yn ehangach na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer dynion a menywod. Mae'r disgwyliad bywyd iach (nifer y blynyddoedd y gall unigolyn ddisgwyl byw bywyd iach) yng Nghaerdydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer menywod a dynion.

**Tabl 8.1: Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwlch anghydraddoldebau' (2015 i 2017)**

	Disgwyliad oes adeg geni (blynyddoedd)		Disgwyliad bywyd iach (blynyddoedd)		Bwlch anghydraddoldebau (blynyddoedd)	
	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion
Caerdydd	82.7	78.5	61.1	61.2	6.9	9.2
BIP Caerdydd a'r Fro	83.0	78.7	62.0	61.9	6.6	8.6
Cymru	82.3	78.3	62.0	61.4	6.1	7.4

Ffynhonnell: Offeryn PHOF Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) gan ddefnyddio data'r ONS a Llywodraeth Cymru

### 8.1.3 Amddifadedd

Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl mewn cymdeithas. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn ei gwneud yn bosibl i raddio ardaloedd bach, a elwir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Nghymru, er mwyn pennu a yw ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig o gymharu ag ardaloedd bach eraill yng Nghymru.

Yn gyffredinol, mae gan glwstwr Dwyrain Caerdydd ganran uwch o LSOAs ymhlith y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru o gymharu â Chaerdydd, ac eithrio'r parth mynediad i wasanaethau yn y 10% o LSOAs mwyaf difreintiedig.

**Tabl 8.2: Canran yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl clwstwr ac awdurdod lleol ar gyfer y meysydd incwm, iechyd, cyflogaeth a mynediad at wasanaethau, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014.**


	Canran yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru							
	Incwm		Iechyd		Cyflogaeth		Mynediad i wasanaethau	
	10%	20%	10%	20%	10%	20%	10%	20%
Dwyrain Caerdydd	43.5	69.6	30.4	52.5	21.7	47.8	0.0	8.7
Caerdydd	19.2	30.8	14.5	22.0	12.1	20.1	0.0	0.9

Ffynhonnell: StatsCymru - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, Llywodraeth Cymru

Mae'r map isod yn rhoi arwydd o lefelau cyffredinol amddifadedd o fewn y clwstwr. Fel y gellir gweld o'r map, mae'r holl fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd uwch, neu'n agos atynt.

## Map 8.1: Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng nghlwtwr Dwyrain Caerdydd, wedi'u grwpio yn gwintellau yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Cardiff East Cluster



### 8.1.4 Proffil iechyd

Ar y cyfan, mae nifer yr achosion o glefydau cronig yng nghlwtwr Dwyrain Caerdydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. O gymharu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae nifer amcangyfrifedig y clefydau cronig yn uwch yn gyffredinol, ac eithrio ar gyfer methiant y galon a strôc a phylliau o isgemia dros dro. Mae ganddo'r nifer amcangyfrifedig uchaf, ar y cyd â chlwtwr arall, o achosion o glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) o blith yr holl glystyrau yn ardal y bwrdd iechyd, diabetes yw'r ail uchaf a chlefyd coronaidd y galon yw'r trydydd.

**Tabl 8.3: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o gyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwtwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

Ardal	Canran					Strôc a phylliau o isgemia dros dro
	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	COPD	Diabetes	Methiant y galon	
Dwyrain Caerdydd	6.8	2.9	2.3	5.6	0.9	1.6
Caerdydd	6.6	2.5	1.6	4.9	0.8	1.6
BIP Caerdydd a'r Fro	6.7	2.7	1.7	5.0	0.9	1.7
Cymru	7.1	3.6	2.4	6.1	1.1	2.1

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae gan glwstwr Dwyrain Caerdydd nifer amcangyfrifedig uwch o ddementia na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae ganddo'r ail nifer uchaf, ar y cyd â chlwstwr arall, o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig cyflyrau iechyd meddwl yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r bwrdd iechyd.

**Tabl 8.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl, a dementia, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Dementia (canran)	Iechyd meddwl (canran)
De-ddwyrain Caerdydd	0.8	0.8
Caerdydd	0.6	0.9
BIP Caerdydd a'r Fro	0.7	0.9
Cymru	0.7	1.0

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae gan glwstwr Dwyrain Caerdydd nifer amcangyfrifedig is o achosion o ffibriliad atrïaidd na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Er bod nifer amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, mae'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y bwrdd iechyd.

**Tabl 8.5: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Ffibriliad Atrïaidd (canran)	Gorbwysedd (canran)
Dwyrain Caerdydd	1.6	13.7
Caerdydd	1.6	11.8
BIP Caerdydd a'r Fro	1.8	12.6
Cymru	2.3	15.8

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae llawer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd a lles yn rhai y gellir eu hatal. Mae tabl 8.6 yn dangos canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch pum ymddygiad, lle yr ystyrir bod canran is ar gyfer smygu ac yfed uwchlaw'r canllawiau yn fwy buddiol i iechyd a lles, yn yr un modd ag y mae canran uwch ar gyfer oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach, sy'n cyflawni'r canllawiau gweithgarwch corfforol ac yn bwyta pum dogn o lysiau a ffrwythau y dydd.

Yn gyffredinol, mae canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau sy'n cefnogi canlyniadau iach yng nglwstwr Dwyrain Caerdydd yn is na Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac eithrio ar gyfer yfed uwchlaw'r canllawiau.

**Tabl 8.6: Canran yr oedolion (16 oed ac yn hŷn) sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2016 i 2018**

Enw'r Clwstwr Meddyg Teulu	Cyfrif			Cyffredinrwydd		
	Poblogaeth 16+ y clwstwr meddyg teulu	Smygu	Yfed uwchlaw'r canllawiau	Oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach	Cyflawni canllawiau gweithgarwch corfforol	Bwyta 5 dogn y dydd

Dwyrain Caerdydd	45,353	23.4	16.9	37.9	51.5	21.8
BIP Caerdydd a'r Fro	420,119	19.3	18.9	40.8	55.1	24.2
Cymru	2,642,152	19.2	18.9	39.1	52.8	23.4

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru, gan ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru), Gwasanaeth Demograffig Cymru (NWIS) a MALIC 2014 (Llywodraeth Cymru). Noder, mae'r cyfrifiad ar gyfer y dangosydd pwysau iach ond yn rhoi cyfrif am oedolion o oedran gweithio (16-64 oed)

### 8.1.5 Datblygiadau clwstwr

Mae datblygiad cyflogaeth strategol mawr wedi'i gynllunio o fewn clwstwr Dwyrain Caerdydd, i'w gwblhau erbyn 2026 yn unol â Chynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006 i 2026. Mae'r ardal i'r de o Barc Busnes Llaneirwg wedi'i nodi fel safle cyflogaeth pwysig sy'n cyfrannu at yr ystod angenrheidiol a'r dewis o fathau o gyfleoedd cyflogaeth yn y ddinas. Mae ei leoliad yn ffafriol iawn er mwyn darparu cyfleoedd swyddi hygyrch i ardaloedd o amddifadedd hysbys. Ymhlith y datblygiadau arfaethedig allweddol mae:

- Darparu hwb trafniadaeth yn cynnwys gorsaf drenau newydd a gaiff ei gwasanaethu gan wasanaethau rheilffordd llinell liniaru sy'n cysylltu â chanol y ddinas a gwasanaethau i Faes Awyr Caerdydd a Llundain drwy orsaf Caerdydd Canolog
- Darparu cyfleuster parcio a theithio
- Integreiddio'r safle â chysylltiadau a choridorau bysiau allweddol
- Darparu cysylltiadau ar droed ac ar feic a chyfleusterau i wella'r mynediad ar droed ac ar feic i'r safle o gymunedau cyfagos yn cynnwys Trowbridge a Llaneirwg
- Cynnal yr ardal o dir ar gyfer man gwyrdd
- Atgyfnerthu mesurau lliniaru a gwella o ran llifogydd

O safbwynt y wybodaeth fonitro yn ystod hydref 2020, nid oedd unrhyw geisiadau cynllunio ffurfiol wedi'u cyflwyno i Gyngor Caerdydd.

Mae dogfen fonitro LDP gwanwyn 2021 yn dangos bod cais cynllunio amlinellol byw yn mynd rhagddo gyda Chyngor Caerdydd.

### 8.2 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir o fewn y clwstwr ar hyn o bryd

Mae 10 fferyllfa yng nghlwrwr Dwyrain Caerdydd (gweler tabl 8.7). Dylid nodi bod un fferyllfa, sef Hopwoods, wedi'i lleoli ychydig y tu allan i ffin clwstwr Dwyrain Caerdydd, yng Ngogledd Caerdydd. O ganlyniad i'r ffaith ei bod yn agos at feddygfa sy'n rhan o bractis meddyg teulu Dwyrain Caerdydd, fe'i hystyriwyd yn hanesyddol yn rhan o glwrwr Dwyrain Caerdydd.

Rhwng 2019 a 2020, cafodd 79.9% o eitemau ar bresgripsiwn a ysgrifennwyd gan y pedwar practis meddyg teulu yng nghlwrwr Dwyrain Caerdydd eu gweinyddu gan


un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr, ac roedd 1.8% ohonynt yn eitemau a ddsbarthwyd yn bersonol.

**Tabl 8.7: Fferyllfeydd yng nghlwtwr Dwyrain Caerdydd**

Fferyllfa	Cyfeiriad		
G S Bhogal T/A GS Bhogal Pharmacy	Canolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch Barmouth Road	Tredelerch	CF3 3LA
Boots UK Limited	48 Countisbury Avenue	Llanrhymni	CF3 5SL
Hopwoods Ltd	19 Canolfan Siopa Maelfa	Llanedeyrn	CF23 9PL
Lloyds Pharmacy Ltd T/A Lloydspharmacy	347-349 Canolfan Siopa Ardal Llaneirwg	Llaneirwg	CF3 0EF
Lloyds Pharmacy Ltd T/A Lloydspharmacy	Canolfan Feddygol Llanrhymni Ball Road	Llanrhymni	CF3 5NP
Well	106 Wentloog Road	Tredelerch	CF3 3EA
Well	Uned 3, Canolfan Leol Trowbridge Abergele Road	Trowbridge	CF3 1RR
Boots UK Limited T/A Your Local Boots Pharmacy	4 Strathy Road Willowbrook Drive	Llaneirwg	CF3 0SH
Well	60 Countisbury Avenue	Llanrhymni	CF3 5SP
P C Bullen	Fferyllfa Llaneirwg, Seaview Stores Newport Road	Llaneirwg	CF3 5UA


Mae'r fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth mwy, sydd wedi'u dangos gan yr ardaloedd wedi'u lliwio'n dywyll yn y map isod.

**Map 8.2: Lleoliad fferyllfeydd o gymharu â dwysedd y boblogaeth**



Gall holl breswylwyr y clwstwr gyrraedd un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn 10 munud. Gall y mwyafrif gyrraedd fferyllfa o fewn 5 munud, fel y nodir yn y map isod. Fodd bynnag, nid oes gan rai cartrefi gar, felly gallai eu taith hwy fod yn hirach.

**Map 8.3: Mynediad i fferyllfeydd yn y clwstwr**



Gan edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae un fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- Mae un fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae pum fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar fore Sadwrn
- Mae tair fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener

Rhaid i bob fferyllfa fod ar agor ar gyfer eu horiau contractiol craidd, sef 40 awr yr wythnos. Dim ond gyda chymeradwyaeth y bwrdd iechyd y gellir diwygio'r rhain. Gall y fferyllfa ddiwygio unrhyw oriau ychwanegol neu ategol ar ôl rhoi rhybudd o 90 diwrnod i'r bwrdd iechyd. O fewn y clwstwr, mae oriau agor a chau yn amrywio o:

Diwrnodau	Ystod oriau agor	Ystod oriau cau
Dydd Llun i Ddydd Gwener	08.00am to 09.00am	17.30pm to 19.00pm
Dydd Sadwrn	09.00am	13.00pm to 17.30pm
Dydd Sul	10.00am	16.00pm

Ceir manylion llawn ynghylch pryd y mae'r fferyllfeydd ar agor yn Atodiad L.

Gwnaeth 10 fferyllfa ymateb i'r holiadur i fferyllwyr ar gontract, yr oedd pob un o'r 10 yn gweinyddu cyfarpar a restrwyd yn Rhan IX o'r Tariff Cyffuriau.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth bob un o'r 10 fferyllfa gynnig y gwasanaeth MUR a chafodd cyfanswm o 3,573 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 4,000 o adolygiadau posibl. Darparodd dwy fferyllfa uchafswm nifer yr adolygiadau. Gwnaeth Llywodraeth Cymru roi terfyn dros dro ar y gwasanaeth MUR yn ffurfiol ar 13 Mawrth 2020. Ar yr adeg ysgrifennu, ni wyddys a fydd y gwasanaeth yn ailgychwyn.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth wyth fferyllfa gynnig y gwasanaeth DMR a chafodd cyfanswm o 254 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 1,120 o adolygiadau posibl. Darparodd un fferyllfa uchafswm nifer yr adolygiadau, sef 140. Fel rhan o'r newidiadau i'r fframwaith contractiol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yn 2021, mae'r terfyn ar nifer y DMRs a dalwyd wedi'i dynnu ers hynny.

Rhwng 2019 a 2020, darparwyd y gwasanaethau ychwanegol canlynol gan fferyllfeydd yn ardal y clwstwr:

- Gwnaeth naw fferyllfa ddarparu cyfanswm o 288 o ymgynghoriadau dulliau atal cenhedlu brys, gydag ystod o dri i 108 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth dwy fferyllfa ddarparu cyfanswm o 27 o ymgynghoriadau lefel 3 rhoi'r gorau i smygu, gydag ystod o dri i 24 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth naw fferyllfa ddarparu cyfanswm o 591 o frechiadau rhag y fflw, gydag ystod o 17 i 138 o frechiadau.
- Gwnaeth 10 fferyllfa ddarparu cyfanswm o 637 o ymgynghoriadau CAS, gydag ystod o 12 i 162 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth pedair fferyllfa ddarparu cyfanswm o 11 o ymgynghoriadau EMS, gydag ystod o un i saith ymgynghoriad.

Ymhlith y gwasanaethau ychwanegol eraill roedd y canlynol:

- Roedd chwe fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gweinyddu Meddyginiaeth o dan Oruchwyliaeth.
- Roedd un fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Darpariaeth Nodwydd a Chwistrell.
- Roedd dwy fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gofal Lliniarol.

### **8.3 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir y tu allan i'r clwstwr ar hyn o bryd**

Mae rhai fferyllwyr yn dewis defnyddio fferyllwyr ar contract y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- Sy'n cael eu cynnig gan contractwyr cyfarpar gweinyddu.
- Sydd wedi'u lleoli'n agos at ble maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld ag ef at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu clwstwr rhwng 2019 a 2020 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr, cafodd tua 18.5% eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, sef:

- 5.9% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd
- 4.4% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd
- 3.9% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd
- 0.9% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd
- 0.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd
- 2.4% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 0.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- 0.6% gan fferyllwyr ar gontract yn Lloegr

Yn ogystal, gallai preswylwyr fod wedi defnyddio un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarparwyd gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl cyfrif y gweithgarwch hwn o'r data a gofnodwyd.

Gan ystyried fferyllfeydd yn y clystyrau cyfagos a fferyllfeydd ar draws y ffin mewn ardaloedd byrddau iechyd eraill yng Nghymru, gall yr holl breswylwyr yng nghlwstwr Dwyrain Caerdydd gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 10 munud a gall y rhan fwyaf gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn pum munud.

#### **8.4 Gwasanaethau eraill y GIG**

Ni nodwyd unrhyw wasanaethau GIG allweddol eraill o fewn y clwstwr hwn.

#### **8.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol**

Fel y gellir gweld o adrannau 8.2 ac 8.3, mae'r rhai sy'n byw o fewn yr ardal glwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr er mwyn cael eu presgripsiynau wedi'u gweinyddu. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny er mwyn cael gafael ar fferyllfa gyfagos o fewn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafswm yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i weinyddu gan fferyllfa neu gontractwr gweinyddu y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 388 o fferyllwyr ar gontract a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2019 i 2020, weinyddu eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Dwyrain Caerdydd, yr oedd 281 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 8,033 o eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu yn Lloegr.

#### **8.6 Bylchau mewn darpariaeth**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr, a'r ffaith y gall y boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 10 munud, a gall y mwyaf wneud o fewn pum munud. Fodd bynnag, nid oes gan rai cartrefi gar, felly gallai eu taith hwy fod yn hirach. Bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn

realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai na allant wneud y daith gyfan ar droed.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi amseroedd agor fferyllfeydd presennol, ac mae o'r farn eu bod yn ddigonol i ddiwallu anghenion tebygol preswylwyr yn y clwstr. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn fodlon nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau uwch. Er nad oes un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth Adolygiad o'r Defnydd o Gyfarpar (AUR) na'r gwasanaeth Teilwra Cyfarpar Stoma (SAC), nodir bod pedwar contractwr cyfarpar wedi'u lleoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n cynnig y gwasanaethau hyn. Un o'r rhesymau pam gaiff presgripsiynau eu gweinyddu y tu allan i'r clwstr yw oherwydd eu bod wedi'u hanfon at gontractwr cyfarpar gweinyddu yn rhywle arall yn y bwrdd iechyd neu i Loegr, sy'n darparu'r gwasanaethau hyn. Bydd cleifion felly yn gallu cael gafael ar y ddau wasanaeth hyn drwy'r contractwyr hynny. Nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi nodi unrhyw fwlch presennol neu yn y dyfodol, neu fynediad gwell o ran darparu'r ddau wasanaeth uwch hyn yn y clwstr.

Gwnaeth 10 fferyllfa ymateb i'r cwestiwn yn yr holiadur i fferyllwyr ar gontract ynghylch y gallu i ddiwallu'r galw gan unrhyw ddatblygiadau tai yn y dyfodol yn y clwstr. Ymatebodd 10 o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol a digon o staff i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.

Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y datblygiadau a gynlluniwyd ar gyfer y clwstr, o ran y safle cyflogaeth strategol i'r de o Barc Busnes Llanelwyr. At hynny, o ran unrhyw dai y bwriedir eu hadeiladu yn ystod oes y ddogfen hon, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon, yn seiliedig ar yr ymatebion i'r holiadur i fferyllwyr ar gontract, y bydd y galw y bydd hyn yn ei greu yn gallu cael ei fodloni gan fferyllfeydd presennol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion yn y dyfodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon hefyd, yn seiliedig ar y wybodaeth a geir yn yr adrannau blaenorol, nad oes unrhyw fylchau presennol neu yn y dyfodol, yn y gwasanaethau uwch a'r gwasanaethau ychwanegol a ddarperir.

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ond mae wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol sy'n gofyn am gais ar gyfer safleoedd newydd neu ychwanegol.

## 9 Clwstwr De-ddwyrain Caerdydd

### 9.1 Ffeithiau allweddol

#### 9.1.1 Poblogaeth ac amcanestyniadau poblogaeth 2018 i 2028 (sail-2018)

Gan nad yw data poblogaeth lefel clwstwr yn cael ei gasglu'n rheolaidd ar sail flynyddol, defnyddiwyd data cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu i roi arwydd o boblogaeth clwstwr, a defnyddiwyd data yn seiliedig ar awdurdod lleol i roi arwydd o amcanestyniadau poblogaeth.

Nodwch fod data poblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn uwch na'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn cyfatebol sy'n seiliedig ar y cyfrifiad, a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar lefel awdurdod lleol a bwrdd iechyd, fel yr amlinellir yn 2.2. Mae hyn fwy na thebyg o ganlyniad i gleifion sydd wedi'u gor-gofrestru neu 'gleifion ysbryd' a achoswyd gan nifer o ffactorau gwahanol.

**Tabl 9: Nifer y cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn ôl rhyw a grwpiau oedran eang, ac yn ôl clwstwr, awdurdod lleol a bwrdd iechyd (2019)**

	Blwyddyn	Rhywedd		Ystod oedran		
	2019	Menywod	Dynion	O dan 65	65 i 84	85 ac yn hŷn
De-ddwyrain Caerdydd	63416	30468	32948	57624	5029	763
Caerdydd	389619	193044	196575	335252	46599	7768
BIP Caerdydd a'r Fro	521177	260027	261150	439365	70412	11400

Ffynhonnell: StatsCymru – Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

Rhwng 2018 a 2028, rhagamcanir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu hyd at 3.2%, y chweched cynnydd canrannol mwyaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Disgwylir y bydd ganddi boblogaeth sy'n cyfateb i oddeutu 375,000 erbyn 2028, sy'n golygu mai dyma fydd yr awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Yn wahanol i'r holl awdurdodau lleol eraill, bydd y cynnydd yn y boblogaeth wedi'i sbarduno'n bennaf gan newid naturiol h.y. mwy o enedigaethau na marwolaethau, a bydd cyfran lai o'r cynnydd o ganlyniad i ymfudo net h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Caerdydd sydd â'r lefel uchaf o ymfudo rhyngwladol amcanestynedig o blith yr holl awdurdodau lleol. Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ar draws yr holl grwpiau oedran eang, ac eithrio'r grŵp 0 i 15 oed, lle rhagwelir gostyngiad. Bydd y cynnydd mwyaf mewn poblogaeth yn y grŵp oedran 65 oed ac yn hŷn, wedi'i ddilyn gan y boblogaeth oedran gweithio rhwng 16 oed a 64 oed. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol.

### 9.1.2 Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwloch anghydraddoldebau'

Mae'r disgwyliad oes adeg geni yng Nghaerdydd yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer menywod a dynion. Yr enw ar y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yw'r 'bwloch anghydraddoldebau'. Mae'r bwloch anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes adeg geni rhwng y pumed mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig ar gyfer Caerdydd, yn ehangach na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer dynion a menywod. Mae'r disgwyliad bywyd iach (nifer y blynyddoedd y gall unigolyn ddisgwyl byw bywyd iach) yng Nghaerdydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer menywod a dynion.

**Tabl 9.1: Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwloch anghydraddoldebau' (2015 i 2017)**

	Disgwyliad oes adeg geni (blynyddoedd)		Disgwyliad bywyd iach (blynyddoedd)		Bwlch anghydraddoldebau (blynyddoedd)	
	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion
	Caerdydd	82.7	78.5	61.1	61.2	6.9
BIP Caerdydd a'r Fro	83.0	78.7	62.0	61.9	6.6	8.6
Cymru	82.3	78.3	62.0	61.4	6.1	7.4

Ffynhonnell: Offeryn PHOF Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) gan ddefnyddio data'r ONS a Llywodraeth Cymru

### 9.1.3 Amddifadedd

Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl mewn cymdeithas. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn ei gwneud yn bosibl i raddio ardaloedd bach, a elwir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Nghymru, er mwyn pennu a yw ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig o gymharu ag ardaloedd bach eraill yng Nghymru.

Ar y cyfan, mae gan glwstwr De-ddwyrain Caerdydd ganran uwch o LSOAs yn y 10% mwyaf difreintiedig o LSOAs yng Nghymru ar gyfer y meysydd incwm, iechyd a chyflogaeth sy'n berthnasol i Gaerdydd. Mae ganddo hefyd ganran uwch o LSOAs yn yr 20% mwyaf difreintiedig o LSOAs yng Nghymru ar gyfer y maes iechyd.

**Tabl 9.2: Canran yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl clwstwr ac awdurdod lleol ar gyfer y meysydd incwm, iechyd, cyflogaeth a mynediad at wasanaethau, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014.**


	Canran yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru							
	Incwm		Iechyd		Cyflogaeth		Mynediad i wasanaethau	
	10%	20%	10%	20%	10%	20%	10%	20%
De-ddwyrain Caerdydd	19.4	30.6	19.4	30.6	13.9	19.4	0.0	0.0
Caerdydd	19.2	30.8	14.5	22.0	12.1	20.1	0.0	0.9

Ffynhonnell: StatsCymru - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, Llywodraeth Cymru

Mae'r map isod yn rhoi arwydd o lefelau cyffredinol amddifadedd o fewn y clwstr. Fel y gellir gweld o'r map, mae'r holl fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd uwch, neu'n agos atynt.

### Map 9.1: Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng nghlwstr Dwyrain Caerdydd, wedi'u grwpio yn gwintellau yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Cardiff South East Cluster



#### 9.1.4 Proffil iechyd

Mae gan glwstr De-ddwyrain Caerdydd y nifer amcangyfrifedig lleiaf o achosion o glefyd cronig o blith yr holl glystyrau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac eithrio methiant y galon (ail lleiaf) a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD). Ar y cyfan, mae nifer yr achosion o glefydau cronig yn y clwstr yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

**Tabl 9.3: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o gyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

Ardal	Canran					Strôc a phylliau o isgemia dros dro
	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	COPD	Diabetes	Methiant y galon	
De-ddwyrain Caerdydd	5.2	1.8	1.5	4.2	0.6	1.1
Caerdydd	6.6	2.5	1.6	4.9	0.8	1.6

BIP Caerdydd a'r Fro	6.7	2.7	1.7	5.0	0.9	1.7
Cymru	7.1	3.6	2.4	6.1	1.1	2.1

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ddementia yng nghlwtwr De-ddwyrain Caerdydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a dyma'r nifer isaf o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o gyflyrau iechyd meddwl yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a dyma'r ail uchaf o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd.

**Tabl 9.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl, a dementia, yn ôl clwtwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Dementia (canran)	Iechyd meddwl (canran)
De-ddwyrain Caerdydd	0.4	1.1
Caerdydd	0.6	0.9
BIP Caerdydd a'r Fro	0.7	0.9
Cymru	0.7	1.0

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd yng nghlwtwr De-ddwyrain Caerdydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a dyma'r nifer isaf o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ffibriliad atrïaidd yn cyfateb i'r ail isaf o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd.

**Tabl 9.5: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd a ffibriliad atriaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Ffibriliad Atriaidd (canran)	Gorbwysedd (canran)
De-ddwyrain Caerdydd	1.0	8.1
Caerdydd	1.6	11.8
BIP Caerdydd a'r Fro	1.8	12.6
Cymru	2.3	15.8

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae llawer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd a lles yn rhai y gellir eu hatal. Mae tabl 9.6 yn dangos canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch pum ymddygiad, lle yr ystyrir bod canran is ar gyfer smygu ac yfed uwchlaw'r canllawiau yn fwy buddiol i iechyd a lles, yn yr un modd ag y mae canran uwch ar gyfer oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach, sy'n cyflawni'r canllawiau gweithgarwch corfforol ac yn bwyta pum dogn o lysiau a ffrwythau y dydd.

Yn gyffredinol, mae canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau sy'n cefnogi canlyniadau iach yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd yn uwch na Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac eithrio ar gyfer smygu a bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y dydd fel yr argymhellir.

**Tabl 9.6: Canran yr oedolion (16 oed ac yn hŷn) sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2016 i 2018**

Enw'r Clwstwr Meddyg Teulu	Cyfrif			Cyffredinrwydd		
	Poblogaeth 16+ y clwstwr meddyg teulu	Smygu	Yfed uwchlaw'r canllawiau	Oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach	Cyflawni canllawiau gweithgarwch corfforol	Bwyta 5 dogn y dydd
De-ddwyrain Caerdydd	54,093	23.5	17.5	41.9	55.3	21.9
BIP Caerdydd a'r Fro	420,119	19.3	18.9	40.8	55.1	24.2
Cymru	2,642,152	19.2	18.9	39.1	52.8	23.4

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru, gan ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru), Gwasanaeth Demograffig Cymru (NWIS) a MALIC 2014 (Llywodraeth Cymru). Noder, mae'r cyfrifiad ar gyfer y dangosydd pwysau iach ond yn rhoi cyfrif am oedolion o oedran gweithio (16-64 oed)

## 9.2 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir o fewn y clwstwr ar hyn o bryd

Mae 16 o fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd. Mae un contractwr cyfarpar hefyd.


**Tabl 9.7: Fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd**

Fferyllfa	Cyfeiriad		
Alkamoosi Ltd T/A Fferyllfa'r Crwys	128 Heol y Crwys	Cathays	CF24 4NR
Boots UK Limited	77-79 Heol Albany	Y Rhath	CF24 3LN
Clifton Pharmacy Ltd T/A City Pharmacy	Ysbyty Brenhinol Caerdydd, Heol Casnewydd	Y Rhath	CF24 0SZ
Clifton Pharmacy Ltd	7-8 Clifton Street	Y Rhath	CF24 1PW
WJ Powell Limited T/A WJ Powell Chemists	49 Gabalfa Avenue	Gabalfa Estate	CF14 2SH
Tesco Stores Limited	Tesco Instore Pharmacy	Western Avenue	CF14 3AT
Well	1,2 & 3 Upper Clifton Street	Y Rhath	CF24 1PU
Well	219 - 221 City Road	Y Rhath	CF24 3JF
Well	180 City Road	Y Rhath	CF24 3JF
North Road Pharmacy Ltd	144 Heol y Gogledd	Gabalfa	CF14 3BH
Pearn's Pharmacies Ltd	21 South Park Road	Tremorfa	CF24 2QZ
Rhys Williams T/A Fferyllfa Heol Woodville	74 Heol Woodville	Cathays	CF24 4EB
MW Phillips Chemists	52 Splott Road	Y Sblot	CF24 2DA
MW Phillips Chemists	71 Whitchurch Road	Gabalfa	CF14 3JP
MW Phillips Chemists	7 South Park Road	Y Sblot	CF24 2LU
Superdrug Ltd	81-83 Heol Albany	Y Rhath	CF24 3LN

Rhwng 2019 a 2020, cafodd 75.0% o eitemau ar bresgripsiwn a ysgrifennwyd gan yr wyth practis meddyg teulu yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr, ac roedd 1.7% ohonynt yn eitemau a ddsbarthwyd yn bersonol.


Yn gyffredinol, mae'r fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth mwy, neu'n agos atynt, sydd wedi'u dangos gan yr ardaloedd wedi'u lliwio'n dywyll yn y map isod.

**Map 9.2: Lleoliad fferyllfeydd a safleoedd contractwyr cyfarpar o gymharu â dwysedd y boblogaeth**



Gall holl breswylwyr y clwstwr gyrraedd un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn 10 munud. Gall y mwyafrif gyrraedd fferyllfa o fewn 5 munud, fel y nodir yn y map isod.

**Map 9.3: Mynediad i fferyllfeydd a chontractwyr cyfarpar yn y clwstwr**



Gan edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae dwy fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- Mae tair fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae pum fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar fore Sadwrn
- Mae chwe fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener

Rhaid i bob fferyllfa fod ar agor ar gyfer eu horiau contractiol craidd, sef 40 awr yr wythnos. Dim ond gyda chymeradwyaeth y bwrdd iechyd y gellir diwygio'r rhain. Gall y fferyllfa ddiwygio unrhyw oriau ychwanegol neu ategol ar ôl rhoi rhybudd o 90 diwrnod i'r bwrdd iechyd. O fewn y clwstwr, mae oriau agor a chau yn amrywio o:

Diwrnodau	Ystod oriau agor	Ystod oriau cau
Dydd Llun i Ddydd Gwener	08.00am to 09.00am	17.30pm to 21.00pm*
Dydd Sadwrn	08.00am to 09.30am	11.30pm i 22.00pm
Dydd Sul	10.00am i 10.30am	16.00pm i 16.30pm

\*Mae tair fferyllfa yn cau'n gynharach am 17.00 ar ddydd Mercher  
Ceir manylion llawn ynghylch pryd y mae'r fferyllfeydd ar agor yn Atodiad L.

Gwnaeth 16 fferyllfa ymateb i'r holiadur i fferyllwyr ar gcontract, yr oedd 12 yn gweinyddu'r holl gyfarpar a restrwyd yn Rhan IX o'r Tariff Cyffuriau, a thair yn gweinyddu gorchuddion yn unig. Nid yw un fferyllfa yn gweinyddu unrhyw gyfarpar.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth bob un o'r 16 fferyllfa gynnig y gwasanaeth MUR a chafodd cyfanswm o 4,246 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 6,400 o

adolygiadau posibl. Darparodd pedair fferyllfa uchafswm nifer yr adolygiadau, sef 400. Gwnaeth Llywodraeth Cymru roi terfyn dros dro ar y gwasanaeth MUR yn ffurfiol ar 13 Mawrth 2020. Ar yr adeg ysgrifennu, ni wyddys a fydd y gwasanaeth yn ailgychwyn.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth 14 fferyllfa gynnig y gwasanaeth DMR a chafodd cyfanswm o 417 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 1,960 o adolygiadau posibl. Darparodd dwy fferyllfa uchafswm nifer yr adolygiadau, sef 140. Fel rhan o'r newidiadau i'r fframwaith contractiol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yn 2021, mae'r terfyn ar nifer y DMRs a dalwyd wedi'i dynnu ers hynny.

Rhwng 2019 a 2020, darparwyd y gwasanaethau ychwanegol canlynol gan fferyllfeydd yn ardal y clwstwr:

- Gwnaeth naw fferyllfa ddarparu cyfanswm o 1366 o ymgynghoriadau dulliau atal cenhedlu brys, gydag ystod o 18 i 662 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth chwe fferyllfa ddarparu cyfanswm o 89 o ymgynghoriadau lefel 3 rhoi'r gorau i smygu, gydag ystod o bedwar i 29 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth 11 fferyllfa ddarparu cyfanswm o 961 o frechiadau rhag y fflw, gydag ystod o un i 299 o frechiadau.
- Gwnaeth 15 fferyllfa ddarparu cyfanswm o 961 o ymgynghoriadau CAS, gydag ystod o bump i 177 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth pum fferyllfa ddarparu cyfanswm o 200 o ymgynghoriadau EMS, gydag ystod o un i 144 o ymgynghoriadau.

Ymhlith y gwasanaethau ychwanegol eraill roedd y canlynol:

- Roedd wyth fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gweinyddu Meddyginiaeth o dan Oruchwyliaeth.
- Roedd tair fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Darpariaeth Nodwydd a Chwistrell.
- Roedd tair fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gofal Lliniarol.

### **9.3 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir y tu allan i'r clwstwr ar hyn o bryd**

Mae rhai fferyllwyr yn dewis defnyddio fferyllwyr ar gontract y tu allan i'r ardal ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- Sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr cyfarpar gweinyddu.
- Sydd wedi'u lleoli'n agos at ble maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld ag ef at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu rhwng 2019 a 2020 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr, cafodd tua 23.2% eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, sef:

- 8.5% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd

- 4.6% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain Caerdydd
- 7.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd
- 1.0% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd
- 0.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd
- 0.8% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- 0.6% gan fferyllwyr ar contract yn Lloegr

Yn ogystal, gallai preswylwyr fod wedi defnyddio un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarparwyd gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl cyfrif y gweithgarwch hwn o'r data a gofnodwyd.

Gan ystyried fferyllfeydd yn y clystyrau cyfagos a fferyllfeydd ar draws y ffin mewn ardaloedd byrddau iechyd eraill yng Nghymru, gall yr holl breswylwyr yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 10 munud a gall y rhan fwyaf gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn pum munud.

#### **9.4 Gwasanaethau eraill y GIG**

Mae Ysbyty Brenhinol Caerdydd wedi'i leoli o fewn clwstwr De-ddwyrain Caerdydd. Fodd bynnag, mae'r ysbyty yn gwasanaethu poblogaeth lawer ehangach na'r clwstwr yn unig.

#### **9.5 Dewis o ran cael gafael ar wasanaethau fferyllol**

Fel y gellir gweld o adrannau 9.2 ac 9.3, mae'r rhai sy'n byw o fewn yr ardal glwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr er mwyn cael eu presgripsiynau wedi'u gweinyddu. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny er mwyn cael gafael ar fferyllfa gyfagos o fewn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafswm yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i weinyddu gan fferyllfa neu gcontractwr gweinyddu y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 372 o fferyllwyr ar contract a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2019 i 2020, weinyddu eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd, yr oedd 267 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 6,521 o eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu yn Lloegr.

#### **9.6 Bylchau mewn darpariaeth**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr, a'r ffaith y gall y boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 10 munud, a gall y mwyafrif wneud o fewn pum munud. Er y dylid nodi nad oes gan bob

cartref fynediad at gar, mae natur y clystyrau yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai na allant wneud y daith gyfan ar droed.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi amseroedd agor fferyllfeydd presennol, ac mae o'r farn eu bod yn ddigonol i ddiwallu anghenion tebygol preswylwyr yn y clwstwr. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstwr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn fodlon nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau uwch. Er nad oes un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth Adolygiad o'r Defnydd o Gyfarpar (AUR) na'r gwasanaeth Teilwra Cyfarpar Stoma (SAC), nodir bod pedwar contractwr cyfarpar wedi'u lleoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y mae un wedi'i lleoli o fewn y clwstwr, sy'n cynnig y gwasanaethau hyn. Un o'r rhesymau pam gaiff presgripsiynau eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr yw oherwydd eu bod wedi'u hanfon at gontractwr cyfarpar gweinyddu yn rhywle arall yn y bwrdd iechyd neu i Loegr, sy'n darparu'r gwasanaethau hyn. Bydd cleifion felly yn gallu cael gafael ar y ddau wasanaeth hyn drwy'r contractwyr hynny. Nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi nodi unrhyw fwlch presennol neu yn y dyfodol, neu fynediad gwell o ran darparu'r ddau wasanaeth uwch hyn yn y clwstwr.

Gwnaeth 16 fferyllfa ymateb i'r cwestiwn yn yr holiadur i fferyllwyr ar gontract ynghylch y gallu i ddiwallu'r galw gan unrhyw ddatblygiadau tai yn y dyfodol yn yr ardal. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

- Mae gan 15% o fferyllfeydd ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol a digon o staff i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.
- Nid oes gan un fferyllfa ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau na digon o staff ar hyn o bryd, ond gallent wneud addasiadau i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.

Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro nad oedd unrhyw ddatblygiadau tai mawr y bwriadwyd eu hadeiladu yn ystod oes y ddogfen hon o fewn y clwstwr. O ran unrhyw unedau bach o dai y bwriedir eu hadeiladu yn ystod oes y ddogfen hon, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon, yn seiliedig ar yr ymatebion i'r holiadur i fferyllwyr ar gontract, y bydd y galw y bydd hyn yn ei greu yn gallu cael ei fodloni gan fferyllfeydd presennol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion yn y dyfodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstwr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon hefyd, yn seiliedig ar y wybodaeth a geir yn yr adrannau blaenorol, nad oes unrhyw fylchau presennol neu yn y dyfodol, yn y gwasanaethau uwch a'r gwasanaethau ychwanegol a ddarperir.

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ond mae wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol sy'n gofyn am gais ar gyfer safleoedd newydd neu ychwanegol.

## 10 Clwstwr Dinas a De Caerdydd

### 10.1 Ffeithiau allweddol

#### 10.1.1 Poblogaeth ac amcanestyniadau poblogaeth 2018 i 2028 (sail-2018)

Gan nad yw data poblogaeth lefel clwstwr yn cael ei gasglu'n rheolaidd ar sail flynyddol, defnyddiwyd data cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu i roi arwydd o boblogaeth clwstwr, a defnyddiwyd data yn seiliedig ar awdurdod lleol i roi arwydd o amcanestyniadau poblogaeth.

Nodwch fod data poblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn uwch na'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn cyfatebol sy'n seiliedig ar y cyfrifiad, a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar lefel awdurdod lleol a bwrdd iechyd, fel yr amlinellir yn 2.2. Mae hyn fwy na thebyg o ganlyniad i gleifion sydd wedi'u gor-gofrestru neu 'gleifion ysbryd' a achoswyd gan nifer o ffactorau gwahanol.

**Tabl 10: Nifer y cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn ôl rhyw a grwpiau oedran eang, ac yn ôl clwstwr, awdurdod lleol a bwrdd iechyd (2019)**

	Blwyddyn	Rhyw		Ystod oedran		
	2019	Menywod	Dynion	O dan 65	65 i 84	85 ac yn hŷn
Dinas a De Caerdydd	41246	18885	22361	37589	3147	510
Caerdydd	389619	193044	196575	335252	46599	7768
BIP Caerdydd a'r Fro	521177	260027	261150	439365	70412	11400

Ffynhonnell: StatsCymru – Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

Rhwng 2018 a 2028, rhagamcanir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu hyd at 3.2%, y chweched cynnydd canrannol mwyaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Disgwylir y bydd ganddi boblogaeth sy'n cyfateb i oddeutu 375,000 erbyn 2028, sy'n golygu mai dyma fydd yr awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Yn wahanol i'r holl awdurdodau lleol eraill, bydd y cynnydd yn y boblogaeth wedi'i sbarduno'n bennaf gan newid naturiol h.y. mwy o enedigaethau na marwolaethau, a bydd cyfran lai o'r cynnydd o ganlyniad i ymfudo net h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Caerdydd sydd â'r lefel uchaf o ymfudo rhyngwladol amcanestynedig o blith yr holl awdurdodau lleol. Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ar draws yr holl grwpiau oedran eang, ac eithrio'r grŵp 0 i 15 oed, lle rhagwelir gostyngiad. Bydd y cynnydd mwyaf mewn poblogaeth yn y grŵp oedran 65 oed ac yn hŷn, wedi'i ddilyn gan y boblogaeth oedran gweithio rhwng 16 oed a 64 oed. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol.

#### 10.1.2. Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwllch anghydraddoldebau'

Mae'r disgwyliad oes adeg geni yng Nghaerdydd yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer menywod a dynion. Yr enw ar y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yw'r 'bwllch anghydraddoldebau'. Mae'r bwllch anghydraddoldebau mewn disgwyliad

oes adeg geni rhwng y pumed mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig ar gyfer Caerdydd, yn ehangach na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer dynion a menywod. Mae'r disgwyliad bywyd iach (nifer y blynyddoedd y gall unigolyn ddisgwyl byw bywyd iach) yng Nghaerdydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer menywod a dynion.

**Tabl 10.1: Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwllch anghydraddoldebau' (2015 i 2017)**

	Disgwyliad oes adeg geni (blynyddoedd)		Disgwyliad bywyd iach (blynyddoedd)		Bwlch anghydraddoldebau (blynyddoedd)	
	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion
	Caerdydd	82.7	78.5	61.1	61.2	6.9
BIP Caerdydd a'r Fro	83.0	78.7	62.0	61.9	6.6	8.6
Cymru	82.3	78.3	62.0	61.4	6.1	7.4

Ffynhonnell: Offeryn PHOF Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) gan ddefnyddio data'r ONS a Llywodraeth Cymru

### 10.1.3. Amddifadedd

Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl mewn cymdeithas. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn ei gwneud yn bosibl i raddio ardaloedd bach, a elwir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Nghymru, er mwyn pennu a yw ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig o gymharu ag ardaloedd bach eraill yng Nghymru.

Yn gyffredinol, mae gan glwstwr Dinas a De Caerdydd ganran uwch o LSOAs ymhlith y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru o gymharu â Chaerdydd, ac eithrio'r maes incwm yn y 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig, sy'n uwch.

**Tabl 10.2: Canran yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl clwstwr ac awdurdod lleol ar gyfer y meysydd incwm, iechyd, cyflogaeth a mynediad at wasanaethau, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014.**


	Canran yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru							
	Incwm		Iechyd		Cyflogaeth		Mynediad i wasanaethau	
	10%	20%	10%	20%	10%	20%	10%	20%
Dinas a De Caerdydd	13.0	43.5	13.0	17.4	4.3	8.7	0.0	0.0
Caerdydd	19.2	30.8	14.5	22.0	12.1	20.1	0.0	0.9

Ffynhonnell: StatsCymru - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, Llywodraeth Cymru

Mae'r map isod yn rhoi arwydd o lefelau cyffredinol amddifadedd o fewn y clwstwr. Fel y gellir gweld o'r map, mae'r holl fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd uwch, neu'n agos atynt.

## Map 10.1: Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng nglwstwr Dinas a De Caerdydd, wedi'u grwpio yn gwintellau yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

City and Cardiff South Cluster



Mae gan glwstwr Dinas a De Caerdydd un o'r niferoedd isaf o achosion o glefyd cronig o blith yr holl glystyrau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac mae'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae ganddo'r nifer isaf amcangyfrifedig, ar y cyd â chlwstwr arall, o achosion o glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) a strôc a phylliau o isgemia dros dro, a'r nifer isaf ar gyfer methiant y galon. Mae ganddo'r ail nifer isaf o achosion o glefyd coronaidd y galon. Fodd bynnag, mae ganddo'r trydydd nifer uchaf amcangyfrifedig o achosion o ddiabetes o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd, er bod hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

**Tabl 10.3: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o gyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

Ardal	Canran					
	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	COPD	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phylliau o isgemia dros dro
Dinas a De Caerdydd	5.6	1.9	1.2	5.5	0.5	1.1
Caerdydd	6.6	2.5	1.6	4.9	0.8	1.6
BIP Caerdydd a'r Fro	6.7	2.7	1.7	5.0	0.9	1.7
Cymru	7.1	3.6	2.4	6.1	1.1	2.1

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ddementia yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a'r bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o gyflyrau iechyd meddwl yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a dyma'r uchaf o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd.

**Tabl 10.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl, a dementia, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Dementia (canran)	Iechyd meddwl (canran)
Dinas a De Caerdydd	0.6	1.2
Caerdydd	0.6	0.9
BIP Caerdydd a'r Fro	0.7	0.9
Cymru	0.7	1.0

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ffibriliad atrïaidd yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd yn cyfateb i'r isaf yn y bwrdd iechyd, ac mae'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a dyma'r ail isaf o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd.

**Tabl 10.5: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Ffibriliad Atrïaidd (canran)	Gorbwysedd (canran)
Dinas a De Caerdydd	0.8	9.3
Caerdydd	1.6	11.8
BIP Caerdydd a'r Fro	1.8	12.6
Cymru	2.3	15.8

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae llawer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd a lles yn rhai y gellir eu hatal. Mae tabl 10.6 yn dangos canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch pum ymddygiad, lle yr ystyrir bod canran is ar gyfer smygu ac yfed uwchlaw'r canllawiau yn fwy buddiol i iechyd a lles, yn yr un modd ag y mae canran uwch ar gyfer oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach, sy'n cyflawni'r canllawiau gweithgarwch corfforol ac yn bwyta pum dogn o lysiau a ffrwythau y dydd.

Yn gyffredinol, mae canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau sy'n cefnogi canlyniadau iach yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd yn is na Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac eithrio ar gyfer yfed uwchlaw'r canllawiau. O ran bodloni'r canllawiau gweithgarwch corfforol, mae clwstwr Dinas a De Caerdydd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ond yn is na'r bwrdd iechyd.

**Tabl 10.6: Canran yr oedolion (16 oed ac yn hŷn) sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2016 i 2018**

Enw'r Clwstwr Meddyg Teulu	Cyfrif		Cyffredinrwydd			
	Poblogaeth 16+ y clwstwr meddyg teulu	Smygu	Yfed uwchlaw'r canllawiau	Oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach	Cyflawni canllawiau gweithgarwch corfforol	Bwyta 5 dogn y dydd
Dinas a De Caerdydd	32,510	26.1	16.8	37.2	53.0	21.5
BIP Caerdydd a'r Fro	420,119	19.3	18.9	40.8	55.1	24.2
Cymru	2,642,152	19.2	18.9	39.1	52.8	23.4

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru, gan ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru), Gwasanaeth Demograffig Cymru (NWIS) a MALIC 2014 (Llywodraeth Cymru). Noder, mae'r cyfrifiad ar gyfer y dangosydd pwysau iach ond yn rhoi cyfrif am oedolion o oedran gweithio (16-64 oed)

### 10.1.5 Datblygiadau clwstwr

Mae dau ddatblygiad mawr wedi'u cynllunio o fewn clwstwr Dinas a De Caerdydd, i'w cwblhau erbyn 2026 yn unol â Chynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006 i 2026. Ymhlith y rhain mae:

#### Parth Menter Canol Caerdydd

Mae'r safle hwn yn fenter fawr a arweinir gan gyflogaeth, sy'n cynnwys Hwb Trafnidiaeth Rhanbarthol, ynghyd â defnyddiau cymysg eraill a thua 2,150 o gartrefi. Bydd y datblygiad yn darparu lefel uchel o gyflogaeth a fydd yn canolbwyntio ar wasanaethau ariannol a busnes, ac yn manteisio i'r eithaf ar ei leoliad canolog.

- Hwb trafndiaeth gyhoeddus a chanolog, a fydd yn darparu mynediad i'r rhwydwaith rheilffordd a chyfnewidfa, coridorau bysiau tramwy a strategol, rhwydwaith bysiau ar draws y ddinas a'r rhwydwaith beicio strategol.
- Gwella llwybrau bysiau a gwasanaethau presennol.
- Gwella llwybrau i gerddwyr a llwybrau beicio.
- Darparu hwb beicio a pharcio canolog gyda chyfleusterau cysylltiedig.
- Darparu cyfleusterau parcio a chyfleusterau cysylltiedig diogel mewn lleoliadau sy'n annog beicio i ganol y ddinas ac integreiddio â gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus.
- Creu llwybr cerdded parhaus ar hyd yr afon ar lan Dwyrain y Taf.
- Un ysgol gynradd newydd a chyfrannu at ysgolion uwchradd presennol
- Mannau agored yn cynnwys safleoedd hamdden ffurfiol, meysydd chwarae, cyfleuster i blant yn eu harddegau, safle rhandir.

Ar 1 Ebrill 2019, cafwyd 102 o achosion o gwblhau ar y safle hwn.

Mae dogfen fonitro LDP gwanwyn 2021 yn dangos bod y datblygiadau yn Sgwâr Canolog ac yng Nghwr y Ddinas wedi mynd rhagddynt yn dda, ac mae llawer o ardaloedd wedi'u cwblhau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn cynnwys 102 apartment yn Trade Street.

Mae gwaith adeiladu wedi dechrau ar y gyfnewidfa drafnidiaeth yn Sgwâr Canolog a swyddfeydd yn Brewhouse, Cei Canolog. Mae apartments plot J wrthi'n cael eu hadeiladu yng Nghwr y Ddinas ac ar gyn safle Browning Jones and Morris.

Mae'r safleoedd a enwebwyd ar gyfer gwestai ac adeiladau eraill a gynlluniwyd yn Stryd Ioan, Stryd Custom House a Stryd Westgate hefyd wrthi'n cael eu hadeiladu.

### **Yr hen waith nwy, Ferry Road**

Mae'r safle hwn yn gynllun tai mawr sy'n cynnwys 500 o dai a defnyddiau cymunedol cysylltiedig eraill, gyda seilwaith ategol:

- Gwella mynediad cerddwyr i gyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus yn ardal y safle.
- Darparu cysylltiadau cerddwyr/beicio newydd a gwella rhai presennol o'r safle i Lwybr Trelái, Parc Grangemoor, Parc Manwerthu Bae Caerdydd, a chyfleusterau cymunedol eraill yn yr ardal, yn cynnwys Canolfan Channel View.
- Cyfrannu at gyfleusterau cymunedol a ddarperir oddi ar y safle.
- Cyfrannu at ysgolion cynradd ac uwchradd presennol.
- Mannau agored yn cynnwys un maes chwarae, un cyfleuster i blant yn eu harddegau, yn ogystal â chyfrannu at fannau agored ffurfiol, darparu rhandiroedd a chyfleusterau chwarae.

O safbwynt y wybodaeth fonitro yn ystod hydref 2020, nid oedd unrhyw geisiadau cynllunio ffurfiol wedi'u cyflwyno i Gyngor Caerdydd.

Nid yw dogfen fonitro LDP gwanwyn 2021 wedi nodi unrhyw geisiadau cynllunio ffurfiol a dderbyniwyd gan Gyngor Caerdydd. Mae'n amlinellu bod 'defnydd yn y cyfamser a dros dro' yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd, a fydd yn darparu 49 o dai modiwlaidd cynaliadwy o ansawdd uchel i helpu i fynd i'r afael ag anghenion tai. Mae'r datblygiad yn cynnwys cymysgedd o fflatiau 1, 2 a 3 ystafell wely, a fydd yn darparu cartrefi dros dro i deuluoedd, hyd nes y deuir o hyd i ddatrysiadau tai mwy parhaol.

## **10.2 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir o fewn y clwstwr ar hyn o bryd**

Mae 10 fferyllfa yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd.


**Tabl 10.7: Fferyllfeydd yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd**

Fferyllfa		Cyfeiriad	
National Co-Operative Chemists Ltd T/A The Co-operative Pharmacy	213 Bute Street	Butetown	CF10 5HR
Boots UK Limited	Uned 17 Canolfan Siopa'r Capitol	Stryd y Frenhines	CF10 2HQ
Boots UK Limited	36 Stryd y Frenhines	Caerdydd	CF10 2RG
Boots UK Limited	Unedau 1 a 2, Tŷ Darlledu, Sgwâr Canolog,	Caerdydd	CF10 1FS
Boots UK Limited	Uned D	Parc Manwerthu Bae Caerdydd	CF11 0JR
Lloyds Pharmacy Ltd T/A Lloydspharmacy Well	Canolfan Feddygol Grange, Bishop Street	Grangetown	CF11 6PG
	100 Holmesdale Street	Grangetown	CF11 7BW
National Co-Operative Chemists Ltd T/A The Co-operative Pharmacy	178 Clare Road	Grangetown	CF11 6YG
National Co-Operative Chemists Ltd T/A The Co-operative Pharmacy	Uned 2, Bute Place Quayside	Bae Caerdydd	CF10 5AB
B S Virdee T/A The Pharmacy	54 Clare Road	Grangetown	CF11 6RT

Rhwng 2019 a 2020, cafodd 87.5% o eitemau ar bresgripsiwn a ysgrifennwyd gan y saith practis meddyg teulu yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr, ac roedd 1.4% ohonynt yn eitemau a ddosbarthwyd yn bersonol.


Yn gyffredinol, mae'r fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth mwy, neu'n agos atynt, sydd wedi'u dangos gan yr ardaloedd wedi'u lliwio'n dywyll yn y map isod.

## Map 10.2: Lleoliad fferyllfeydd o gymharu â dwysedd y boblogaeth



Gall holl breswylwyr y clwstwr gyrraedd un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn 10 munud. Gall y mwyafrif gyrraedd fferyllfa o fewn 5 munud, fel y nodir yn y map isod.

**Map 10.3: Mynediad i fferyllfeydd yn y clwstwr**



Gan edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae tair fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- Mae un fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae un fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar fore Sadwrn
- Mae pum fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener

Rhaid i bob fferyllfa fod ar agor ar gyfer eu horiau contractiol craidd, sef 40 awr yr wythnos. Dim ond gyda chymeradwyaeth y bwrdd iechyd y gellir diwygio'r rhain. Gall y fferyllfa ddiwygio unrhyw oriau ychwanegol neu ategol ar ôl rhoi rhybudd o 90 diwrnod i'r bwrdd iechyd. O fewn y clwstwr, mae oriau agor a chau yn amrywio o:

Diwrnodau	Ystod oriau agor	Ystod oriau cau
Dydd Llun i Ddydd Gwener	07.00am to 09.00am	17.30pm to 22.30pm
Dydd Sadwrn	08.00am to 09.00am	13.00pm to 22.30pm
Dydd Sul	10.00am i 11.00am	16.00pm to 21.00pm

Ceir manylion llawn ynghylch pryd y mae'r fferyllfeydd ar agor yn Atodiad L.

Gwnaeth 10 fferyllfa ymateb i'r holiadur i fferyllwyr ar gontract, yr oedd chwech yn gweinyddu'r holl gyfarpar a restrwyd yn Rhan IX o'r Tariff Cyffuriau, yr oedd un fferyllfa yn gweinyddu popeth ac eithrio cyfarpar stoma ac anymataliaeth a thair yn gweinyddu gorchuddion yn unig.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth bob un o'r 10 o fferyllfeydd gynnig y gwasanaeth MUR a chafodd cyfanswm o 2,629 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 4,000 o

adolygiadau posibl. Gwnaeth dwy fferyllfa ddarparu'r uchafswm o adolygiadau, sef 400. Gwnaeth Llywodraeth Cymru roi terfyn dros dro ar y gwasanaeth MUR yn ffurfiol ar 13 Mawrth 2020. Ar yr adeg ysgrifennu, ni wyddys a fydd y gwasanaeth yn ailgychwyn.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth bob un o'r 10 o fferyllfeydd gynnig y gwasanaeth DMR a chafodd cyfanswm o 278 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 1,400 o adolygiadau posibl. Gwnaeth dwy fferyllfa ddarparu'r uchafswm o adolygiadau, sef 140. Fel rhan o'r newidiadau i'r fframwaith contractiol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yn 2021, mae'r terfyn ar nifer y DMRs a dalwyd wedi'i dynnu.

Rhwng 2019 a 2020, darparwyd y gwasanaethau ychwanegol canlynol gan fferyllfeydd yn ardal y clwstwr:

- Gwnaeth 10 fferyllfa ddarparu cyfanswm o 4223 o ymgynghoriadau dulliau atal cenhedlu brys, gydag ystod o saith i 2599 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth un fferyllfa ddarparu cyfanswm o 8 ymgynghoriad lefel 3 rhoi'r gorau i smygu.
- Gwnaeth naw fferyllfa ddarparu cyfanswm o 1480 o frechiadau rhag y fflw, gydag ystod o un i 386 o frechiadau.
- Gwnaeth 10 fferyllfa ddarparu cyfanswm o 772 o ymgynghoriadau CAS, gydag ystod o bedwar i 184 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth pum fferyllfa ddarparu cyfanswm o 67 o ymgynghoriadau EMS, gydag ystod o un i 56 o ymgynghoriadau.

Ymhlith y gwasanaethau ychwanegol eraill roedd y canlynol:

- Roedd pum fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gweinyddu Meddyginiaeth o dan Oruchwyliaeth.
- Roedd dwy fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Darpariaeth Nodwydd a Chwistrell.
- Roedd pedair fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gofal Lliniarol.

### **10.3 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir y tu allan i'r clwstwr ar hyn o bryd**

Mae rhai fferyllwyr yn dewis defnyddio fferyllwyr ar gontract y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- Sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr cyfarpar gweinyddu.
- Sydd wedi'u lleoli'n agos at ble maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld ag ef at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu clwstwr rhwng 2019 a 2020 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr, cafodd tua 11.1% eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, sef:

- 3.7% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd

- 1.7% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd
- 0.8% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd
- 0.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain Caerdydd
- 2.7% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd
- 0.8% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain y Fro
- 0.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Fro
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 0.8% gan fferyllwyr ar gontract yn Lloegr

Yn ogystal, gallai preswylwyr fod wedi defnyddio un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarparwyd gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl cyfrif y gweithgarwch hwn o'r data a gofnodwyd.

Gan ystyried fferyllfeydd yn y clystyrau cyfagos a fferyllfeydd ar draws y ffin mewn ardaloedd byrddau iechyd eraill yng Nghymru, gall yr holl breswylwyr yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 10 munud a gall y rhan fwyaf gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn pum munud.

## 10.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Nid oes unrhyw wasanaethau GIG allweddol eraill wedi'u lleoli o fewn y clwstwr hwn.

## 10.5 Dewis o ran cael gafael ar wasanaethau fferyllol

Fel y gellir gweld o adrannau 10.2 ac 10.3, mae'r rhai sy'n byw o fewn yr ardal glwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr er mwyn cael eu presgripsiynau wedi'u gweinyddu. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny er mwyn cael gafael ar fferyllfa gyfagos o fewn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafswm yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i weinyddu gan fferyllfa neu gontractwr gweinyddu y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 254 o fferyllwyr ar gontract a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2019 i 2020, weinyddu eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd, yr oedd 148 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 6,241 o eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu yn Lloegr.

## 10.6 Bylchau mewn darpariaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr, a'r ffaith y gall y boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 10 munud, a gall y mwyafrif wneud o fewn pum munud. Er y dylid nodi nad oes gan bob cartref fynediad at gar, mae natur y clystyrau yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafniadaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai na allant wneud y daith gyfan ar droed.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi amseroedd agor fferyllfeydd presennol, ac mae o'r farn eu bod yn ddigonol i ddiwallu anghenion tebygol preswylwyr yn y clwstwr. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstwr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn fodlon nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau uwch. Er nad oes un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth Adolygiad o'r Defnydd o Gyfarpar (AUR) na'r gwasanaeth Teilwra Cyfarpar Stoma (SAC), nodir bod pedwar contractwr cyfarpar wedi'u lleoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n cynnig y gwasanaethau hyn. Un o'r rhesymau pam gaiff presgripsiynau eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr yw oherwydd eu bod wedi'u hanfon at gontractwr cyfarpar gweinyddu yn rhywle arall yn y bwrdd iechyd neu i Loegr, sy'n darparu'r gwasanaethau hyn. Bydd cleifion felly yn gallu cael gafael ar y ddau wasanaeth hyn drwy'r contractwyr hynny. Nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi nodi unrhyw fwch presennol neu yn y dyfodol, neu fynediad gwell o ran darparu'r ddau wasanaeth uwch hyn yn y clwstwr.

Gwnaeth 10 fferyllfa ymateb i'r cwestiwn yn yr holiadur i fferyllwyr ar gontract ynghylch y gallu i ddiwallu'r galw gan unrhyw ddatblygiadau tai yn y dyfodol yn y clwstwr. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

- Mae gan naw fferyllfa ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol a digon o staff i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.
- Nid oes gan un fferyllfa ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau na digon o staff ar hyn o bryd, ond gallent wneud addasiadau i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.

Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y datblygiad tai mawr dan arweiniad cyflogaeth, a gynlluniwyd ar gyfer Parth Canol Caerdydd a'r datblygiad tai yn yr hen waith nwy ar Ferry Road, ac unedau eraill o dai y bwriedir eu hadeiladu yn ystod oes y ddogfen hon. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon, yn seiliedig ar yr ymatebion i'r holiadur i fferyllwyr ar gontract, y bydd y galw y bydd hyn yn ei greu yn gallu cael ei fodloni gan fferyllfeydd presennol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion yn y dyfodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstwr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon hefyd, yn seiliedig ar y wybodaeth a geir yn yr adrannau blaenorol, nad oes unrhyw fylchau presennol neu yn y dyfodol, yn y gwasanaethau uwch a'r gwasanaethau ychwanegol a ddarperir.

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ond mae wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol sy'n gofyn am gais ar gyfer safleoedd newydd neu ychwanegol.

## 11 Clwstwr Gogledd Caerdydd

### 11.1 Ffeithiau allweddol

#### 11.1.1 Poblogaeth ac amcanestyniadau poblogaeth 2018 i 2028 (sail-2018)

Gan nad yw data poblogaeth lefel clwstwr yn cael ei gasglu'n rheolaidd ar sail flynyddol, defnyddiwyd data cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu i roi arwydd o boblogaeth clwstwr, a defnyddiwyd data yn seiliedig ar awdurdod lleol i roi arwydd o amcanestyniadau poblogaeth.

Nodwch fod data poblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn uwch na'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn cyfatebol sy'n seiliedig ar y cyfrifiad, a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar lefel awdurdod lleol a bwrdd iechyd, fel yr amlinellir yn 2.2. Mae hyn fwy na thebyg o ganlyniad i gleifion sydd wedi'u gor-gofrestru neu 'gleifion ysbryd' a achoswyd gan nifer o ffactorau gwahanol.

**Tabl 11: Nifer y cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn ôl rhyw a grwpiau oedran eang, ac yn ôl clwstwr, awdurdod lleol a bwrdd iechyd (2019)**

	Blwyddyn	Rhyw		Ystod oedran		
	2019	Menywod	Dynion	O dan 65	65 i 84	85 ac yn hŷn
Gogledd Caerdydd	102641	52463	50178	85786	14147	2708
Caerdydd	389619	193044	196575	335252	46599	7768
BIP Caerdydd a'r Fro	521177	260027	261150	439365	70412	11400

Ffynhonnell: StatsCymru – Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru.

Rhwng 2018 a 2028, rhagamcanir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu hyd at 3.2%, y chweched cynnydd canrannol mwyaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Disgwylir y bydd ganddi boblogaeth sy'n cyfateb i oddeutu 375,000 erbyn 2028, sy'n golygu mai dyma fydd yr awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Yn wahanol i'r holl awdurdodau lleol eraill, bydd y cynnydd yn y boblogaeth wedi'i sbarduno'n bennaf gan newid naturiol h.y. mwy o enedigaethau na marwolaethau, a bydd cyfran lai o'r cynnydd o ganlyniad i ymfudo net h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Caerdydd sydd â'r lefel uchaf o ymfudo rhyngwladol amcanestynedig o blith yr holl awdurdodau lleol. Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ar draws yr holl grwpiau oedran eang, ac eithrio'r grŵp 0 i 15 oed, lle rhagwelir gostyngiad. Bydd y cynnydd mwyaf mewn poblogaeth yn y grŵp oedran 65 oed ac yn hŷn, wedi'i ddilyn gan y boblogaeth oedran gweithio rhwng 16 oed a 64 oed. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol.

#### 11.1.2. Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwllch anghydraddoldebau'

Mae'r disgwyliad oes adeg geni yng Nghaerdydd yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer menywod a dynion. Yr enw ar y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes

sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yw'r 'bwllch anghydraddoldebau'. Mae'r bwllch anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes adeg geni rhwng y pumed mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig ar gyfer Caerdydd, yn ehangach na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer dynion a menywod. Mae'r disgwyliad bywyd iach (nifer y blynyddoedd y gall unigolyn ddisgwyl byw bywyd iach) yng Nghaerdydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer menywod a dynion.

**Tabl 11.1: Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwllch anghydraddoldebau' (2015 i 2017)**

	Disgwyliad oes adeg geni (blynyddoedd)		Disgwyliad bywyd iach (blynyddoedd)		Bwllch anghydraddoldebau (blynyddoedd)	
	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion
	Caerdydd	82.7	78.5	61.1	61.2	6.9
BIP Caerdydd a'r Fro	83.0	78.7	62.0	61.9	6.6	8.6
Cymru	82.3	78.3	62.0	61.4	6.1	7.4

Ffynhonnell: Offeryn PHOF Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) gan ddefnyddio data'r ONS a Llywodraeth Cymru

## Amddifadedd

Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl mewn cymdeithas. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn ei gwneud yn bosibl i raddio ardaloedd bach, a elwir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Nghymru, er mwyn pennu a yw ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig o gymharu ag ardaloedd bach eraill yng Nghymru.

Ar y cyfan, mae gan glwstwr Gogledd Caerdydd ganran lawer is o LSOAs yn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru, mewn perthynas â Chaerdydd.

**Tabl 11.2: Canran yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl clwstwr ac awdurdod lleol ar gyfer y meysydd incwm, iechyd, cyflogaeth a mynediad at wasanaethau, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014**


	Canran yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru							
	Incwm		Iechyd		Cyflogaeth		Mynediad i wasanaethau	
	10%	20%	10%	20%	10%	20%	10%	20%
Gogledd Caerdydd	5.1	8.5	0.0	3.4	3.4	5.1	0.0	0.0
Caerdydd	19.2	30.8	14.5	22.0	12.1	20.1	0.0	0.9

Ffynhonnell: StatsCymru - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, Llywodraeth Cymru

Mae'r map isod yn rhoi arwydd o lefelau cyffredinol amddifadedd o fewn y clwstwr. Fel y gwelir o'r map, mae gan glwstwr Gogledd Caerdydd lefelau cymharol isel o amddifadedd. Lle mae pocedi o amddifadedd, mae fferyllfeydd, yn gyffredinol, wedi'u lleoli o fewn yr ardaloedd hyn, neu'n agos atynt.

## Map 11.1: Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd, wedi'u grwpio yn gwintellau yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

### Cardiff North Cluster



### 11.1.4 Proffil iechyd

Ar y cyfan, mae nifer yr achosion o glefydau cronig yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. O gymharu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o asthma yn uwch, a dyma'r trydydd uchaf o blith yr holl glystyrau o fewn y bwrdd iechyd. Mae nifer yr achosion o fethiant y galon hefyd yn uwch na'r nifer ar gyfer y bwrdd iechyd. Mae nifer yr achosion o ddiabetes yn cyfateb i'r ail lleiaf o blith yr holl glystyrau o fewn y bwrdd iechyd, ac mae nifer yr achosion o glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) yn cyfateb i'r nifer lleiaf, ar y cyd ag un clwstwr arall, o blith yr holl glystyrau o fewn y bwrdd iechyd.

**Tabl 11.3: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o gyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

Ardal	Canran					Strôc a phylliau o isgemia dros dro
	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	COPD	Diabetes	Methiant y galon	
Gogledd Caerdydd	7.0	2.6	1.2	4.3	1.0	1.7
Caerdydd	6.6	2.5	1.6	4.9	0.8	1.6
BIP Caerdydd a'r Fro	6.7	2.7	1.7	5.0	0.9	1.7
Cymru	7.1	3.6	2.4	6.1	1.1	2.1

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ddementia yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd yr un peth â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a'r bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o gyflyrau iechyd meddwl yn cyfateb i'r nifer isaf, ar y cyd ag un clwstwr arall, o blith yr holl glystyrau o fewn y bwrdd iechyd, ac mae'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

**Tabl 11.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl, a dementia, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Dementia (canran)	Iechyd meddwl (canran)
Gogledd Caerdydd	0.7	0.7
Caerdydd	0.6	0.9
BIP Caerdydd a'r Fro	0.7	0.9
Cymru	0.7	1.0

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ffibriliad atrïaidd yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ond yn uwch na'r bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r bwrdd iechyd.

**Tabl 11.5: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Ffibriliad Atrïaidd (canran)	Gorbwysedd (canran)
Gogledd Caerdydd	1.9	12.4
Caerdydd	1.6	11.8
BIP Caerdydd a'r Fro	1.8	12.6
Cymru	2.3	15.8

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae llawer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd a lles yn rhai y gellir eu hatal. Mae tabl 11.6 yn dangos canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau niweidiol; lle yr ystyrir bod canran is ar gyfer smygu ac yfed uwchlaw'r canllawiau yn fwy buddiol i iechyd a lles, yn yr un modd ag y mae canran uwch ar gyfer oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach, sy'n cyflawni'r canllawiau gweithgarwch corfforol ac yn bwyta pum dogn o lysiau a ffrwythau y dydd.

Yn gyffredinol, mae canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau sy'n cefnogi canlyniadau iach yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd yn uwch na Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac eithrio ar gyfer yfed uwchlaw'r canllawiau.

**Tabl 11.6: Canran yr oedolion (16 oed ac yn hŷn) sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2016 i 2018**

Enw'r Clwstwr Meddyg Teulu	Cyfrif		Cyffredinrwydd			
	Poblogaeth 16+ y clwstwr meddyg teulu	Smygu	Yfed uwchlaw'r canllawiau	Oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach	Cyflawni canllawiau gweithgarwch corfforol	Bwyta 5 dogn y dydd
Gogledd Caerdydd	84,059	14.7	20.6	45.2	59.0	26.5
BIP Caerdydd a'r Fro	420,119	19.3	18.9	40.8	55.1	24.2
Cymru	2,642,152	19.2	18.9	39.1	52.8	23.4

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru, gan ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru), Gwasanaeth Demograffig Cymru (NWIS) a MALIC 2014 (Llywodraeth Cymru). Noder, mae'r cyfrifiad ar gyfer y dangosydd pwysau iach ond yn rhoi cyfrif am oedolion o oedran gweithio (16-64 oed)

### 11.1.5. Datblygiadau clwstwr

Mae dau ddatblygiad mawr wedi'u cynllunio o fewn clwstwr Gogledd Caerdydd, i'w cwblhau erbyn 2026 yn unol â Chynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006 i 2026.

#### Gogledd-ddwyrain Caerdydd (i'r gorllewin o Bontpennau)

Mae'r safle'n perthyn i gefn gwlad sydd wedi'i leoli rhwng Llys-faen i'r gorllewin, Pontpennau i'r dwyrain a thraffordd yr M4 i'r gogledd. Mae'r datblygiad ar gyfer datblygiad cynhwysfawr defnydd cymysg sy'n cynnwys o leiaf 4,500 o gartrefi, cyflogaeth a defnyddiau cymunedol cysylltiedig eraill, ynghyd â seilwaith ategol:

- Darparu Coridorau Tramwy Cyflym newydd i fysiau a fydd yn mynd drwy'r safle, gan ddarparu cysylltiadau rhwng y Rhanbarth/Canolfannau Lleol yn cynnwys Gatiâu Bysiau ar y pwynt mynediad i Barc Busnes Porth Caerdydd a St Mellons Road, ar ochr ddwyreiniol y safle.
- Ehangu'r rhwydweithiau bysiau a chynyddu amllder a dibynadwyedd y gwasanaeth ar y safle.

- Darparu llwybrau cerdded diogel, deniadol a chyfleus o fewn y safle, gan gysylltu â gwasanaethau lleol allweddol, cyfleusterau a chyrchfannau gan gynnwys canolfannau lleol presennol ac ysgolion ym Mhontpennau, Pentwyn, Llys-faen a Pharc Busnes Porth Caerdydd.
- Darparu un Ganolfan Ranbarthol ac un Ganolfan Leol gan gynnwys cyfleuster gofal sylfaenol, cyfleuster hamdden cymunedol amldeffnydd, gan gynnwys cyfleuster llyfrgell, a chyfraniad ariannol at ddiweddarau Canolfannau Hamdden Llanisien a Phontpennau.
- Darparu un ysgol uwchradd newydd a thair ysgol gynradd newydd.
- Darparu manau agored yn cynnwys safle hamdden ffurfiol, meysydd chwarae sy'n cynnwys ardal chwarae cyrchfan, cyfleuster i blant yn eu harddegau a safleoedd rhandir.

Dechreuodd y gwaith adeiladu ar ddiwedd 2018 ar safle Churchlands (tir i'r gogledd ac i'r dwyrain o Lys-faen) ac mae'r datblygiad yn cael ei adeiladu mewn cyfres o gamau.

Erbyn hydref 2019, roedd 45 o dai yn cael eu hadeiladu. Cafodd gwaith monitro'r safle yn 2020 ei atal dros dro oherwydd cyfyngiadau pandemig y coronafeirws (COVID-19).

Mae dogfen fonitro LDP gwanwyn 2021 yn amlygu bod oddeutu 77 achos o gwblhau wedi bod ar y safle a bod 45 pellach yn mynd rhagddynt.

Mae dogfen fonitro LDP gwanwyn 2021 hefyd yn amlygu bod cais cynllunio amlinellol byw yn mynd rhagddo gyda Chyngor Caerdydd.

## **I'r Dwyrain o Ffordd Gyswllt Pontpennau**

Mae'r safle'n perthyn i dir i'r dwyrain o'r cefn gwlad a leolir rhwng Ffordd Gyswllt Pontpennau i'r gorllewin, cam afon Rhymni i'r dwyrain, yr A48 i'r de a thraffordd yr M4 i'r gogledd. Mae'r datblygiad ar gyfer cynllun sy'n cynnwys o leiaf 1,300 o gartrefi, gyda defnyddiau cymunedol cysylltiedig, ynghyd â seilwaith ategol:

- Darparu Coridorau Tramwy Cyflym newydd ar gyfer bysiau drwy'r safle yn cynnwys cysylltiadau â'r Ganolfan Leol a darparu Gatiau Bysiau yn St Mellons Road ar ochr ogledd-orllewinol y safle a Bridge Road i dde-ddwyrain y safle.
- Ehangu'r rhwydweithiau bysiau a chynyddu amllder a dibynadwyedd y gwasanaethau ar y safle.
- Darparu llwybrau cerdded a beicio diogel, deniadol, chyfleus ac o ansawdd uchel o fewn y safle, gan gysylltu â gwasanaethau lleol allweddol, cyfleusterau a chyrchfannau gan gynnwys cyflogaeth ym Mhontpennau, Pentwyn, a Pharc Busnes Porth Caerdydd.
- Un Ganolfan Leol sydd wedi'i lleoli'n ganolog ac wedi'i chysylltu â seilwaith tramwy cyflym a chyfleusterau ysgol gan gynnwys cyfleuster gofal sylfaenol (meddygfa cangen), a chyfleuster cymunedol amldeffnydd.
- Un ysgol gynradd newydd wedi'i lleoli yn y Ganolfan Leol neu'n agos ati.

- Mannau agored yn cynnwys safleoedd hamdden ffurfiol, meysydd chwarae, cyfleuster i blant yn eu harddegau, a safle rhandir.

Dechreuodd y gwaith adeiladu yn 2015 ac mae'r datblygiad yn cael ei adeiladu mewn cyfres o gamau.

Ar 1 Ebrill 2019, cafwyd 337 o achosion o gwblhau ar y safle tai. Cafodd gwaith monitro'r safle yn 2020 ei atal dros dro oherwydd cyfyngiadau pandemig y coronafeirws (COVID-19).

Mae dogfen fonitro LDP gwanwyn 2021 yn amlygu y bu ychydig dros 700 o achosion o gwblhau ar gyfartaledd ar safle Pentren Edeyrn, ac mae 89 pellach wrthi'n cael eu hadeiladu.

Mae 156 o dai wedi'u cwblhau wedi cael eu hadeiladu ar safle Highfields.

Mae Hwb Llesiant Maelfa wrthi'n cael ei ddatblygu, a bydd yn cynnwys gwasanaethau cymunedol yn ogystal â'r practis meddyg teulu, ac felly gallai gael rhywfaint o effaith ar y gwasanaethau sydd eu hangen. Fel y nodwyd yn flaenorol, at ddibenion y PNA, caiff fferyllfa gymunedol Hopwoods a'r practis meddyg teulu ym Maelfa eu hystyried yn rhan o glwstwr dwyrain Caerdydd, oherwydd dyna ble y lleolir y prif bractis meddyg teulu; fodd bynnag, byddant yn gwasanaethu pobl yng nghlwstwr gogledd Caerdydd hefyd.

## 11.2 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir o fewn y clwstwr ar hyn o bryd

Mae 18 o fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd.

**Tabl 11.7: Fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd**

Fferyllfa	Cyfeiriad		
Asda Stores Ltd T/A Fferyllfa Asda	8 Derring Road	Pontprennau	CF23 8NL
Boots UK Ltd T/A Boots	Uned 2, Parc Manwerthu Tŷ Glas	Llanisien	CF14 5DY
Mr A Brookes T/A Brookes Pharmacy	3 Fidlas Road	Llanisien	CF14 0LW
R K Aggarwal Ltd T/A Central Pharmacy	63 Heol Wellfield	Y Rhath	CF24 3PA
Thornes Pharmacy Ltd T/A Cyncoed Pharmacy	372 Heol Cyncoed	Cyncoed	CF23 6SA
Tandy Inc Ltd T/A AJ Hales Pharmacy	35 Heol St Isan	Y Mynydd Bychan	CF14 4LU
Insync Healthcare Pharmacy Ltd T/A Insync Healthcare Pharmacy	67 Thornhill Road	Caerdydd	CF14 6PE
Lloyds Pharmacy Ltd T/A Lloydspharmacy	45 Heol Wellfield	Y Rhath	CF24 3PA
Lloyds Pharmacy Ltd T/A Lloydspharmacy	99 Caerphilly Road	Birchgrove	CF14 4AE


Lloyds Pharmacy Ltd T/A Lloydspharmacy	4C Heol Y Deri	Rhiwbina	CF14 6HF
Lloyds Pharmacy Ltd @ Sainsburys Thornhill	Siop Sainsburys Excalibur Drive	Thornhill	CF14 9BB
Rajja Ltd T/A M W Phillips	44 Station Road	Llanisien	CF14 5LT
Well	Canolfan Feddygol Dewi Sant, Pentwyn Drive	Pentwyn	CF23 7EY
Well	119 Heol Llanishen Fach	Rhiwbina	CF14 6RE
Pearns Pharmacies Ltd	Wedal Road	Y Mynydd Bychan	CF14 3QX
Thornes Pharmacy Ltd.	Fferyllfa Pontprennau 32 Kenmare Mews	Pontprennau	CF23 8RJ
National Co-Operative Chemists Ltd T/A The Co-operative Pharmacy	Canolfan Feddygol Birchgrove, Caerphilly Road	Birchgrove	CF14 4QF
Clifton Pharmacy T/A Lakeside Pharmacy	33 Clearwater Way	Lakeside	CF23 6DL

Rhwng 2019 a 2020, cafodd 82.1% o eitemau ar bresgripsiwn a ysgrifennwyd gan y 10 practis meddyg teulu yng nghlwtwr Gogledd Caerdydd eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwtwr, ac roedd 2.1% ohonynt yn eitemau a ddosbarthwyd yn bersonol.

Mae hefyd dau gontractwr cyfarpar wedi'u lleoli o fewn ardal y clwtwr.


Mae'r fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth mwy, neu'n agos atynt, sydd wedi'u dangos gan yr ardaloedd wedi'u lliwio'n dywyll yn y map isod.

## Map 11.2: Lleoliad fferyllfeydd a safleoedd contractwyr cyfarpar o gymharu â dwysedd y boblogaeth



Gall holl breswylwyr y clwstwr gyrraedd un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn 10 munud. Gall y mwyafrif gyrraedd fferyllfa o fewn pum munud, fel y nodir ym map 11.3.

**Map 11.3: Mynediad i fferyllfeydd a chontractwyr cyfarpar yn y clwstwr**



Gan edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae tair fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- Mae tair fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae dwy fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar fore Sadwrn
- Mae deg fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener

Rhaid i bob fferyllfa fod ar agor ar gyfer eu horiau contractiol craidd, sef 40 awr yr wythnos. Dim ond gyda chymeradwyaeth y bwrdd iechyd y gellir diwygio'r rhain. Gall y fferyllfa ddiwygio unrhyw oriau ychwanegol neu ategol ar ôl rhoi rhybudd o 90 diwrnod i'r bwrdd iechyd. O fewn y clwstwr, mae oriau agor a chau yn amrywio o:

Diwrnodau	Ystod oriau agor	Ystod oriau cau
Dydd Llun i Ddydd Gwener	08.00am to 09.00am	17.30pm i 22.00pm*
Dydd Sadwrn	08.00am to 09.00am	12.00pm to 22.00pm
Dydd Sul	10.00am i 10.30am	16.00pm i 16.30pm

\*Mae un fferyllfa'n cael am 17.00pm ar ddydd Mercher.

Ceir manylion llawn ynghylch pryd y mae'r fferyllfeydd ar agor yn Atodiad L.

Gwnaeth 18 fferyllfa ymateb i'r holiadur i fferyllwyr ar gontract, yr oedd 16 yn gweinyddu'r holl gyfarpar a restrwyd yn Rhan IX o'r Tariff Cyffuriau, un yn gweinyddu gorchuddion yn unig ac roedd un fferyllfa arall nad oedd yn gweinyddu cyfarpar.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth 19 fferyllfa\* gynnig y gwasanaeth MUR a chafodd cyfanswm o 5,237 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 7,600 o adolygiadau posibl. Gwnaeth pum fferyllfa ddarparu'r uchafswm o adolygiadau, sef 400. Gwnaeth Llywodraeth Cymru roi terfyn dros dro ar y gwasanaeth MUR yn ffurfiol ar 13 Mawrth 2020. Ar yr adeg ysgrifennu, ni wyddys a fydd y gwasanaeth yn ailgychwyn.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth 17 fferyllfa gynnig y gwasanaeth DMR a chafodd cyfanswm o 685 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 2,380 o adolygiadau posibl. Darparodd un fferyllfa uchafswm nifer yr adolygiadau, sef 140. Fel rhan o'r newidiadau i'r fframwaith contractiol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yn 2021, mae'r terfyn ar nifer y DMRs a dalwyd wedi'i dynnu.

Rhwng 2019 a 2020, darparwyd y gwasanaethau ychwanegol canlynol gan fferyllfeydd yn ardal y clwstwr:

- Gwnaeth 11 fferyllfa ddarparu cyfanswm o 747 o ymgynghoriadau dulliau atal cenhedlu brys, gydag ystod o un i 399 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth tair fferyllfa ddarparu cyfanswm o 44 o ymgynghoriadau lefel 3 rhoi'r gorau i smygu, gydag ystod o chwech i 28 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth 18 fferyllfa ddarparu cyfanswm o 2047 o frechiadau rhag y ffliw, gydag ystod o bedwar i 251 o frechiadau.
- Gwnaeth 19 fferyllfa\* ddarparu cyfanswm o 1289 o ymgynghoriadau CAS, gydag ystod o naw i 300 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth pum fferyllfa ddarparu cyfanswm o 267 o ymgynghoriadau EMS, gydag ystod o un i 158 o ymgynghoriadau.

Ymhlith y gwasanaethau ychwanegol eraill roedd y canlynol:

- Roedd pedair fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gweinyddu Meddyginiaeth o dan Oruchwyliaeth.
- Roedd pum fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth gofal lliniarol.

\*Rhwng 2019 a 2020 roedd 19 o fferyllfeydd yn gweithredu o fewn yr ardal glwstwr. Gwnaeth un fferyllfa gau ym mis Medi 2020 am resymau busnes a chynigiodd y contract ar werth.

### **11.3 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir y tu allan i'r clwstwr ar hyn o bryd**

Mae rhai fferyllwyr yn dewis defnyddio fferyllwyr ar gontract y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- Sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr cyfarpar gweinyddu.
- Sydd wedi'u lleoli'n agos at ble maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld ag ef at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu rhwng 2019 a 2020 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr, cafodd tua 15.8% eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, sef:

- 10.0% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd
- 2.7% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd
- 1.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd
- 0.7% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain Caerdydd
- 0.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd
- 0.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- 0.6% gan fferyllwyr ar gontract yn Lloegr

Yn ogystal, gallai preswylwyr fod wedi defnyddio un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarparwyd gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl cyfrif y gweithgarwch hwn o'r data a gofnodwyd.

Gan ystyried fferyllfeydd yn y clystyrau cyfagos a fferyllfeydd ar draws y ffin mewn ardaloedd byrddau iechyd eraill yng Nghymru, gall yr holl breswylwyr yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 10 munud a gall y rhan fwyaf gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn pum munud.

## **11.4 Gwasanaethau eraill y GIG**

Mae Ysbyty Athrofaol Cymru wedi'i leoli o fewn clwstwr Gogledd Caerdydd. Fodd bynnag, mae'r ysbyty yn gwasanaethu poblogaeth lawer ehangach na'r clwstwr yn unig.

## **11.5 Dewis o ran cael gafael ar wasanaethau fferyllol**

Fel y gellir gweld o adrannau 11.2 ac 11.3, mae'r rhai sy'n byw o fewn yr ardal glwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr er mwyn cael eu presgripsiynau wedi'u gweinyddu. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny er mwyn cael gafael ar fferyllfa gyfagos o fewn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafswm yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i weinyddu gan fferyllfa neu gontractwr gweinyddu y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 423 o fferyllwyr ar gontract a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2019 i 2020, weinyddu eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd, yr oedd 318 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 11677 o eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu yn Lloegr.

## 11.6 Bylchau mewn darpariaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr, a'r ffaith y gall y boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 10 munud, a gall y mwyafrif wneud o fewn pum munud. Er y dylid nodi nad oes gan bob cartref fynediad at gar, mae natur y clystyrau yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai na allant wneud y daith gyfan ar droed.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi amseroedd agor fferyllfeydd presennol, ac mae o'r farn eu bod yn ddigonol i ddiwallu anghenion tebygol preswylwyr yn y clwstwr. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstwr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn fodlon nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau uwch. Er nad oes un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth Adolygiad o'r Defnydd o Gyfarpar (AUR) na'r gwasanaeth Teilwra Cyfarpar Stoma (SAC), nodir bod pedwar contractwr cyfarpar wedi'u lleoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n cynnig y gwasanaethau hyn. Un o'r rhesymau pam gaiff presgripsiynau eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr yw oherwydd eu bod wedi'u hanfon at gontractwr cyfarpar gweinyddu yn rhywle arall yn y bwrdd iechyd neu i Loegr, sy'n darparu'r gwasanaethau hyn. Bydd cleifion felly yn gallu cael gafael ar y ddau wasanaeth hyn drwy'r contractwyr hynny. Nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi nodi unrhyw fwch presennol neu yn y dyfodol, neu fynediad gwell o ran darparu'r ddau wasanaeth uwch hyn yn y clwstwr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd wedi nodi bod un fferyllfa wedi cau yn y clwstwr yn 2020.

Gwnaeth 18 fferyllfa ymateb i'r cwestiwn yn yr holiadur i fferyllwyr ar gontract ynghylch y gallu i ddiwallu'r galw gan unrhyw ddatblygiadau tai yn y dyfodol yn y clwstwr. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

- Mae gan 15% o fferyllfeydd ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol a digon o staff i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.
- Nid oes gan ddwy fferyllfa ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau na digon o staff ar hyn o bryd, ond gallent wneud addasiadau i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.
- Nid oes gan un fferyllfa ddigon o gapasiti yn eu hadeilad na digon o staff a byddai'n ei chael hi'n anodd rheoli cynnydd mewn galw yn yr ardal.

Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y datblygiadau a gynlluniwyd ar gyfer y clwstwr, o ran y datblygiadau tai i'r gorllewin ac i'r dwyrain o Bontprenau. Ar yr adeg hon, nid oes gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro unrhyw wybodaeth na reswm i ddod i'r casgliad, yn ystod oes y PNA hwn a'r datblygiad, y byddai angen heb ei ddiwallu a fyddai'n gofyn am wasanaethau fferyllol ychwanegol.

At hynny, o ran unrhyw unedau bach o dai y bwriedir eu hadeiladu yn ystod oes y ddogfen hon, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon, yn seiliedig ar yr ymatebion i'r holiadur i fferyllwyr ar gontract, y bydd y galw y bydd hyn yn ei greu yn gallu cael ei fodloni gan fferyllfeydd presennol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion yn y dyfodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstwr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon hefyd, yn seiliedig ar y wybodaeth a geir yn yr adrannau blaenorol, nad oes unrhyw fylchau presennol neu yn y dyfodol, yn y gwasanaethau uwch a'r gwasanaethau ychwanegol a ddarperir.

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ond mae wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol sy'n gofyn am gais ar gyfer safleoedd newydd neu ychwanegol.

## 12 Clwstwr De-orllewin Caerdydd

### 12.1 Ffeithiau allweddol

#### 12.1.1 Poblogaeth ac amcanestyniadau poblogaeth 2018 i 2028 (sail-2018)

Gan nad yw data poblogaeth lefel clwstwr yn cael ei gasglu'n rheolaidd ar sail flynyddol, defnyddiwyd data cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu i roi arwydd o boblogaeth clwstwr, a defnyddiwyd data yn seiliedig ar awdurdod lleol i roi arwydd o amcanestyniadau poblogaeth.

Nodwch fod data poblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn uwch na'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn cyfatebol sy'n seiliedig ar y cyfrifiad, a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar lefel awdurdod lleol a bwrdd iechyd, fel yr amlinellir yn 2.2. Mae hyn fwy na thebyg o ganlyniad i gleifion sydd wedi'u gor-gofrestru neu 'gleifion ysbryd' a achoswyd gan nifer o ffactorau gwahanol.

**Tabl 12: Nifer y cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn ôl rhyw a grwpiau oedran eang, ac yn ôl clwstwr, awdurdod lleol a bwrdd iechyd (2019)**

	Blwyddyn	Rhyw		Ystod oedran		
	2019	Menywod	Dynion	O dan 65	65 i 84	85 ac yn hŷn
De-orllewin Caerdydd	66618	32748	33870	57588	7847	1183
Caerdydd	389619	193044	196575	335252	46599	7768
BIP Caerdydd a'r Fro	521177	260027	261150	439365	70412	11400

Ffynhonnell: StatsCymru – Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

Rhwng 2018 a 2028, rhagamcanir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu hyd at 3.2%, y chweched cynnydd canrannol mwyaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng

Nghymru. Disgwylir y bydd ganddi boblogaeth sy'n cyfateb i oddeutu 375,000 erbyn 2028, sy'n golygu mai dyma fydd yr awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Yn wahanol i'r holl awdurdodau lleol eraill, bydd y cynnydd yn y boblogaeth wedi'i sbarduno'n bennaf gan newid naturiol h.y. mwy o enedigaethau na marwolaethau, a bydd cyfran lai o'r cynnydd o ganlyniad i ymfudo net h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Caerdydd sydd â'r lefel uchaf o ymfudo rhyngwladol amcanestynedig o blith yr holl awdurdodau lleol. Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ar draws yr holl grwpiau oedran eang, ac eithrio'r grŵp 0 i 15 oed, lle rhagwelir gostyngiad. Bydd y cynnydd mwyaf mewn poblogaeth yn y grŵp oedran 65 oed ac yn hŷn, wedi'i ddilyn gan y boblogaeth oedran gweithio rhwng 16 oed a 64 oed. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol.

### 12.1.2. 9.1.2 Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwllch anghydraddoldebau'

Mae'r disgwyliad oes adeg geni yng Nghaerdydd yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer menywod a dynion. Yr enw ar y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yw'r 'bwllch anghydraddoldebau'. Mae'r bwllch anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes adeg geni rhwng y pumed mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig ar gyfer Caerdydd, yn ehangach na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer dynion a menywod. Mae'r disgwyliad bywyd iach (nifer y blynyddoedd y gall unigolyn ddisgwyl byw bywyd iach) yng Nghaerdydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer menywod a dynion.

**Tabl 12.1: Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwllch anghydraddoldebau' (2015 i 2017)**

	Disgwyliad oes adeg geni (blynyddoedd)		Disgwyliad bywyd iach (blynyddoedd)		Bwllch anghydraddoldebau (blynyddoedd)	
	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion
Caerdydd	82.7	78.5	61.1	61.2	6.9	9.2
BIP Caerdydd a'r Fro	83.0	78.7	62.0	61.9	6.6	8.6
Cymru	82.3	78.3	62.0	61.4	6.1	7.4

Ffynhonnell: Offeryn PHOF Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) gan ddefnyddio data'r ONS a Llywodraeth Cymru

### 12.1.3 Amddifadedd

Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl mewn cymdeithas. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn ei gwneud yn bosibl i raddio ardaloedd bach, a elwir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Nghymru, er mwyn pennu a yw ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig o gymharu ag ardaloedd bach eraill yng Nghymru.

Yn gyffredinol, mae gan glwstwr De-orllewin Caerdydd ganran uwch o LSOAs ymhlith y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru o gymharu â Chaerdydd, ac eithrio'r maes mynediad i wasanaethau.

**Tabl 12.2: Canran yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl clwstwr ac awdurdod lleol ar gyfer y meysydd incwm, iechyd, cyflogaeth a mynediad at wasanaethau, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014**


	Canran yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru							
	Incwm		Iechyd		Cyflogaeth		Mynediad i wasanaethau	
	10%	20%	10%	20%	10%	20%	10%	20%
De-orllewin Caerdydd	44.1	52.9	38.2	41.2	35.3	41.2	0.0	0.0
Caerdydd	19.2	30.8	14.5	22	12.1	20.1	0.0	0.9

Ffynhonnell: StatsCymru - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, Llywodraeth Cymru

Mae'r map isod yn rhoi arwydd o lefelau cyffredinol amddifadedd o fewn y clwstwr. Fel y gellir gweld o'r map, mae'r holl fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd uwch, neu'n agos atynt.

**Map 12.1: Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng nghlwrwr De-orllewin Caerdydd, wedi'u grwpio yn gwintellau yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019**

Cardiff South West Cluster



Ar y cyfan, mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o glefydau cronig yng nghlwrwr De-orllewin Caerdydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac eithrio ar gyfer asthma, sydd â'r nifer uchaf, ar y cyd ag un clwstwr arall, o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) yn uwch na'r bwrdd iechyd, a dyma'r trydydd nifer uchaf o blith yr

holl glystyrau yn y bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ddiabetes hefyd yn uwch na'r bwrdd iechyd.

**Tabl 12.3: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o gyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

Ardal	Canran					Strôc a phylliau o isgemia dros dro
	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	COPD	Diabetes	Methiant y galon	
De-orllewin Caerdydd	7.3	2.6	2.1	5.4	0.8	1.6
Caerdydd	6.6	2.5	1.6	4.9	0.8	1.6
BIP Caerdydd a'r Fro	6.7	2.7	1.7	5.0	0.9	1.7
Cymru	7.1	3.6	2.4	6.1	1.1	2.1

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ddementia yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a'r bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig y cyflyrau iechyd meddwl yr un peth â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac yn uwch na'r bwrdd iechyd.

**Tabl 12.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl, a dementia, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Dementia (canran)	Iechyd meddwl (canran)
De-orllewin Caerdydd	0.6	1.0
Caerdydd	0.6	0.9
BIP Caerdydd a'r Fro	0.7	0.9
Cymru	0.7	1.0

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ffibriliad atrïaidd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ond yn uwch na'r bwrdd iechyd.

**Tabl 12.5: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Ffibriliad Atrïaidd (canran)	Gorbwysedd (canran)
De-orllewin Caerdydd	1.5	12.9
Caerdydd	1.6	11.8
BIP Caerdydd a'r Fro	1.8	12.6
Cymru	2.3	15.8

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae llawer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd a lles yn rhai y gellir eu hatal. Mae tabl 12.6 yn dangos canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch pum ymddygiad, lle yr ystyrir bod canran is ar gyfer smygu ac yfed uwchlaw'r canllawiau yn fwy buddiol i iechyd a lles, yn yr un modd ag y mae canran uwch ar gyfer oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach, sy'n cyflawni'r canllawiau gweithgarwch corfforol ac yn bwyta pum dogn o lysiau a ffrwythau y dydd.

Yn gyffredinol, mae canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau sy'n cefnogi canlyniadau iach yng nghlwtwr De-orllewin Caerdydd yn is na Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac eithrio ar gyfer yfed uwchlaw'r canllawiau.

**Tabl 12.6: Canran yr oedolion (16 oed ac yn hŷn) sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau yn ôl clwtwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2016 i 2018**

Enw'r Clwtwr Meddyg Teulu	Cyfrif		Cyffredinrwydd			
	Poblogaeth 16+ y clwtwr meddyg teulu	Smygu	Yfed uwchlaw'r canllawiau	Oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach	Cyflawni canllawiau gweithgarwch corfforol	Bwyta 5 dogn y dydd
De-orllewin Caerdydd	52,673	23.1	17.7	37.2	52.3	22.5
BIP Caerdydd a'r Fro	420,119	19.3	18.9	40.8	55.1	24.2
Cymru	2,642,152	19.2	18.9	39.1	52.8	23.4

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru, gan ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru), Gwasanaeth Demograffig Cymru (NWIS) a MALIC 2014 (Llywodraeth Cymru). Noder, mae'r cyfrifiad ar gyfer y dangosydd pwysau iach ond yn rhoi cyfrif am oedolion o oedran gweithio (16-64 oed)

## 12.2 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir o fewn y clwtwr ar hyn o bryd

Mae 10 o fferyllfeydd yng nghlwtwr De-orllewin Caerdydd. At ddibenion y PNA, ystyrir bod y fferyllfa yn Tesco Croes Cwrlwys yn rhan o Dde-orllewin Caerdydd gan ei bod wedi'i lleoli o fewn ffiniau Cyngor Caerdydd.

**Tabl 12.7: Fferyllfeydd yng nghlwtwr De-orllewin Caerdydd**


Fferyllfa	Cyfeiriad		
Boots UK Limited	Canolfan Iechyd Meddygfa Lansdowne Sanatorium Road	Treganna	CF11 8DG
Boots UK Limited	213-215 Cowbridge Road East	Treganna	CF11 9AL
Boots UK Limited	Y Fferyllfa	Canolfan Iechyd Riverside	CF11 9SH
Pearns Pharmacies Ltd	40 Caerau Lane	Trelái	CF5 5HQ
Tesco Stores Limited	Tesco Instore Pharmacy	Croes Cwrlwys	CF5 6XQ
Lloyds Pharmacy Ltd T/A Lloydspharmacy	35 Wilson Road	Trelái	CF5 4LL
Pearns Pharmacies Ltd	3 Wilson Road	Trelái	CF5 4LJ

Pearns Pharmacies Ltd	23A Mill Road	Trelái	CF5 4AE
Nik Pharma T/A Canna Pharmacy	27 Wyndham Crescent	Treganna	CF11 9EE
Fferyllfa Pontcanna	171 Kings Road	Pontcanna	CF11 9DE

Rhwng 2019 a 2020, cafodd 82.0% o eitemau ar bresgripsiwn a ysgrifennwyd gan y 10 practis meddyg teulu yng nghlwestwr De-orllewin Caerdydd eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr, ac roedd 1.7% ohonynt yn eitemau a ddsbarthwyd yn bersonol.


Mae'r fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth mwy, sydd wedi'u dangos gan yr ardaloedd wedi'u lliwio'n dywyll yn y map isod.

### Map 12.2: Lleoliad fferyllfeydd o gymharu â dwysedd y boblogaeth



Gall holl breswylwyr y clwstwr gyrraedd un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn 10 munud. Gall y mwyafrif gyrraedd fferyllfa o fewn pum munud, fel y nodir ym map 12.3.

Map 12.3: Mynediad i fferyllfeydd yn y clwstwr



Gan edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae un fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- Mae dwy fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae dwy fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar fore Sadwrn
- Mae pum fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener

Rhaid i bob fferyllfa fod ar agor ar gyfer eu horiau contractiol craidd, sef 40 awr yr wythnos. Dim ond gyda chymeradwyaeth y bwrdd iechyd y gellir diwygio'r rhain. Gall y fferyllfa ddiwygio unrhyw oriau ychwanegol neu ategol ar ôl rhoi rhybudd o 90 diwrnod i'r bwrdd iechyd. O fewn y clwstwr, mae oriau agor a chau yn amrywio o:

<b>Diwrnodau</b>	<b>Ystod oriau agor</b>	<b>Ystod oriau cau</b>
Dydd Llun i Ddydd Gwener	08.00am to 09.00am	17.30pm i 20.00pm*
Dydd Sadwrn	08.00am to 09.00am	12.00pm i 20.00pm
Dydd Sul	10.00am	16.00pm

\*Mae un fferyllfa yn cau'n gynnar ar ddydd Mercher am 14.30pm ac un arall am 16.30pm.

Ceir manylion llawn ynghylch pryd y mae'r fferyllfeydd ar agor yn Atodiad L.

Gwnaeth 10 fferyllfa ymateb i'r holiadur i fferyllwyr ar gontract, yr oedd chwech yn gweinyddu'r holl gyfarpar a restrwyd yn Rhan IX o'r Tariff Cyffuriau, a phedair yn gweinyddu gorchuddion yn unig.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth bob un o'r 10 o fferyllfeydd gynnig y gwasanaeth MUR a chafodd cyfanswm o 2,100 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 4,000 o adolygiadau posibl. Gwnaeth dwy fferyllfa ddarparu'r uchafswm o adolygiadau, sef 400. Gwnaeth Llywodraeth Cymru roi terfyn dros dro ar y gwasanaeth MUR yn ffurfiol ar 13 Mawrth 2020. Ar yr adeg ysgrifennu, ni wyddys a fydd y gwasanaeth yn ailgychwyn.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth wyth fferyllfa gynnig y gwasanaeth DMR a chafodd cyfanswm o 124 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 1,400 o adolygiadau posibl. Gwnaeth dwy fferyllfa ddarparu'r uchafswm o adolygiadau, sef 140. Fel rhan o'r newidiadau i'r fframwaith contractiol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yn 2021, mae'r terfyn ar nifer y DMRs a dalwyd wedi'i dynnu.

Rhwng 2019 a 2020, darparwyd y gwasanaethau ychwanegol canlynol gan fferyllfeydd yn ardal y clwstwr:

- Gwnaeth chwe fferyllfa ddarparu cyfanswm o 477 o ymgynghoriadau dulliau atal cenhedlu brys, gydag ystod o 13 i 161 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth dwy fferyllfa ddarparu cyfanswm o 42 o ymgynghoriadau lefel 3 rhoi'r gorau i smygu, gydag ystod o dri i 39 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth wyth fferyllfa ddarparu cyfanswm o 758 o frechiadau rhag y ffliw, gydag ystod o 15 i 219 o frechiadau.
- Gwnaeth 10 fferyllfa ddarparu cyfanswm o 663 o ymgynghoriadau CAS, gydag ystod o ddau i 179 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth pedair fferyllfa ddarparu cyfanswm o 14 o ymgynghoriadau EMS, gydag ystod o un i chwe ymgynghoriad.

Ymhlith y gwasanaethau ychwanegol eraill roedd y canlynol:

- Roedd pum fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gweinyddu Meddyginiaeth o dan Oruchwyliaeth.
- Roedd dwy fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Darpariaeth Nodwydd a Chwistrell.
- Roedd un fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gofal Lliniarol.

### **12.3 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir y tu allan i'r clwstwr ar hyn o bryd**

Mae rhai fferyllwyr yn dewis defnyddio fferyllwyr ar contract y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- Sy'n cael eu cynnig gan contractwyr cyfarpar gweinyddu.
- Sydd wedi'u lleoli'n agos at ble maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld ag ef at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu rhwng 2019 a 2020 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr, cafodd tua 16.3% eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, sef:

- 0.5% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd
- 0.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain Caerdydd
- 1.8% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd
- 7.5% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd
- 4.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd
- 0.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Fro
- 0.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain y Fro
- 1.0% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 0.3% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- 0.5% gan fferyllwyr ar contract yn Lloegr

Yn ogystal, gallai preswylwyr fod wedi defnyddio un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarparwyd gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl cyfrif y gweithgarwch hwn o'r data a gofnodwyd.

Gan ystyried fferyllfeydd yn y clystyrau cyfagos a fferyllfeydd ar draws y ffin mewn ardaloedd byrddau iechyd eraill yng Nghymru, gall yr holl breswylwyr yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 10 munud a gall y rhan fwyaf gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn pum munud.

### **12.4 Gwasanaethau eraill y GIG**

Mae Ysbyty Dewi Sant wedi'i lleoli o fewn clwstwr De-orllewin Caerdydd. Fodd bynnag, mae'r ysbyty yn gwasanaethu poblogaeth lawer ehangach na'r clwstwr yn unig.

### **12.5 Dewis o ran cael gafael ar wasanaethau fferyllol**

Fel y gellir gweld o adrannau 12.2 ac 12.3, mae'r rhai sy'n byw o fewn yr ardal glwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr er mwyn cael eu presgripsiynau wedi'u gweinyddu. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud

hynny er mwyn cael gafael ar fferyllfa gyfagos o fewn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafswm yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i weinyddu gan fferyllfa neu gontractwr gweinyddu y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 336 o fferyllwyr ar gontract a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2019 i 2020, weinyddu eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwestwr De-orllewin Caerdydd, yr oedd 228 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 6,774 o eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu yn Lloegr.

## 12.6 Bylchau mewn darpariaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr, a'r ffaith y gall y boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 10 munud, a gall y mwyafrif wneud o fewn pum munud. Er y dylid nodi nad oes gan bob cartref fynediad at gar, mae natur y clystyrau yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai na allant wneud y daith gyfan ar droed.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi amseroedd agor fferyllfeydd presennol, ac mae o'r farn eu bod yn ddigonol i ddiwallu anghenion tebygol preswylwyr yn y clwstwr. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstwr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn fodlon nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau uwch. Er nad oes un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth Adolygiad o'r Defnydd o Gyfarpar (AUR) na'r gwasanaeth Teilwra Cyfarpar Stoma (SAC), nodir bod pedwar contractwr cyfarpar wedi'u lleoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n cynnig y gwasanaethau hyn. Un o'r rhesymau pam gaiff presgripsiynau eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr yw oherwydd eu bod wedi'u hanfon at gontractwr cyfarpar gweinyddu yn rhywle arall yn y bwrdd iechyd neu i Lloegr, sy'n darparu'r gwasanaethau hyn. Bydd cleifion felly yn gallu cael gafael ar y ddau wasanaeth hyn drwy'r contractwyr hynny. Nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi nodi unrhyw fwlch presennol neu yn y dyfodol, neu fynediad gwell o ran darparu'r ddau wasanaeth uwch hyn yn y clwstwr.

Gwnaeth 10 fferyllfa ymateb i'r cwestiwn yn yr holiadur i fferyllwyr ar gontract ynghylch y gallu i ddiwallu'r galw gan unrhyw ddatblygiadau tai yn y dyfodol yn y clwstwr. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

- Mae gan naw fferyllfa ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol a digon o staff i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.
- Nid oes gan un fferyllfa ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau na digon o staff ar hyn o bryd, ond gallent wneud addasiadau i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.

Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro nad oedd unrhyw ddatblygiadau tai mawr y bwriadwyd eu hadeiladu yn ystod oes y ddogfen hon o fewn y clwstwr. O ran unrhyw unedau bach o dai y bwriedir eu hadeiladu yn ystod oes y ddogfen hon, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon, yn seiliedig ar yr ymatebion i'r holiadur i fferyllwyr ar gcontract, y bydd y galw y bydd hyn yn ei greu yn gallu cael ei fodloni gan fferyllfeydd presennol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion yn y dyfodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstwr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon hefyd, yn seiliedig ar y wybodaeth a geir yn yr adrannau blaenorol, nad oes unrhyw fylchau presennol neu yn y dyfodol, yn y gwasanaethau uwch a'r gwasanaethau ychwanegol a ddarperir.

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ond mae wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol sy'n gofyn am gais ar gyfer safleoedd newydd neu ychwanegol.

## 13 Clwstwr Gorllewin Caerdydd

### 13.1 Ffeithiau allweddol

#### 13.1.1 Poblogaeth ac amcanestyniadau poblogaeth 2018 i 2028 (sail-2018)

Gan nad yw data poblogaeth lefel clwstwr yn cael ei gasglu'n rheolaidd ar sail flynyddol, defnyddiwyd data cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu i roi arwydd o boblogaeth clwstwr, a defnyddiwyd data yn seiliedig ar awdurdod lleol i roi arwydd o amcanestyniadau poblogaeth.

Nodwch fod data poblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn uwch na'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn cyfatebol sy'n seiliedig ar y cyfrifiad, a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar lefel awdurdod lleol a bwrdd iechyd, fel yr amlinellir yn 2.2. Mae hyn fwy na thebyg o ganlyniad i gleifion sydd wedi'u gor-gofrestru neu 'gleifion ysbryd' a achoswyd gan nifer o ffactorau gwahanol.

**Tabl 13: Nifer y cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn ôl rhyw a grwpiau oedran eang, ac yn ôl clwstwr, awdurdod lleol a bwrdd iechyd (2019)**

	Blwyddyn	Rhyw		Ystod oedran		
	2019	Menywod	Dynion	O dan 65	65 i 84	85 ac yn hŷn
Gorllewin Caerdydd	56840	29073	27767	46110	9196	1534
Caerdydd	389619	193044	196575	335252	46599	7768
BIP Caerdydd a'r Fro	521177	260027	261150	439365	70412	11400

Ffynhonnell: StatsCymru – Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru.

Rhwng 2018 a 2028, rhagamcanir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu hyd at 3.2%, y chweched cynnydd canrannol mwyaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng

Nghymru. Disgwylir y bydd ganddi boblogaeth sy'n cyfateb i oddeutu 375,000 erbyn 2028, sy'n golygu mai dyma fydd yr awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Yn wahanol i'r holl awdurdodau lleol eraill, bydd y cynnydd yn y boblogaeth wedi'i sbarduno'n bennaf gan newid naturiol h.y. mwy o enedigaethau na marwolaethau, a bydd cyfran lai o'r cynnydd o ganlyniad i ymfudo net h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Caerdydd sydd â'r lefel uchaf o ymfudo rhyngwladol amcanestynedig o blith yr holl awdurdodau lleol. Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ar draws yr holl grwpiau oedran eang, ac eithrio'r grŵp 0 i 15 oed, lle rhagwelir gostyngiad. Bydd y cynnydd mwyaf mewn poblogaeth yn y grŵp oedran 65 oed ac yn hŷn, wedi'i ddilyn gan y boblogaeth oedran gweithio rhwng 16 oed a 64 oed. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol.

### 13.1.2 Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwllch anghydraddoldebau'

Mae'r disgwyliad oes adeg geni yng Nghaerdydd yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer menywod a dynion. Yr enw ar y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yw'r 'bwllch anghydraddoldebau'. Mae'r bwllch anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes adeg geni rhwng y pumed mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig ar gyfer Caerdydd, yn ehangach na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer dynion a menywod. Mae'r disgwyliad bywyd iach (nifer y blynyddoedd y gall unigolyn ddisgwyl byw bywyd iach) yng Nghaerdydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar gyfer menywod a dynion.

**Tabl 13.1: Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwllch anghydraddoldebau' (2015 i 2017)**

	Disgwyliad oes adeg geni (blynyddoedd)		Disgwyliad bywyd iach (blynyddoedd)		Bwllch anghydraddoldebau (blynyddoedd)	
	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion
Caerdydd	82.7	78.5	61.1	61.2	6.9	9.2
BIP Caerdydd a'r Fro	83.0	78.7	62.0	61.9	6.6	8.6
Cymru	82.3	78.3	62.0	61.4	6.1	7.4

Ffynhonnell: Offeryn PHOF Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) gan ddefnyddio data'r ONS a Llywodraeth Cymru

### 13.1.3 Amddifadedd

Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl mewn cymdeithas. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn ei gwneud yn bosibl i raddio ardaloedd bach, a elwir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Nghymru, er mwyn pennu a yw ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig o gymharu ag ardaloedd bach eraill yng Nghymru.

Ar y cyfan, mae gan glwstwr Gorllewin Caerdydd ganran is o LSOAs yn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru, mewn perthynas â Chaerdydd.

**Tabl 13.2: Canran yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl clwstwr ac awdurdod lleol ar gyfer y meysydd incwm, iechyd, cyflogaeth a mynediad at wasanaethau, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014**


	Nifer yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru							
	Incwm		Iechyd		Cyflogaeth		Mynediad i wasanaethau	
	10%	20%	10%	20%	10%	20%	10%	20%
Canol y Fro	5	13	4	8	4	11	0	0
Dwyrain y Fro	0	0	0	0	0	0	0	0
Gorllewin y Fro	0	0	0	0	0	0	3	6
Bro Morgannwg	5	13	4	8	4	11	3	6
BIP Caerdydd a'r Fro	46	72	38	64	34	51	3	15

Ffynhonnell: StatsCymru - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, Llywodraeth Cymru

Mae'r map isod yn rhoi arwydd o lefelau cyffredinol amddifadedd o fewn y clwstwr. Fel y gellir gweld o'r map, mae'r holl fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd uwch, neu'n agos atynt.

**Map 13.1: Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng nghlwrwr Gorllewin Caerdydd, wedi'u grwpio yn gwintellau yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019**

Cardiff West Cluster



Ar y cyfan, mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o glefydau cronig yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac eithrio ar gyfer asthma, sydd â'r nifer uchaf, ar y cyd ag un clwstwr arall, o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o glefyd coronaidd y galon, methiant y galon a strôc a phyliau o isgemia dros dro yn uwch na'r bwrdd iechyd.

**Tabl 13.3: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o gyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

Ardal	Canran					Strôc a phyliau o isgemia dros dro
	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	COPD	Diabetes	Methiant y galon	
Gorllewin Caerdydd	7.3	3.1	1.6	4.7	1.0	2.0
Caerdydd	6.6	2.5	1.6	4.9	0.8	1.6
BIP Caerdydd a'r Fro	6.7	2.7	1.7	5.0	0.9	1.7
Cymru	7.1	3.6	2.4	6.1	1.1	2.1

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ddementia yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd yr un peth â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o gyflyrau iechyd meddwl yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a dyma'r ail uchaf o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd.

**Tabl 13.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl, a dementia, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Dementia (canran)	Iechyd meddwl (canran)
Gorllewin Caerdydd	0.7	1.1
Caerdydd	0.6	0.9
BIP Caerdydd a'r Fro	0.7	0.9
Cymru	0.7	1.0

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ffibriliad atrïaidd yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd yr un peth â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ond yn uwch na'r bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ond yn uwch na'r bwrdd iechyd.

**Tabl 13.5: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Ffibriliad Atrïaidd (canran)	Gorbwysedd (canran)
Gorllewin Caerdydd	2.3	13.5
Caerdydd	1.6	11.8
BIP Caerdydd a'r Fro	1.8	12.6
Cymru	2.3	15.8

Mae llawer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd a lles yn rhai y gellir eu hatal. Mae tabl 13.6 yn dangos canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau niweidiol; lle yr ystyrir bod canran is ar gyfer smygu ac yfed uwchlaw'r canllawiau yn fwy buddiol i iechyd a lles, yn yr un modd ag y mae canran uwch ar gyfer oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach, sy'n cyflawni'r canllawiau gweithgarwch corfforol ac yn bwyta pum dogn o lysiau a ffrwythau y dydd.

Yn gyffredinol, mae canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau sy'n cefnogi canlyniadau iach yng nglwstwr Gorllewin Caerdydd yn uwch na Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac eithrio ar gyfer yfed uwchlaw'r canllawiau.

**Tabl 13.6: Canran yr oedolion (16 oed ac yn hŷn) sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2016 i 2018**

Enw'r Clwstwr Meddyg Teulu	Cyfrif		Cyffredinrwydd			
	Poblogaeth 16+ y clwstwr meddyg teulu	Smygu	Yfed uwchlaw'r canllawiau	Oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach	Cyflawni canllawiau gweithgarwch corfforol	Bwyta 5 dogn y dydd
Gorllewin Caerdydd	45,977	15.9	20.2	42.0	56.4	26.3
BIP Caerdydd a'r Fro	420,119	19.3	18.9	40.8	55.1	24.2
Cymru	2,642,152	19.2	18.9	39.1	52.8	23.4

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru, gan ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru), Gwasanaeth Demograffig Cymru (NWIS) a MALIC 2014 (Llywodraeth Cymru). Noder, mae'r cyfrifiad ar gyfer y dangosydd pwysau iach ond yn rhoi cyfrif am oedolion o oedran gweithio (16-64 oed)

### 13.1.5 Datblygiadau clwstwr

Mae tri datblygiad mawr wedi'u cynllunio o fewn clwstwr Gorllewin Caerdydd, i'w cwblhau erbyn 2026 yn unol â Chynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006 i 2026. Ymhlith y rhain mae:

#### Gogledd-orllewin Caerdydd

Mae'r safle hwn yn perthyn i'r cefn gwlad i'r gorllewin o Radur, y Tyllgoed a Phentre-baen ac i'r gogledd o bentref Sain Ffagan. Mae'r datblygiad ar gyfer datblygiad cynhwysfawr defnydd cymysg sy'n cynnwys o leiaf 5,000 o gartrefi, a chyfleoedd cyflogaeth leol, ynghyd â seilwaith ategol:

- Darparu Coridorau Tramwy Cyflym newydd i fysiau a fydd yn mynd drwy'r safle, gan ddarparu cysylltiadau rhwng y Rhanbarth/Canolfannau Lleol a Hwb Trafnidiaeth newydd yn y Rhanbarth/Canolfan Leol fwyaf dwyreiniol.
- Ehangu'r rhwydweithiau bysiau a chynyddu amllder a dibynadwyedd y gwasanaethau ar y safle.

- Darparu llwybrau cerdded a beicio diogel, deniadol, cyfleus ac o ansawdd uchel o fewn y safle, gan gysylltu â gwasanaethau lleol allweddol, cyfleusterau a chyrchfannau.
- Gwella cysylltiadau cerdded a beicio â chyrchfannau trafnidiaeth gyhoeddus.
- Darparu un Ganolfan Ranbarthol a 3 Chanolfan Leol (yn cynnwys darparu cyfleoedd busnes a chyflogaeth leol), cyfleuster gofal sylfaenol, cyfleuster hamdden cymunedol amldeffnydd yn cynnwys cyfleuster llyfrgell.
- Darparu un ysgol uwchradd newydd, tair i bedair ysgol ysgol gynradd newydd, wedi'u lleoli o fewn Canolfannau Ranbarthol/Lleol neu'n gyfagos iddynt.
- Darparu mannau agored yn cynnwys safle hamdden ffurfiol, meysydd chwarae sy'n cynnwys ardal chwarae cyrchfan, cyfleuster i blant yn eu harddegau a safleoedd rhandir.

Ar 1 Ebrill 2019, cafwyd 128 o achosion o gwblhau ar y safle.

Mae'r datblygiad yn cael ei adeiladu ar bedwar safle allweddol mewn cyfres o gamau. Mae dogfen fonitro LDP gwanwyn 2021 yn amlygu'r canlynol:

Fferm Goitre Fach – dechreuodd y gwaith adeiladu yn 2018. Mae tua 241 o adeiladau wedi'u cwblhau/yn cael eu hadeiladu.

Tir i'r gogledd ac i'r de o Heol Llantrisant – dechreuodd y gwaith adeiladu ar ddechrau 2017. Cafwyd tua 126 achos o gwblhau, 145 achos o gwblhau/yn cael eu hadeiladu a 27 yn cael eu hadeiladu ar y safle.

Tir i'r de o Heol Pentrebane – dechreuodd y gwaith adeiladu ar ddiwedd 2017/dechrau 2018. Bu tua 120 achos o gwblhau a 37 achos o gwblhau/yn cael eu hadeiladu ar y safle.

### **I'r gogledd o Gyffordd 33 ar yr M4 a De Creigiau**

Mae'r ddau safle'n perthyn i'r canlynol:

- I'r gogledd o gyffordd 33 ar yr M4. Mae'r datblygiad ar gyfer datblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys tua 2,000 o dai, cyflogaeth, defnyddiau cymunedol cysylltiedig eraill a safle parcio a theithio strategol.
- I'r de o Greigiau. Mae'r datblygiad ar gyfer cynllun tai sy'n cynnwys tua 650 o dai, sy'n cynrychioli estyniad deheuol i'r pentref.

Mae'r safleoedd gerllaw ei gilydd ac wedi'u gwahanu gan Ffordd Llantrisant yn unig. Bydd y safleoedd yn helpu i gyflwyno cartrefi a swyddi newydd ynghyd â seilwaith ategol sy'n cynnwys cyfleuster parcio a theithio strategol.

- Darparu Coridorau Tramwy Cyflym newydd ar gyfer bysiau drwy'r safle i'r gogledd o Gyffordd 33, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â choridor bysiau'r gorllewin.
- Ehangu'r rhwydweithiau bysiau a chynyddu amllder a dibynadwyedd y gwasanaethau ar y safle.

- Cyfleuster parcio a theithio strategol i'r gogledd o gyffordd 33 a chyfleuster parcio a theithio a chanolfan leol i'r de o'r safle.
- Gwella cyffyrdd allweddol a darparu croesfannau diogel.
- Darparu llwybrau cerdded a beicio diogel, deniadol, cyfleus ac o ansawdd uchel o fewn y safle, gan gysylltu â gwasanaethau lleol allweddol, cyfleusterau a chyrchfannau.
- Un Ganolfan Leol yn cynnwys cyfleuster gofal sylfaenol a chyfleuster hamdden cymunedol amldeffnydd, yn cynnwys cyfleuster llyfrgell.
- Un i ddwy ysgol gynradd newydd wedi'u lleoli o fewn Canolfan Leol, neu'n gyfagos iddi, a
- Mannau agored yn cynnwys safle hamdden ffurfiol, meysydd chwarae, cyfleuster i blant yn eu harddegau a safle rhandir; Gwella cyfleusterau cymunedol yng nghanol y gymdogaeth bresennol yng Nghreigiau, i ddarparu cyfleusterau newydd ar gyfer preswylwyr presennol a newydd.

Ar 1 Ebrill 2019, ni chafwyd unrhyw achosion o gwblhau ar y safleoedd hyn. Cafodd gwaith monitro'r safle yn 2020 ei atal dros dro oherwydd cyfyngiadau pandemig y coronafeirws (COVID-19).

I'r gogledd o Gyffordd 33 ar safle'r M4, dechreuodd y gwaith adeiladu yn ystod hydref 2019 ac mae'r datblygiad yn cael ei adeiladu mewn cyfres o gamau. Mae dogfen fonitro LDP gwanwyn 2021 yn amlygu na fu unrhyw achosion o gwblhau a bod tua 179 o dai wrthi'n cael eu hadeiladu.

Mae dogfen fonitro LDP gwanwyn 2021 yn amlygu bod cais cynllunio amlinellol byw yn mynd rhagddo gyda Chyngor Caerdydd ar gyfer tir i'r de o safle Creigiau.

### 13.2 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir o fewn y clwstwr ar hyn o bryd

Mae 13 o fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd.

**Tabl 13.7: Fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd**


Fferyllfa	Cyfeiriad		
Asda Stores Ltd T/A Fferyllfa Asda	Asda Superstore Longwood Drive	Coryton	CF14 7EW
H Bainbridge Ltd T/A Bainbridge Pharmacy	68 Plasmawr Road	Y Tyllgoed	CF5 3JX
Boots UK Limited	15 Merthyr Road	Yr Eglwys Newydd	CF14 1DA
Parc Canol Ltd T/A Fferyllfa Creigiau	69 Parc y Bryn	Creigiau	CF15 9SE
Pearn's Pharmacies Ltd T/A Fferyllfa Danescourt	2 Rachel Close	Dansecourt	CF5 2SH
The Handpost Ltd T/A Fferyllfa Llandaf	18A High Street	Llandaf	CF5 2DZ
Seren Ltd. Fferyllfa Health Plus	93 Station Road	Gogledd Llandaf	CF14 2FD

Lloyds Pharmacy Ltd T/A Lloydspharmacy	Llawr daear, yng nghefn 42a Merthyr Road	Yr Eglwys Newydd	CF14 1DJ
Lloyds Pharmacy Ltd T/A Lloydspharmacy	8 Park Road	Yr Eglwys Newydd	CF14 7BQ
Lloyds Pharmacy Ltd T/A Lloydspharmacy	1-2 Chesnut Road	Y Tyllgoed	CF5 3HR
Well	12 Station Road	Radur	CF15 8AA
Pentyrch Pharmacy Limited	Uned 3 Temperance Court Bronllwyn Road	Pentyrch	CF15 9TN
Fferyllfa Clifton T/A Fferyllfa Lakeside	17 Merthyr Road	Tongwynlais	CF15 7LF

Rhwng 2019 a 2020, cafodd 82.1% o eitemau ar bresgripsiwn a ysgrifennwyd gan y saith practis meddyg teulu yng nghlwestwr Gorllewin Caerdydd eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr, ac roedd 2.3% ohonynt yn eitemau a ddsbarthwyd yn bersonol.


Yn gyffredinol, mae'r fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth mwy, neu'n agos atynt, sydd wedi'u dangos gan yr ardaloedd wedi'u lliwio'n dywyll yn y map isod.

**Map 13.2: Lleoliad fferyllfeydd o gymharu â dwysedd y boblogaeth**



Gall holl breswylwyr y clwstwr gyrraedd un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn 10 munud. Gall y mwyafrif gyrraedd fferyllfa o fewn pum munud.

**Map 13.3: Mynediad i fferyllfeydd yn y clwstwr**



Gan edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae un fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- Mae tair fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae chwe fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar fore Sadwrn
- Mae tair fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener

Rhaid i bob fferyllfa fod ar agor ar gyfer eu horiau contractiol craidd, sef 40 awr yr wythnos. Dim ond gyda chymeradwyaeth y bwrdd iechyd y gellir diwygio'r rhain. Gall y fferyllfa ddiwygio unrhyw oriau ychwanegol neu ategol ar ôl rhoi rhybudd o 90 diwrnod i'r bwrdd iechyd. O fewn y clwstwr, mae oriau agor a chau yn amrywio o:

<b>Diwrnodau</b>	<b>Ystod oriau agor</b>	<b>Ystod oriau cau</b>
Dydd Llun i Ddydd Gwener	08.00am to 09.00am	17.30pm i 22.00pm
Dydd Sadwrn	08.00am to 09.00am	12.00pm to 22.00pm
Dydd Sul	10.00am	16.00pm

Ceir manylion llawn ynghylch pryd y mae'r fferyllfeydd ar agor yn Atodiad L.

Gwnaeth 13 fferyllfa ymateb i'r holiadur i fferyllwyr ar gcontract, yr oedd 10 yn gweinyddu'r holl gyfarpar a restrwyd yn Rhan IX o'r Tariff Cyffuriau, dwy yn gweinyddu gorchuddion yn unig ac roedd un fferyllfa arall nad oedd yn gweinyddu unrhyw gyfarpar.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth 12 fferyllfa gynnig y gwasanaeth MUR a chafodd cyfanswm o 2,764 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 4,800 o adolygiadau posibl. Gwnaeth dwy fferyllfa ddarparu'r uchafswm o adolygiadau, sef 400. Gwnaeth Llywodraeth Cymru roi terfyn dros dro ar y gwasanaeth MUR yn ffurfiol ar 13 Mawrth 2020. Ar yr adeg ysgrifennu, ni wyddys a fydd y gwasanaeth yn ailgychwyn.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth bob un o'r 13 o fferyllfeydd gynnig y gwasanaeth DMR a chafodd cyfanswm o 237 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 1,820 o adolygiadau posibl. Gwnaeth dwy fferyllfa ddarparu'r uchafswm o adolygiadau, sef 140. Fel rhan o'r newidiadau i'r fframwaith contractiol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yn 2021, mae'r terfyn ar nifer y DMRs a dalwyd wedi'i dynnu.

Rhwng 2019 a 2020, darparwyd y gwasanaethau ychwanegol canlynol gan fferyllfeydd yn ardal y clwstwr:

- Gwnaeth saith fferyllfa ddarparu cyfanswm o 249 o ymgynghoriadau dulliau atal cenhedlu brys, gydag ystod o bump i 95 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth un fferyllfa ddarparu cyfanswm o 28 ymgynghoriadau lefel 3 rhoi'r gorau i smygu.
- Gwnaeth naw fferyllfa ddarparu cyfanswm o 750 o frechiadau rhag y ffliw, gydag ystod o wyth i 185 o frechiadau.
- Gwnaeth 13 fferyllfa ddarparu cyfanswm o 466 o ymgynghoriadau CAS, gydag ystod o un i 187 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth tair fferyllfa ddarparu cyfanswm o 10 o ymgynghoriadau EMS, gydag ystod o un i saith ymgynghoriad.

Ymhlith y gwasanaethau ychwanegol eraill roedd y canlynol:

- Roedd chwe fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gweinyddu Meddyginiaeth o dan Oruchwyliaeth.
- Roedd dwy fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gofal Lliniarol.

### **13.3 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir y tu allan i'r clwstwr ar hyn o bryd**

Mae rhai fferyllwyr yn dewis defnyddio fferyllwyr ar gontract y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- Sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr cyfarpar gweinyddu.
- Sydd wedi'u lleoli'n agos at ble maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld ag ef at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu rhwng 2019 a 2020 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr, cafodd tua 15.6% eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, sef:

- 4.0% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd
- 3.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd
- 3.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd

- 1.7% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd
- 0.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain Caerdydd
- 1.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 1.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- 0.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- 0.7% gan fferyllwyr ar gontract yn Lloegr

Yn ogystal, gallai preswylwyr fod wedi defnyddio un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarparwyd gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl cyfrif y gweithgarwch hwn o'r data a gofnodwyd.

Gan ystyried fferyllfeydd yn y clystyrau cyfagos a fferyllfeydd ar draws y ffin mewn ardaloedd byrddau iechyd eraill yng Nghymru, gall yr holl breswylwyr yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 10 munud a gall y rhan fwyaf gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn pum munud.

### **13.4 Gwasanaethau eraill y GIG**

Mae Ysbyty Rookwood wedi'i leoli o fewn clwstwr Gorllewin Caerdydd. Fodd bynnag, mae'r ysbyty yn gwasanaethu poblogaeth lawer ehangach na'r clwstwr yn unig.

### **13.5 Dewis o ran cael gafael ar wasanaethau fferyllol**

Fel y gellir gweld o adrannau 13.2 ac 13.3, mae'r rhai sy'n byw o fewn yr ardal glwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr er mwyn cael eu presgripsiynau wedi'u gweinyddu. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny er mwyn cael gafael ar fferyllfa gyfagos o fewn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafswm yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i weinyddu gan fferyllfa neu gontractwr gweinyddu y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 343 o fferyllwyr ar gontract a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2019 i 2020, weinyddu eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd, yr oedd 236 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 6,923 o eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu yn Lloegr.

### **13.6 Bylchau mewn darpariaeth**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr, a'r ffaith y gall y boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 10 munud, a gall y mwyafrif wneud o fewn pum munud. Er y dylid nodi nad oes gan bob cartref fynediad at gar, mae natur y clystyrau yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai na allant wneud y daith gyfan ar droed.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi amseroedd agor fferyllfeydd presennol, ac mae o'r farn eu bod yn ddigonol i ddiwallu anghenion tebygol preswylwyr yn y clwstwr. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstwr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn fodlon nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau uwch. Er nad oes un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth Adolygiad o'r Defnydd o Gyfarpar (AUR) na'r gwasanaeth Teilwra Cyfarpar Stoma (SAC), nodir bod pedwar contractwr cyfarpar wedi'u lleoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n cynnig y gwasanaethau hyn. Un o'r rhesymau pam gaiff presgripsiynau eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr yw oherwydd eu bod wedi'u hanfon at gontractwr cyfarpar gweinyddu yn rhywle arall yn y bwrdd iechyd neu i Loegr, sy'n darparu'r gwasanaethau hyn. Bydd cleifion felly yn gallu cael gafael ar y ddau wasanaeth hyn drwy'r contractwyr hynny. Nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi nodi unrhyw fwllch presennol neu yn y dyfodol, neu fynediad gwell o ran darparu'r ddau wasanaeth uwch hyn yn y clwstwr.

Gwnaeth 13 fferyllfa ymateb i'r cwestiwn yn yr holiadur i fferyllwyr ar gontract ynghylch y gallu i ddiwallu'r galw gan unrhyw ddatblygiadau tai yn y dyfodol yn y clwstwr. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

- Mae gan 11 o fferyllfeydd ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol a digon o staff i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.
- Nid oes gan un fferyllfa ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau na digon o staff ar hyn o bryd, ond gallent wneud addasiadau i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.
- Nid oes gan un fferyllfa ddigon o gapasiti yn eu hadeilad na digon o staff a byddai'n ei chael hi'n anodd rheoli cynnydd mewn galw yn yr ardal.

Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y datblygiadau a gynlluniwyd ar gyfer y clwstwr, o ran y datblygiadau tai mawr a gynlluniwyd i'r gogledd o gyffordd 33 ar yr M4 a De Creigiau, a Gogledd-orllewin Caerdydd. Ar yr adeg hon, nid oes gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro unrhyw wybodaeth na reswm i ddod i'r casgliad, yn ystod oes y PNA hwn a'r datblygiad, y byddai angen heb ei ddiwallu a fyddai'n gofyn am wasanaethau fferyllol ychwanegol.

O ran unrhyw unedau bach o dai y bwriedir eu hadeiladu yn ystod oes y ddogfen hon, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon, yn seiliedig ar yr ymatebion i'r holiadur i fferyllwyr ar gontract, y bydd y galw y bydd hyn yn ei greu yn gallu cael ei fodloni gan fferyllfeydd presennol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion yn y dyfodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstwr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon hefyd, yn seiliedig ar y wybodaeth a geir yn yr adrannau blaenorol, nad oes unrhyw fylchau presennol neu yn y dyfodol, yn y gwasanaethau uwch a'r gwasanaethau ychwanegol a ddarperir.

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ond mae wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol sy'n gofyn am gais ar gyfer safleoedd newydd neu ychwanegol.

## 14 Clwstwr Canol y Fro

### 14.1 Ffeithiau allweddol

#### 14.1.1 Poblogaeth ac amcanestyniadau poblogaeth 2018 i 2028 (sail-2018)

Gan nad yw data poblogaeth lefel clwstwr yn cael ei gasglu'n rheolaidd ar sail flynyddol, defnyddiwyd data cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu i roi arwydd o boblogaeth clwstwr, a defnyddiwyd data yn seiliedig ar awdurdod lleol i roi arwydd o amcanestyniadau poblogaeth.

Nodwch fod data poblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn uwch na'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn cyfatebol sy'n seiliedig ar y cyfrifiad, a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar lefel awdurdod lleol a bwrdd iechyd, fel yr amlinellir yn 2.2. Mae hyn fwy na thebyg o ganlyniad i gleifion sydd wedi'u gor-gofrestru neu 'gleifion ysbryd' a achoswyd gan nifer o ffactorau gwahanol.

**Tabl 14: Nifer y cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn ôl rhyw a grwpiau oedran eang, ac yn ôl clwstwr, awdurdod lleol a bwrdd iechyd (2019)**

	Blwyddyn	Rhyw		Ystod oedran		
	2019	Dynion	Menywod	O dan 65	65 i 84	85 ac yn hŷn
Canol y Fro	65768	33297	32471	53722	10541	1505
Bro Morgannwg	131558	66983	64575	104113	23813	3632
BIP Caerdydd a'r Fro	521177	260027	261150	439365	70412	11400

Ffynhonnell: StatsCymru – Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

Rhwng 2018 a 2028, rhagamcanir y bydd poblogaeth Bro Morgannwg yn cynyddu hyd at 6%, yr ail gynnydd canrannol mwyaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Disgwylir y bydd ganddi boblogaeth sy'n cyfateb i oddeutu 140,000 erbyn 2028, sy'n golygu mai dyma fydd y degfed awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Bydd y cynnydd yn y boblogaeth wedi'i sbarduno'n fwyaf gan ymfudo net h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Disgwylir i nifer y genedigaethau gynyddu dros y cyfnod hwn, a hefyd nifer y marwolaethau, gan arwain at newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau). Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ar draws pob grŵp oedran eang. Yn gyffredinol, bydd cynnydd bach yn nifer y plant a phobl ifanc rhwng 0 i 15 oed ac yn y boblogaeth oedran gweithio, rhwng 16 i 64 oed. Bydd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth yn y grŵp 65 oed ac yn hŷn, lle disgwylir i Fro Morgannwg weld y cynnydd mwyaf o blith yr holl awdurdodau lleol, sef hyd at 20.5%. Dilyniir hyn gan y grŵp 75 oed ac yn hŷn. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol.

### 14.1.2 Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwlch anghydraddoldebau'

Mae disgwyliad oes adeg geni ym Mro Morgannwg yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r bwrdd iechyd ar gyfer menywod a dynion, rhwng 2015 a 2017. Yr enw ar y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yw'r 'bwlch anghydraddoldebau'. Mae'r bwlch anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes adeg geni rhwng y pumed mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig ar gyfer Bro Morgannwg, yn fwy cul na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r bwrdd iechyd, ar gyfer dynion a menywod. Mae'r disgwyliad bywyd iach (nifer y blynyddoedd y gall unigolyn ddisgwyl byw bywyd iach) ym Mro Morgannwg hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r bwrdd iechyd, ar gyfer menywod a dynion.

**Tabl 14.1: Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwlch anghydraddoldebau' (2015 i 2017)**

	Disgwyliad oes adeg geni (blynyddoedd)		Disgwyliad bywyd iach (blynyddoedd)		Bwlch anghydraddoldebau (blynyddoedd)	
	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion
Bro Morgannwg	83.4	78.9	64.2	63.1	6.0	7.0
BIP Caerdydd a'r Fro	83.0	78.7	62.0	61.9	6.6	8.6
Cymru	82.3	78.3	62.0	61.4	6.1	7.4

Ffynhonnell: Offeryn PHOF Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) gan ddefnyddio data'r ONS a Llywodraeth Cymru

### 14.1.3 Amddifadedd

Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl mewn cymdeithas. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn ei gwneud yn bosibl i raddio ardaloedd bach, a elwir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Nghymru, er mwyn pennu a yw ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig o gymharu ag ardaloedd bach eraill yng Nghymru.

Ar y cyfan, mae gan Fro Morgannwg (13%) ganran is o LSOAs yn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru, mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (24%). Wrth ystyried y meysydd ar gyfer incwm, iechyd a chyflogaeth, mae'r holl LSOAs yn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer Bro Morgannwg, wedi'u lleoli yn y Barri, neu'r cyffuniau.

**Tabl 14.2: Nifer yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl clwstwr, awdurdod lleol a bwrdd iechyd ar gyfer y meysydd incwm, iechyd, cyflogaeth a mynediad at wasanaethau, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019**

Incwm	Iechyd	Cyflogaeth	Mynediad i wasanaethau
Nifer yr LSOAs yn y canrannau mwyaf difreintiedig			

	10%	20%	10%	20%	10%	20%	10%	20%
Canol y Fro	5	13	4	8	4	11	0	0
Dwyrain y Fro	0	0	0	0	0	0	0	0
Gorllewin y Fro	0	0	0	0	0	0	3	6
Bro Morgannwg	5	13	4	8	4	11	3	6
BIP Caerdydd a'r Fro	46	72	38	64	34	51	3	15

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru

Mae'r map isod yn rhoi arwydd o lefelau cyffredinol amddifadedd o fewn y clwstwr.


At ddibenion y PNA, ystyrir bod y fferyllfeydd yn y Rhws a Sain Tathan yng nghlwstwr Gorllewin y Fro, oherwydd, yn hanesyddol, dyma sut y cawsant eu dyrannu gan eu bod oll yn wledig o ran ardal ac yn rhannu'r un practisau meddygon teulu.

At ddibenion clystyrau, ystyrir bod Meddygfa Sili yn rhan o Ganol y Fro, felly caiff Meddygfa Sili ei hystyried o dan Ganol y Fro at ddibenion y PNA.

Mae'r ardaloedd â'r lefel uchaf o amddifadedd yng nghlwstwr Canol y Fro wedi'u lleoli yn y Barri a'r cyffuniau. Fel y gellir gweld o'r map, mae'r holl fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd uwch, neu'n agos atynt.

### Map 14.1: Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng nghlwstwr Canol y Fro, wedi'u grwpio yn gwintellau yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Central Vale Cluster



#### 14.1.4 Proffil iechyd

Ar y cyfan, mae nifer yr achosion o glefydau cronig yng nghlwstwr Canol y Fro yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. O'u cymharu â'r bwrdd iechyd, mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o glefydau cronig yn uwch. Mae gan glwstwr Canol y Fro y nifer amcangyfrifedig uchaf, ar y cyd ag un clwstwr arall, o achosion o glefyd coronaidd y galon a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) a'r nifer amcangyfrifedig uchaf o achosion o ddiabetes o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd.

**Tabl 14.3: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o gyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Canran					
	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	COPD	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phylliau o isgemia dros dro
Canol y Fro	6.9	3.3	2.3	5.8	1.0	2.0
Bro Morgannwg BIP Caerdydd a'r Fro	6.8	3.3	1.9	5.5	1.1	2.1
Fro	6.7	2.7	1.7	5.0	0.9	1.7
Cymru	7.1	3.6	2.4	6.1	1.1	2.1

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ddementia yng nghlwstwr Canol y Fro yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a'r bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig y cyflyrau iechyd meddwl yr un peth â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac yn uwch na'r bwrdd iechyd.

**Tabl 14.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl, a dementia, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Dementia (canran)	Iechyd meddwl (canran)
Canol y Fro	0.6	1.0
Bro Morgannwg BIP Caerdydd a'r Fro	0.7	0.9
Fro	0.7	0.9
Cymru	0.7	1.0

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ffibriliad atrïaidd yng nghlwstwr Canol y Fro yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ond yn uwch na'r bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a dyma'r nifer uchaf o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd.

**Tabl 14.5: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd a ffibriliad atriaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Ffibriliad Atriaidd (canran)	Gorbwysedd (canran)
Canol y Fro	2.1	15.4
Bro Morgannwg	2.3	14.9
BIP Caerdydd a'r Fro	1.8	12.6
Cymru	2.3	15.8

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae llawer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd a lles yn rhai y gellir eu hatal. Mae tabl 14.6 yn dangos canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch pum ymddygiad, lle yr ystyrir bod canran is ar gyfer smygu ac yfed uwchlaw'r canllawiau yn fwy buddiol i iechyd a lles, yn yr un modd ag y mae canran uwch ar gyfer oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach, sy'n cyflawni'r canllawiau gweithgarwch corfforol ac yn bwyta pum dogn o lysiau a ffrwythau y dydd.

Yn gyffredinol, mae canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau sy'n cefnogi canlyniadau iach yng nglwstwr Canol y Fro yn is na Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac eithrio ar gyfer yfed uwchlaw'r canllawiau.

**Tabl 14.6: Canran yr oedolion (16 oed ac yn hŷn) sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2016 i 2018**

Enw'r Clwstwr Meddyg Teulu	Cyfrif			Cyffredinrwydd		
	Poblogaeth 16+ y clwstwr meddyg teulu	Smygu	Yfed uwchlaw'r canllawiau	Oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach	Cyflawni canllawiau gweithgarwch corfforol	Bwyta 5 dogn y dydd
Canol y Fro	51,644	20.6	18.6	37.8	52.3	23.0
BIP Caerdydd a'r Fro	420,119	19.3	18.9	40.8	55.1	24.2
Cymru	2,642,152	19.2	18.9	39.1	52.8	23.4

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru, gan ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru), Gwasanaeth Demograffig Cymru (NWIS) a MALIC 2014 (Llywodraeth Cymru). Noder, mae'r cyfrifiad ar gyfer y dangosydd pwysau iach ond yn rhoi cyfrif am oedolion o oedran gweithio (16-64 oed)

#### 14.1.5. Datblygiadau clwstwr

Mae llawer o ddatblygiadau tai a gynlluniwyd o fewn clwstwr Canol y Fro i ddiwallu anghenion tai y twf a ragwelir yn y boblogaeth ym Mro Morgannwg. Y datblygiadau mwyaf yw cam 2 datblygiad Glannau'r Barri, a'r tir i'r gorllewin o Swanbridge Road, Sili, y disgwylir eu cwblhau erbyn 2026 yn unol â Chynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2006 i 2026. Mae datblygiadau tai eraill yn y clwstwr yn llai o faint ac yn cynnwys:

### Safleoedd tai strategol

Safle tai	Nifer	Wedi'i gwblhau yn Ebrill 2020
Cam 2, Glannau'r Barri	1,700	1,020
Cyfanswm	1,700	1,020

### Anheddiad allweddol: Y Barri

Safle tai	Nifer	Wedi'i gwblhau yn Ebrill 2020
Parc Pleser Ynys y Barri	25	0
White Farm	177	177
Tir i'r dwyrain o Pencoedtre Lane	67	67
Tir i'r gorllewin o Pencoedtre Lane	137	0
Ysgol Maes Dyfan	81	81
Llys Ynadon y Barri	52	52
Depo Court Road, y Barri	50	0
15 Holm View	50	0
16 Hayes Wood, The Bendricks	55	0
Cyfanswm	694	377

### Anheddiad allweddol: Sili

Safle tai	Nifer	Wedi'i gwblhau yn Ebrill 2020
Tir i'r gorllewin o Swanbridge Road, Sili	500	0
Cyfanswm	500	0

## 14.2 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir o fewn y clwstwr ar hyn o bryd

Mae 14 o fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Fro.

Rhwng 2019 a 2020, cafodd 84.8% o eitemau ar bresgripsiwn a ysgrifennwyd gan y saith practis meddyg teulu yng nghlwstwr Canol y Fro eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr, ac roedd 2.1% ohonynt yn eitemau a ddosbarthwyd yn bersonol.


**Tabl 14.7: Fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Fro**

Fferyllfa	Cyfeiriad		
	Canolfan Feddygol Cei'r		
Aneurin Evans Ltd	Gorllewin, Hood Road	Y Barri	CF62 5QN
Boots UK Limited	121/125 Holton Road	Y Barri	CF63 4SW
Fferyllfa Evans - Y Barri	8 Park Crescent	Y Barri	CF62 6HD
Mobec Pharmacy Limited T/A			
Brockway Pharmacy	Uned 3 Plas Cleddau Cwm Talwg	Y Barri	CF62 7FG
Fferyllfa'r Stryd Fawr, Gwawr			
Davies Jones	88 Y Stryd Fawr	Y Barri	CF62 7DX
Lloyds Pharmacy Ltd T/A	Meddygfa Court Road 29-31 Court		
Lloydspharmacy	Road	Y Barri	CF63 4YD
Lloyds Pharmacy Ltd T/A	Waterfront Medical Centre, Heol Y		
Lloydspharmacy	Llongau	Y Barri	CF63 4AR

Lloyds Pharmacy Ltd T/A Lloydspharmacy	Canolfan Siopa Stirling Road, Port Road	Y Barri	CF62 8NX
Lloyds Pharmacy Ltd T/A Lloydspharmacy	99-101 Holton Road	Y Barri	CF63 4HG
National Co-Operative Chemists Ltd T/A The Co-operative Pharmacy	148 Holton Road	Y Barri	CF63 4HL
RAJJA Ltd T/A MW Phillips Chemists	9 Vere Street Tregatwg	Y Barri	CF63 2YE
RAJJA Ltd T/A MW Phillips Chemists	8 Barry Road, Tregatwg	Y Barri	CF63 1BA
PharmaMed Limited T/A St Brides Pharmacy	1 St Anns Court Ramsey Road	Y Barri	CF62 9DN
Unicare Pharmacy Limited T/A Fferyllfa Sili	106 South Road	Sili	CF64 5SN


Yn gyffredinol, mae'r fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth mwy, neu'n agos atynt, sydd wedi'u dangos gan yr ardaloedd wedi'u lliwio'n dywyll yn y map isod.

**Map 14.2: Lleoliad fferyllfeydd o gymharu â dwysedd y boblogaeth**



Gall holl breswylwyr y clwstwr gyrraedd un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn 15 munud. Gall y mwyafrif gyrraedd fferyllfa o fewn 10 munud, fel y nodir ym map 14.3.

**Map 14.3: Mynediad i fferyllfeydd yn y clwstwr**



Gan edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae dwy fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- Mae un fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae chwe fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar fore Sadwrn
- Mae pum fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener

Rhaid i bob fferyllfa fod ar agor ar gyfer eu horiau contractiol craidd, sef 40 awr yr wythnos. Dim ond gyda chymeradwyaeth y bwrdd iechyd y gellir diwygio'r rhain. Gall y fferyllfa ddiwygio unrhyw oriau ychwanegol neu ategol ar ôl rhoi rhybudd o 90 diwrnod i'r bwrdd iechyd. O fewn y clwstwr, mae oriau agor a chau yn amrywio o:

<b>Diwrnodau</b>	<b>Ystod oriau agor</b>	<b>Ystod oriau cau</b>
Dydd Llun i Ddydd Gwener	08.30am to 09.00am	17.00pm i 19.00pm*
Dydd Sadwrn	08.30am to 09.00am	12.00pm to 17.30pm
Dydd Sul	10.00am	16.00pm

\*Mae un fferyllfa'n cau am 16.30pm ar ddydd Mawrth ac un yn cau am 12.30pm ar ddydd Mercher

Ceir manylion llawn ynghylch pryd y mae'r fferyllfeydd ar agor yn Atodiad L.

Gwnaeth 14 fferyllfa ymateb i'r holiadur i fferyllwyr ar gontract, yr oedd 12 yn gweinyddu'r holl gyfarpar a restrwyd yn Rhan IX o'r Tariff Cyffuriau, un yn gweinyddu gorchuddion yn unig ac roedd un fferyllfa arall nad oedd yn gweinyddu unrhyw gyfarpar.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth 13 fferyllfa gynnig y gwasanaeth MUR a chafodd cyfanswm o 3,518 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 5,200 o adolygiadau posibl. Gwnaeth dwy fferyllfa ddarparu'r uchafswm o adolygiadau, sef 400. Gwnaeth Llywodraeth Cymru roi terfyn dros dro ar y gwasanaeth MUR yn ffurfiol ar 13 Mawrth 2020. Ar yr adeg ysgrifennu, ni wyddys a fydd y gwasanaeth yn ailgychwyn.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth 10 fferyllfa gynnig y gwasanaeth DMR a chafodd cyfanswm o 193 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 1,400 o adolygiadau posibl. Gwnaeth dwy fferyllfa ddarparu'r uchafswm o adolygiadau, sef 140. Fel rhan o'r newidiadau i'r fframwaith contractiol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yn 2021, mae'r terfyn ar nifer y DMRs a dalwyd wedi'i dynnu.

Rhwng 2019 a 2020, darparwyd y gwasanaethau ychwanegol canlynol gan fferyllfeydd yn ardal y clwstwr:

- Gwnaeth wyth fferyllfa ddarparu cyfanswm o 399 o ymgynghoriadau dulliau atal cenhedlu brys, gydag ystod o dri i 183 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth pedair fferyllfa ddarparu cyfanswm o 146 o ymgynghoriadau lefel 3 rhoi'r gorau i smygu, gydag ystod o 21 i 54 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth 12 fferyllfa ddarparu cyfanswm o 892 o frechiadau rhag y ffliw, gydag ystod o un i 272 o frechiadau.
- Gwnaeth 13 fferyllfa ddarparu cyfanswm o 1194 o ymgynghoriadau CAS, gydag ystod o 24 i 325 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth dwy fferyllfa ddarparu cyfanswm o 47 o ymgynghoriadau EMS, gydag ystod o 15 i 32 o ymgynghoriadau.

Ymhlith y gwasanaethau ychwanegol eraill roedd y canlynol:

- Roedd wyth fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gweinyddu Meddyginiaeth o dan Oruchwyliaeth.
- Roedd dwy fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Darpariaeth Nodwydd a Chwistrell.
- Roedd pum fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gofal Lliniarol.

### **14.3 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir y tu allan i'r clwstwr ar hyn o bryd**

Mae rhai fferyllwyr yn dewis defnyddio fferyllwyr ar gcontract y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- Sy'n cael eu cynnig gan gcontractwyr cyfarpar gweinyddu.
- Sydd wedi'u lleoli'n agos at ble maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld ag ef at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu rhwng 2019 a 2020 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr, cafodd tua 13.1% eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, sef:

- 0.5% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd
- 2.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd
- 5.6% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin y Fro
- 3.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain y Fro
- 0.5% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 0.3% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- 0.7% gan fferyllwyr ar gcontract yn Lloegr

Yn ogystal, gallai preswylwyr fod wedi defnyddio un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarparwyd gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl cyfrif y gweithgarwch hwn o'r data a gofnodwyd.

Gan ystyried fferyllfeydd yn y clystyrau cyfagos a fferyllfeydd ar draws y ffin mewn ardaloedd byrddau iechyd eraill yng Nghymru, gall yr holl breswylwyr yng nghlwstwr Canol y Fro gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 15 munud a gall y rhan fwyaf gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 10 munud.

### **14.4 Gwasanaethau eraill y GIG**

Mae Ysbyty'r Barri a'r Uned Mân Anafiadau wedi'u lleoli o fewn clwstwr Canol y Fro. Fodd bynnag, mae'r ysbyty yn gwasanaethu poblogaeth lawer ehangach na'r clwstwr yn unig.

### **14.5 Dewis o ran cael gafael ar wasanaethau fferyllol**

Fel y gellir gweld o adrannau 14.2 ac 14.3, mae'r rhai sy'n byw o fewn yr ardal glwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr er mwyn cael eu presgripsiynau wedi'u gweinyddu. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny er mwyn cael gafael ar fferyllfa gyfagos o fewn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafswm yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i weinyddu gan fferyllfa neu gcontractwr gweinyddu y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 298 o fferyllwyr ar gontract a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2019 i 2020, weinyddu eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwtwr Canol y Fro, yr oedd 195 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 9,569 o eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu yn Lloegr.

## 14.6 Bylchau mewn darpariaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwtwr, a'r ffaith y gall y boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 15 munud, a gall y mwyafrif wneud o fewn 10 munud. Er y dylid nodi nad oes gan bob cartref fynediad at gar, mae natur y clystyrau yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai na allant wneud y daith gyfan ar droed. Fodd bynnag, yn ardaloedd mwy gwledig clwtwr Canol y Fro, mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig. Er ei bod yn debygol bod nifer uchel o bobl yn berchen ar gar yn yr ardaloedd hynny, gallai'r rhai nad oes ganddynt gar ac yn enwedig yr henoed, ei chael yn anodd cael mynediad at fferyllfa. Bydd gan y rhan fwyaf o fferyllfeydd yn y clystyrau hyn drefniadau ar waith sy'n golygu y gellir cael mynediad prydlon at feddyginiaethau ar gyfer y rhai sy'n gaeth i'w cartrefi neu y gallent ei chael yn anodd cyrraedd fferyllfa.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi amseroedd agor fferyllfeydd presennol, ac mae o'r farn eu bod yn ddigonol i ddiwallu anghenion tebygol preswylwyr yn y clwtwr. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwtwr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn fodlon nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau uwch. Er nad oes un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth Adolygiad o'r Defnydd o Gyfarpar (AUR) na'r gwasanaeth Teilwra Cyfarpar Stoma (SAC), nodir bod pedwar contractwr cyfarpar wedi'u lleoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n cynnig y gwasanaethau hyn. Un o'r rhesymau pam gaiff presgripsiynau eu gweinyddu y tu allan i'r clwtwr yw oherwydd eu bod wedi'u hanfon at gontractwr cyfarpar gweinyddu yn rhywle arall yn y bwrdd iechyd neu i Lloegr, sy'n darparu'r gwasanaethau hyn. Bydd cleifion felly yn gallu cael gafael ar y ddau wasanaeth hyn drwy'r contractwyr hynny. Nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi nodi unrhyw fwch presennol neu yn y dyfodol, neu fynediad gwell o ran darparu'r ddau wasanaeth uwch hyn yn y clwtwr.

Gwnaeth 14 fferyllfa ymateb i'r cwestiwn yn yr holiadur i fferyllwyr ar gontract ynghylch y gallu i ddiwallu'r galw gan unrhyw ddatblygiadau tai yn y dyfodol yn y clwtwr. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

- Mae gan 11 o fferyllfeydd ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol a digon o staff i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.

- Nid oes gan ddwy fferyllfa ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau na digon o staff ar hyn o bryd, ond gallent wneud addasiadau i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.
- Nid oes gan un fferyllfa ddigon o gapasiti yn eu hadeilad na digon o staff a byddai'n ei chael hi'n anodd rheoli cynnydd mewn galw yn yr ardal.

Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y datblygiadau a gynlluniwyd ar gyfer y clwstwr, yn enwedig datblygiad cam 2 mwy o faint Glannau'r Barri, ac unedau bach eraill o dai y bwriedir eu hadeiladu yn ystod oes y ddogfen hon, ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon, yn seiliedig ar yr ymatebion i'r holiadur i fferyllwyr ar gontract, y bydd y galw y bydd hyn yn ei greu yn gallu cael ei fodloni gan fferyllfeydd presennol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion yn y dyfodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstwr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon hefyd, yn seiliedig ar y wybodaeth a geir yn yr adrannau blaenorol, nad oes unrhyw fylchau presennol neu yn y dyfodol, yn y gwasanaethau uwch a'r gwasanaethau ychwanegol a ddarperir.

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ond mae wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol sy'n gofyn am gais ar gyfer safleoedd newydd neu ychwanegol.

## 15 Clwstwr Dwyrain y Fro

### 15.1 Ffeithiau allweddol

#### 15.1.1 Poblogaeth ac amcanestyniadau poblogaeth 2018 i 2028 (sail-2018)

Gan nad yw data poblogaeth lefel clwstwr yn cael ei gasglu'n rheolaidd ar sail flynyddol, defnyddiwyd data cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu i roi arwydd o boblogaeth clwstwr, a defnyddiwyd data yn seiliedig ar awdurdod lleol i roi arwydd o amcanestyniadau poblogaeth.

Nodwch fod data poblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn uwch na'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn cyfatebol sy'n seiliedig ar y cyfrifiad, a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar lefel awdurdod lleol a bwrdd iechyd, fel yr amlinellir yn 2.2. Mae hyn fwy na thebyg o ganlyniad i gleifion sydd wedi'u gor-gofrestru neu 'gleifion ysbryd' a achoswyd gan nifer o ffactorau gwahanol.

**Tabl 15: Nifer y cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn ôl rhyw a grwpiau oedran eang, ac yn ôl clwstwr, awdurdod lleol a bwrdd iechyd (2019)**

	Blwyddyn	Rhyw		Ystod oedran		
	2019	Menywod	Dynion	O dan 65	65 i 84	85 ac yn hŷn
Dwyrain y Fro	36727	18817	17910	28231	7208	1288
Bro Morgannwg	131558	66983	64575	104113	23813	3632
BIP Caerdydd a'r Fro	521177	260027	261150	439365	70412	11400

Ffynhonnell: StatsCymru – Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

Rhwng 2018 a 2028, rhagamcanir y bydd poblogaeth Bro Morgannwg yn cynyddu hyd at 6%, yr ail gynnydd canrannol mwyaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Disgwylir y bydd ganddi boblogaeth sy'n cyfateb i oddeutu 140,000 erbyn 2028, sy'n golygu mai dyma fydd y degfed awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Bydd y cynnydd yn y boblogaeth wedi'i sbarduno'n fwyaf gan ymfudo net h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Disgwylir i nifer y genedigaethau gynyddu dros y cyfnod hwn, a hefyd nifer y marwolaethau, gan arwain at newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau). Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ar draws pob grŵp oedran eang. Yn gyffredinol, bydd cynnydd bach yn nifer y plant a phobl ifanc rhwng 0 i 15 oed ac yn y boblogaeth oedran gweithio, rhwng 16 i 64 oed. Bydd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth yn y grŵp 65 oed ac yn hŷn, lle disgwylir i Fro Morgannwg weld y cynnydd mwyaf o blith yr holl awdurdodau lleol, sef hyd at 20.5%. Dilyniir hyn gan y grŵp 75 oed ac yn hŷn. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol.

### 15.1.2 Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwloch anghydraddoldebau'

Mae disgwyliad oes adeg geni ym Mro Morgannwg yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r bwrdd iechyd ar gyfer menywod a dynion, rhwng 2015 a 2017. Yr enw ar y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yw'r 'bwloch anghydraddoldebau'. Mae'r bwloch anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes adeg geni rhwng y pumed mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig ar gyfer Bro Morgannwg, yn fwy cul na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r bwrdd iechyd, ar gyfer dynion a menywod. Mae'r disgwyliad bywyd iach (nifer y blynyddoedd y gall unigolyn ddisgwyl byw bywyd iach) ym Mro Morgannwg hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r bwrdd iechyd, ar gyfer menywod a dynion.

**Tabl 15.1: Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwloch anghydraddoldebau' (2015 i 2017)**

	Disgwyliad oes adeg geni (blynyddoedd)		Disgwyliad bywyd iach (blynyddoedd)		Bwloch anghydraddoldebau (blynyddoedd)	
	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion
Bro Morgannwg	83.4	78.9	64.2	63.1	6.0	7.0
BIP Caerdydd a'r Fro	83.0	78.7	62.0	61.9	6.6	8.6
Cymru	82.3	78.3	62.0	61.4	6.1	7.4

Ffynhonnell: Offeryn PHOF Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) gan ddefnyddio data'r ONS a Llywodraeth Cymru

### 15.1.3 Amddifadedd

Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl mewn cymdeithas. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn ei gwneud yn bosibl i raddio ardaloedd bach, a elwir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Nghymru, er mwyn pennu a yw ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig o gymharu ag ardaloedd bach eraill yng Nghymru.

Ar y cyfan, mae gan Fro Morgannwg (13%) ganran is o LSOAs yn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru, mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (24%). Wrth ystyried y meysydd ar gyfer incwm, iechyd, cyflogaeth a mynediad i wasanaethau ar lefel clwstwr, nid oes un o'r LSOAs yng nghlwtwr Dwyrain y Fo yn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan ei gwneud yn un o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yn y bwrdd iechyd a Chymru.

**Tabl 15.2: Nifer yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl clwstwr, awdurdod lleol a bwrdd iechyd ar gyfer y meysydd incwm, iechyd, cyflogaeth a mynediad at wasanaethau, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019**

Nifer yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru							
Incwm		Iechyd		Cyflogaeth		Mynediad i wasanaethau	
10%	20%	10%	20%	10%	20%	10%	20%


Canol y Fro	5	13	4	8	4	11	0	0
Dwyrain y Fro	0	0	0	0	0	0	0	0
Gorllewin y Fro	0	0	0	0	0	0	3	6
Bro Morgannwg	5	13	4	8	4	11	3	6
BIP Caerdydd a'r Fro	46	72	38	64	34	51	3	15

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru

Mae'r map isod yn rhoi arwydd o lefelau cyffredinol amddifadedd o fewn y clwstr. Fel y gwelir o'r map, mae gan glwstr Dwyrain y Fro lefelau cymharol isel o amddifadedd. Mae'r rhan fwyaf o fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd uwch, neu'n agos atynt.

### Map 15.1: Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng nghlwstr Dwyrain y Fro, wedi'u grwpio'n gwintellau yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Eastern Vale Cluster



#### 15.1.4 Proffil iechyd

Ar y cyfan, mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o glefydau cronig yng nghlwstr Dwyrain y Fro yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac eithrio ar gyfer strôc a phyliau o isgemia dros dro, lle mae yr un peth. O'i gymharu â'r bwrdd iechyd, mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o glefydau cronig yn uwch ar y cyfan, ac eithrio ar gyfer clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD). Mae gan glwstr Dwyrain y Fro y nifer amcangyfrifedig uchaf, ar y cyd ag un clwstr arall, o achosion o glefyd coronaidd y galon o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd, a'r ail nifer amcangyfrifedig uchaf o achosion o strôc a phyliau o isgemia dros dro.

**Tabl 15.3: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o gyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Canran					Strôc a phyliau o isgemia dros dro
	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	COPD	Diabetes	Methiant y galon	
Dwyrain y Fro	6.8	3.3	1.5	5.2	1.0	2.1
Bro Morgannwg	6.8	3.3	1.9	5.5	1.1	2.1
BIP Caerdydd a'r Fro	6.7	2.7	1.7	5.0	0.9	1.7
Cymru	7.1	3.6	2.4	6.1	1.1	2.1

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ddementia yng nghlwstwr Dwyrain Caerdydd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a dyma'r nifer uchaf o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o gyflyrau iechyd meddwl yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r bwrdd iechyd.

**Tabl 15.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl, a dementia, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Dementia (canran)	Iechyd meddwl (canran)
Dwyrain y Fro	0.9	0.8
Bro Morgannwg	0.7	0.9
BIP Caerdydd a'r Fro	0.7	0.9
Cymru	0.7	1.0

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ffibriliad atrïaidd yng nghlwstwr Dwyrain y Fro yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a dyma'r ail nifer uchaf o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a dyma'r ail nifer uchaf o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd.

**Tabl 15.5: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Ffibriliad Atrïaidd (canran)	Gorbwysedd (canran)
Dwyrain y Fro	2.4	14.7
Bro Morgannwg	2.3	14.9
BIP Caerdydd a'r Fro	1.8	12.6
Cymru	2.3	15.8

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae llawer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd a lles yn rhai y gellir eu hatal. Mae tabl 15.6 yn dangos canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch pum ymddygiad, lle yr ystyrir bod canran is ar gyfer smygu ac yfed uwchlaw'r canllawiau yn fwy buddiol i iechyd a lles, yn yr un modd ag y mae canran uwch ar gyfer oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach, sy'n cyflawni'r canllawiau gweithgarwch corfforol ac yn bwyta pum dogn o lysiau a ffrwythau y dydd.

Yn gyffredinol, mae canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau sy'n cefnogi canlyniadau iach yng nghlwstwr Dwyrain y Fro yn uwch na Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac eithrio ar gyfer yfed uwchlaw'r canllawiau.

**Tabl 15.6: Canran yr oedolion (16 oed ac yn hŷn) sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2016 i 2018**

Enw'r Clwstwr Meddyg Teulu	Cyfrif			Cyffredinrwydd		
	Poblogaeth 16+ y clwstwr meddyg teulu	Smygu	Yfed uwchlaw'r canllawiau	Oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach	Cyflawni canllawiau gweithgarwch corfforol	Bwyta 5 dogn y dydd
Dwyrain y Fro	30,400	12.8	21.3	42.8	57.6	27.3
BIP Caerdydd a'r Fro	420,119	19.3	18.9	40.8	55.1	24.2
Cymru	2,642,152	19.2	18.9	39.1	52.8	23.4

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru, gan ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru), Gwasanaeth Demograffig Cymru (NWIS) a MALIC 2014 (Llywodraeth Cymru). Noder, mae'r cyfrifiad ar gyfer y dangosydd pwysau iach ond yn rhoi cyfrif am oedolion o oedran gweithio (16-64 oed)

### 15.1.5 Datblygiadau clwstwr

Mae llawer o ddatblygiadau tai a gynlluniwyd o fewn y clwstwr i ddiwallu anghenion tai y twf a ragwelir yn y boblogaeth ym Mro Morgannwg. Mae'r datblygiad tai mwyaf ar dir ar Fferm Cosmeston Uchaf yn Larnog, y disgwylir ei gwblhau o fewn oes y PNA hwn. Mae datblygiadau tai eraill yn y clwstwr yn llai o faint ac yn cynnwys:

#### Anheddiad allweddol: Penarth

Safle tai	Nifer	Wedi'i gwblhau yn Ebrill 2020
Tir ar Fferm Comeston Uchaf, Larnog	576	0
Tir sy'n gyfagos i Ysgol St. Josephs, Sully Road	74	74
Ysgol Headlands, St. Augustine's Road	65	0
Tir sy'n gyfagos i Oak Court, Penarth	145	0
Cyfanswm	860	74

#### Anheddiad allweddol: Dinas Powys

Safle tai	Nifer	Wedi'i gwblhau yn Ebrill 2020
Tir yn Ysgol St. Cyres, Murch Road, ac yn gyfagos iddi	300	103

Tir oddi ar Caerleon Road, Dinas Powys	70	64
Tir yn Ardwyn, Pen-y-Turnpike	18	18
Tir yn Cross Common Road	50	49
Cyfanswm	438	234

#### Anheddiad allweddol: Llandochoau (Penarth)

Safle tai	Nifer	Wedi'i gwblhau yn Ebrill 2020
Tir i'r de o Fryn Llandochoau / Penarth Road	130	0
Tir i'r gogledd o Leckwith Road	8	0
Llandough Landings	120	0
Cyfanswm	258	258

Mae cynlluniau ar gyfer Hwb Llesiant yn Cogan, a fydd yn cynnal rhai gwasanaethau cymunedol eraill yn ogystal â phractis meddyg teulu presennol Penarth.

## 15.2 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir o fewn y clwstwr ar hyn o bryd

Mae naw fferyllfa yng nghlwstwr Dwyrain y Fro. Mae un contractwr cyfarpar hefyd.


**Tabl 15.7: Fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain y Fro**

Fferyllfa	Cyfeiriad		
Boots UK Limited	24 Windsor Road	Penarth	CF64 1YJ
	Tesco Instore Pharmacy, Penarth		
Tesco Stores Limited	Haven	Penarth	CF64 1SA
Pearns Pharmacies Ltd T/A Ivor			
Owen Pharmacy	5a Cornerswell Road	Penarth	CF64 2UW
Pearn's Pharmacies Ltd	36 Windsor Road	Penarth	CF64 1YD
	Mayberry pharmacy 3 Royal		
Mayberry Pharmacy	Buildings Stanwell Road	Penarth	CF64 3EB
TH & L Jones	26 Cardiff Road	Dinas Powys	CF64 4JS
	Fferyllfa Murch, Canolfan		
TH & L Jones	Feddygol Dinas Powys, Murch Rd	Dinas Powys	CF64 4RE
Pearns Pharmacies T/A Varus	Y Ganolfan Iechyd, Stanwell		
Pharmacy	Road	Penarth	CF64 3XE
Pearns Pharmacies T/A			
Washington Pharmacy	Stanwell Road	Penarth	CF64 2AD

Rhwng 2019 a 2020, cafodd 90.6% o eitemau ar bresgripsiwn a ysgrifennwyd gan y pedwar practis meddyg teulu yng nghlwstwr Dwyrain y Fro eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr, ac roedd 1.8% ohonynt yn eitemau a ddsbarthwyd yn bersonol.


Mae'r fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth mwy, sydd wedi'u dangos gan yr ardaloedd wedi'u lliwio'n dywyll yn y map isod.

## Map 15.2: Lleoliad fferyllfeydd a safleoedd contractwyr cyfarpar o gymharu â dwysedd y boblogaeth



Gall holl breswylwyr y clwstwr gyrraedd un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn 10 munud. Gall y mwyafrif gyrraedd fferyllfa o fewn pum munud, fel y nodir ym map 15.3.

**Map 15.3: Mynediad i fferyllfeydd a chontractwyr cyfarpar yn y clwstwr**



Gan edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae dwy fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- Mae dwy fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae pum fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar fore Sadwrn
- Mae dwy fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener

Rhaid i bob fferyllfa fod ar agor ar gyfer eu horiau contractiol craidd, sef 40 awr yr wythnos. Dim ond gyda chymeradwyaeth y bwrdd iechyd y gellir diwygio'r rhain. Gall y fferyllfa ddiwygio unrhyw oriau ychwanegol neu ategol ar ôl rhoi rhybudd o 90 diwrnod i'r bwrdd iechyd. O fewn y clwstwr, mae oriau agor a chau yn amrywio o:

Diwrnodau	Ystod oriau agor	Ystod oriau cau
Dydd Llun i Ddydd Gwener	08.00am to 09.00am	17.30pm i 20.00pm
Dydd Sadwrn	08.00am to 09.00am	13.00pm i 20.00pm
Dydd Sul	10.00am	16.00pm

Ceir manylion llawn ynghylch pryd y mae'r fferyllfeydd ar agor yn Atodiad L.

Gwnaeth naw fferyllfa ymateb i'r holiadur i fferyllwyr ar contract, yr oedd chwech yn gweinyddu'r holl gyfarpar a restrwyd yn Rhan IX o'r Tariff Cyffuriau, a thair yn gweinyddu gorchuddion yn unig.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth wyth fferyllfa gynnig y gwasanaeth MUR a chafodd cyfanswm o 1,546 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 3,200 o adolygiadau posibl. Darparodd un fferyllfa uchafswm nifer yr adolygiadau, sef 400. Gwnaeth Llywodraeth Cymru roi terfyn dros dro ar y gwasanaeth MUR yn ffurfiol ar 13 Mawrth 2020. Ar yr adeg ysgrifennu, ni wyddys a fydd y gwasanaeth yn ailgychwyn.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth chwe fferyllfa gynnig y gwasanaeth DMR a chafodd cyfanswm o 323 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 840 o adolygiadau posibl. Ni ddarparodd unrhyw fferyllfa uchafswm nifer yr adolygiadau. Fel rhan o'r newidiadau i'r fframwaith contractiol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yn 2021, mae'r terfyn ar nifer y DMRs a dalwyd wedi'i dynnu.

Rhwng 2019 a 2020, darparwyd y gwasanaethau ychwanegol canlynol gan fferyllfeydd yn ardal y clwstwr:

- Gwnaeth pum fferyllfa ddarparu cyfanswm o 254 o ymgynghoriadau dulliau atal cenhedlu brys, gydag ystod o wyth i 176 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth dwy fferyllfa ddarparu cyfanswm o 22 o ymgynghoriadau lefel 3 rhoi'r gorau i smygu, gydag ystod o saith i 15 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth saith fferyllfa ddarparu cyfanswm o 1307 o frechiadau rhag y ffliw, gydag ystod o 23 i 596 o frechiadau.
- Gwnaeth wyth fferyllfa ddarparu cyfanswm o 259 o ymgynghoriadau CAS, gydag ystod o bedwar i 77 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth pum fferyllfa ddarparu cyfanswm o 39 o ymgynghoriadau EMS, gydag ystod o ddau i 23 o ymgynghoriadau.

Ymhlith y gwasanaethau ychwanegol eraill roedd y canlynol:

- Roedd pedair fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gweinyddu Meddyginiaeth o dan Oruchwyliaeth.
- Roedd dwy fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Darpariaeth Nodwydd a Chwistrell.
- Roedd dwy fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gofal Lliniarol.

### **15.3 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir y tu allan i'r clwstwr ar hyn o bryd**

Mae rhai fferyllwyr yn dewis defnyddio fferyllwyr ar contract y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- Sy'n cael eu cynnig gan contractwyr cyfarpar gweinyddu.
- Sydd wedi'u lleoli'n agos at ble maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld ag ef at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu rhwng 2019 a 2020 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr, cafodd tua 7.6% eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, sef:

- 4.5% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd
- 0.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd
- 1.9% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Fro
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- 0.7% gan fferyllwyr ar gontract yn Lloegr

Yn ogystal, gallai preswylwyr fod wedi defnyddio un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarparwyd gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl cyfrif y gweithgarwch hwn o'r data a gofnodwyd.

Gan ystyried fferyllfeydd yn y clystyrau cyfagos a fferyllfeydd ar draws y ffin mewn ardaloedd byrddau iechyd eraill yng Nghymru, gall yr holl breswylwyr yng nghlwstwr Dwyrain y Fro gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 10 munud a gall y rhan fwyaf gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn pum munud.

## **15.4 Gwasanaethau eraill y GIG**

Mae Ysbyty Llandochoau wedi'i leoli o fewn clwstwr Dwyrain Caerdydd. Fodd bynnag, mae'r ysbyty yn gwasanaethu poblogaeth lawer ehangach na'r clwstwr yn unig.

## **15.5 Dewis o ran cael gafael ar wasanaethau fferyllol**

Fel y gellir gweld o adrannau 15.2 ac 15.3, mae'r rhai sy'n byw o fewn yr ardal glwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr er mwyn cael eu presgripsiynau wedi'u gweinyddu. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny er mwyn cael gafael ar fferyllfa gyfagos o fewn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafswm yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i weinyddu gan fferyllfa neu gontractwr gweinyddu y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 212 o fferyllwyr ar gontract a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2019 i 2020, weinyddu eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Dwyrain y Fro, yr oedd 109 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 5,416 o eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu yn Lloegr.

## 15.6 Bylchau mewn darpariaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr, a'r ffaith y gall y boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 10 munud, a gall y mwyafrif wneud o fewn pum munud. Er y dylid nodi nad oes gan bob cartref fynediad at gar, mae natur y clystyrau yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai na allant wneud y daith gyfan ar droed.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi amseroedd agor fferyllfeydd presennol, ac mae o'r farn eu bod yn ddigonol i ddiwallu anghenion tebygol preswylwyr yn y clwstwr. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstwr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn fodlon nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau uwch. Er nad oes un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth Adolygiad o'r Defnydd o Gyfarpar (AUR) na'r gwasanaeth Teilwra Cyfarpar Stoma (SAC), nodir bod pedwar contractwr cyfarpar wedi'u lleoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y mae un wedi'i leoli o fewn y clwstwr, sy'n cynnig y gwasanaethau hyn. Un o'r rhesymau pam gaiff presgripsiynau eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr yw oherwydd eu bod wedi'u hanfon at gontractwr cyfarpar gweinyddu yn rhywle arall yn y bwrdd iechyd neu i Loegr, sy'n darparu'r gwasanaethau hyn. Bydd cleifion felly yn gallu cael gafael ar y ddau wasanaeth hyn drwy'r contractwyr hynny. Nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi nodi unrhyw fwch presennol neu yn y dyfodol, neu fynediad gwell o ran darparu'r ddau wasanaeth uwch hyn yn y clwstwr.

Gwnaeth naw fferyllfa ymateb i'r cwestiwn yn yr holiadur i fferyllwyr ar gontract ynghylch y gallu i ddiwallu'r galw gan unrhyw ddatblygiadau tai yn y dyfodol yn y clwstwr. Mae gan naw fferyllfa ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol a digon o staff i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.

Gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro nodi'r datblygiadau a gynlluniwyd ar gyfer y clwstwr, yn enwedig y datblygiadau tai mwy o faint ar dir ar Fferm Cosmeston Uchaf yn Larnog, ac unedau o dai llai o faint eraill y bwriedir eu hadeiladu yn ystod oes y ddogfen hon. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon, yn seiliedig ar yr ymatebion i'r holiadur i fferyllwyr ar gontract, y bydd y galw y bydd hyn yn ei greu yn gallu cael ei fodloni gan fferyllfeydd presennol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion yn y dyfodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstwr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon hefyd, yn seiliedig ar y wybodaeth a geir yn yr adrannau blaenorol, nad oes unrhyw fylchau presennol neu yn y dyfodol, yn y gwasanaethau uwch a'r gwasanaethau ychwanegol a ddarperir.

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ond mae wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol sy'n gofyn am gais ar gyfer safleoedd newydd neu ychwanegol.

## 16 Clwstwr Gorllewin y Fro

### 16.1 Ffeithiau allweddol

#### 16.1.1 Poblogaeth ac amcanestyniadau poblogaeth 2018 i 2028 (sail-2018)

Gan nad yw data poblogaeth lefel clwstwr yn cael ei gasglu'n rheolaidd ar sail flynyddol, defnyddiwyd data cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu i roi arwydd o boblogaeth clwstwr, a defnyddiwyd data yn seiliedig ar awdurdod lleol i roi arwydd o amcanestyniadau poblogaeth.

Nodwch fod data poblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn uwch na'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn cyfatebol sy'n seiliedig ar y cyfrifiad, a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar lefel awdurdod lleol a bwrdd iechyd, fel yr amlinellir yn 2.2. Mae hyn fwy na thebyg o ganlyniad i gleifion sydd wedi'u gor-gofrestru neu 'gleifion ysbryd' a achoswyd gan nifer o ffactorau gwahanol.

**Tabl 16: Nifer y cleifion sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yn ôl rhyw a grwpiau oedran eang, ac yn ôl clwstwr, awdurdod lleol a bwrdd iechyd (2019)**

	Blwyddyn	Rhyw		Ystod oedran		
	2019	Menywod	Dynion	O dan 65	65 i 84	85 ac yn hŷn
Gorllewin y Fro	29063	14869	14194	22160	6064	839
Bro Morgannwg	131558	66983	64575	104113	23813	3632
BIP Caerdydd a'r Fro	521177	260027	261150	439365	70412	11400

Ffynhonnell: StatsCymru – Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

Rhwng 2018 a 2028, rhagamcanir y bydd poblogaeth Bro Morgannwg yn cynyddu hyd at 6%, yr ail gynnydd canrannol mwyaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Disgwylir y bydd ganddi boblogaeth sy'n cyfateb i oddeutu 140,000 erbyn 2028, sy'n golygu mai dyma fydd y degfed awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Bydd y cynnydd yn y boblogaeth wedi'i sbarduno'n fwyaf gan ymfudo net h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Disgwylir i nifer y genedigaethau gynyddu dros y cyfnod hwn, a hefyd nifer y marwolaethau, gan arwain at newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau). Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ar draws pob grŵp oedran eang. Yn gyffredinol, bydd cynnydd bach yn nifer y plant a phobl ifanc rhwng 0 i 15 oed ac yn y boblogaeth oedran gweithio, rhwng 16 i 64 oed. Bydd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth yn y grŵp 65 oed ac yn hŷn, lle disgwylir i Fro Morgannwg weld y cynnydd mwyaf o blith yr holl awdurdodau lleol, sef hyd at 20.5%. Dilynrir hyn gan y grŵp 75 oed ac yn hŷn. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol.

#### 16.1.2 Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwllch anghydraddoldebau'

Mae disgwyliad oes adeg geni ym Mro Morgannwg yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r bwrdd iechyd ar gyfer menywod a dynion, rhwng 2015 a 2017. Yr enw ar y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd

mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yw'r 'bwloch anghydraddoldebau'. Mae'r bwloch anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes adeg geni rhwng y pumed mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig ar gyfer Bro Morgannwg, yn fwy cul na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r bwrdd iechyd, ar gyfer dynion a menywod. Mae'r disgwyliad bywyd iach (nifer y blynyddoedd y gall unigolyn ddisgwyl byw bywyd iach) ym Mro Morgannwg hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r bwrdd iechyd, ar gyfer menywod a dynion.

**Tabl 16.1: Disgwyliad oes, disgwyliad bywyd iach a'r 'bwloch anghydraddoldebau' (2015 i 2017)**

	Disgwyliad oes adeg geni (blynyddoedd)		Disgwyliad bywyd iach (blynyddoedd)		Bwloch anghydraddoldebau (blynyddoedd)	
	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion
Bro Morgannwg	83.4	78.9	64.2	63.1	6.0	7.0
BIP Caerdydd a'r Fro	83.0	78.7	62.0	61.9	6.6	8.6
Cymru	82.3	78.3	62.0	61.4	6.1	7.4

Ffynhonnell: Offeryn PHOF Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) gan ddefnyddio data'r ONS a Llywodraeth Cymru

### 16.1.3 Amddifadedd

Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl mewn cymdeithas. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn ei gwneud yn bosibl i raddio ardaloedd bach, a elwir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Nghymru, er mwyn pennu a yw ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig o gymharu ag ardaloedd bach eraill yng Nghymru.

Ar y cyfan, mae gan Fro Morgannwg (13%) ganran is o LSOAs yn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru, mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (24%). Wrth ystyried y meysydd ar gyfer incwm, iechyd a chyflogaeth ar lefel clwstwr, nid oes un o'r LSOAs yng nghlwstwr Gorllewin y Fro ymhlith y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Wrth ystyried y maes mynediad i wasanaethau ar lefel clwstwr, mae'r holl LSOAs ym Mro Morgannwg sydd ymhlith y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru, o fewn clwstwr Gorllewin y Fro, ac fe'u lleolir o gwmpas y Bont-faen, Llanddunwyd, Y Rhws ac Aberogwr. Ar y cyfan, Gorllewin y Fro yw un o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig ym Mro Morgannwg, o blith y byrddau iechyd ac yng Nghymru.

**Tabl 16.2: Nifer yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl clwstwr, awdurdod lleol a bwrdd iechyd ar gyfer y meysydd incwm, iechyd, cyflogaeth a mynediad at wasanaethau, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019**

	Nifer yr LSOAs o fewn y 10% a'r 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru						Mynediad i wasanaethau	
	Incwm		Iechyd		Cyflogaeth		10%	20%
	10%	20%	10%	20%	10%	20%		
Canol y Fro	5	13	4	8	4	11	0	0
Dwyrain y Fro	0	0	0	0	0	0	0	0


Gorllewin y Fro	0	0	0	0	0	0	3	6
Bro Morgannwg	5	13	4	8	4	11	3	6
BIP Caerdydd a'r Fro	46	72	38	64	34	51	3	15

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru

Mae'r map isod yn rhoi arwydd o lefelau cyffredinol amddifadedd o fewn y clwstr. Fel y gwelir o'r map, mae gan glwstr Gorllewin y Fro lefelau cymharol isel o amddifadedd.

### Map 16.1: Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng nghlwrwr Gorllewin y Fro, wedi'u grwpio yn gwintellau yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Western Vale Cluster



Ar y cyfan, mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o glefydau cronig yng nghlwrwr Gorllewin y Fro yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac eithrio ar gyfer strôc a phyliau o isgemia dros dro, a methiant y galon.

O'i gymharu â'r bwrdd iechyd, mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o glefydau cronig yn uwch ar y cyfan, ac eithrio ar gyfer asthma a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD). Ceir y nifer amcangyfrifedig uchaf, ar y cyd ag un clwstrwr arall, o achosion o glefyd coronaidd y galon, a'r nifer amcangyfrifedig uchaf o achosion o fethiant y galon a strôc a phyliau o isgemia dros dro, o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd.

**Tabl 16.3: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o gyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Canran					Strôc a phylliau o isgemia dros dro
	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	COPD	Diabetes	Methiant y galon	
Gorllewin y Fro	6.3	3.3	1.4	5.2	1.4	2.5
Bro Morgannwg	6.8	3.3	1.9	5.5	1.1	2.1
BIP Caerdydd a'r Fro	6.7	2.7	1.7	5.0	0.9	1.7
Cymru	7.1	3.6	2.4	6.1	1.1	2.1

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ddementia yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a dyma'r ail nifer uchaf, ar y cyd â chlwstwr arall, o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o gyflyrau iechyd meddwl yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a dyma'r nifer isaf, ar y cyd ag un clwstwr arall, o fewn y bwrdd iechyd.

**Tabl 16.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl, a dementia, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Dementia (canran)	Iechyd meddwl (canran)
Gorllewin y Fro	0.8	0.7
Bro Morgannwg	0.7	0.9
BIP Caerdydd a'r Fro	0.7	0.9
Cymru	0.7	1.0

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o ffibriliad atriaidd yng nghlwstwr Gorllewin y Fro yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a dyma'r nifer uchaf o blith yr holl glystyrau yn y bwrdd iechyd. Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a dyma'r trydydd nifer uchaf yn y bwrdd iechyd.

**Tabl 16.5: Nifer canrannol amcangyfrifedig yr achosion o orbwysedd a ffibriliad atriaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu, yn ôl clwstwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2019**

	Ffibriliad Atriaidd (canran)	Gorbwysedd (canran)
Gorllewin y Fro	2.8	14.3
Bro Morgannwg	2.3	14.9
BIP Caerdydd a'r Fro	1.8	12.6
Cymru	2.3	15.8

Ffynhonnell: QOF 2019

Mae llawer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd a lles yn rhai y gellir eu hatal. Mae tabl 16.6 yn dangos canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch pum ymddygiad, lle yr ystyrir bod canran is ar gyfer smygu ac yfed uwchlaw'r canllawiau yn fwy buddiol i iechyd a lles, yn yr un modd ag y mae canran uwch ar

gyfer oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach, sy'n cyflawni'r canllawiau gweithgarwch corfforol ac yn bwyta pum dogn o lysiau a ffrwythau y dydd.

Yn gyffredinol, mae canran yr oedolion sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau sy'n cefnogi canlyniadau iach yng nghlwtwr Gorllewin y Fro yn uwch na Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac eithrio ar gyfer yfed uwchlaw'r canllawiau.

**Tabl 16.6: Canran yr oedolion (16 oed ac yn hŷn) sy'n adrodd ynghylch ymddygiadau yn ôl clwtwr, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2016 i 2018**

Enw'r Clwtwr Meddyg Teulu	Cyfrif			Cyffredinrwydd		
	Poblogaeth 16+ y clwtwr meddyg teulu	Smygu	Yfed uwchlaw'r canllawiau	Oedolion o oedran gweithio sydd o bwysau iach	Cyflawni canllawiau gweithgarwch corfforol	Bwyta 5 dogn y dydd
Gorllewin y Fro	23,410	13.2	21.4	43.3	57.3	27.3
BIP Caerdydd a'r Fro	420,119	19.3	18.9	40.8	55.1	24.2
Cymru	2,642,152	19.2	18.9	39.1	52.8	23.4

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru, gan ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru), Gwasanaeth Demograffig Cymru (NWIS) a MALIC 2014 (Llywodraeth Cymru). Noder, mae'r cyfrifiad ar gyfer y dangosydd pwysau iach ond yn rhoi cyfrif am oedolion o oedran gweithio (16-64 oed)

### 16.1.5 Datblygiadau clwtwr

Mae'r datblygiadau tai mwyaf yng nghlwtwr Gorllewin y Fro ar dir i'r gogledd a'r gorllewin o Darren Close, y Bont-faen a'r tir i'r gogledd o'r Rheilffordd, y Rhws. O 1 Ebrill 2020, roedd gwaith wedi dechrau ar y ddau safle, a disgwyliwyd cwblhau'r gweddill o fewn oes y PNA. Mae datblygiadau tai eraill yn y clwtwr yn cynnwys:

#### Safleoedd tai strategol

Safle tai	Nifer	Wedi'i gwblhau yn Ebrill 2020
Tir yn Higher End, Sain Tathan	220	100
Tir yn Church Farm, Sain Tathan	250	0
Hen Safle'r Stadiwm / Tir sy'n gyfagos at Burley Place, Sain Tathan	65	0
Tir i'r dwyrain o Eglwys Brewis, Sain Tathan	255	0
Tir sy'n gyfagos i Froglands Farm, Llanilltud Fawr	90	0
Tir rhwng heol newydd Mynediad y Gogledd, a Heol Eglwys Brewis, Llanilltud Fawr	375	0
Cyfanswm	1,255	100

### Anheddiad allweddol: Y Bont-faen

Safle tai	Nifer	Wedi'i gwblhau yn Ebrill 2020
Ysgol Uwchradd Isaf y Bont-faen	21	21
Adeilad Chweched Dosbarth Ysgol Uwchradd y Bont-faen, Aberthin Road	20	0
Tir sy'n gyfagos i St. Athan Road, y Bont-faen	130	0
Tir i'r gogledd a'r gorllewin o Darren Close, y Bont-faen	475	43
Cyfanswm	646	63

### Anheddiad allweddol: Llanilltud Fawr

Safle tai	Nifer	Wedi'i gwblhau yn Ebrill 2020
Llanilltud Fawr 21 Fferm Plasnewydd, Llanilltud Fawr	149	136
Tir sy'n gyfagos i Ffordd Osgoi Llanilltud Fawr	89	63
Hen Ysgol Gynradd Eagleswell	72	0
Cyfanswm	310	199

### Anheddiad allweddol: Y Rhws

Safle tai	Nifer	Wedi'i gwblhau yn Ebrill 2020
Tir i'r gogledd o'r Rheillfordd, y Rhws	700	223
Tir i'r de o'r Rheillfordd, y Rhws	87	97
Cyfanswm	787	320

## 16.2 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir o fewn y clwstwr ar hyn o bryd

At ddibenion y PNA, ystyrir bod y fferyllfeydd yn y Rhws a Sain Tathan yng nghlwstwr Gorllewin y Fro, oherwydd, yn hanesyddol, dyma sut y cawsant eu dyrannu gan eu bod oll yn wledig o ran ardal ac yn rhannu'r un practisau meddygon teulu.

Mae chwe fferyllfa yng nghlwstwr Gorllewin y Fro. Mae hefyd un practis meddyg fferyllol yn y clwstwr.


**Tabl 16.7: Fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin y Fro**

Fferyllfa	Cyfeiriad		
Byrom (South Wales) Ltd T/A Rhoose Pharmacy	53 Fontygary Road	Y Rhws	CF62 3DT
Lloyds Pharmacy Ltd T/A Lloydspharmacy	The Broad Shoard	Y Bont-faen	CF71 7DA
National Co-Operative Chemists Ltd T/A The Co-operative Pharmacy	5 Boverton Road	Llanilltud Fawr	CF61 1TX
Boots UK Limited T/A Your Local Boots Pharmacy	7 Boverton Road	Llanilltud Fawr	CF61 1XZ
DJ & RA Griffiths Ltd., T/A St Athan Pharmacy	Y Sgwâr	Sain Tathan	CF62 4PF
Sylvia Williams	34 Y Stryd Fawr	Y Bont-faen	CF71 7AG

Rhwng 2019 a 2020, cafodd 95.4% o eitemau ar bresgripsiwn a ysgrifennwyd gan y tri practis meddyg teulu yng nghlwtwr Gorllewin y Fro eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwtwr. Roedd yr un practis meddyg fferyllol yn y clwtwr yn gweinyddu ac yn rhoi 0.5% o eitemau'n bersonol, ac roedd y practisau nad oeddent yn fferyllol yn rhoi 1.7% o eitemau'n bersonol.

Mae'r fferyllfeydd a'r practisau meddygon fferyllol wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth mwy, sydd wedi'u dangos gan yr ardaloedd wedi'u lliwio'n dywyll yn y map isod.

**Map 16.2: Lleoliad fferyllfeydd a safleoedd meddygon fferyllol yn y clwtwr o gymharu â dwysedd y boblogaeth**



Gall holl breswylwyr y clwtwr gyrraedd un o'r fferyllfeydd a'r practis meddyg fferyllol mewn car o fewn 20 munud. Gall y mwyafrif gyrraedd fferyllfa o fewn 10 munud, fel y nodir ym map 16.3.



Gall preswylwyr o glwstwr Gorllewin y Fro gael mynediad at wasanaethau fferyllfeydd sydd ar agor saith diwrnod yr wythnos mewn ardaloedd cyfagos fel y Barri yng nghlwtwr Canol y Fro a Phen-y-bont ar Ogwr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae'r practis meddyg teulu sy'n gweinyddu meddyginiaethau ond ar agor rhwng dydd Llun a dydd Iau. Maent ond yn gweinyddu ar gyfer preswylwyr Coleg yr Iwerydd.

Gwnaeth chwe fferyllfa ymateb i'r holiadur i fferyllwyr ar gontract, yr oedd pob un ohonynt yn gweinyddu'r holl gyfarpar a restrwyd yn Rhan IX o'r Tariff Cyffuriau, ac un yn gweinyddu gorchuddion yn unig.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth pum fferyllfa gynnig y gwasanaeth MUR a chafodd cyfanswm o 1,447 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 2,000 o adolygiadau posibl. Darparodd un fferyllfa uchafswm nifer yr adolygiadau, sef 400. Gwnaeth Llywodraeth Cymru roi terfyn dros dro ar y gwasanaeth MUR yn ffurfiol ar 13 Mawrth 2020. Ar yr adeg ysgrifennu, ni wyddys a fydd y gwasanaeth yn ailgychwyn.

Rhwng 2019 a 2020, gwnaeth pum fferyllfa gynnig y gwasanaeth DMR a chafodd cyfanswm o 241 o adolygiadau eu darparu o gyfanswm o 700 o adolygiadau posibl. Ni ddarparodd unrhyw fferyllfa uchafswm nifer yr adolygiadau. Fel rhan o'r newidiadau i'r fframwaith contractiol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yn 2021, mae'r terfyn ar nifer y DMRs a dalwyd wedi'i dynnu.

Rhwng 2019 a 2020, darparwyd y gwasanaethau ychwanegol canlynol gan fferyllfeydd yn ardal y clwtwr:

- Gwnaeth tair fferyllfa ddarparu cyfanswm o 132 o ymgynghoriadau dulliau atal cenhedlu brys, gydag ystod o 23 i 65 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth un fferyllfa ddarparu cyfanswm o un ymgynghoriad lefel 3 rhoi'r gorau i smygu.
- Gwnaeth tair fferyllfa ddarparu cyfanswm o 378 o frechiadau rhag y fflw, gydag ystod o 51 i 237 o frechiadau.
- Gwnaeth pum fferyllfa ddarparu cyfanswm o 356 o ymgynghoriadau CAS, gydag ystod o 18 i 227 o ymgynghoriadau.
- Gwnaeth dwy fferyllfa ddarparu cyfanswm o 26 o ymgynghoriadau EMS, gydag ystod o un i 25 o ymgynghoriadau.

Ymhlith y gwasanaethau ychwanegol eraill roedd y canlynol:

- Roedd tair fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gweinyddu Meddyginiaeth o dan Oruchwyliaeth.
- Roedd dwy fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Darpariaeth Nodwydd a Chwistrell.
- Roedd pum fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol Gofal Lliniarol.

### **16.3 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir y tu allan i'r clwstwr ar hyn o bryd**

Mae rhai fferyllwyr yn dewis defnyddio fferyllwyr ar gontract y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- Sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr cyfarpar gweinyddu.
- Sydd wedi'u lleoli'n agos at ble maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld ag ef at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu rhwng 2019 a 2020 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr, cafodd tua 2.4% eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, sef:

- 0.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd
- 0.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd
- 0.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dinas a De Caerdydd
- 0.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Fro
- 1.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- 0.5% gan fferyllwyr ar gontract yn Lloegr

Yn ogystal, gallai preswylwyr fod wedi defnyddio un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarparwyd gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl cyfrif y gweithgarwch hwn o'r data a gofnodwyd.

Gan ystyried fferyllfeydd yn y clystyrau cyfagos a fferyllfeydd ar draws y ffin mewn ardaloedd byrddau iechyd eraill yng Nghymru, gall yr holl breswylwyr yng nghlwstwr Gorllewin y Fro gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 20 munud a gall y rhan fwyaf gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 10 munud.

### **16.4 Gwasanaethau eraill y GIG**

Nid oes unrhyw wasanaethau GIG allweddol eraill wedi'u lleoli o fewn y clwstwr hwn.

### **16.5 Dewis o ran cael gafael ar wasanaethau fferyllol**

Fel y gellir gweld o adrannau 16.2 ac 16.3, mae'r rhai sy'n byw o fewn yr ardal glwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr er mwyn cael eu presgripsiynau wedi'u gweinyddu. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny er mwyn cael gafael ar fferyllfa gyfagos o fewn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafswm yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i weinyddu gan fferyllfa neu gontractwr gweinyddu y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 198 o fferyllwyr ar gontract a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2019 i 2020, weinyddu eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwestwr Gorllewin y Fro, yr oedd 115 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 3,503 o eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu yn Lloegr.

## 16.6 Bylchau mewn darpariaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwestwr, a'r practis meddyg fferyllol, a'r ffaith y gall y boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 20 munud, a gall y mwyafrif wneud o fewn 10 munud. Er y dylid nodi nad oes gan bob cartref fynediad at gar, mae natur y clystyrau yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai na allant wneud y daith gyfan ar droed. Fodd bynnag, yn ardaloedd mwy gwledig clwestwr Gorllewin y Fro, mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig. Er ei bod yn debygol bod nifer uchel o bobl yn berchen ar gar yn yr ardaloedd hynny, gallai'r rhai nad oes ganddynt gar ac yn enwedig yr henoed, ei chael yn anodd cael mynediad at fferyllfa. Bydd gan y rhan fwyaf o fferyllfeydd yn y clystyrau hyn drefniadau ar waith sy'n golygu y gellir cael mynediad prydlon at feddyginiaethau ar gyfer y rhai sy'n gaeth i'w cartrefi neu y gallent ei chael yn anodd cyrraedd fferyllfa.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi amseroedd agor fferyllfeydd presennol, ac mae o'r farn eu bod yn ddigonol i ddiwallu anghenion tebygol preswylwyr yn y clwestwr. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwestwr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn fodlon nad oes unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau uwch. Er nad oes un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth Adolygiad o'r Defnydd o Gyfarpar (AUR) na'r gwasanaeth Teilwra Cyfarpar Stoma (SAC), nodir bod pedwar contractwr cyfarpar wedi'u lleoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n cynnig y gwasanaethau hyn. Un o'r rhesymau pam gaiff presgripsiynau eu gweinyddu y tu allan i'r clwestwr yw oherwydd eu bod wedi'u hanfon at gontractwr cyfarpar gweinyddu yn rhywle arall yn y bwrdd iechyd neu i Lloegr, sy'n darparu'r gwasanaethau hyn. Bydd cleifion felly yn gallu cael gafael ar y ddau wasanaeth hyn drwy'r contractwyr hynny. Nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi nodi unrhyw fwch presennol neu yn y dyfodol, neu fynediad gwell o ran darparu'r ddau wasanaeth uwch hyn yn y clwestwr.

Gwnaeth chwe fferyllfa ymateb i'r cwestiwn yn yr holiadur i fferyllwyr ar gontract ynghylch y gallu i ddiwallu'r galw gan unrhyw ddatblygiadau tai yn y dyfodol yn y clwestwr. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

- Mae gan pum fferyllfa ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol a digon o staff i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.

- Nid oes gan un fferyllfa ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau na digon o staff ar hyn o bryd, ond gallent wneud addasiadau i reoli'r cynnydd mewn galw yn yr ardal.

Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y datblygiadau tai a gynlluniwyd ar gyfer y clwstr, yn enwedig ar dir i'r gogledd a'r gorllewin o Darren Close, y Bontfaen a thir i'r gogledd o'r Rheilffordd, y Rhws, ac unedau bach eraill o dai y bwriedir eu hadeiladu yn ystod oes y ddogfen hon, ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon, yn seiliedig ar yr ymatebion i'r holiadur i fferyllwyr ar gontract, y bydd y galw y bydd hyn yn ei greu yn gallu cael ei fodloni gan fferyllfeydd presennol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion yn y dyfodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon hefyd, yn seiliedig ar y wybodaeth a geir yn yr adrannau blaenorol, nad oes unrhyw fylchau presennol neu yn y dyfodol, yn y gwasanaethau uwch a'r gwasanaethau ychwanegol a ddarperir.

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ond mae wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol sy'n gofyn am gais ar gyfer safleoedd newydd neu ychwanegol.

## **17 Casgliadau at ddiben atodlen 1 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020**

Mae'r PNA wedi ystyried y gwasanaethau fferyllol a ddarperir ar hyn o bryd ar draws y bwrdd iechyd, ac yn benodol, demograffeg ac anghenion iechyd y boblogaeth. Mae wedi dadansoddi a yw'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu anghenion poblogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac a oes unrhyw fylchau posibl yn y gwasanaethau fferyllol a ddarperir, naill ai ar hyn o bryd, neu yn ystod oes y ddogfen.

### **17.1 Darpariaeth bresennol**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi'r gwasanaethau canlynol fel y rhai sy'n angenrheidiol er mwyn diwallu'r angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal:

- Gwasanaethau hanfodol, uwch ac ychwanegol yn cael eu darparu ym mhob safle a gynhwysir ar y rhestrau fferyllol
- Y gwasanaeth gweinyddu a ddarperir gan y practisau meddygon teulu hynny yn cael ei gynnwys yn y rhestr meddygon fferyllol.

Mae adrannau blaenorol o'r ddogfen hon wedi nodi lle y darperir y gwasanaethau hyn ym mhob ardal.

Mae hefyd wedi nodi bod y gwasanaethau uchod yn cael eu darparu gan gontractwyr y tu allan i'w ardal, boed hynny yng Nghymru neu Loegr, sy'n ychwanegu at ddiwallu'r angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal.

### **17.2 Gwasanaethau eraill y GIG**

Wrth ymgymryd â'r PNA hwn mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ystyried bod y gwasanaethau GIG eraill canlynol yn creu'r angen am wasanaethau fferyllol, ac mae wedi'u hystyried:

- Fferyllfeydd mewn ysbytai - lleihau'r angen am y gwasanaeth gweinyddu hanfodol oherwydd caiff presgripsiynau a ysgrifennir yn yr ysbyty eu gweinyddu gan wasanaeth fferyllfa'r ysbyty.
- Gweinyddu eitemau yn bersonol gan feddygon teulu - yn debyg i fferyllfeydd ysbyty, mae hyn hefyd yn lleihau'r galw ar y gwasanaeth gweinyddu hanfodol. Caiff eitemau eu cyrchu a'u gweinyddu'n bersonol gan feddygon teulu a chlinigwyr eraill yn y practis, gan arbed clefion rhag gorfod mynd â phresgripsiwn i fferyllfa, er enghraifft ar gyfer brechlyn, ac wedyn gorfod dychwelyd gyda'r brechlyn i'r practis er mwyn iddo gael ei weinyddu.
- Gofal Sylfaenol Brys - Gwasanaeth Tu Allan i Oriau (CAF 24/7) - bydd p'un a fydd claf yn cael cwrs llawn o driniaeth neu gwrs rhannol o driniaeth ar ôl cael ei weld gan y Gwasanaeth Tu Allan i Oriau neu'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty'r Barri, yn dibynnu ar natur ei gyflwr. Bydd y gwasanaeth hwn felly yn gofyn am yr angen am wasanaethau fferyllol, yn enwedig y gwasanaeth gweinyddu hanfodol.

Ymhellach, wrth i gleifion gael eu cyfeirio at y gwasanaethau iawn drwy'r system un alwad, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynyddu'r angen ar gyfer pob gwasanaeth fferyllol.

- Fferyllfeydd mewn carchardai - lleihau'r galw ar y gwasanaeth gweinyddu hanfodol gan nad yw presgripsiynau a ysgrifennir yng Ngharchar Ei Mawrhydi Caerdydd yn cael eu gweinyddu gan fferyllfeydd cymunedol neu gontractwyr cyfarpar gweinyddu.
- Presgripsiynwyr annibynnol - yn debygol o gynyddu dros y pum mlynedd nesaf, a allai gael effaith ddilynol ar yr angen am wasanaethau fferyllol, yn enwedig y gwasanaeth gweinyddu hanfodol, wrth i fwy o gleifion gael eu trin.
- System gorchuddion y Gwasanaeth Archebu Ar-lein Heb Bresgripsiwn (ONPOS) – bydd hyn yn lleihau'r angen am orchuddion ar bresgripsiwn i lawer o gleifion, ac felly'r galw am y gwasanaeth gweinyddu hanfodol. Fodd bynnag, bydd angen presgripsiwn o hyd ar gyfer goruchuddion nad ydynt yn y llyfr fformiwlâu.

## **17.3 Bylchau mewn darpariaeth ar hyn o bryd**

### **17.3.1 Mynediad i wasanaethau hanfodol ar hyn o bryd**

Er mwyn asesu'r gwasanaethau hanfodol a ddarperir yn erbyn anghenion y boblogaeth, ystyriodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro mai mynediad (amseroedd teithio ac oriau agor) oedd y ffactor pwysicaf wrth bennu i ba raddau roedd y gwasanaethau hanfodol a ddarperir ar hyn o bryd yn diffinio anghenion y boblogaeth.

#### **17.3.1.1. Mynediad i wasanaethau hanfodol yn ystod oriau gwaith arferol**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi bod mwyafrif helaeth y boblogaeth yn gallu cyrraedd fferyllfa yn ystod oriau gwaith arferol o fewn 20 munud. Gall y mwyafrif gael mynediad at fferyllfa o fewn pum i 10 munud yn y car. Er y dylid nodi nad oes gan bob cartref fynediad at gar, mae natur y clystyrau yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai na allant wneud y daith gyfan ar droed. Fodd bynnag, yn ardaloedd mwy gwledig clwstwr Gorllewin y Fro a Chanol y Fro, mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig. Er ei bod yn debygol bod nifer uchel o bobl yn berchen ar gar, gallai'r rhai nad oes ganddynt gar ac yn enwedig yr henoed, ei chael yn anodd cael mynediad at fferyllfa. Bydd gan y rhan fwyaf o fferyllfeydd yn y clystyrau hyn drefniadau ar waith sy'n golygu y gellir cael mynediad prydlon at feddyginiaethau ar gyfer y rhai sy'n gaeth i'w cartrefi neu y gallent ei chael yn anodd cyrraedd fferyllfa.

O ran oriau agor, rhaid i bob fferyllfa agor am isafswm o 40 awr er mwyn cyflawni eu rhwymedigaeth gontractiol. Yn gyffredinol, mae'r oriau craidd hyn yn rhan o'r oriau gwaith arferol.

**Yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael ar adeg datblygu'r PNA hwn, ni chafodd unrhyw fylchau eu nodi yn y gwasanaethau hanfodol a ddarperir ar hyn o bryd yn unrhyw un o'r naw clwstwr (ardaloedd y PNA).**

### 17.3.1.2. Mynediad i wasanaethau hanfodol y tu allan i oriau gwaith arferol

Ceir mynediad da i wasanaethau hanfodol y tu allan i oriau gwaith arferol, gan fod fferyllfeydd yn cynnig oriau agor estynedig gyda'r nos ac ar y penwythnosau:

- Mae 15 fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos.
- Mae 19 fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.
- Mae 33 fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn.
- 39 fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y fferyllfeydd fesul clwstwr lle darperir gwasanaethau fferyllol.

Clwstwr	Ar agor 7 diwrnod yr wythnos	Ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn	Ar agor o ddydd Llun i ddydd	
			Gwener, yn rhannol ar ddydd Sadwrn	Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener
Gogledd Caerdydd	3	3	2	10
Dwyrain Caerdydd	1	1	5	3
Gorllewin Caerdydd	1	3	6	3
De-orllewin Caerdydd	1	2	2	5
De-ddwyrain Caerdydd	2	3	5	6
Dinas a De Caerdydd	3	1	1	5
Canol y Fro	2	1	6	5
Dwyrain y Fro	2	2	3	2
Gorllewin y Fro	0	3	3	0

Y tu allan i oriau gwaith arferol, bydd y gwasanaeth y Tu Allan i Oriau a'r gwasanaeth CAF 24/7 yn cynnig cyrsiau o driniaeth lle bo'n briodol.

Mae Atodiad L wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau.

Dangosodd yr holiadur ymgysylltu â'r claf a'r cyhoedd nad oes gan y rhan fwyaf o ymatebwyr ffafriaeth o ran pryd yw'r amser gorau (37%) neu'r diwrnod gorau (52%) i ddefnyddio fferyllfa. O blith yr ymatebion oedd yn weddill, roedd yn well gan 42% ddefnyddio fferyllfa rhwng 9am a 6pm, a rhwng 2pm i 6pm oedd yr amser mwyaf poblogaidd (21%), wedi'i ddilyn gan 6pm i 9pm (17%). Lle nodwyd diwrnod,

diwrnodau'r wythnos oedd yr amser mwyaf cyfleus i ymatebwyr ymweld â fferyllfa (19%), wedi'i ddilyn gan y penwythnosau'n gyffredinol (11%) yn hytrach na diwrnodau penodol. Roedd yn well gan ymatebwyr eraill ddiwrnod penodol o'r wythnos, a dydd Sadwrn oedd y dewis mwyaf poblogaidd (6%).

Yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael ar adeg datblygu'r PNA hwn, ni chafodd unrhyw fylchau eu nodi yn y gwasanaethau hanfodol a ddarperir ar hyn o bryd y tu allan i oriau gwaith arferol yn unrhyw un o'r naw clwstwr (ardaloedd y PNA).

### **17.3.2 Mynediad i wasanaethau uwch ar hyn o bryd**

Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o'r farn bod y gwasanaethau uwch canlynol yn angenrheidiol:

- Adolygiadau o'r defnydd o feddyginiaethau
- Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau'r claf

Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar adeg drafftio'r asesiad o anghenion fferyllol, fod y gwasanaeth MUR wedi'i atal dros dro gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i bandemig y coronafeirws (COVID-19), ac roedd yn ansicr o hyd pryd y fyddai'n ailddechrau. Er nad oedd y gwasanaeth DMR wedi'i atal dros dro, nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y byddai pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir a'r angen am y gwasanaeth uwch hwn.

Bydd y galw am y gwasanaeth uwch Adolygiad o'r Defnydd o Gyfarpar a'r gwasanaeth uwch Teilwra Cyfarpar Stoma yn is nag ar gyfer gwasanaethau uwch eraill, oherwydd y gyfran sylweddol lai o'r boblogaeth y gallai fod angen y gwasanaethau hyn arnynt. At hynny, mae'r gwasanaethau hyn, yn gyffredinol, yn cael eu darparu gan gontractwyr cyfarpar sydd wedi'u lleoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro neu yn Lloegr.

Yn seiliedig ar y data sydd ar gael, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon bod digon o gapasiti i fodloni'r galw am y gwasanaethau uwch hyn.

Yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael ar adeg datblygu'r PNA hwn, ni chafodd unrhyw fylchau eu nodi yn y gwasanaethau uwch a ddarperir ar hyn o bryd yn unrhyw un o'r naw clwstwr (ardaloedd y PNA), sef gwasanaeth yr Adolygiad o'r Defnydd o Feddyginiaethau a'r Adolygiad o Feddyginiaethau wrth Ryddhau'r Claf.

### **17.3.3 Mynediad i wasanaethau ychwanegol ar hyn o bryd**

Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar adeg drafftio'r asesiad o anghenion fferyllol, fod llawer o'r gwasanaethau ychwanegol a ddarperir wedi'u hatal dros dro o ganlyniad i bandemig y coronafeirws (COVID-19). Yn seiliedig ar y data

sydd ar gael, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon bod digon o gapasiti i fodloni'r galw am y gwasanaethau ychwanegol.

Yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael ar adeg datblygu'r PNA hwn, ni chafodd unrhyw fylchau eu nodi yn y gwasanaethau ychwanegol a ddarperir ar hyn o bryd yn unrhyw un o'r naw clwstwr (ardaloedd y PNA).

#### **17.3.4 Mynediad i'r gwasanaeth gweinyddu gan feddygon teulu**

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn caniatáu i feddygon weinyddu i gleifion cymwys o dan amgylchiadau penodol.

- Rhaid bod cleifion yn byw mewn 'ardal wedi'i rheoli' (ardal sydd wedi'i phennu gan y bwrdd iechyd neu sefydliad blaenorol fel un sy'n wledig o ran ei chymeriad, neu gan apêl gan Weinidogion Cymru), sy'n fwy na 1.6m (wedi'i fesur mewn llinell syth) o fferyllfa
- Rhaid bod gan eu practis gymeradwyaeth eiddo a chaniatâd amlinellol i weinyddu i'r ardal honno.

Nodwyd bod yr un practis meddyg fferyllol yn gweinyddu i 372 o'i gleifion cofrestredig (5% o gyfanswm maint rhestr y practis) ac yn darparu gwasanaeth gweinyddu penodol i fyfyrwyr a oedd yn byw yng Ngholeg yr Iwerydd, Sain Dunwyd. Cadarnhaodd y practis fod ganddo ddigon o gapasiti o fewn ei adeilad presennol a digon o staff i ddelio â chynnydd mewn galw yn yr ardal pe bai angen. Fodd bynnag, byddai hyn yn dibynnu ar y telerau a nodir yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

Yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael ar adeg datblygu'r PNA hwn, ni chafodd unrhyw fylchau eu nodi yn y gwasanaethau gweinyddu a ddarperir gan feddygon teulu.

#### **17.4 Bylchau mewn darpariaeth yn y dyfodol**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi ystyried y datblygiadau canlynol y gwyddys amdanynt yn y dyfodol:

- Twf rhagweledig yn y boblogaeth
- Datblygiadau clwstwr fel tai

##### **17.4.1 Mynediad i wasanaethau hanfodol yn y dyfodol**

###### **17.4.1.1. Mynediad i wasanaethau hanfodol yn ystod oriau gwaith arferol**

Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y cyfleoedd cyflogaeth strategol a'r datblygiadau tai a gynlluniwyd o fewn clystyrau'r bwrdd iechyd a gwybodaeth fonitro briodol. Ar yr adeg hon, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon nad oes unrhyw wybodaeth na reswm i ddod i'r casgliad, yn ystod oes y PNA hwn a'r datblygiadau, y byddai angen heb ei ddiwallu a fyddai'n gofyn am wasanaethau

fferyllol ychwanegol. At hynny, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fodlon, yn seiliedig ar yr ymatebion i'r holiadur i fferyllwyr ar gontract, y bydd y galw y bydd hyn yn ei greu yn gallu cael ei fodloni gan fferyllfeydd presennol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro felly wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion yn y dyfodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd o fewn y bwrdd iechyd.

**Yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael ar adeg datblygu'r PNA hwn, ni chafodd unrhyw fylchau eu nodi yn y gwasanaethau hanfodol a ddarperir yn y dyfodol yn unrhyw un o'r naw clwstwr (ardaloedd y PNA).**

#### **17.4.1.2. Mynediad i wasanaethau hanfodol y tu allan i oriau gwaith arferol**

Gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ystyried y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd fel y nodir yn y ddogfen hon, ac nid yw wedi nodi unrhyw wasanaethau y byddent, pe caent eu darparu ar hyn o bryd neu o dan amgylchiadau penodol yn y dyfodol, yn gofyn am welliannau i wasanaethau hanfodol, neu well mynediad iddynt.

O ran oriau agor, mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw'r hawl i wahodd a/neu gyfeirio fferyllwyr ar gontract presennol i addasu eu horiau agor er mwyn diwallu unrhyw anghenion yn y dyfodol o ran mynediad.

**Yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael ar adeg datblygu'r PNA hwn, ni chafodd unrhyw fylchau eu nodi yn y dyfodol yn y gwasanaethau hanfodol a ddarperir y tu allan i oriau gwaith arferol yn unrhyw un o'r naw clwstwr (ardaloedd y PNA).**

#### **17.4.2 Mynediad i wasanaethau uwch yn y dyfodol**

O'r data sydd ar gael, nid yw pob fferyllfa yn darparu'r holl wasanaethau uwch. At hynny, o safbwynt y rhai sy'n darparu'r gwasanaethau uwch ar hyn o bryd, nid yw pob un ohonynt yn cwblhau'r uchafswm y gallant ei wneud bob blwyddyn. Yn ogystal, fel rhan o'r newidiadau i'r fframwaith contractiol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yn 2021, mae'r terfyn ar nifer y DMRs a dalwyd wedi'i dynnu, sy'n golygu y gellir cynnal mwy o DMRs bob blwyddyn.

Bydd y galw am y gwasanaeth uwch Adolygiad o'r Defnydd o Gyfarpar a'r gwasanaeth uwch Teilwra Cyfarpar Stoma yn is nag ar gyfer gwasanaethau uwch eraill, oherwydd y gyfran sylweddol lai o'r boblogaeth y gallai fod angen y gwasanaethau hyn arnynt. At hynny, mae'r gwasanaethau hyn, yn gyffredinol, yn cael eu darparu gan gontractwyr cyfarpar sydd wedi'u lleoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro neu yn Lloegr.

**Yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael ar adeg datblygu'r PNA hwn, ni chafodd unrhyw fylchau eu nodi yn y gwasanaethau uwch a ddarperir ar hyn o bryd yn**

unrhyw un o'r naw clwstwr (ardaloedd y PNA), sef gwasanaeth yr Adolygiad o'r Defnydd o Feddyginiaethau a'r Adolygiad o Feddyginiaethau wrth Ryddhau'r Claf.

### **17.4.3 Mynediad i wasanaethau ychwanegol yn y dyfodol**

Nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi unrhyw wasanaethau ychwanegol na chânt eu darparu ar hyn o bryd, ond y bydd angen eu darparu, o dan amgylchiadau penodol yn y dyfodol, er mwyn sicrhau gwelliannau neu fynediad gwell i wasanaethau fferyllol.

Yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael ar adeg datblygu'r PNA hwn, ni chafodd unrhyw fylchau eu nodi o safbwynt sicrhau gwelliannau i wasanaethau ychwanegol neu well mynediad iddynt, o dan amgylchiadau penodol yn y dyfodol, yn unrhyw un o'r naw clwstwr (ardaloedd y PNA).

### **17.4.4 Mynediad i'r gwasanaeth gweinyddu gan feddygon teulu yn y dyfodol**

Gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ystyried y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd fel y nodir yn y ddogfen hon, ac nid yw wedi nodi unrhyw wasanaethau y byddent, pe caent eu darparu ar hyn o bryd neu o dan amgylchiadau penodol yn y dyfodol, yn gofyn am welliannau i wasanaethau hanfodol, neu well mynediad iddynt.

Yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael ar adeg datblygu'r PNA hwn, ni chafodd unrhyw fylchau eu nodi o safbwynt mynediad yn y dyfodol i'r gwasanaeth gweinyddu gan feddygon teulu, yn unrhyw un o'r naw clwstwr (ardaloedd y PNA).

## **Atodiad A - cyd-destun y polisi a phapurau cefndir**

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod y strwythur cyffredinol y mae fferyllfeydd cymunedol, contractwyr cyfarpar gweinyddu a meddygon fferyllol yn gweithredu o'i fewn, drwy ddarparu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi. O fewn y fframwaith, cyfrifoldeb y byrddau iechyd yw cynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol, a rhaid iddynt gynllunio eu gwasanaethau iechyd i ddiwallu anghenion eu poblogaethau preswyl. Mae hyn yn cynnwys pennu nifer a lleoliad fferyllfeydd a chontractwyr cyfarpar gweinyddu yn eu hardaloedd.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol i sicrhau y darperir gwasanaethau fferyllol, yn debyg i agweddau eraill ar wasanaethau gofal syfaenol y GIG, wedi'i gyflwyno'n uniongyrchol i fyrddau iechyd o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (Deddf 2006). Mae byrddau iechyd yn rheoli rhestrau lleol o ddarparwyr cymeradwy, y cyfeirir atynt fel rhestrau fferyllol, ac mae cynnwys fferyllfeydd a safleoedd contractwyr cyfarpar gweinyddu ar restrau fferyllol yn golygu y gall contractwyr ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG ar y safleoedd hynny.

Mae'r trefniadau hyn yn llywodraethu'r broses o ddarparu gwasanaethau fferyllol, ac nid yr hawl i agor a chynnal busnes fferyllol yng Nghymru. Ymdrinnir â hyn o dan ddeddfwriaeth ar wahân ar draws y DU, Deddf Meddyginiaethau 1968.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau a dyletswyddau helaeth i wneud rheoliadau ac i roi cyfarwyddiadau i fyrddau iechyd, sy'n llywodraethu manylion y system gwasanaethau fferyllol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys dynodi telerau gwasanaeth fferyllfeydd a chontractwyr cyfarpar gweinyddu, a'r broses o gymhwyso'r prawf rheoli mynediad, sef y prawf, hyd at 1 Hydref 2021, yr oedd yn rhaid ei fodloni cyn y byddai bwrdd iechyd yn gallu caniatáu cais i fferyllfa neu gontractwr gael eu cynnwys ar y rhestr fferyllol, neu ddiwygio fferyllfa neu gontractwr sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr yn barod.

O dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 (Rheoliadau 2013), a rheoliadau blaenorol, roedd yr unigolion hynny a ddymunai ddarparu gwasanaethau fferyllol yn cyflwyno cais i'r bwrdd iechyd yn unol â Rheoliadau 2013. Yn dilyn hynny, byddai'r bwrdd iechyd yn penderfynu a oedd y cais yn bodloni'r prawf perthnasol ai peidio. Roedd Rheoliadau 2013 yn ei gwneud yn bosibl i benderfyniad y bwrdd iechyd gael ei herio, drwy gyflwyno apêl i Weinidogion Cymru.

Roedd y system flaenorol ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol felly wedi'i llywio gan y rhai a ddymunai ddarparu gwasanaethau fferyllol. Nhw a benderfynai pa wasanaethau yr oeddent am eu darparu ac o ba leoliad.

Roedd hyn yn golygu bod y system yn adweithiol i geisiadau, ac na allai byrddau iechyd gynllunio ble y câi fferyllfeydd neu gontractwyr cyfarpar gweinyddu eu lleoli na chyfeirio pa wasanaethau y byddai'n rhaid eu darparu o'r lleoliadau hynny.

### **Rhesymeg dros newid**

Yn 2010, gwnaeth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r fframwaith rheoliadol, i ystyried polisi Llywodraeth Cymru ar reoli mynediad, a darparu gwasanaethau fferyllol gan broffesiynau iechyd ar wahân i fferyllwyr (e.e. meddygon), ac i wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth, os yn briodol, er mwyn cyflwyno system hirdymor, costeffeithiol a chynaliadwy a fyddai'n rhoi mynediad priodol i gleifion i wasanaethau fferyllol.

Yn 2011, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Roedd yr ymgynghoriad “Cynigion i ddiwygio a moderneiddio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992” yn ceisio safbwyntiau ar gynigion i gyflwyno dull gweithredu newydd ar gyfer penderfynu ar geisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol yng Nghymru, yn seiliedig ar asesiad o anghenion lleol gan fyrddau iechyd. Fodd bynnag, cydnabuwyd, er mwyn creu newid o'r fath, y byddai angen creu a chynnwys pwerau priodol yn Deddf 2006.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, daeth Rheoliadau 2013 i rym ar 10 Mai 2013, ond nid oeddent yn cynnwys darpariaethau i gyflwyno PNAs.

Roedd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Deddf 2017) yn mewnosod adran 82A i Ddeddf 2006, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer dyletswydd newydd i fyrddau iechyd yng Nghymru lunio a chyhoeddi asesiad o'r angen am wasanaethau fferyllol. Rhoddodd adran 82A bwerau i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau yn gosod y gofynion ar gyfer PNAs yng Nghymru.

### **Effaith fwriadedig a chanlyniadau buddiol**

Effaith fwriadedig cyflwyno PNAs yw gwella'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol drwy sicrhau bod byrddau iechyd yn rhoi ystyriaeth gadarn i anghenion fferyllol y boblogaeth ac yn alinio gwasanaethau'n fwy agos â hwy. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ddilyn dull gweithredu mwy integredig er mwyn nodi anghenion fferyllol poblogaethau, gan gynnwys ystyried cyfraniad yr holl ddarparwyr gwasanaethau fferyllol (e.e. fferyllfeydd a meddygon fferyllol). Bydd byrddau iechyd yn defnyddio'r asesiadau hyn i nodi lle mae angen safleoedd ychwanegol, lle mae darparwyr presennol yn mynd i'r afael yn ddigonol ag anghenion fferyllol, a lle mae angen gwasanaethau ychwanegol mewn safleoedd sy'n bodoli eisoes.

Bydd y newid yn rhoi mwy o sicrwydd i gontractwyr, gan leihau risgiau busnes ac yn eu galluogi i fuddsoddi yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau ehangach na'r hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Yn bwysicach, bydd fferyllfeydd yn arbennig yn dod yn fwy ymatebol i anghenion y poblogaethau a wasanaethir ganddynt, ac yn darparu gwasanaethau'n effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion fferyllol a nodwyd.

### **Polisi, fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddio**

Mae Adran 80 o Ddeddf 2006 yn rhoi dyletswydd ar fyrddau iechyd i wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol sydd wedi'u nodi yn isadrannau 80(3)(a) i (d). Mae'r gwasanaethau fferyllol craidd hyn yn wasanaethau gweinyddu yn eu hanfod. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio rheoliadau sy'n llywodraethu'r ffordd y mae byrddau iechyd yn gwneud y trefniadau hyn.

Mae adran 81 o Ddeddf 2006 yn nodi'r trefniadau y gall Gweinidogion Cymru eu gwneud er mwyn darparu gwasanaethau fferyllol atodol (additional). Caiff 'gwasanaethau fferyllol atodol' eu diffinio fel y math o wasanaethau nad ydynt yn perthyn i adran 80 h.y. gwasanaethau uwch (advanced) ac ychwanegol (enhanced). Mae adran 81 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i fwrdd iechyd:

- (i) yn ei gwneud yn ofynnol iddo drefnu ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol atodol, neu
- (ii) yn awdurdodi'r bwrdd iechyd i drefnu bod gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu os yw'n dymuno.

Mae adran 83 o Ddeddf 2006 yn cynnwys craidd pwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru, o ran darparu gwasanaethau fferyllol, ac ymhlith pethau eraill, yn datgan bod yn rhaid i reoliadau ei gwneud yn ofynnol i fwrdd iechyd baratoi a chyhoeddi rhestr fferyllol, ac yn nodi'r profion y mae'n rhaid i'r unigolion hynny sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol eu cyflawni er mwyn gwneud hynny (gelwir yn 'brawf rheoli mynediad').

Mae adran 84 yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn darparu ar gyfer hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan fyrdau iechyd wrth arfer pwerau a roddir iddynt gan reoliadau a wneir o dan adran 83.

Gwnaeth rhan 7 o Ddeddf 2017 ddarpariaeth i ddiwygio Deddf 2006 o ran gwasanaethau fferyllol. Roedd adran 111 o Ddeddf 2017 yn gosod adran 82A newydd yn Neddf 2006 a oedd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o ran PNAs. Daeth Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 4) 2019 â Rhan 7 o Ddeddf 2017 i rym ar 1 Ebrill 2019. O ganlyniad, mae Gweinidogion Cymru bellach wedi cyflwyno is-ddeddfwriaeth sy'n gosod y gofynion ar gyfer PNAs yng Nghymru.

Cafodd Rheoliadau 2013 eu diddymu a'u disodli gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Mae Rhan 2 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 2020 yn gosod gofynion cyfreithiol ar fyrdau iechyd i gwblhau PNAs.

Daeth Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 i rym ar 1 Hydref 2020 ac mae gan fyrdau iechyd hyd at 1 Hydref 2021 i gyhoeddi eu PNA cyntaf.

Yn gryno, mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn nodi'r canlynol:

- Y gwasanaethau y mae'n rhaid eu cwmpasu gan y PNA
- Gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y PNA (dylid nodi bod hawl gan fyrdau iechyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol yn eu barn hwy)
- Y dyddiad y mae'n rhaid i fyrdau iechyd gyhoeddi eu PNA cyntaf
- Gofyniad ar fyrdau iechyd i gyhoeddi PNAs pellach bob pum mlynedd
- Gofyniad i gyhoeddi asesiad diwygiedig yn gynt na bob pum mlynedd mewn rhai amgylchiadau
- Gofyniad i gyhoeddi datganiadau atodol mewn rhai amgylchiadau
- Gofyniad i ymgynghori â phobl a sefydliadau penodol o leiaf unwaith yn ystod y broses o lunio PNA, am o leiaf 60 diwrnod; a
- Materion y dylai'r bwrdd iechyd roi sylw iddynt wrth lunio PNA.

Unwaith y bydd bwrdd iechyd wedi llunio ei PNA cyntaf, bydd yn ofynnol iddo lunio PNA diwygiedig o fewn pum mlynedd neu'n gynt os bydd yn nodi newidiadau i'r angen am wasanaethau fferyllol, sydd o raddau sylweddol. Yr unig eithriad i hyn yw lle mae'r bwrdd iechyd yn fodlon y byddai llunio PNA diwygiedig yn ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny.

Yn ogystal, gall bwrdd iechyd gyhoeddi datganiad atodol lle mae'n nodi newidiadau i argaeledd gwasanaethau fferyllol sy'n berthnasol i gadarnhau ceisiadau y cyfeirir atynt yn adran 83 o Ddeddf 2006, ac

- Mae'n fodlon y byddai llunio asesiad diwygiedig yn ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny, neu

- Mae wrthi'n gwneud asesiad diwygiedig ac mae'n fodlon bod addasu ei PNA ar unwaith yn hanfodol er mwyn sicrhau nad effeithir yn negyddol ar y gwasanaethau fferyllol a ddarperir yn ei ardal.

### **Datblygu'r gofynion manwl**

Sefydlwyd gweithgor ym mis Tachwedd 2015 i ddatblygu'r gofynion manwl ar gyfer cynnal PNA, ac i adolygu a diwygio'r profion a'r gweithdrefnau fel y maent yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG. Roedd y grŵp, a gyfarfu ar nifer o achlysuron, yn cynnwys arweinwyr fferyllol y bwrdd iechyd oedd â gwybodaeth am y system rheoli mynediad flaenorol ac arbenigedd mewn fferylliaeth gymunedol, arweinwyr gofal sylfaenol (fferylliaeth) o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, sydd ag arbenigedd yn y broses o benderfynu ar geisiadau rheoli mynediad, a staff Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru ar PNAs, yn cynnwys y cynigion canlyniadol a geir o fewn Rheoliadau'r Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

## Atodiad B - gwasanaethau hanfodol

### 1. Gweinyddu presgripsiynau

#### Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu meddyginiaethau a chyfarpar a archebwyd ar bresgripsiynau'r GIG, ynghyd â gwybodaeth a chyngor, er mwyn i gleifion allu eu defnyddio'n ddiogel ac effeithiol, a chynnal cofnodion priodol.

#### Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Sicrhau bod cleifion yn derbyn meddyginiaethau a chyfarpar yn ddiogel ac yn briodol gan y fferyllfa:

- Cynnal gwiriadau cyfreithiol, clinigol a chywirdeb priodol
- Cynnal systemau gweithredu diogel, yn unol â gofynion llywodraethu clinigol
- Bod â systemau ar waith i sicrhau cywirdeb y cynhyrchion a ddarperir
- Cynnal cofnod o'r holl feddyginiaethau a chyfarpar a ddarparwyd sy'n gallu cael eu defnyddio i helpu gofal cleifion yn y dyfodol.
- Cynnal cofnod o'r cyngor a roddwyd, a'r ymyriadau ac atgyfeiriadau a wnaed, lle mae'r fferylllydd o'r farn eu bod yn briodol yn glinigol.

Sicrhau bod cleifion yn gallu defnyddio eu meddyginiaethau a'u cyfarpar yn effeithiol gan staff y fferyllfa:

- Darparu gwybodaeth a chyngor i'r claf neu ei gynrychiolydd ar sut i ddefnyddio ei feddyginiaeth neu gyfarpar yn ddiogel
- Lle bo'n briodol, darparu cyngor ehangach i'r claf ar y feddyginiaeth, er enghraifft, ei sgil-effeithiau posibl a rhyngweithiadau sylweddol â sylweddau eraill.

### 2. Gweinyddu presgripsiynau amlroddadwy

#### Disgrifiad o'r gwasanaeth

Rheoli a gweinyddu presgripsiynau amlroddadwy y GIG ar gyfer meddyginiaethau a chyfarpar mewn partneriaeth â'r claf a'r presgripsiynwr.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys gofynion sy'n ychwanegol at y rhai ar gyfer gweinyddu, megis bod y fferylllydd yn cadarnhau angen y claf am gyflenwad rheolaidd ac yn cyfleu unrhyw faterion clinigol sylweddol i'r presgripsiynwr.

#### Nodau a chanlyniadau bwriadedig

- Cynyddu dewis cleifion a chyfleustra, drwy eu galluogi i gael eu meddyginiaethau rheolaidd a'u cyfarpar rheolaidd ar bresgripsiwn yn uniongyrchol gan y fferyllfa gymunedol am gyfnod y cytunir arno gan y presgripsiynwr
- Lleihau gwastraff drwy leihau nifer y meddyginiaethau a chyfarpar a weinyddir nad oes eu hangen ar y claf
- Lleihau baich gwaith practisau meddygaeth gyffredinol, drwy leihau baich rheoli presgripsiynau rheolaidd.

### **3. Cael gwared ar gyffuriau nad oes eu hangen**

#### **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Bod fferyllfeydd cymunedol yn derbyn meddyginiaethau nad oes eu hangen, y mae'n ofynnol i'w gwaredu'n ddiogel o gartrefi preifat ac oddi wrth bobl sy'n byw mewn cartref gofal preswyl. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd drefnu bod meddyginiaethau gwastraff mewn fferyllfeydd yn cael eu casglu a'u gwaredu.

#### **Nodau a chanlyniadau bwriadedig**

- Sicrhau bod gan y cyhoedd ddull hawdd a diogel o gael gwared ar feddyginiaethau nad oes eu hangen
- Lleihau swm y meddyginiaethau nad oes eu hangen sy'n cael eu storio yng nghartrefi pobl, drwy ddarparu llwybr i'w gwaredu, gan leihau'r risg o wenwyno damweiniol yn y cartref a dargyfeirio meddyginiaethau at bobl nad ydynt wedi'u hawdurdodi i feddu arnynt
- Lleihau'r risg bod y cyhoedd yn dod i gysylltiad â meddyginiaethau nad oes eu hangen, sydd wedi cael eu gwaredu drwy ddulliau anniogel
- Lleihau niwed i'r amgylchedd a achosir gan ddulliau amhriodol o waredu meddyginiaethau nad oes eu hangen.

### **4. Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw**

#### **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Darparu cyngor iechyd y cyhoedd a chynghor ar fyw'n iach i gleifion sy'n derbyn presgripsiynau, yr ymddengys fod ganddynt y canlynol:

- Diabetes; neu
- Eu bod yn wynebu risg o glefyd coronaidd y galon, yn enwedig y rhai â phwysedd gwaed uchel; neu
- Sy'n ysmegu; neu
- Sydd dros bwysau,

a chyfranogiad rhagweithiol mewn ymgyrchoedd cenedlaethol/lleol, i hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ymwelwyr â fferyllfeydd cyffredinol yn ystod cyfnodau ymgyrchu penodol wedi'u targedu

#### **Nodau a chanlyniadau bwriadedig**

- Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth cleifion a'r cyhoedd o negeseuon allweddol o ran iechyd y cyhoedd a ffordd o fyw iach, fel eu bod wedi'u grymuso i gymryd camau a fydd yn gwella eu hiechyd.
- Targedu sectorau 'anodd eu cyrraedd' y boblogaeth, nad ydynt yn dod i gysylltiad yn aml â gweithgareddau hybu iechyd mewn rhannau eraill o'r sector iechyd neu ofal cymdeithasol.

### **5. Cyfeirio**

#### **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Rhoi gwybodaeth i bobl sy'n ymweld â'r fferyllfa, y mae angen cymorth, cyngor neu driniaeth bellach arnynt, na ellir eu darparu gan y fferyllfa, ond sydd ar gael gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill, neu sefydliadau cymorth a allai helpu'r unigolyn. Lle bo'n briodol, gallai hyn fod ar ffurf atgyfeiriad.

### **Nodau a chanlyniadau bwriadedig**

- Rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl sydd angen cymorth, na ellir ei roi gan y fferyllfa, ynghylch darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol neu sefydliadau cymorth eraill
- Galluogi pobl i gysylltu â/cael gafael ar ofal a chymorth pellach sy'n briodol i'w hanghenion
- Lleihau defnydd amhriodol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## **6. Cymorth ar gyfer hunanofal**

### **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Staff fferyllfeydd yn darparu cyngor a chymorth i alluogi pobl i gael y budd mwyaf posibl o ofalu am eu hunain neu eu teuluoedd.

### **Nodau a chanlyniadau bwriadedig**

- Gwella mynediad a dewis i bobl sy'n dymuno gofalu am eu hunain neu eu teuluoedd
- Bod pobl, yn cynnwys gofalwyr, yn cael cyngor priodol i'w helpu i hunanreoli cyflwr hunan-gyfyngol neu hirdymor, gan gynnwys rhoi cyngor ar ddewis a defnyddio unrhyw feddyginiaethau priodol
- Bod pobl, yn cynnwys gofalwyr, yn cael cynnig cyngor ar hybu iechyd, lle bo'n briodol, yn unol â'r cyngor a ddarperir mewn gwasanaeth hanfodol - gwasanaeth hybu ffyrdd o fyw iach
- Bod pobl, yn cynnwys gofalwyr, yn gallu gofalu am eu hunain yn well neu reoli gyflwr ar unwaith neu yn y dyfodol, drwy fod yn fwy gwybodus am yr opsiynau triniaeth sydd ganddynt, yn cynnwys rhai nad ydynt yn fferyllol
- Lleihau defnydd amhriodol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## **Atodiad C - gwasanaethau uwch**

### **1. Y gwasanaeth Adolygu'r Defnydd o Feddyginiaethau ac Ymyrryd o ran Presgripsiynau**

#### **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys MURs a gynhelir yn gyfnodol, yn ogystal â'r rhai sy'n codi mewn ymateb i'r angen i ymyrryd yn sylweddol o ran presgripsiynau, yn ystod y broses weinyddu. Mae MUR yn ymwneud â helpu cleifion i ddefnyddio eu meddyginiaethau'n fwy effeithiol.

Gallai argymhellion a wneir i bresgripsiynwyr hefyd ymwneud ag effeithiolrwydd clinigol neu gosteffeithiolrwydd triniaeth.

#### **Nodau a chanlyniadau bwriadedig**

Gwella gwybodaeth cleifion a'u defnydd o feddyginiaethau drwy'r ffyrdd canlynol:

- Pennu defnydd gwirioneddol y claf o'r feddyginiaeth, ei ddealltwriaeth ohoni a'i brofiad o'i chymryd;
- Nodi, trafod a helpu i ddatrys defnydd gwael neu aneffeithiol o feddyginiaeth;
- Nodi sgil-efeithiau a rhyngweithiadau cyffuriau a allai effeithio ar gydymffurfiaeth y claf;
- Gwella effeithiolrwydd clinigol a chosteffeithiolrwydd meddyginiaethau a bresgripsiynwyd, gan leihau gwastraff meddyginiaethau.

Cafodd y gwasanaeth hwn ei atal dros dro ym mis Tachwedd 2020 hyd y ceir hysbysiad pellach.

### **2. Y gwasanaeth adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau'r claf**

#### **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Bydd y gwasanaeth DMR yn darparu cymorth i gleifion sydd wedi cael eu rhyddhau'n ddiweddar rhwng lleoliadau gofal, drwy sicrhau bod newidiadau i feddyginiaethau cleifion a wneir mewn un lleoliad gofal (e.e. yn ystod derbynriad i'r ysbyty), yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd yn y gymuned, gan helpu i leihau'r risg o broblemau y gellir eu hatal sy'n ymwneud â meddyginiaethau, a chefnogi pobl i lynu wrth meddyginiaeth newydd a bresgripsiynwyd. Bydd y gwasanaeth, sy'n adeiladu ar y gwasanaeth MUR sy'n bodoli eisoes, yn gyfle i gefnogi cleifion i wella eu gwybodaeth am gyffuriau a'u defnydd ohonynt.

#### **Nodau a chanlyniadau bwriadedig**

Diben sylfaenol y broses hon, gyda chytundeb y claf, yw cyfrannu at leihau'r risg o wallau mewn perthynas â meddyginiaethau a digwyddiadau negyddol mewn perthynas â chyffuriau, yn enwedig -

- Cynyddu argaeledd gwybodaeth gywir am feddyginiaethau claf,
- Gwella dulliau cyfathrebu rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac eraill sy'n ymwneud â throsglwyddo gofal cleifion, a chelfion a'u gofalwyr

- Cynyddu cyfraniad y claf at ei ofal ei hun drwy ei helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'i feddyginiaethau, a
- Lleihau'r tebygolrwydd o weinyddu presgripsiynau diangen, neu ddwywaith, gan leihau gwastraff meddyginiaethau.

Gall fferyllwyr ar contract hawlio uchafswm o 140 o adolygiadau o feddyginiaethau wrth ryddhau'r claf fesul fferyllfa, ar gyfer y cyfnod yn dechrau 1 Ebrill ac yn gorffen 31 Mawrth o unrhyw flwyddyn ariannol.

### **3. Gwasanaeth teilwra cyfarpar stoma (SAC)**

#### **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Teilwra cyfarpar stoma yw'r broses o deilwra mwy nag un cyfarpar stoma, lle:

- Mae'r cyfarpar stoma i'w deilwra wedi'i restru yn Rhan IXC o'r Tariff Cyffuriau
- Mae'r broses deilwra'n cynnwys addasu i'r un fanyleb o union yr un rannau lluosog i'w defnyddio gyda chyfarpar; ac
- Mae addasu'n seiliedig ar fesuriad neu gofnod y claf o'r mesuriadau hynny, ac os yn gymwys, templed.

#### **Nodau a chanlyniadau bwriadedig**

Diben sylfaenol y broses hon yw:

- Sicrhau'r defnydd priodol o'r cyfarpar stoma gan y claf a'r broses o'i osod yn gyfforddus; a
- Gwella cyfnod defnyddio'r cyfarpar, gan leihau gwastraff cyfarpar o'r fath.

### **4. Adolygiad o'r defnydd o gyfarpar**

#### **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Mae adolygiad o'r defnydd o gyfarpar yn golygu helpu cleifion i ddefnyddio eu cyfarpar yn fwy effeithiol. Gallai argymhellion a wneir i bresgripsiynwyr hefyd ymwneud ag effeithiolrwydd clinigol neu gosteffeithiolrwydd triniaeth.

#### **Nodau a chanlyniadau bwriadedig**

Diben sylfaenol y gwasanaeth, gyda chytundeb y claf, yw gwella gwybodaeth y claf am unrhyw gyfarpar penodedig, a'i ddefnydd ohono, yn arbennig:

- Pennu'r ffordd y mae'r claf yn defnyddio'r cyfarpar penodedig a phrofiad y claf o'r defnydd
- Nodi, trafod a helpu i ddatrys defnydd gwael neu aneffeithiol o'r cyfarpar penodedig gan y claf
- Rhoi cyngor i'r claf ar sut i storio'r cyfarpar penodedig yn ddiogel ac yn briodol
- Rhoi cyngor i'r claf ar sut i waredu'r cyfarpar penodedig sydd wedi'i ddefnyddio, neu sy'n ddiangen, mewn ffordd ddiogel a digonol

Mae cyfanswm nifer yr adolygiadau o'r defnydd o gyfarpar y gall contractwr cyfarpar neu feddyg fferyllol hawlio ffioedd amdanynt yn gyfyngedig i un am bob 35 eitem ar bresgripsiwn

Rhan IXA (eitemau cymwys), Rhan IXB a Rhan IXC a weinyddir ar gyfer y cyfnod yn cychwyn ar 1 Ebrill ac yn gorffen ar 31 Mawrth o fewn unrhyw un flwyddyn.

## Atodiad D - gwasanaethau ychwanegol

1. Diben sylfaenol gwasanaeth monitro gwrthgeulydd yw bod y fferyllydd ar gontract yn profi amser ceulo gwaed y claf, yn adolygu'r canlyniadau ac yn addasu dos y gwrthgeulydd yn briodol (neu'n argymhell addasiad iddo).
2. Gwasanaeth gofal cartref, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar gontract yn rhoi cyngor a chymorth i breswylwyr a staff mewn cartref gofal sy'n ymwneud â'r canlynol -
  - Y dull priodol ac effeithiol o archebu cyffuriau a chyfarpar er budd preswylwyr yn y cartref gofal
  - Defnydd clinigol a chosteffeithiol o gyffuriau
  - Dull priodol ac effeithiol o weinyddu cyffuriau a chyfarpar yn y cartref gofal
  - Dull diogel a phriodol o storio a thrin cyffuriau a chyfarpar
  - Cofnodi'r cyffuriau a'r cyfarpar a gafodd eu harchebu, eu trin, eu gweinyddu, eu storio neu eu gwaredu.
3. Gwasanaeth rheoli clefydau penodol, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar gontract yn rhoi cymorth, yn monitro, ac yn rhoi cyngor ar driniaeth cleifion sydd â chyflyrau penodol, a lle bo'n briodol, yn atgyfeirio'r claf at weithiwr gofal iechyd arall.
4. Gwasanaeth cyflenwi bwyd heb glwten, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar gontract yn cyflenwi bwydydd heb glwten i gleifion.
5. Gwasanaeth dosbarthu i'r cartref, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar gontract yn dosbarthu cyffuriau a chyfarpar (ar wahân i 'gyfarpar penodedig') i gleifion yn eu cartref.
6. Gwasanaeth mynediad at iaith, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar gontract yn rhoi cyngor a chymorth, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i gleifion yn eu dewis iaith, mewn perthynas â'r canlynol -
  - Y cyffuriau maent yn eu defnyddio
  - Eu hiechyd, a
  - Materion iechyd cyffredinol sy'n berthnasol iddynt,a lle bo'n briodol, eu hatgyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.
7. Gwasanaeth adolygiad o feddyginiaethau, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar gontract yn gwneud y canlynol -
  - Cynnal adolygiad o'r cyffuriau a ddefnyddir gan glaf ar sail y wybodaeth a chanlyniadau profion a geir yng nghofnod gofal y claf, gyda'r nod o ystyried priodoldeb ac effeithiolrwydd parhaus y cyffuriau ar gyfer y claf,
  - Rhoi cyngor a chymorth i'r claf ynghylch ei ddefnydd o gyffuriau, yn cynnwys annog y claf i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch ei ddefnydd o gyffuriau, a
  - Lle bo'n briodol, atgyfeirio'r claf at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.
8. Gwasanaeth adolygiad o feddyginiaethau, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar gontract yn gwneud y canlynol -
  - Asesu gwybodaeth ynghylch cydymffurfiaeth cleifion sy'n agored i niwed a chleifion ag anghenion arbennig â chyffuriau, a'u defnydd o gyffuriau

- Cynnig cyngor, cefnogaeth a chymorth i gleifion sy'n agored i niwed a chleifion ag anghenion arbennig ynghylch eu defnydd o gyffuriau, gan anelu at wella eu gwybodaeth ynghylch cydymffurfiaeth â chyffuriau o'r fath, a'u defnydd ohonynt.
9. Cynllun mân anhwylderau, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar gontract yn rhoi cyngor a chymorth i gleifion cymwys sy'n cwyno ynghylch mân anhwylder, a lle bo'n briodol, rhoi cyffuriau i'r claf er mwyn trin y mân anhwylder.
10. Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau a chwistrellau, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar gontract yn gwneud y canlynol -
- Darparu nodwyddau, chwistrellau a deunyddiau cysylltiedig di-haint i gamddefnyddwyr cyffuriau
  - Derbyn nodwyddau, chwistrellau a deunyddiau cysylltiedig sydd wedi'u defnyddio gan gamddefnyddwyr cyffuriau
  - Cynnig cyngor i gamddefnyddwyr cyffuriau, a lle bo'n briodol, atgyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall neu ganolfan trin cyffuriau arbenigol.
11. Gwasanaeth cyffuriau arbenigol sydd ar gael ar gais, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar gontract yn sicrhau bod cleifion neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael mynediad prydlon at gyffuriau arbenigol.
12. Gwasanaeth y tu allan i oriau, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar gontract yn gweinyddu cyffuriau a chyfarpar yn ystod y cyfnod y tu allan i oriau (boed ar gyfer y cyfnod y tu allan i oriau cyfan neu beidio).
13. Gwasanaeth cyfarwyddyd grŵp cleifion, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar gontract yn darparu meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn unig i glaf o dan gyfarwyddyd grŵp cleifion.
14. Gwasanaeth cymorth i bresgripsiynwyr, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar gontract yn cefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n presgripsiynu cyffuriau, ac yn enwedig yn rhoi cyngor ar y canlynol -
- Defnydd clinigol a chosteffeithiol o gyffuriau
  - Polisiâu a chanllawiau presgripsiynu
  - Presgripsiynu rheolaidd
15. Gwasanaeth ysgolion, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar gontract yn rhoi cyngor a chymorth i breswylwyr a staff mewn ysgolion sy'n ymwneud â'r canlynol -
- Defnydd clinigol a chosteffeithiol o gyffuriau yn yr ysgol
  - Dull priodol ac effeithiol o weinyddu a defnyddio cyffuriau a chyfarpar yn yr ysgol
  - Dull diogel a phriodol o storio a thrin cyffuriau a chyfarpar
  - Cofnodi'r cyffuriau a'r cyfarpar a gafodd eu harchebu, eu trin, eu gweinyddu, eu storio neu eu gwaredu.
16. Gwasanaeth sgrinio, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar gontract yn gwneud y canlynol -
- Nodi cleifion sy'n wynebu risg o ddatblygu clefyd neu gyflwr penodedig
  - Cynnig cyngor ynghylch profi ar gyfer clefyd neu gyflwr penodedig
  - Cynnal prawf o'r fath gyda chaniatâd y claf

- Cynnig cyngor yn dilyn prawf ac atgyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall fel sy'n briodol.
17. Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar contract yn gwneud y canlynol -
- Rhoi cyngor a chymorth i gleifion sy'n dymuno rhoi'r gorau i smygu, a
  - Lle bo'n briodol, rhoi cyffuriau a chymhorthion priodol.
18. Gwasanaeth gweinyddu o dan oruchwyliaeth, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar contract yn goruchwyllo'r gwaith o weinyddu meddyginiaethau a bresgripsiynir ar ei safle.
19. Gwasanaeth presgripsiynu atodol, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd ar contract yn presgripsiynu meddyginiaethau mewn amgylchiadau a ddynodir gan y bwrdd iechyd lleol perthnasol.
20. Gwasanaeth casglu gwrthfeirysol, a'i brif ddiben yw bod y fferyllydd yn cyflenwi meddygiaethau gwrthfeirysol, yn unol â rheoliad 247 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (eithriad ar gyfer cyflenwi yn achos, neu gan ragweld, clefyd pandemig) i gleifion ar gyfer trin proffylacsis.
21. Gwasanaeth cyflenwi brys, a'i brif ddiben yw sicrhau, mewn achosion brys, bod cleifion, ar gais, yn cael mynediad prydlon i gyffuriau neu gyfarpar -
- sydd wedi'u presgripsiynu'n flaenorol iddynt ar bresgripsiwn y GIG, ond nad oes ganddynt bresgripsiwn y GIG ar eu cyfer, ac
  - yn achos meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn unig, bod gofynion rheoliad 225(1) o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (gwerthiant brys ac ati gan fferyllydd: ar gais y claf), yn cael eu bodloni.

## **Atodiad E - telerau gwasanaeth ar gyfer contractwyr cyfarpar gweinyddu**

### **1. Gweinyddu presgripsiynau**

#### **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Darparu cyfarpar a archebwyd ar bresgripsiynau'r GIG, ynghyd â gwybodaeth a chyngor a threfniadau atgyfeirio priodol, mewn achos lle na fydd yn bosibl darparu cyfarpar, er mwyn i gleifion allu ei ddefnyddio'n ddiogel ac effeithiol, a chynnal cofnodion priodol.

#### **Nodau a chanlyniadau bwriadedig**

Sicrhau bod cleifion yn derbyn cyfarpar yn ddiogel ac yn briodol gan y contractwr cyfarpar gweinyddu:

- Cynnal gwiriadau cyfreithiol, clinigol a chywirdeb priodol
- Cynnal systemau gweithredu diogel, yn unol â gofynion llywodraethu clinigol
- Bod â systemau ar waith i sicrhau cywirdeb y cynhyrchion a ddarperir
- Cynnal cofnod o'r holl gyfarpar a ddarparwyd sy'n gallu cael ei ddefnyddio i helpu gofal cleifion yn y dyfodol
- Cynnal cofnod o'r cyngor a roddwyd, a'r ymyriadau ac atgyfeiriadau a wnaed, lle mae'r contractwr cyfarpar gweinyddu o'r farn eu bod yn briodol yn glinigol.
- Darparu'r eitemau ychwanegol priodol fel bagiau a chlytiau tafladwy
- Dosbarthu'r eitemau priodol os bydd yn ofynnol gwneud hynny, yn brydlon ac mewn deunydd pecynnu addas nad yw'n amlwg.

Sicrhau bod cleifion yn gallu defnyddio eu cyfarpar yn effeithiol gan staff sy'n darparu gwybodaeth a chyngor i'r claf neu'r gofalwr ar y defnydd diogel o'i gyfarpar.

### **2. Gweinyddu presgripsiynau amlroddadwy**

#### **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Rheoli a gweinyddu presgripsiynau amlroddadwy y GIG ar gyfer cyfarpar mewn partneriaeth â'r claf a'r presgripsiynwr.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys gofynion sy'n ychwanegol at y rhai ar gyfer gweinyddu, megis bod y contractwr cyfarpar gweinyddu yn cadarnhau angen y claf am gyflenwad rheolaidd ac yn cyfleu unrhyw faterion clinigol sylweddol i'r presgripsiynwr.

#### **Nodau a chanlyniadau bwriadedig**

- Cynyddu dewis cleifion a chyfleustra, drwy eu galluogi i gael eu cyfarpar rheolaidd ar bresgripsiwn yn uniongyrchol gan contractwr cyfarpar gweinyddu am gyfnod y cytunir arno gan y presgripsiynwr
- Lleihau gwastraff drwy leihau nifer y cyfarpar a weinyddir nad oes eu hangen ar y claf
- Lleihau baich gwaith practisau meddygaeth gyffredinol, drwy leihau baich rheoli presgripsiynau rheolaidd.

### **3. Gwasanaeth dosbarthu i'r cartref**

#### **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Darparu gwasanaeth dosbarthu i'r cartref mewn perthynas â chyfarpar penodol.

#### **Nodau a chanlyniadau bwriadedig**

Cynnal urddas cleifion drwy sicrhau bod cyfarpar penodol yn cael ei ddarparu:

- Yn brydlon, ar amser y cytunir arno gyda'r claf
- Mewn pecyn nad yw'n arddangos unrhyw ysgrifen neu farciau eraill a allai awgrymu ei gynnwys; ac
- Yn y fath ffordd fel nad yw'n bosibl gwybod pa fath o gyfarpar sy'n cael ei ddosbarthu.

### **4. Cyflenwi eitemau atodol priodol**

#### **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Darparu eitemau ychwanegol fel clytiau tafladwy a bagiau untro mewn cysylltiad â chyfarpar penodol.

#### **Nodau a chanlyniadau bwriadedig**

Sicrhau bod gan gleifion gyflenwad digonol o glytiau i'w defnyddio gyda'u cyfarpar, a'u bod yn gallu cael gwared arnynt mewn ffordd ddiogel a hylan.

### **5. Rhoi cyngor clinigol arbenigol ar y cyfarpar**

#### **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Darparu cyngor clinigol arbenigol gan unigolyn sydd wedi'i hyfforddi'n addas, sydd â phrofiad perthnasol o ran cyfarpar penodol.

#### **Nodau a chanlyniadau bwriadedig**

Sicrhau bod cleifion yn gallu ceisio cyngor priodol ar eu cyfarpar er mwyn cynyddu eu hyder wrth ddewis cyfarpar sy'n addas i'w hanghenion, yn ogystal â magu hyder i addasu i'r newidiadau yn eu bywyd a dysgu i reoli cyfarpar.

### **6. Lle y darperir llinell gymorth, yn ystod y cyfnod pan fydd y contractwr cyfarpar gweinyddu ar gau, dylid rhoi cyngor naill ai drwy'r llinell gymorth neu dylid cyfeirio'r sawl sy'n ffonio at Galw Iechyd Cymru**

#### **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Rhoi cyngor ar gyfarpar penodol drwy linell gymorth y tu allan i oriau agor contractiol y contractwr cyfarpar gweinyddu. Nid oes gofyn i'r contractwr cyfarpar gweinyddu staffio'r llinell gymorth drwy'r dydd, ond pan na fydd wedi'i staffio, dylid rhoi rhif ffôn arall neu fanylion cyswllt gwefan Galw Iechyd Cymru er mwyn i gleifion gysylltu â hwy i gael cyngor.

## **Nodau a chanlyniadau bwriadedig**

Gall y sawl sy'n ffonio'r llinell gymorth gael cyngor 24 y dydd, saith diwrnod yr wythnos ar gyfarpar penodol, er mwyn cael gwybod sut i'w ddefnyddio.

## **7. Cyfeirio**

### **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Lle bydd claf yn cyflwyno presgripsiwn ar gyfer cyfarpar nad yw'r contractwr cyfarpar cyflenwi yn ei ddarparu, bydd y presgripsiwn naill ai:

- Gyda chaniatâd y claf, yn cael ei drosglwyddo i ddarparwr cyfarpar arall, neu
- Os na fydd yn claf yn rhoi caniatâd, rhoddir manylion cyswllt iddo ar gyfer o leiaf dau gontractwr arall sy'n gallu ei weinyddu.

## **Nodau a chanlyniadau bwriadedig**

I sicrhau bod cleifion yn gallu cael eu presgripsiwn.

## Atodiad F - Aelodau grŵp llywio'r PNA

<b>Enw</b>	<b>Swydd</b>	<b>Sefydliad</b>
Lisa Dunsford	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol	BIP Caerdydd a'r Fro
Darrell Baker	Cyfarwyddwr Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau	BIP Caerdydd a'r Fro
Jenna Llewellyn	Uwch Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu	BIP Caerdydd a'r Fro
Tom Porter	Meddyg Ymgynghorol Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Steve Watkins	Cynrychiolydd Cyllid	BIP Caerdydd a'r Fro
Jonathan Watts	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro
Karen May	Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau Gofal Sylfaenol	BIP Caerdydd a'r Fro
Louise Allen	Cynghorydd Fferylliaeth Gymunedol	BIP Caerdydd a'r Fro
Jayne Howard	Cynrychiolydd Fferylliaeth Gymunedol Cymru	Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Kevin Thomas	Cynrychiolydd Pwyllgor Meddygol Lleol Bro Taf	Y Pwyllgor Meddygol Lleol
Stephen Allen	Cynrychiolydd Cyngor Iechyd Cymuned De Morgannwg	Cyngor Iechyd Cymuned
Elaine Lewis	Cymorth Prosiect	BIP Caerdydd a'r Fro

Fiona McGonigle Aelod Cyswllt PCC a Paul Burns Cynghorydd PCC - Cwmni Budd Cymunedol Primary Care Commissioning - gwnaethant ddarparu cymorth a chyngor i'r Grŵp Llywio ac i brosiect y PNA yn gyffredinol.

## **Atodiad G - Arolwg ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd**

### **Arolwg o gleifion a'r cyhoedd ar gyfer asesiad o anghenion fferyllol (PNA) Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Dyma wahoddiad i chi roi gwybod i ni am y gwasanaethau fferylliaeth yn eich ardal. Nod hyn yw ein helpu ni i gynllunio gwasanaethau ar gyfer ein cleifion nawr ac yn y dyfodol, er mwyn gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau'n diwallu eich anghenion, gan ddefnyddio proses o'r enw 'asesiad o anghenion fferyllol'.

Bydd eich atebion yn ein helpu ni i gael gwybod p'un a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaeth ai peidio, er enghraifft yr angen am fferyllfa mewn ardal benodol, neu'r angen am ragor o fferyllfeydd er mwyn darparu gwasanaeth penodol.

Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn ni'n ystyried beth allai newid dros y pum mlynedd nesaf a ph'un a fydd digon o fferyllfeydd ai peidio yn y manau iawn, sy'n darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl, wrth i ragor o dai gael eu hadeiladu er enghraifft.

Mae eich barn yn bwysig i ni felly treuliwch ychydig funudau'n llenwi'r holiadur hwn. Bydd yn cymryd rhyw 10 i 15 munud i chi ei lenwi.

Mae'r holiadur yn ddiennw ac ni fydd modd eich adnabod chi drwy unrhyw wybodaeth byddwch chi'n ei rhoi.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am yr holiadur neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut i lenwi'r holiadur, ebostiwch [CAV.Justintime@wales.nhs.uk](mailto:CAV.Justintime@wales.nhs.uk) gyda'r pennawd "Holiadur PNA".

Os hoffech gwblhau'r holiadur hwn yn Saesneg cliciwch yma

## Amdanoch chi

### Beth yw eich cod post?

Drwy roi pedwar digid cyntaf eich cod post, rydych chi'n rhoi cydsyniad i ni ddefnyddio'r wybodaeth hon er mwyn gwybod ym mha ran o ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro rydych chi'n byw. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio at ddibenion yr holiadur hwn yn unig, er mwyn i ni wybod p'un a ydyn ni wedi cael ymatebion o bob ardal o'r bwrdd iechyd neu o ardaloedd penodol. Peidiwch â rhoi eich cod post llawn i ni.

Er enghraifft, os mai CF14 4HH yw eich cod post, rhowch CF14 yn y blwch isod.

## Dewis iaith

### 1. Pa iaith sydd orau gennych wrth ddefnyddio gwasanaethau mewn fferyllfa? Ticiwch un blwch.

- Cymraeg
- Saesneg
- Arall [blwch testun]

## Y ffordd rydych chi'n defnyddio eich fferyllfa – naill ai eich hun neu drwy gael rhywun arall i fynd yno ar eich rhan

### 2. Pam ydych chi'n mynd i fferyllfa fel arfer? Ticiwch unrhyw flwch neu bob blwch sy'n berthnasol.

- I gasglu neu gael gafael ar bresgripsiwn ar fy nghyfer i
- I brynu meddyginiaethau ar fy nghyfer i
- I gael cyngor ar fy nghyfer i
- Ar gyfer gwasanaethau eraill, fel brechiad rhag y ffliw
- I gasglu neu gael gafael ar bresgripsiwn ar gyfer rhywun arall
- I brynu meddyginiaethau ar gyfer rhywun arall
- I gael cyngor ar gyfer rhywun arall
- Dydw i ddim yn mynd i fferyllfa gan fy mod i'n defnyddio fferyllfa ar-lein (ewch i gwestiwn 22)
- Dydw i ddim yn mynd i fferyllfa gan fy mod i'n defnyddio meddyg fferyllol (ewch i gwestiwn 22)
- Dydw i ddim yn mynd i fferyllfa gan fy mod i'n defnyddio contractwr cyfarpar (ewch i gwestiwn 22)
- Dydw i ddim yn mynd i fferyllfa gan fod fy meddyginiaethau yn cael eu hanfon ataf fi
- Dydw i ddim yn mynd i fferyllfa; mae rhywun yn mynd yno ar fy rhan
- Arall [blwch testun]

**3. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio fferyllfa? Ticiwch un blwch.**

- Bob dydd
- Bob wythnos
- Bob pythefnos
- Bob mis
- Bob chwarter
- Ydw i ddim yn defnyddio fferyllfa
- Arall [blwch testun]

**4. Faint o'r gloch sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa? Ticiwch un blwch.**

- 7am-9am
- 9am-12pm
- 12pm-2pm
- 2pm-6pm
- 6pm-9pm
- 9pm-12am
- Does dim ots gen i

**5. Pa ddiwrnod sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa? Ticiwch un blwch.**

- Dydd Llun
- Dydd Mawrth
- Dydd Mercher
- Dydd Iau
- Dydd Gwener
- Dydd Sadwrn
- Dydd Sul
- Yn ystod yr wythnos yn gyffredinol
- Ar y penwythnos yn gyffredinol
- Does dim ots gen i

**6. Ydych chi, neu rywun ar eich rhan, wedi methu â defnyddio eich fferyllfa arferol ar ryw adeg yn ddiweddar? Ticiwch un blwch.**

- Ydw
- Naddo (ewch i gwestiwn 8)
- Ddim yn berthnasol (ewch i gwestiwn 8)

**7. Os ateboch chi 'ydw' i gwestiwn 6, beth wnaethoch chi/nhw? Ticiwch bob datganiad sy'n berthnasol.**

- Mynd i fferyllfa arall
- Aros nes bod y fferyllfa ar agor
- Mynd i weld fy meddyg teulu
- Mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys

- Mynd i uned mân anafiadau
- Cysylltu â'r gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau
- Ffonio GIG 111 Cymru
- Ffonio CAF 24/7
- Arall [blwch testun]

## Eich dewis o fferyllfa

### 8. Ydych chi (ticiwch un):

- Yn defnyddio'r un fferyllfa bob amser?
- Yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd, ond mae'n well gennych chi fynd i un fferyllfa'n fwy aml?
- Yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd bob amser?
- Braidd byth yn defnyddio fferyllfa?
- Byth yn defnyddio fferyllfa?

### 9. Hoffem ni wybod beth sy'n dylanwadu arnoch chi wrth ddewis fferyllfa. Pam ydych chi'n defnyddio'r fferyllfa hon? Ticiwch bob datganiad sy'n berthnasol i chi.

- Mae'n agos at fy nghartref
- Mae'n agos at fy ngwaith
- Mae'n agos at fy meddyg
- Mae'n agos at ysgol neu feithrinfa fy mhlant
- Mae'n agos at siopau eraill
- Mae'n hawdd ei chyrraedd
- Mae'n hawdd parcio yno
- Rydw i'n gallu siarad â'r staff yno yn fy iaith ddewisol
- Rydw i'n hoffi'r staff sy'n gweithio yno ac yn ymddiried ynddynt
- Mae'r staff yn fy adnabod ac yn gofalu amdanaf i
- Dydy'r staff ddim yn fy adnabod i
- Rydw i wedi bob amser wedi defnyddio'r fferyllfa hon
- Mae'r gwasanaeth yn gyflym
- Mae beth sydd ei angen arna i yno fel arfer
- Mae oriau agor da gan y fferyllfa
- Mae'r fferyllfa'n casglu fy mhresgripsiwn ac yn dosbarthu fy meddyginiaethau
- Cafodd y fferyllfa ei hargymell i mi
- Mae'r fferyllfa'n rhoi gwybodaeth a chynngor da i mi
- Y gwasanaeth cwsmeriaid
- Mae'n hygyrch iawn h.y. mae'n addas i gadeiriau olwyn/bygis
- Mae'n gadwyn fawr adnabyddus
- Nid yw hi'n un o'r cadwyni mawr
- Mae man preifat ar gael os oes angen i mi siarad â'r fferyllfydd
- Rydw i'n gallu archebu fy meddyginiaethau rheolaidd ar-lein neu drwy ddefnyddio ap
- Arall [blwch testun]

### 10. Oes fferyllfa sy'n fwy cyfleus a/neu'n agosach nad ydych chi'n ei defnyddio? Ticiwch un blwch.

- Oes
- Nac oes (ewch i gwestiwn 12)
- Ddim yn gwybod (ewch i gwestiwn 12)

**11. ...ac os ydych chi wedi ateb 'oes' i gwestiwn 10, pam nad ydych chi'n defnyddio'r fferyllfa honno? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- Dydy hi ddim yn hawdd parcio yno
- Rydw i wedi cael profiad gwael yn y gorffennol
- Mae'r gwasanaeth yn rhy araf
- Mae'r staff yn newid drwy'r amser
- Dydy'r staff ddim yn fy adnabod i
- Rydw i'n adnabod y staff a byddai'n well gen i pe na baen nhw'n gwybod pa feddyginiaethau rydw i'n eu cymryd
- Dydy beth sydd ei angen arnaf i ddim yno
- Dydy'r fferyllfa ddim yn dosbarthu meddyginiaethau
- Does dim digon o breifatrwydd
- Dydy hi ddim ar agor pan fyddaf ei hangen
- Dydy hi ddim yn addas i gadeiriau olwyn/bygis
- Arall [blwch testun]

## **Teithio i fferyllfa**

**12. Os ydych chi'n mynd i'r fferyllfa ar eich pen eich hun neu gyda rhywun arall, sut ydych chi'n cyrraedd yno fel arfer? Ticiwch un blwch.**

- Ar droed/cadair olwyn
- Ar fws
- Yn y car
- Ar feic
- Mewn tacsï
- Arall [blwch testun]
- Ddim yn berthnasol (ewch i gwestiwn 14)

**13. ...a pha mor hir mae'n ei gymryd i gyrraedd yno fel arfer? Ticiwch un blwch.**

- Llai na 5 munud
- Rhwng 5 a 15 munud
- Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud
- Mwy nag 20 munud

**14. Fyddech chi'n dweud eich bod chi'n cael anhawster yn cyrraedd fferyllfa? Ticiwch un blwch.**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn berthnasol

**15. Os ydych chi'n cael anhawster yn cyrraedd fferyllfa, dywedwch pam.**

[Blwch testun]

## Gwasanaethau fferylliaeth yn gyffredinol

**16. Hoffem ni wybod sut rydych chi'n dod o hyd i wybodaeth ynglŷn â fferyllfa, fel oriau agor neu'r gwasanaeth sy'n cael ei gynig. Ticiwch unrhyw flwch neu bob blwch sy'n berthnasol.**

- Byddwn i'n ffonio'r fferyllfa
- Byddwn i'n ffonio GIG 111 Cymru neu ddefnyddio'r wefan
- Byddwn i'n ffonio CAF 24/7
- Byddwn i'n chwilio ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Byddwn i'n chwilio ar y we neu ddefnyddio ap ffôn clyfar e.e. Google Maps neu Facebook
- Byddwn i'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
- Byddwn i'n holi ffrind
- Byddwn i'n galw heibio'r fferyllfa ac yn holi'r staff yno
- Byddwn i'n edrych ar y ffenest
- Byddwn i'n darllen y cylchgrawn neu bapur newydd lleol
- Ddim yn berthnasol
- Arall [blwch testun]

**17. Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n gallu trafod rhywbeth preifat â'ch fferylllydd? Ticiwch un blwch.**

- Ydw
- Nac ydw
- Dydw i byth wedi gorfod gwneud hynny
- Ddim yn gwybod

**18. Ydych chi'n ymwybodol y gallech chi ddefnyddio'r gwasanaethau canlynol mewn fferyllfeydd yn rhan o'r GIG? Dewiswch y rhai hynny rydych chi'n ymwybodol ohonynt.**

- Brechiadau rhag y fflw (i'r rhai hynny sy'n perthyn i un o'r grwpiau agored i niwed)
- Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau – dyma gyfle i chi eistedd gyda'r fferylllydd a thrafod yr holl feddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd, er mwyn eich helpu i gael y budd mwyaf ohonynt.
- Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau'r claf – mae'r gwasanaeth hwn i bobl y mae eu meddyginiaethau wedi newid yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty. Mae'r gwasanaeth yn eu helpu nhw i ddeall y newidiadau a gwneud yn siŵr bod y presgripsiynau yn y dyfodol ar gyfer y meddyginiaethau cywir.
- Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar - dyma gyfle i chi drafod cyfarpar, fel y rheiny ar gyfer stoma a cholostomi, gyda fferylllydd neu nyrs arbenigol er mwyn gwneud yn siŵr bod eich cyfarpar yn gwneud beth mae angen iddo wneud.
- Dull atal cenhedlu brys, neu 'bilsen y bore wedyn'
- Cymorth i roi'r gorau i smygu
- Cynllun anhwylderau cyffredin – mae fferyllwyr yn gallu rhoi cyngor i chi, yn ogystal â thriniaeth rad ac am ddim, ar gyfer mân salwch ac anhwylderau cyffredin, sy'n golygu nad oes angen i chi weld meddyg teulu.
- Cyfnewid nodwyddau a chwistrellau – gwasanaeth lleihau niwed o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau yw hwn, lle mae fferyllwyr yn gallu darparu pecynnau o gyfarpar chwistrellu wedi'u diheintio a chael gwared ar gyfarpar a ddefnyddiwyd

- Cymryd cyffuriau o dan oruchwyliaeth – mae'r gwasanaeth hwn yn helpu pobl sy'n cael triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau
- Cyflenwadau brys o feddyginiaethau – mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi pobl i gael cyflenwadau brys o'u meddyginiaethau drwy eu fferyllfa
- Nac ydw (ewch i gwestiwn 20)

**19. Ydych chi wedi defnyddio unrhyw rai o'r gwasanaethau sydd wedi eu rhestru yng nghwestiwn 18? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- Brechiadau rhag y ffliw (i'r rhai hynny sy'n perthyn i un o'r grwpiau agored i niwed)
- Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau
- Y gwasanaeth adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau'r claf
- Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar
- Dull atal cenhedlu brys, neu 'bilsen y bore wedyn'
- Cymorth i roi'r gorau i smygu
- Cynllun anhwylderau cyffredin
- Cyfnewid nodwyddau a chwistrellau
- Gweinyddu cyffuriau o dan oruchwyliaeth
- Cyflenwadau brys o feddyginiaethau
- Nac ydw

**20. Hoffech chi ddweud unrhyw beth arall wrthym am eich profiad o'ch fferyllfa leol?**

[Blwch testun]

**21. Oes unrhyw rwystrau dydych chi ddim wedi sôn amdanynt sy'n eich atal chi rhag defnyddio gwasanaethau eich fferyllfa?**

[Blwch testun]

## Cwestiynau Cydraddoldeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein holl ddefnyddwyr gwasanaeth a'n staff yn cael eu trin yn deg a chyda pharch ac urddas. Ni allwn gyflawni hyn oni bai ein bod ni'n gwybod mwy am y bobl sy'n gweithio i ni a / neu sy'n defnyddio'r gwasanaethau rydym yn eu darparu. Byddem yn ddiolchgar pe baech chi'n llenwi'r holiadur canlynol. Defnyddir eich gwybodaeth gefndir at ddibenion monitro yn unig a'i chadw'n gwbl gyfrinachol.

1. Beth oedd eich oedran ar eich pen-blwydd diwethaf? Ticiwch un blwch			
O dan 16	<input type="checkbox"/>	45-54	<input type="checkbox"/>
16-24	<input type="checkbox"/>	55-64	<input type="checkbox"/>
25-34	<input type="checkbox"/>	65+	<input type="checkbox"/>
35-44	<input type="checkbox"/>	Gwell gen i beidio â dweud	<input type="checkbox"/>

2. Pa derm yw'r disgrifiad gorau o'ch rhywedd? Ticiwch un blwch			
Menyw	<input type="checkbox"/>	Dyn	<input type="checkbox"/>
Anneuaid	<input type="checkbox"/>	Gwell gen i beidio â dweud	<input type="checkbox"/>
Arall (nodwch os ydych yn dymuno)	<input type="checkbox"/> _____		

3. Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson Traws? Ticiwch un blwch			
Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Gwell gen i beidio â dweud	<input type="checkbox"/>		

4. Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl? Ticiwch un blwch			
Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Gwell gen i beidio â dweud	<input type="checkbox"/>		

5. Ticiwch bob un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi					
Byddar/Wedi colli eich clyw/Trwm eich clyw	<input type="checkbox"/>	Anawsterau iechyd meddwl	<input type="checkbox"/>	Nam / anawsterau dysgu	<input type="checkbox"/>
Nam ar eich golwg	<input type="checkbox"/>	Defnyddiwr cadair olwyn	<input type="checkbox"/>	Nam ar y symudedd	<input type="checkbox"/>
Cyflwr iechyd neu salwch hirdymor (e.e. canser, diabetes neu asthma)	<input type="checkbox"/>	Gwell gen i beidio â dweud	<input type="checkbox"/>	Arall	<input type="checkbox"/>

<b>6. Ydych chi'n gofalu am ffrind neu aelod o'r teulu na all ymdopi heb eich cefnogaeth o ganlyniad i salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu ddibyniaeth? Ticiwch un blwch</b>			
Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>

<b>7. Ydych chi'n ystyried eich bod chi'n perthyn i grefydd penodol? Ticiwch un blwch</b>					
Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>		
Gwell gen i beidio ag ateb		<input type="checkbox"/>			
<b>Os mai 'Ydw' oedd yr ateb, rhwch fanylion</b>					
Bwdhydd	<input type="checkbox"/>	Cristion (gan gynnwys yr Eglwys yng Nghymru, Catholig, Protestannaidd a phob enwad Cristnogol arall)			<input type="checkbox"/>
Hindŵ	<input type="checkbox"/>	Iddew	<input type="checkbox"/>	Mwslim	<input type="checkbox"/>
Sic	<input type="checkbox"/>	Arall	<input type="checkbox"/>		
<b>Os mai 'Arall' oedd yr ateb, rhwch fanylion:</b>					

<b>8. Sut fydech chi'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol? Ticiwch un blwch</b>					
Deurywiol	<input type="checkbox"/>	Menyw hoyw / Lesbiad	<input type="checkbox"/>	Dyn hoyw	<input type="checkbox"/>
Heterorywiol / Syth	<input type="checkbox"/>	Arall	<input type="checkbox"/>	Gwell gen i beidio ag ateb	<input type="checkbox"/>
<b>Os mai 'Arall' oedd yr ateb, rhwch fanylion:</b>					

<b>9. Ydych chi'n ystyried eich hun yn Gymro neu'n Gymraes? Ticiwch un blwch</b>			
Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>

<b>10. Beth yw eich grŵp ethnig? Ticiwch un blwch</b>					
Lle defnyddir y term 'Prydeinig', cyfeirir at bob un o'r 4 o wledydd cartref, sef Cymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain.					
Gwyn – Cymreig/Seisnig/Albanaidd/ Gwyddelig o Ogledd Iwerddon/Prydeinig	<input type="checkbox"/>	Gwyn – Gwyddelig	<input type="checkbox"/>	Gwyn – Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	<input type="checkbox"/>
Gwyn – Unrhyw gefndir gwyn arall (rhowch fanylion isod)	<input type="checkbox"/>	Grwpiau Cymysg/Amlethnig – Gwyn ac Asiaidd	<input type="checkbox"/>	Grwpiau Cymysg/Amlethnig – Gwyn a Du Caribiaidd	<input type="checkbox"/>
Grwpiau Cymysg/Amlethnig Gwyn a Du Affricanaidd	<input type="checkbox"/>	Grwpiau Cymysg/Amlethnig - Unrhyw un arall (rhowch fanylion isod)	<input type="checkbox"/>	Asiaidd/Asiaidd Cymreig/ Prydeinig - Tsieineaidd	<input type="checkbox"/>
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/ Prydeinig - Pacistanaidd	<input type="checkbox"/>	Asiaidd/Asiaidd Cymreig/ Prydeinig – Bangladeshaidd	<input type="checkbox"/>	Asiaidd/Asiaidd Cymreig/ Prydeinig - Indiaidd	<input type="checkbox"/>
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/ Prydeinig – Unrhyw un arall (rhowch fanylion isod)	<input type="checkbox"/>	Du/Affricanaidd/Caribiaidd/ Du Cymreig/Prydeinig - Affricanaidd	<input type="checkbox"/>	Du/Affricanaidd/Caribiaidd/ Du Cymreig/Prydeinig - Caribiaidd	<input type="checkbox"/>
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/ Du	<input type="checkbox"/>	Arabaidd	<input type="checkbox"/>	Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion isod)	<input type="checkbox"/>

Cymreig/Prydeinig – Unrhyw un arall (rhowch fanylion isod)				
Gwell gen i beidio â dweud	<input type="checkbox"/>	Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion isod)	<input type="checkbox"/>	
Os mai 'Arall' oedd yr ateb, rhowch fanylion:				

## Atodiad H – canlyniadau llawn holiadur y cleifion a'r cyhoedd

1. Pa iaith sydd orau gennych wrth ddefnyddio gwasanaethau mewn fferyllfa? Ticiwch un blwch.

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	Cymraeg	3.57%	11
2	Saesneg	96.10%	296
3	Arall (nodwch):	0.32%	1
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	308
			3

Cafwyd cyfanswm o un sylw:

- “Naill neu'r llall.”

2. Pam ydych chi'n mynd i fferyllfa fel arfer? Ticiwch unrhyw flwch neu bob blwch sy'n berthnasol.

(Roedd hi'n bosibl rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn)

		Ymateb		
		Canran yr Ymatebion	Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm
1	I gasglu neu gael gafeol ar bresgripsiwn ar fy nghyfer i	31.53%	90.61%	280
2	I brynu meddyginiaethau ar fy nghyfer i	17.68%	50.81%	157
3	I gael cyngor ar fy nghyfer i	12.05%	34.63%	107
4	Ar gyfer gwasanaethau eraill, fel brechiad rhag y fflw	4.39%	12.62%	39
5	I gasglu neu gael gafeol ar bresgripsiwn ar gyfer rhywun arall	19.37%	55.66%	172
6	I brynu meddyginiaethau ar gyfer rhywun arall	9.01%	25.89%	80
7	I gael cyngor ar gyfer rhywun arall	3.83%	11.00%	34
8	Dydw i ddim yn mynd i fferyllfa gan fy mod i'n defnyddio fferyllfa ar-lein	0.34%	0.97%	3
9	Dydw i ddim yn mynd i fferyllfa gan fy mod i'n defnyddio meddyg fferyllol	0.00%	0.00%	0
10	Dydw i ddim yn mynd i fferyllfa gan fy mod i'n defnyddio contractwr cyfarpar	0.00%	0.00%	0
11	Dydw i ddim yn mynd i fferyllfa gan fod fy meddyginiaethau yn cael eu hanfon ataf fi	1.01%	2.91%	9
12	Dydw i ddim yn mynd i fferyllfa; mae rhywun yn mynd yno ar fy rhan	0.23%	0.65%	2
13	Arall	0.56%	1.62%	5

	<b>Cyfanswm yr Ymatebion</b>		888
	<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>		309
	<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>		2

### Cafwyd cyfanswm o bum sylw:

- “Rydw i'n gwarchod felly mae rhywun yn casglu fy mhresgripsiwn. Ni allaf ddeall pam na ellir defnyddio fy nosbarthiadau ar-lein gan Feddyg Teulu yn Lloegr nawr fy mod i wedi symud i Gymru.”
- “I brynu eitemau eraill fel colur, siampŵ, ac ati.”
- “Ar hyn o bryd, mae fy ngŵr yn casglu fy meddyginiaeth er mwyn fy ngalluogi i warchod.”
- “I nôl deunyddiau ymolchi cyffredinol.”
- “Roeddwn i'n casglu fy hun tan i'r rheolau gwarchod ddod i rym.”

### 3. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio fferyllfa? Ticiwch un blwch.

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	Bob dydd	0.32%	1
2	Bob wythnos	7.14%	22
3	Bob pythefnos	12.34%	38
4	Bob mis	62.99%	194
5	Bob chwarter	9.74%	30
6	Dydw i ddim yn defnyddio fferyllfa	0.00%	0
7	Arall	7.47%	23
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	308
			3

### Cafwyd cyfanswm o 23 sylw:

- “Bob deufis.”
- “Bob deufis.”
- “Anaml.”
- “Deufisol.”
- “Os oes galw.”
- “Bob 2il fis.”
- “Rydw i'n gwarchod felly mae rhywun yn casglu fy mhresgripsiwn bob mis.”
- “Yn flynyddol ar gyfer y brechiad rhag y fflw a phan fo'r galw.”
- “Bob mis fel arfer, ond mor aml â saith gwaith yn ddiweddar (chwarter diwethaf) gan nad oedd eitemau presgripsiwn ar gael ar amser.”
- “Deufisol.”
- “Pan fo'r galw.”

- “Pan fod angen i mi fynd.”
- “6 wythnos.”
- “O leiaf bob 2 fis.”
- “Bob 8 wythnos.”
- “Pan fo angen - unwaith y flwyddyn.”
- “Yn achlysurol.”
- “Tua unwaith y flwyddyn.”
- “Yn achlysurol.”
- “Deufisol.”
- “Bob 2 fis.”
- “Amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau.”
- “Pan fo angen, yn dibynnu ar lefelau salwch. Rydw i’n iach felly dydw i ddim yn mynd yn rheolaidd.”

#### 4. Faint o’r gloch sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa? Ticiwch un blwch.

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	7am-9am	3.58%	11
2	9am-12pm	13.03%	40
3	12pm-2pm	5.54%	17
4	2pm-6pm	23.78%	73
5	6pm-9pm	17.26%	53
6	9pm-12am	0.00%	0
7	Does dim ots gen i	36.81%	113
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio’r cwestiwn</b>	4
			307

#### 5. Pa ddiwrnod sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa? Ticiwch un blwch.

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	Dydd Llun	2.92%	9
2	Dydd Mawrth	0.65%	2
3	Dydd Mercher	2.27%	7
4	Dydd Iau	1.30%	4
5	Dydd Gwener	3.57%	11
6	Dydd Sadwrn	6.49%	20

7	Dydd Sul	0.32%	1
8	Yn ystod yr wythnos yn gyffredinol	19.16%	59
9	Ar y penwythnos yn gyffredinol	11.36%	35
10	Does dim ots gen i	51.95%	160
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	3
			308

6. Ydych chi, neu rywun ar eich rhan, wedi methu â defnyddio eich fferyllfa arferol ar ryw adeg yn ddiweddar? Ticiwch un blwch.

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	Ydw	24.76%	76
2	Nac ydw	72.64%	223
3	Ddim yn berthnasol	2.61%	8
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	4
			307

7. Os ateboch chi 'ydw' i gwestiwn 6, beth wnaethoch chi? Ticiwch bob datganiad sy'n berthnasol.

(Roedd hi'n bosibl rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn)

		Ymateb		
		Canran yr Ymatebion	Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm
1	Mynd i fferyllfa arall	56.63%	61.84%	47
2	Aros nes bod y fferyllfa ar agor	31.33%	34.21%	26
3	Mynd i weld fy meddyg teulu	3.61%	3.95%	3
4	Mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys	0.00%	0.00%	0
5	Mynd i uned mân anafiadau	0.00%	0.00%	0
6	Cysylltu â'r gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau	1.20%	1.32%	1
7	Ffonio GIG 111 Cymru	0.00%	0.00%	0
8	Ffonio CAF 24/7	0.00%	0.00%	0
9	Arall	7.23%	7.89%	6
		<b>Cyfanswm yr Ymatebion</b>		83
		<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>		76

**Cafwyd cyfanswm o chwe sylw:**

- “Defnyddio'r gwasanaeth dosbarthu.”
- “Mynd i fferyllfa ar alw.”
- “Nid yw'r fferyllfa ar agor ar y penwythnos. Hefyd roedd fferyllfa leol arall ar gau yn ystod COVID.”
- “Does gen i ddim fferyllfa ‘arferol’. Mae'r ddwy agosaf ata i tua milltir i ffwrdd ac mae un arall rydw i'n ei defnyddio weithiau os ydyn ni allan yn y car beth bynnag.
- Es i adref.”
- “Nid oedd y person sydd fel arfer yn casglu fy mhresgripsiynau, gan fy mod i'n gaeth i fy nghartref, yn gallu mynd i'w nôl chwaith gan ei fod yn sâl ei hun. Roedd rhaid i fi ffonio i ofyn iddynt ei ddsbarthu ond cefais wybod nad ydynt fel arfer yn dosbarthu - ond y byddent yn gwneud y tro hwn yn unig. Cefais fy synnu gan yr agwedd hon.”

**8. Ydych chi (ticiwch un):**

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	Yn defnyddio'r un fferyllfa bob amser?	63.96%	197
2	Yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd, ond mae'n well gennych chi fynd i un fferyllfa'n fwy aml?	32.79%	101
3	Yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd bob amser?	0.97%	3
4	Braidd byth yn defnyddio fferyllfa?	2.27%	7
5	Byth yn defnyddio fferyllfa?	0.00%	0
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	308
			3

**9. Hoffem ni wybod beth sy'n dylanwadu arnoch chi wrth ddewis fferyllfa. Pam ydych chi'n defnyddio'r fferyllfa hon? Ticiwch bob datganiad sy'n berthnasol i chi.**

(Roedd hi'n bosibl rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn)

		Ymateb		
		Canran yr Ymatebion	Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm
1	Mae'n agos at fy nghartref	13.76%	74.35%	229
2	Mae'n agos at fy ngwaith	1.80%	9.74%	30
3	Mae'n agos at fy meddyg	9.44%	50.97%	157
4	Mae'n agos at ysgol neu feithrinfa fy mhlant	0.84%	4.55%	14
5	Mae'n agos at siopau eraill	3.73%	20.13%	62
6	Mae'n hawdd ei chyrraedd	8.65%	46.75%	144
7	Mae'n hawdd parcio yno	6.25%	33.77%	104
8	Rydw i'n gallu siarad â'r staff yno yn fy iaith ddewisol	0.42%	2.27%	7
9	Rydw i'n hoffi'r staff sy'n gweithio yno ac yn ymddiried ynddynt	7.51%	40.58%	125

10	Mae'r staff yn fy adnabod ac yn gofalu amdanaf i	4.39%	23.70%	73
11	Dydy'r staff ddim yn fy adnabod i	0.12%	0.65%	2
12	Rydw i wedi bob amser wedi defnyddio'r fferyllfa hon	4.69%	25.32%	78
13	Mae'r gwasanaeth yn gyflym	3.73%	20.13%	62
14	Mae beth sydd ei angen arna i yno fel arfer	5.05%	27.27%	84
15	Mae oriau agor da gan y fferyllfa	4.39%	23.70%	73
16	Mae'r fferyllfa'n casglu fy mhresgripsiwn ac yn dosbarthu fy meddyginiaethau	1.74%	9.42%	29
17	Cafodd y fferyllfa ei hargymell i mi	0.24%	1.30%	4
18	Mae'r fferyllfa'n rhoi gwybodaeth a chynghor da i mi	4.57%	24.68%	76
19	Y gwasanaeth cwsmeriaid	5.35%	28.90%	89
20	Mae'n hygyrch iawn h.y. mae'n addas i gadeiriau olwyn/bygis	0.78%	4.22%	13
21	Mae'n gadwyn fawr adnabyddus	1.20%	6.49%	20
22	Nid yw hi'n un o'r cadwyni mawr	3.79%	20.45%	63
23	Mae man preifat ar gael os oes angen i mi siarad â'r fferyllfydd	3.97%	21.43%	66
24	Rydw i'n gallu archebu fy meddyginiaethau rheolaidd ar-lein neu drwy ddefnyddio ap	2.28%	12.34%	38
25	Arall	1.32%	7.14 %	22
		<b>Cyfanswm yr Ymatebion</b>		1664
		<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>		308
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>		73

### Cafwyd cyfanswm o 22 sylw:

- “Maent yn casglu fy mhresgripsiwn.”
- “Gall presgripsiynau gael eu hanfon yn awtomatig at ein fferyllfa.”
- “Rydw i'n gwneud archeb ar Fy Iechyd Ar-lein ond yn casglu yn y fferyllfa.”
- “Gallaf barcio gerllaw.”
- “Dyma'r fferyllfa y cefais gyfarwyddiadau gan y meddyg i'w defnyddio.”
- “Ar ôl profiadau negyddol gyda fferyllfeydd eraill, dyma'r un orau yn [enw'r lleoliad].”
- “Presgripsiwn rheolaidd - hawdd ffonio ac archebu”.
- “Maent wedi bod yn wych yn ystod y cyfyngiadau symud ac wedi dosbarthu ein presgripsiynau pan oedd fy ngŵr yn gwarchod.”
- “Rydw i'n mynd i'r fferyllfa sydd ar agor ond mae hyn wedi bod yn anoddach yn ddiweddar gan fod fy fferyllfa leol wedi symud yn bellach i ffwrdd ac rydw i'n gorfod gohirio fy nhriniaeth tan y diwrnod canlynol.”
- “Mae ganddynt fy newis o frandiaau.”
- “Mae'r fferyllfa yn archebu ac yn casglu presgripsiynau rheolaidd, ac yna rydw i'n mynd i'w casglu.”
- “Mae fy ngwraig yn gweithio yno.”
- “Byddai'n braf cael staff creiddiol y fferyllfa'n siarad Cymraeg ac ieithoedd eraill ac yn ei hyrwyddo.”
- “Maent yn casglu fy mhresgripsiynau o'r Meddyg Teulu ac rydw i'n eu casglu o'r fferyllfa pan fyddant yn barod.”
- “Rydw i'n cael neges destun pan fydd fy mhresgripsiwn rheolaidd yn barod.”

- “Mae'r fferyllfa leol arall ar gau ond mae'r gwasanaeth yn ofnadwy.”
- “Maent yn casglu fy mhresgripsiwn gan y meddyg.”
- “Maent yn rhoi gwybod dros y ffôn pan fydd fy mhresgripsiwn yn barod i'w gasglu.”
- “Gallaf archebu fy mhresgripsiwn rheolaidd yn y fferyllfa neu dros y ffôn.”
- “Ar agor ar ddydd Sadwrn.”
- “Mae [enw'r fferyllfa] yn casglu fy mhresgripsiwn OND YN GWRTHOD DOSBARTHU - er fy mod i'n gwarchod.”
- “Pe baent ond yn agor ar adegau pan fydd pobl sy'n gweithio (yn y GIG) yn gallu eu defnyddio, byddwn yn mynd i'r un sydd 30 eiliad ar droed o'm cartref, yn hytrach na gorfod mynd yr holl ffordd i [enw'r fferyllfa].”

**10. Oes fferyllfa sy'n fwy cyfleus a/neu'n agosach nad ydych chi'n ei defnyddio?  
Ticiwch un blwch.**

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	Oes	28.99%	89
2	Nac oes	67.43%	207
3	Ddim yn gwybod	3.58%	11
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	4

**11. ...ac os ydych chi wedi ateb 'oes' i gwestiwn 10, pam nad ydych chi'n defnyddio'r fferyllfa honno? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

(Roedd hi'n bosibl rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn)

		Ymateb		
		Canran yr Ymatebion	Canran yr Ymatebwyr Cyfanswm	
1	Dydy hi ddim yn hawdd parcio yno	17.68%	32.22%	29
2	Rydw i wedi cael profiad gwael yn y gorffennol	12.80%	23.33%	21
3	Mae'r gwasanaeth yn rhy araf	13.41%	24.44%	22
4	Mae'r staff yn newid drwy'r amser	4.88%	8.89%	8
5	Dydy'r staff ddim yn fy adnabod i	8.54%	15.56%	14
6	Rydw i'n adnabod y staff a byddai'n well gen i pe na baen nhw'n gwybod pa feddyginiaethau rydw i'n eu cymryd	1.83%	3.33%	3
7	Dydy beth sydd ei angen arnaf i ddim yno	7.93%	14.44%	13
8	Dydy'r fferyllfa ddim yn dosbarthu meddyginiaethau	1.83%	3.33%	3
9	Does dim digon o breifatrwydd	4.88%	8.89%	8
10	Dydy hi ddim ar agor pan fyddaf ei hangen	8.54%	15.56%	14
11	Dydy hi ddim yn addas i gadeiriau olwyn/bygis	0.00%	0.00%	0
12	Arall	17.68%	32.22%	29
		<b>Cyfanswm yr Ymatebion</b>		164

	Cyfanswm yr Ymatebwyr		90
	Wedi mynd heibio'r cwestiwn		221

### Cafwyd cyfanswm o 29 sylw:

- “Mae'r un rydw i'n ei defnyddio drws nesaf at fy meddyg teulu.”
- “Staff ddim yn gwisgo masgiau wyneb y tu ôl i'r cownter. Mae wedi dod i'r amlwg nad yw feisorau yn cynnig digon o amddiffyniad a dylai defnyddwyr y fferyllfa allu bod yn hyderus bod yr holl gyfarpar diogelu personol yn cael ei wisgo. Y tro diwethaf, roedd dau berson heb fasiau!”
- “Fe agorodd yn weddol ddiweddar ac rydw i wedi dod i arfer â fy fferyllfa arferol.”
- “Staff aneffeithiol.”
- “Mae ymhellach i ffwrdd o'r meddyg.”
- “Rhy brysur.”
- “Mae [enw'r fferyllfa] yn aneffeithiol ac angen hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid.”
- “Mae'r fferyllfa rwy'n ei defnyddio wrth ymyl fy meddygfa meddyg teulu, felly caiff fy manylion eu trosglwyddo i'r fferyllfa ar fy rhan, felly mae'n haws mynd yno nag i'r fferyllfa sy'n nes at fy nghartref, nad yw wrth ymyl fy meddyg teulu.”
- “Rhan o gadwyn heb unrhyw ymdeimlad o gymuned.”
- “Pan symudais i'r ardal, cafodd yr un dwi'n ei defnyddio ei hargymell felly rydw i wedi aros gyda nhw, fodd bynnag roedd y llall yn dda iawn hefyd ar yr achlysuron rydw i wedi'i defnyddio.”
- “Nid yw'n rhan o fy mhreactis Meddyg Teulu.”
- “Mae fy meddyg teulu'n anfon fy mhresgripsiwn yno.”
- “Dim gwasanaeth personol.”
- “Symudais dŷ ac rwy'n dal i fod o fewn yr ardal dalgylch ar gyfer fy meddyg teulu a'r fferyllfa bresennol, felly roedd yn well gen i beidio â'i newid gan fy mod yn hoffi'r staff a'r gwasanaeth, maent yn ymwybodol o'm meddyginiaethau (rwy'n cymryd rhai anarferol).”
- “Mae'r llall yn agosach at y feddygfa.”
- “Prysur iawn, gorfod aros amser hir.”
- “Rydw i bob amser wedi bod yn fodlon ar yr un rwy'n ei defnyddio.”
- “Mae un fferyllfa wedi cau ac mae'r llall mewn archfarchnad.”
- “Mae'n well gen i'r fferyllfa rydw i'n ei defnyddio ar hyn o bryd.”
- “Er ei bod o fewn pellter cerdded, mae'n golygu 2 ymweliad gan nad yw un o fy eitemau misol yn cael ei gadw mewn stoc. Mae fferyllfeydd eraill yn cadw'r cyffur hwn.”
- “Rydw i'n mynd i rywle gwahanol pan fydd ar gau dros ginio.”
- “Dim ond newydd lwyddo i gael y feddygfa i anfon presgripsiynau yno.”
- “Gormod o bobl ddim yn gwisgo gorchudd wyneb. Presgripsiwn byth yn barod ar amser. Byth yn ateb y ffôn.”
- “Wedi gwneud camgymeriadau ar fwy nag un achlysur. Peryglus gan eu bod yn feddyginiaethau sy'n peryglu bywyd.”
- “Mae'n rhaid i fi wneud cais am bresgripsiwn rheolaidd gan fy meddyg bob tro rydw i ei angen - nid yw'r fferyllfa'n ei wneud drosta i.”
- “Bob amser yn cael traferth yn dod o hyd i fy mhresgripsiwn sydd wedi'i adael.”
- “Amseroedd anghyfleus a staff anghwrtais.”
- “Ni fydd fy meddyg yn ei defnyddio.”
- “Lle cyfyng mewn nifer o fferyllfeydd ac nid yw'r staff bob amser yn eich trin â pharch ac urddas.”

12. Os ydych chi'n mynd i'r fferyllfa ar eich pen eich hun neu gyda rhywun arall, sut ydych chi'n cyrraedd yno fel arfer? Ticiwch un blwch.

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	Cerdded	44.48%	137
2	Ar fws	0.65%	2
3	Yn y car	51.30%	158
4	Ar feic	0.32%	1
5	Mewn tacsï	0.65%	2
6	Ddim yn berthnasol	0.97%	3
7	Arall	1.62%	5
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	308
			3

**Cafwyd cyfanswm o bum sylw:**

- “Gwarchod felly fy mhresgripsiwn yn cael ei gasglu fel arfer mewn car.”
- “Loo.”
- “Mae fy ngŵr yn casglu meddyginiaethau ar y ffordd adref o'r gwaith.”
- “Pan fo'r tywydd yn braf, byddaf yn cerdded.”
- “Neu gerdded.”

13. ...a pha mor hir mae'n ei gymryd i gyrraedd yno fel arfer? Ticiwch un blwch.

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	Llai na 5 munud	37.50%	114
2	Rhwng 5 a 15 munud	52.30%	159
3	Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud	6.58%	20
4	Mwy nag 20 munud	3.62%	11
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	304
			7

14. Fyddech chi'n dweud eich bod chi'n cael anhawster yn cyrraedd fferyllfa? Ticiwch un blwch.

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm

1	Ydw	7.47%	23
2	Nac ydw	89.61%	276
3	Ddim yn berthnasol	2.92%	9
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	308
			3

## 15. Os ydych chi'n cael anhawster yn cyrraedd fferyllfa, dywedwch pam.

### Cafwyd cyfanswm o 25 sylw:

- “Weithiau rydw i'n rhy sâl i gasglu fy mhresgripsiwn felly mae fy nhad yn mynd drosta i.”
- “Nid ydynt yn agor ar ddydd Sadwrn mwyach.”
- “Does gen i ddim car.”
- “Mae fy oriau gwaith ac ymrwymadau teulu a'u horiau agor yn golygu mai prin iawn yw'r cyfle i fynd yno.”
- “Rydw i'n anabl ac mae bellach yn rhy bell i mi gerdded. Mae hyn yn rhywbeth diweddar (yn y 5 mlynedd diwethaf).”
- “Mae'r oriau yn gyfyngedig o ganlyniad i gyfyngiadau COVID.”
- “Anodd parcio felly'n gorfod mynd nôl ar adegau gwahanol. Ddim ar agor ar y penwythnos na dros nos.”
- “Rydw i'n ddefnyddiwr cadair olwyn ac mae fy ardal leol yn fryniog ac â phalmentydd o ansawdd gwael. Yn ogystal, nid yw'r fferyllfa yn hygyrch.”
- “Mae safle agosach... [Enw'r lleoliad], ond nid yw'r fferyllfa gofrestredig eto.”
- “Mae fy Meddyg Teulu yn [Enw'r lleoliad], Caerdydd. Roedd y fferyllfa agosaf dros filltir i ffwrdd ac wedi symud yn bellach yn ddiweddar. Os ga i gynnig apwyntiad yn hwyr yn y prynhawn, ni allaf gyrraedd y fferyllfa ar droed mewn pryd ac mae'n rhaid i mi aros tan y diwrnod canlynol.”
- “Rwy'n aml yn cael apwyntiadau yn hwyr y prynhawn gyda'm meddyg teulu yn [enw'r lleoliad]. Mae fy fferyllfa arferol yn [enw'r fferyllfa] wedi cau bellach. Nid yw fferyllfeydd eraill yn yr ardal ar agor erbyn i mi gyrraedd yno, felly ni allaf gael fy meddyginiaeth ar yr un diwrnod. Os ydw i'n gweithio y diwrnod nesaf nid wyf yn aml yn dechrau fy meddyginiaeth am ychydig o ddiwrnodau.”
- “Rhy bell i ffwrdd ac yn anodd i'w chyrraedd.”
- “Dydw i ddim yn gyrru ac mae'n rhaid i mi gerdded i fy meddygfa ac i fferyllfa i gasglu fy meddyginiaeth. Roeddwn i'n arfer defnyddio'r fferyllfa ar [enw'r lleoliad] ond gan fod honno bellach wedi cau rydw i'n cael trafferth cyrraedd fferyllfa yn agos at fy meddyg teulu. O ganlyniad i hyn, ar achlysuron rydw i wedi gorfod aros diwrnod neu ddau cyn gallu casglu fy meddyginiaeth sydd wedi arwain at ddirywiad yn fy nghyflwr. Rydw i'n dioddef o heintiau ar y frest ac mae dechrau gwrthfotigau a steroidau yn bwysig iawn i mi.”
- “Rydw i'n ynysu gymaint â phosibl ar hyn o bryd. Gwnaeth fy fferyllfa argymell ffonio i sicrhau bod y presgripsiwn wedi'i lenwi, ac yna gwnaed yn siŵr ei fod yn y blwch casglu fel bod modd iddo gael ei gasglu yn hwylus iawn.”
- “Oraiau agor ddim yn cyd-fynd â fy oriau gwaith.”
- “Gorbryder difrifol.”
- “Mae gen i 2 ddisg llac ac yn dibynnu pa mor boenus yw fy nghefn, rydw i naill ai'n defnyddio ffyn baglau neu gadair olwyn.”

- “Weithiau, o ganlyniad i salwch - pan fo hyn yn digwydd, mae’r fferylllydd yn dod â fy meddyginiaeth i fy nghartref.”
- “Oriau gwaith.”
- “Oriau agor o amgylch gofal plant/gwaith.”
- “O ganlyniad i res o bobl.”
- “Gwaith ar y ffordd a rhwystrau yn {enw’r lleoliad} - wedi bod ar waith ers misoedd.”
- “Mae ciw bob amser, ac ni allaf aros am ormod o amser. Hefyd, mae’r ciw y tu allan yn agos iawn i safle bws prysur.”
- “Dwi’n dioddef agoroffobia ac rwyf hefyd yn gwarchod o ganlyniad i system imiwnedd wan.”
- “Rwy’n gweithio’n llawn amser.”

**16. Hoffem ni wybod sut rydych chi’n dod o hyd i wybodaeth ynglŷn â fferyllfa, fel oriau agor neu’r gwasanaeth sy’n cael ei gynnig. Ticiwch unrhyw flwch neu bob blwch sy’n berthnasol.**

(Roedd hi’n bosibl rhoi mwy nag un ateb i’r cwestiwn hwn)

		Ymateb		
		Canran yr Ymatebion	Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm
1	Byddwn i’n ffonio’r fferyllfa	18.68%	34.09%	105
2	Byddwn i’n ffonio GIG 111 Cymru neu ddefnyddio’r wefan	1.42%	2.60%	8
3	Byddwn i’n ffonio CAF 24/7	0.00%	0.00%	0
4	Byddwn i’n chwilio ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro	3.91%	7.14%	22
5	Byddwn i’n chwilio ar y we neu ddefnyddio ap ffôn clyfar e.e. Google Maps neu Facebook	39.32%	71.75%	221
6	Byddwn i’n defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol	10.85%	19.81%	61
7	Byddwn i’n holi ffrind	3.02%	5.52%	17
8	Byddwn i’n galw heibio’r fferyllfa ac yn holi’r staff yno	9.96%	18.18%	56
9	Byddwn i’n edrych ar y ffenest	10.68%	19.48%	60
10	Byddwn i’n darllen y cylchgrawn neu bapur newydd lleol	0.36%	0.65%	2
11	Ddim yn berthnasol	0.53%	0.76%	3
12	Arall	1.25%	2.27%	7
		<b>Cyfanswm yr Ymatebion</b>		562
		<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>		308
		<b>Wedi mynd heibio’r cwestiwn</b>		3

**Cafwyd cyfanswm o saith sylw:**

- “Dwi’n edrych ar wefan y fferyllfa i weld yr oriau agor.”
- “Caiff ei hysbysebu, fodd bynnag, yn ystod y pandemig maent yn postio eu hamseroedd amrywiol ar y cyfryngau cymdeithasol.”

- “Byddwn i’n chwilio ar y rhyngwrwyd am wefan fferyllfa benodol.”
- “Methu cofio, bob amser wedi defnyddio’r fferyllfa.”
- “Edrych ar beiriant chwilio.”
- “Gofyn i’m gwraig.”
- “Edrych ar eu gwefan.”

**17. Ydych chi’n teimlo eich bod chi’n gallu trafod rhywbeth preifat â’ch fferyllydd?  
Ticiwch un blwch.**

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	Ydw	55.52%	171
2	Nac ydw	9.74%	30
3	Dydw i byth wedi gorfod gwneud hynny	31.49%	97
4	Ddim yn gwybod	3.25%	10
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio’r cwestiwn</b>	3

**18. Ydych chi’n ymwybodol y gallech chi ddefnyddio’r gwasanaethau canlynol mewn fferyllfeydd yn rhan o’r GIG? Dewiswch y rhai hynny rydych chi’n ymwybodol ohonynt.**

(Roedd hi’n bosibl rhoi mwy nag un ateb i’r cwestiwn hwn)

		Ymateb		
		Canran yr Ymatebion	Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm
1	Brechiadau rhag y fflw (i’r rhai sy’n perthyn i’r grwpiau mewn perygl)	21.28%	88.20%	269
2	Gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau	12.03%	49.84%	152
3	Y gwasanaeth adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau’r claf	4.91%	20.33%	62
4	Gwasanaeth adolygu’r defnydd o gyfarpar	2.85%	11.80%	36
5	Dull atal cenhedlu brys, neu ‘bilsen y bore wedyn’	12.10%	50.16%	153
6	Cymorth i roi’r gorau i smygu	10.13%	41.97%	128
7	Cynllun anhwylderau cyffredin	17.48%	72.46%	221
8	Cyfnewid nodwyddau a chwistrellau	5.38%	22.30%	68
9	Gweinyddu cyffuriau o dan oruchwyliaeth	5.46%	22.62%	69
10	Cyflenwadau brys o feddyginiaethau	7.28%	30.16%	92
11	Nac ydw	1.11%	4.59%	14
		<b>Cyfanswm yr Ymatebion</b>		1264

	<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>		305
	<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>		6

**19. Ydych chi wedi defnyddio unrhyw rai o'r gwasanaethau sydd wedi eu rhestru yng nghwestiwn 18? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

(Roedd hi'n bosibl rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn)

		<b>Ymateb</b>		
		<b>Canran yr Ymatebion</b>	<b>Canran yr Ymatebwyr</b>	<b>Cyfanswm</b>
1	Brechiadau rhag y fflw	15.12%	20.28%	57
2	Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau	15.92%	21.35%	60
3	Y gwasanaeth adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau'r claf	1.33%	1.78%	5
4	Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar	0.27%	0.36%	1
5	Dull atal cenhedlu brys	5.84%	7.83%	22
6	Cymorth i roi'r gorau i smygu	1.59%	2.14%	6
7	Cynllun anhwylderau cyffredin	23.34%	31.32%	88
8	Cyfnewid nodwyddau a chwistrellau	0.53%	0.71%	2
9	Gweinyddu cyffuriau o dan oruchwyliaeth	0.00%	0.00%	0
10	Cyflenwadau brys o feddyginiaethau	6.90%	9.25%	26
11	Nac ydw	29.18%	39.15%	110
		<b>Cyfanswm yr Ymatebion</b>		377
		<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>		281
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>		30

**20. Hoffech chi ddweud unrhyw beth arall wrthym am eich profiad o'ch fferyllfa leol?**

**Cafwyd cyfanswm o 131 sylw:**

- “Nid oes lle mewn gwirionedd sy'n addas ar gyfer sgwrs gyfrinachol neu breifat, a fyddai'n ddefnyddiol iawn.” Hoffwn petai'r fferyllfa ar agor ar ryw adeg dros y penwythnos.”
- “Y staff bob amser yn barod iawn eu cymwynas.”
- “Y staff bob amser yn barod iawn eu cymwynas.”
- “Mae fy fferyllfa leol yn gyfeillgar ac effeithlon.”
- “Mae'r fferyllfa gymunedol wedi darparu gwasanaeth o ansawdd uchel cyson yn ystod y pandemig COVID-19, gan gynnig mynediad agored pan mae gwasanaethau eraill wedi cau, neu wedi bod â hygyrchedd cyfyngedig. Wedi ymateb yn gadarnhaol iawn fel

proffesiwn, i helpu i reoli salwch cronig a delio â mân anhwylderau, gan leihau'r baich mewn mannau eraill yn y GIG.”

- “Maent yn WYCH! Gwasanaeth cwsmeriaid a chyngor rhagorol.”
- Roedden nhw'n help mawr.”
- “Mae eu dull o storio presgripsiynau sydd wedi'u creu o'r cyflenwad awtomatig gan y meddygon ychydig yn anhrefnus a blêr. Mae'n cymryd tipyn o amser iddynt edrych drwy sawl drôr er eu bod wedi'u grwpio'n ôl yr wyddor.”
- “Staff cyfeillgar iawn. Mae fy nhabledi bob amser yn barod i'w casglu. Dim problemau, rwyf wedi bod yn defnyddio'r fferyllfa hon ers dros 20 mlynedd.”
- “Byddai'n ddefnyddiol pe gallai oriau agor y fferyllfeydd adlewyrchu oriau agor y practisau meddygon teulu.”
- “Byddai'n dda gallu archebu presgripsiynau dros e-bost yn uniongyrchol i'r fferyllfa.”
- “Nid yw'r ddolen rhwng y system gyfrifiadurol a'r meddyg teulu bob amser yn dda pan fyddaf yn archebu fy meddyginiaethau drwy'r fferyllfa, ac mae meddyginiaethau wedi mynd ar goll ar fwy nag un achlysur.”
- “Mae Clearwater Way, fferyllfa Lakeside yn wych!”
- Mae'r fferyllfa agosaf at fy nghartref yn [enw'r lleoliad] ar y stryd fawr, felly mae'n anodd parcio. Yn ddiweddar maent wedi dechrau codi tâl ychwanegol ar gyfer dosbarthu, ac nid ydynt mwyach yn gadael i mi archebu meddyginiaethau rheolaidd drwyddynt. Maent yn dweud bod yn rhaid i mi ffonio'r meddyg, ond mae'r feddygfa'n dweud na allant dderbyn ceisiadau rheolaidd dros y ffôn. Mae'n anobeithiol! Hoffwn petai mwy o ddewis o fferyllfeydd yn ardaloedd gwledig [enw'r lleoliad].”
- “Mae'r amser y mae'n rhaid i chi ei aros i gael meddyginiaeth reolaidd a archebwyd dros y ffôn wedi cynyddu o 48 awr i 96 awr, sydd wedi bod yn anodd ei drefnu gan fy mod yn cymryd inswlin. Ni chefais wybod tan i mi siarad â nhw, ond diolch byth roedd gen i ddigon o gyflenwad. Mae'r ciwiau y tu allan weithiau'n cynnwys 15 o bobl, a chan fy mod yn nyrs ar y rheng flaen, gall fod yn anodd aros pan rydych yn brysur.”
- “Rwyf wedi bod yn cael brechlyn fflw ers 2017 pan ddatblygodd fy mam a'm brawd ganser gan nad oeddwn am eu rhoi mewn perygl uwch. Rwy'n talu am fy mrechllyn fflw.”
- “Nac ydw.”
- “Hoffwn petai'r fferyllfa ar agor ar fore Sadwrn.”
- “Ar gau dros ginio sy'n rhyfedd iawn y dyddiau hyn.”
- “Mae'n rhwystredig gorfod casglu presgripsiwn gan y meddyg a mynd ag ef i'r fferyllfa, wedyn gorfod aros i'r feddyginiaeth gael ei gweinyddu. Maent wrth ymyl ei gilydd, felly nid oes syniad gen i pam na all y meddyg roi'r presgripsiynau i'r fferyllfa cyn gynted ag y bydd y meddyg wedi ysgrifennu'r presgripsiynau, fel bod y feddyginiaeth yn barod i'w chasglu. Mae'n gwneud mwy o synnwyr o lawer gyda COVID i fynd i'r fferyllfa yn unig, yn hytrach na'r feddygfa a'r fferyllfa, ac wedyn gorfod aros am gyfnod yn y fferyllfa. Mae angen bod yna broses symlach, yn enwedig ar gyfer presgripsiynau rheolaidd.”
- “Nac ydw.”
- “Byddai'n ddefnyddiol pe byddai fferyllfa wrth ymyl fy mhreactis meddyg teulu. [Enw'r feddygfa].”
- Mae [enw'r fferyllfa] mor effeithlon o gymharu â [enw'r fferyllfa] - gwasanaeth rhyngwyd ar gyfer meddyginiaethau reolaidd h.y. neges destun yn wych
- “Mae'r fferyllfeydd yn glinigwr gwerthfawr a hanfodol yn y gymuned. Mae'r fferyllwyr mor wybodus a chyfeillgar. Y staff yn hawdd i siarad â hwy. Mae'r broses o ddsbarthu presgripsiynau rheolaidd yn rhy araf. Dylent gynnig mwy o wasanaethau i leddfur pwysau ar feddygon teulu. Dylai fferyllfeydd wneud cynllun cerdyn C, dulliau atal cenhedlu ac ati. Mae angen mwy o barch arnynt.”

- “Rhoi’r gorau i gau amser cinio, weithiau dyma’r unig amser y gallaf fynd.”
- “Cyflym, effeithlon, cyfeillgar.”
- “Mae’n rhy fach ac yn rhy brysur. Ni chynlluniwyd ar gyfer ystad dai newydd sy’n cynnwys miloedd ar filoedd o breswylwyr newydd. Mae lefel uwch o drosiant staff a chyflenwadau os bydd eu hangen, ac nid yw meddyginiaethau ar bresgripsiwn bob amser ar gael mewn pryd. Gall hyn beri straen os bydd cyflenwad o feddyginiaeth yn isel. Mae eitemau sydd ar goll yn golygu sawl ymweliad â’r fferyllfa, ac mae hyn yn fater sy’n digwydd yn aml.”
- “Ni ddylent gau dros ginio.”
- “Mae’r staff yn wych, bob amser yn gymwynasgar ac yn ddymunol.”
- “Gwasanaeth gwael iawn, dywedir wrthyf yn aml i ddychwelyd ar ôl cinio, a bydd yr eitemau ddim yn barod o hyd. Dywedir wrthyf ar y ffôn fod yr eitemau’n barod i’w casglu, ond pan dwi’n cyrraedd dywedir wrthyf nad ydynt mewn stoc eto. Ciwiau hir yn aml.
- “Nid oedd eitem ar gyfer rhywun arall sy’n fformiwleiddiad rhyddhau’n araf ar gael yn y fferyllfa arferol [enw’r fferyllfa], ac ni chynigiwyd unrhyw help ar wahân i edrych yn rhywle arall, ond pan oeddwn yn edrych o gwmpas y fferyllfeydd eraill yn yr ardal, cefais gyngor gwych gan [enw’r fferyllfa] ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sef petai meddyg yn newid y disgrifiad i un cyffredinol yn hytrach nag enw brand, byddai meddyginiaethau amgen ar gael y gallent eu darparu. Cysylltodd y claf â’r meddyg eto, ac roedd y meddyg erbyn hyn wedi rhoi fersiwn amgen iddi nad oedd yn un rhyddhau’n araf, a chafodd ei datrys a’i dosbarthu gan [enw’r fferyllfa] y noson honno. Ymddengys i mi y gallai [enw’r fferyllfa] a’r meddyg fod wedi trefnu hynny yn gynharach. Gwn fod yn rhaid glynu wrth yr un cyffur bob tro ar gyfer rhai cyffuriau, ond lle nad oes angen gwneud hynny, pam gwneud bywyd yn anodd?”
- “Byddai’n well gennyf pe baent yn agor ar y penwythnos - hyd yn oed petai’n oriau byrrach. Mae fy mhresgripsiwn ar gael ar ddydd Gwener. Bu rhai adegau pan gafodd ei oedi a bu’n rhaid i fi aros tan ddydd Llun.”
- “Nac ydw.”
- “Maent yn ei gwneud mor anodd â phosib i gasglu meddyginiaeth. Mae oriau agor yn anodd. Dim ond unwaith y dydd maent yn casglu presgripsiynau wrth y meddyg teulu. Os caiff presgripsiwn ei gyflwyno, gofynnir i chi aros y tu allan yn y glaw hyd yn oed os yw’n wag.”
- “Yn ystod y pandemig dylai’r fferyllfa osod ardal wrth y drws i weinyddu presgripsiynau rheolaidd yn hytrach na gorfod cerdded drwy’r siop gyfan a chiwio - ceir mesurau cadw pellter cymdeithasol, fodd bynnag mae llawer yn awyddus i leihau faint o amser a dreulir dan do.”
- “Maent wedi gwneud rhai gwallau, 4 yn ddiweddar, sydd wedi gwneud i fi boeni am gael y feddyginiaeth gywir. Ni allaf gael mynediad at y fferyllfa a hoffwn newid, ond nid wyf yn hyderus i wneud hynny ar y foment oherwydd ni wn a fydd fferyllfeydd eraill yn cynnig darpariaeth well.”
- “Rydym yn ystyried symud i fferyllfa arall, nid yw gwallau a staff anhapus yn helpu.”
- “Mae’r fferyllfa rydym yn mynd iddi gan ei bod yn agos at ein meddyg teulu yn brin o staff yn gyffredinol, ac mae’n teimlo ychydig yn ddi-drefn yno, gan fod ganddynt ormod i’w wneud ac maent bob amser yn delio â phroblemau wrth iddynt godi yn hytrach na threfnu i’w hosgoi. Ddim yn gyfforddus iawn i’r rhai sy’n defnyddio’r gwasanaeth.”
- “Mae staff ein fferyllfa leol bob amser yn gymwynasgar ac yn gyfeillgar.”
- “Nid oes un fferyllfa leol yn hygyrch i mi yn [enw’r lleoliad] ac nid yw [enw’r fferyllfa] wedi’i chofrestru eto.

- “Teimlaf y gallaf gael cyngor ganddynt yn gynt nag y byddwn wrth feddyg teulu, yn haws mynd atynt.”
- “Bob amser yn gymwynasgar ac yn hapus i gynnig cyngor. Byddant yn dod o hyd i bethau'n gyflym os nad ydynt ar gael ar unwaith.”
- “Nid yw lleoliadau'r fferyllfeydd sydd agosaf at fy meddyg teulu yn gyfleus ac rwy'n ei chael yn anodd pan dwi'n cerdded.”
- “Yn gyffredinol dda, ond gallent wneud mwy.”
- “Yn ddiweddar nid yw fy mhrofiad wedi bod yn dda. Nid oedd gan un fferyllfa fy meddyginiaeth mewn stoc. Ni wnaethant roi gwybod i fi. Pan gyrhaeddais, ar ôl aros 20 munud i gael fy ngweld, dyna pryd y cefais wybod, ac roeddent yn meddwl bod ei harchebu erbyn yr wythnos nesaf yn ddigon da. Ar achlysur arall mewn fferyllfa wahanol roeddent wedi rhoi deunydd pecynnu fy meddyginiaeth ar gontract allanol [enw'r lleoliad]! Eto ni cefais wybod tan i mi gyrraedd (y ddwy waith ar ôl aros 48 awr ar ôl i mi anfon fy mhresgripsiwn i mewn) a bu'n rhaid i mi aros 2 ddiwrnod arall ar gyfer y feddyginiaeth. Yn gyffredinol, nid wyf yn deall pam mae'n cymryd cymaint o amser i fferyllfeydd becynnu fy meddyginiaeth unwaith rwyf wedi darparu'r presgripsiwn.”
- “Nac ydw.”
- “Mae'r fferyllfa rwy'n ei defnyddio yn rhagorol. Mae'r bobl yn wych ac yn gymwynasgar iawn.”
- “Mae fy fferyllfa i bob amser yn brysur, ond bob amser yn gyfeillgar a chymwynasgar.”
- “Staff gwych a chyfeillgar, bob amser yn barod i helpu.”
- “Nac ydw.”
- “Mae'n rhaid aros yn hir iawn ac maent yn anhrefnus iawn.”
- “Nac ydw.”
- “Dweud celwydd am gais y meddyg, er enghraifft roedd angen meddyginiaeth frys ar fy llystad, a gwnaeth y meddyg alw yn y tŷ a'i nodi fel achos brys. Nid oedd yn ymddangos fel bod staff y dderbynfa yn poeni ryw lawer a gwnaethant ddweud nad oedd yn barod, ac y dylwn ddychwelyd yfory. Pan ymchwiliwyd i'r achos, canfuwyd bod y meddyg wedi nodi ei fod yn frys, a gwnaeth y meddyg ymchwilio i'r sefyllfa hefyd gan ei fod yn peri pryder iddo. Gwnaethom dderbyn ymddiheuriad, ond roedd yn brofiad mor ofidus fel bod fy mam yn gwrthod mynd i mewn yno. Rwy'n teimlo'n rhwystredig oherwydd bod y fferyllfa yn gwybod bod fy llystad yn ddifrifol wael, cymerodd ei feddyginiaeth, ond cynyddwyd y dos, ond gwnaethant wrthod delio ag ef ar frys. Gwnaethant hyd yn oed ddangos y papur o bell i fy mam, a oedd erbyn hyn yn ei dagrau. Mae'n anghyson pan maent yn dweud 'peidiwch â thrafferthu mynd i weld y meddyg teulu, ewch i weld y fferyllfeydd!”
- “Gwasanaeth DIOGEL ac effeithlon gwych [enw'r fferyllfa].”
- “Na, rwy'n hapus gyda'r fferyllfa.”
- “Staff caredig a chymwynasgar, mae'r fferyllfa bob amser yn lân.”
- “Mae'r staff yn y fferyllfa yn gymwynasgar iawn a bob amser yn barod i sgwrsio, ac mae'r fferyllfa bob amser yn lân.”
- “Staff effeithlon, rhagorol, bob amser yn gyfeillgar a byth unrhyw broblemau, 10\10.”
- “Mae [enw'r fferyllfa] yn fferyllfa anhygoel. Bob amser gwasanaeth arbennig gan staff cyfeillgar, profiadol.”
- “Rwyf ond wedi defnyddio'r fferyllfa bresennol am y tair blynedd diwethaf, ac oes, weithiau mae ciwiau neu mae'n rhaid i chi aros i weld rhywun, boed i gasglu presgripsiwn neu i gyflwyno un, ond rwy'n teimlo'n fwy cyfforddus yno ac mae [enw'r fferyllfeydd] bob amser wedi rhoi croeso i fi, ac mae'n dangos ei fod wir yn poeni am ei gwsmeriaid a phobl yn gyffredinol.”

- “Maent wedi bod yn gymwynasgar iawn ers i fy mam fynd yn sâl. Bu’n rhaid i ni symud meddygfa/fferyllfa fy mam yn ddiweddar a gwnaethant helpu gyda’i phresgripsiwn rheolaidd.”
- “Da.”
- “Na roeddwn bob amser yn cael help a chyngor gwych.”
- “Mae [enw tîm y fferyllfa] wedi gweithio’n ddiflino yn ystod y pandemig, ac maent bob amser yn gymwynasgar. Gallai fod yn werth ystyried rhoi rhyw fath o gysgodfan neu orchudd y tu allan yn ystod y pandemig, oherwydd mae aros y tu allan ym mhob math o dywydd ar gyfer yr hen a’r ifanc yn anghyfforddus.”
- “Staff cyfeillgar a chymwynasgar.”
- “Ddim yn berthnasol”
- “Cymwynasgar ac effeithlon iawn.”
- “Staff cyfeillgar a bob amser yn barod i roi cyngor.”
- “Bob amser wedi bod yn wasanaeth da.”
- “Nac ydw.”
- “Fferyllfa wych. 10/10.”
- “Cymwynasgar ac yn llawn gwybodaeth, cyfeillgar a byth wedi gwneud i fi deimlo’n niwsans.”
- “Mae’n wych. Mae [enw’r fferyllfa] wedi bod yn ein hardal am gyfnod hir iawn. Mae [enw’r fferyllfa] y fferyllfa yno bob amser yn gymwynasgar iawn, ac mae bellach yn gweithio gyda [enw’r cwmni], ac mae wedi rhoi llawer o help i fi.”
- “Mae angen iddynt drefnu ffordd i bobl gyflwyno/casglu presgripsiynau heb orfod aros y tu allan mewn ciw am hanner awr, tra bod rhywun arall yn cael un wedi’i drefnu (oherwydd uchafswm o ddau gwsmer yn sgil cyfyngiadau COVID-19). Gwnaeth fy fferyllfa gadwyn flaenorol lawer o gamgymeriadau, ond gwnaeth y fferyllfa gau chwe mis yn ôl, yn union wrth i fi symud i’r un annibynnol rwy’n ateb yn ei chylch. Y peth da amdanynt oedd eu horiau agor, hyd at 8pm yn ystod yr wythnos ac ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Nawr mae’n rhaid i fi frysio o’r gwaith am 5pm i gyrraedd yno cyn 6pm, ac rwy’n cael cerydd am ei adael i’r funud olaf fel pawb arall yn y ciw!!”
- “Mae fy fferyllfa leol, yr wyf bob amser wedi’i defnyddio’n flaenorol yn fferyllfa sy’n rhan o siop, felly nid oes unrhyw breifatrwydd beth bynnag. Yn yr amgylchiadau presennol gyda COVID, rwyf hefyd ddim yn gyfforddus yn mynd yno oherwydd nifer y bobl sydd yn y siop, felly rwyf wedi gorfod defnyddio fferyllfa sydd yn llawer ymhellach i ffwrdd o’r cartref. Byddai’n gwell gennyf fferyllfa annibynnol.”
- “Yn sydyn, nid oedd y wefan ar gael mwyach. Rwyf wedi cael problemau gyda phresgripsiynau rheolaidd.”
- “Proffesiynol iawn a chyfeillgar.”
- “Gwasanaeth personol y fferyllfa yn fy adnabod, ac yn gwybod beth yw fy anghenion.”
- “Maent bob amser yn gymwynasgar.”
- “Ni all fy fferyllfa i wneud digon i helpu, mae’r staff yn wych ac yn gweithio’n galed iawn.”
- “Gwasanaeth araf, ciwiau y tu allan. Nid yw’n ymddangos yn deg i fod ag un person ar y cownter yn unig i ddelio â’r gwaith casglu a’r ymholiadau. Yn ystod yr adeg hon, credaf y byddai gwasanaeth casglu cyflymach wedi bod yn well.”
- “Mae fy fferyllfa leol yn wych ond yng nghanol y pandemig ni allaf ddeall pam maent yn cau bob amser cinio - rwy’n deall bod y staff yn brysur ac yn haeddu egwyl, ond y tro diwethaf roeddwn yn casglu presgripsiwn roedd y tîm cyfan yn cael egwyl te/coffi (a oedd yn golygu bod ciw enfawr y tu allan), a hefyd gwnaethant gau’n ddiweddar ar fore Sadwrn. Mae’n teimlo fel pe na baent yn poeni. A oes angen iddynt gymryd egwyl ar yr

un pryd? Roedd mwy o staff ar ddyletswydd nag yr wyf erioed wedi'u gweld, felly gallent drefnu egwyliau gwahanol.”

- “Yn ei chael yn anodd cael sgyrsiau cyfrinachol, ac yn anodd cael gafael ar y fferylllydd. Ni chredaf fod yr ystafelloedd ymgynghori'n cael eu defnyddio'n rheolaidd nac yn cynnig ryw llawer. Hoffwn petawn yn gallu archebu fy meddyginiaeth ar-lein, mae'n cymryd llawer o amser i ddefnyddio'r slipiau papur neu i ffonio. Rwyf wedi symud o Loegr lle roedd pethau'n llawer mwy effeithlon o ran archebu a chael fy mhresgripsiwn rheolaidd.”
- “Nid yw'r staff yn gyfeillgar iawn, a llawer o'r amser, nid yw'r meddyginiaethau mewn stoc, felly mae'n rhaid i chi ddychwelyd yr ail waith i gasglu meddyginiaethau.”
- “Yn y gorffennol mae [enw'r fferyllfa] wedi dweud wrthyf ddwywaith i fynd i'r Adran Achosion Brys ar gyfer llid pilen y llygad, am fy mod yn gwisgo lensys cyffwrdd. Nid yw hi'n hawdd mynd ati o gwbl, nac yn gymwynasgar - na hyd yn oed yn weladwy.”
- “Os nad yw'r cynnyrch ar gael, byddant yn ei archebu ar fy nghyfer, ar yr un diwrnod fel arfer!”
- “Mae'r holl staff yn fy [enw'r fferyllfa] leol yn wych, pawb yn bobl garedig iawn ac yn hawdd siarad â hwy heddiw.”
- “Ni wnaethant gysylltu â fi pan oedd fy mhresgripsiwn rheolaidd yn barod, felly roedd y bwyd ar bresgripsiwn wedi dyddio ac ni chafodd ei roi i mi - am wastraff arian cyhoeddus!! Dwi'n tybio y byddai'r fferyllfa wedi cael ei thalu am weinyddu presgripsiwn anghywir!!”
- “Mae'r staff mor gyfeillgar a chymwynasgar iawn.”
- “Mae fy fferyllfa leol ac arferol yn cynnig gwasanaeth cwsmeriaid da ac mae'r holl staff yn gymwynasgar, cwrtais a llawn gwybodaeth.”
- “Roedd yn arfer bod yn wasanaeth rhagorol ond mae bellach yn esgeulus iawn. Staff gwahanol o hyd, nad ydynt yn ymwybodol o'r hyn sydd ei angen.”
- “Drysau trwm iawn sy'n ei gwneud yn anodd gyda phlant bach a phram.”
- “Gwagle bach, dim llawer o breifatrwydd er bod ystafell ar wahân, perygl o gael eich clywed.”
- “Byddai'n well gen i ddefnyddio fy fferyllfa leol yn y lle cyntaf, cyn ceisio cael apwyntiad yn y feddygfa.”
- “Mae'r holl staff yn groesawgar a chyfeillgar iawn, gwybodaeth dda ac maent bob amser yn ceisio helpu mewn unrhyw ffordd a allant.”
- “Mae llawer o dai newydd yn cael eu hadeiladu yn yr ardal hon, ac mae'n annhebygol y bydd fferyllfeydd ychwanegol, felly bydd hyn yn broblem yn y dyfodol agos.”
- “Anhrefnus. Yn delio ag un cwsmer ar y tro er bod llawer o staff y tu ôl i'r cownter.”
- “Mae'r fferyllfa sydd wrth ymyl practis meddyg teulu fy mam yn dosbarthu ei meddyginiaeth, fodd bynnag, yn aml iawn, ni chaiff y feddyginiaeth ei dosbarthu neu caiff y pypiau eu gadael yn yr oergell yn y fferyllfa. Mae fy mam sy'n 85 oed wedi bod yn yr ysbyty dros y 4 wythnos diwethaf gyda COVID, a disgwylir iddi ddod adref ddydd Llun 15 Chwefror, unwaith y bydd pecyn gofal wedi'i roi ar waith. Gofynnodd y Gweithiwr Cymdeithasol i ni drefnu bod meddyginiaeth mam yn cael ei rhoi mewn 'Pecynnau Pothell' fel bod y gweithwyr gofal yn gallu ei helpu gyda'i meddyginiaeth, ond, er gwaethaf y ffaith i ni ffonio bob fferyllfa yn [enw'r lleoliad], nid oedd un yn gallu ein helpu, ac nid yw fferyllfa arferol mam hyd yn oed yn cynnig y gwasanaeth hwn.”
- “Nid yw'r meddyg teulu bob amser yn anfon y presgripsiwn at y fferyllfa yn brydlon...ond maent yn mynd ar ei drywydd.”
- “Teimlaf fod yr adolygiad meddyginiaeth wedi'i orfodi arnaf. Nid oedd o ddefnydd o gwbl a chefais yr argraff ei fod yn gyfle i roi tic mewn blwch a gwneud arian ar gyfer y fferyllfa, ac yn fwy o fudd iddyn nhw na fi.”

- “Ni ddylent gau bob amser cinio. Angen cynnig mwy o wasanaethau. Gallent gymryd llawer o bwysau oddi ar feddygon teulu. Gallent fonitro lefelau haearn. Mae gen i anemia cronig a allai gael ei fonitro gan y fferylllydd. Hefyd gallai gweithrediad fy thyroid gael ei fonitro gan y fferylllydd. Y rhan fwyaf o wasanaethau dulliau atal cenhedlu. Gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc gan eu bod yn fwy hygyrch ac yn haws mynd atynt. Cynlluniau cerdyn C. Mae'r rhestr yn ddiderfyn, ni ddylent fod yn beiriannau gweinyddu.”
- “Rwy'n archebu fy mhresgripsiwn unwaith y mis drwy MyHealthOnline, mae'n cymryd oddeutu 5 diwrnod. Mae'r fferyllfa yn anfon neges destun ataf i adael i fi wybod pryd fydd fy meddyginiaeth ar gael i mi ei chasglu. Credaf fod y system hon yn gweithio'n dda iawn.”
- “Roedd fy fferyllfa leol yn barod iawn eu cymwynas pan oedd fy nghoes wedi chwyddo. Ni allwn gael apwyntiad gyda'r meddyg teulu tan y diwrnod nesaf, felly es i'r fferyllfa a'u cyngor hwy oedd y dylwn gael rhywun i edrych ar fy nghoes ar unwaith. Gan nad oeddwn yn gallu cael apwyntiad gyda'r meddyg teulu, er gwaethaf y ffaith i fi fynd i mewn i'r feddygfa ac esbonio bod fy nghoes yn chwyddo, es i'n syth i'r adran damweiniau ac achosion brys a chefais ddiagnosis ar gyfer llid yr isgroen. Heblaw am y fferylllydd, ac oherwydd na allwn gael ymgynghoriad gyda'r meddyg teulu, byddwn fwy na thebyg wedi mynd adref a'i adael tan y diwrnod nesaf, gan oedi'r defnydd o wrthfotigau felly. Roeddwn yn eu cymryd am 3 wythnos, ac i ffwrdd o'r gwaith am bythefnos. Yn y practis meddyg teulu, roedd arwydd mawr yn awgrymu y gallai'r fferylllydd ddellio â rhai mân anhwylderau. Yn yr adran damweiniau ac achosion brys, roedd arwydd yn dweud wrth bobl i fynd at eu meddyg teulu yn hytrach nag adran damweiniau ac achosion brys. Credaf fod hon yn enghraifft dda sy'n dangos sut y gall fferylllydd helpu, ond mae hefyd yn enghraifft sy'n dangos pam mae pobl yn mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys yn y pen draw, er gwaethaf y ffaith eu bod yn ceisio mynd i'r man iawn.”
- “Bob amser yn gymwynasgar, cyfeillgar a llawn gwybodaeth.”
- “Rwy'n byw mewn pentref, gyda phoblogaeth fawr o'r henoed, a dyma'r unig fferyllfa sydd ar gael ar droed, mae gwasanaeth bws cyfyngedig iawn ond nid yw'n mynd yn uniongyrchol heibio fferyllfa arall. Bydd peidio â chael y fferyllfa leol hon yn effeithio'n fawr, ac yn negyddol, ar y rhai sy'n byw yn y pentref nad oes ganddynt eu trafndiaeth eu hunain.”
- “Maent yn taflu eitemau'n ddiogel ar fy rhan pan fydd angen gwneud hynny.”
- “Er ei bod ond yn fferyllfa [nifer y fferyllwyr] yn [enw'r ardal], mae'r gwasanaeth cystal ag unrhyw un, ac mae'r fferylllydd yn effeithlon, yn broffesiynol ac yn gyfeillgar.”
- “1)BYDD GWASANAETH DOSBARTHU MEDDYGINIAETHAU I'R CARTREF YN DDEFNYDDIOL IAWN OS CAIFF EI DDARPARU DRWY WASANAETH DOSBARTHU CANOLOG AR DRAWS CAERDYDD, YN HYTRACH NA'I ADAEL FEL OPSIWN SYDD AR GAEL MEWN RHAI FFERYLLFEYDD YN UNIG.
  - 2) AROLWG BODDHAD CWSMERIAID AR-LEIN GAN Y BWRDD IECHYD AR GYFER POB FFERYLLFA, A DYLLID DECHRAU EI ARDDANGOS YN GYHOEDDUS O FLAEN POB FFERYLLFA. YN DEBYG I SGÔR HYLENDID AR GYFER BWYTAI.
  - 3) Dylem fod yn gallu rhoi sylwadau, a rhoi adborth yn achos gwasanaeth gwael neu wasanaeth da i'r Bwrdd Iechyd neu Gyngor Caerdydd. Fel arall gallent weithredu heb lawer o atebolrwydd fel gwasanaeth cyflenwi mawr heb unrhyw reolaeth ar ansawdd.”
- “[Enw'r fferyllfa]. Profiad gwael gyda'r fferyllfa. Gwasanaeth cwsmeriaid gwael (diffyg tosturi) ac amseroedd amser hir (ymddengys nad yw wedi'i staffio'n ddigonol/systemau gwael ar waith)”

- “Rwy’n hoffi defnyddio [enw’r fferyllfa] yn [enw’r lleoliad] - mae’n llai na 10 munud i ffwrdd ar droed o’r cartref. Fodd bynnag, nid yw’n fferyllfa sy’n gweinyddu meddyginiaethau, er eu bod yn fodlon gweinyddu o’u fferyllfa yn [enw’r lleoliad] a’i ddosbarthu i [enw’r lleoliad], mae hyn yn cymryd amser ac weithiau rwyf am gael y presgripsiwn yn gyflym.”
- “Ymddengys nad ydynt gyda’r gorau o ran trefnu, ac ymddengys bob amser fod eitemau ar goll neu’n anghywir pan fyddaf yn casglu meddyginiaeth fy nheulu.”
- “Nid oes ganddynt yr hyn sydd ei angen arnaf bob amser, ac nid ydynt bob amser yn fy helpu i ddod o hyd iddo yn rhywle arall. Problem staff.”
- “Mae wedi gwaethygu llawer. Yn [enw’r fferyllfa] mae’n rhaid i chi aros amser hir iawn iddynt baratoi eich presgripsiwn, ond ymddengys fod ffrindiau staff sy’n ymweld yn cael eu rhai nhw yn llawer cyflymach, tra eich bod chi’n dal i aros. Nid yw [enw’r fferyllfa] byth yn ateb y ffôn pan fyddwch yn ceisio canfod a yw eich presgripsiwn yn barod mewn gwirionedd, ac maent yn archebu meddyginiaeth rydych wedi dweud nad oes ei hangen arnoch y tro nesaf fel meddyginiaeth dymhorol, ond nid ydynt yn archebu’r feddyginiaeth sydd ei hangen arnoch yn rheolaidd mewn pryd, ac mae byth yn barod.”
- “Wedi’i lleoli yn [enw’r fferyllfa] - dim cadwyn stryd fawr.”
- “Byddai’n ddefnyddiol iawn gallu casglu presgripsiynau gan feddygon ymgynghorol yn y clinig yn y fferyllfa leol, yn hytrach na gorfod aros am amser hir yn fferyllfa’r ysbyty (weithiau ymhell dros awr) i gasglu meddyginiaethau newydd.”
- “Byth problem fel arfer. Ni ddywedwyd wrthyf erioed a allaf gael meddyginiaeth ar bresgripsiwn wedi’i dosbarthu i’r cyfeiriad cartref, neu a yw’n orfodol i’w chasglu’n bersonol.”
- “Dim ond un adolygiad meddyginiaeth erioed. Ni wyddwn beth ydoedd. Nid oedd o unrhyw ddefnydd o gwbl. Y cyngor yw gofyn yn yr ysbyty. Yn syml, dwi’n ceisio dod o hyd i’r ateb fy hun, neu dwi’n gofyn ar twitter.”
- “Wedi dirywio, ddim yn addas i’r diben ar gyfer ardal sy’n tyfu.”
- “Y gwasanaeth o’r meddyg teulu i’r fferyllfa yn warthus. Yn ystod y pandemig, ni chaiff y presgripsiynau newydd sy’n cael eu hanfon yn uniongyrchol i’r fferyllfa eu paratoi mewn da bryd. Rwy’n aml yn galw heibio ryw 4 diwrnod i wythnos yn ddiweddarach, ac nid ydynt yn barod, sy’n golygu bod yn rhaid i mi aros iddynt ei brosesu (10 munud i 30 munud), sy’n mynd yn groes i rheolau diogelwch COVID-19.”
- “Mae’n bwysig cael fferyllfa leol.”
- “Dim ond ar agor 9-6 o ddydd Llun i ddydd Gwener. Angen iddo agor gyda’r nos ac ar y penwythnos hefyd.”
- “Mae fy fferyllfa i - [enw’r fferyllfa] - yn wych, maent yn casglu fy mhresgripsiynau ac yn gymwynasgar os byddaf yn ffonio a gwneud ymholiadau OND mae’r ffaith nad ydynt yn dosbarthu, yn enwedig o ystyried rheolau’r cyfyngiadau symud, yn WARTHUS.”
- “Credaf yn gyffredinol y gallai’r gwasanaeth cwnsela wrth roi meddyginiaethau fod yn well.”
- “Mae’r fferyllwyr eu hunain fel arfer yn brysur iawn ac nid ydynt i’w gweld wrth y prif gownter. Mae’n debygol felly, petawn i angen cyngor, y byddwn yn gorfod ei drafod gydag aelod o’r staff gwerthu yn y lle cyntaf, a fyddai wedyn yn cyfeirio’r cwestiwn at y fferylllydd. Mae hyn yn ymddangos yn rhesymol ond nid wyf bob amser yn teimlo fy mod yn cael cyngor ‘arbenigol’ yn yr un modd, er gwaethaf y ffaith fy mod yn siŵr bod y staff gwerthu wedi cael rhywfaint o hyfforddiant. Nid oes mynediad uniongyrchol i’r fferylllydd, naill ai dros y ffôn neu’n bersonol. Mae un fferyllfa a ddefnyddiaf sydd gerllaw ddim hyd yn oed yn ateb y ffôn, a hynny siŵr o fod oherwydd nifer y galwadau y byddai’n rhaid iddynt eu cymryd pe baent yn ei ateb.”

- “Mae angen i [enw'r fferyllfa] foderneiddio mynediad a stoc. Ymddengys ei bod yn dibynnu'n llawn ar gwsmeriaid yn ystod y dydd o'r practis meddyg teulu ar draws y ffordd, ond nad ydynt yn gwasanaethu'r gymuned leol eu hunain. Er enghraifft, gall pobl sy'n gweithio ond gael mynediad iddynt ar fore Sadwrn, ac fel arfer nid oes ganddynt beth sydd ei angen arnoch (stoc cyfyngedig iawn), felly os maent yn ei archebu, bydd wythnos arall yn mynd heibio. Rwy'n heini ac iach felly rwy'n mynd ar gefn beic i [enw'r fferyllfa], ond rwy'n meddwl ei fod yn wasanaeth cymunedol gwael iawn.”
- “Rwyf wedi bod yn cael fy meddyginiaethau wedi'u dosbarth ers COVID-19, ac nid wyf yn gweithio ar hyn o bryd, ond yn flaenorol, roedd peidio â chael gwasanaeth ar ddydd Sadwrn gan fod y fferyllfa ar gael/ag oriau cyfyngedig, yn broblem.”
- “Ddim yn berthnasol.”
- “Cymwynasgar iawn ac yn hawdd mynd atynt.”
- “Rydym yn casglu ein presgripsiynau o'r un fferyllfa, ond bob mis nid yw ein meddyginiaeth byth yn barod, ac er ei bod wedi'i pheycynnu'n barod, dim ond peth ohoni rydym yn ei chael ganddynt. Mae wir yn rhaid i mi wirio bod popeth gen i pan fyddaf yno, oherwydd mae'n rhaid i fi ddychwelyd bob amser, ac maent bob amser yn dweud eu bod wedi anghofio rhoi rhywbeth i fi. Mae'n rhwystredig iawn.”
- “Mae fferyllfeydd lleol yn gyfyngedig iawn. Nid yw'n hawdd cael sgwrs breifat, ac nid oes amser chwaith oherwydd eu bod yn brysur. Teimlaf fod gofyn am gyngor yn cythruddo fferyllwyr.”
- “Maent bob amser yn brysur, yn aml yn anhrefnus. Rwyf bob amser yn ffonio o flaen llaw i sicrhau bod ganddynt fy mhresgripsiwn, oherwydd maent wedi ei golli yn y gorffennol.”

## 21. Oes unrhyw rwystrau dydych chi ddim wedi sôn amdanynt sy'n eich atal chi rhag defnyddio gwasanaethau eich fferyllfa?

Gwnaeth cyfanswm o 90 o bobl ateb y cwestiwn hwn. O'r rhai a atebodd, gwnaeth 47 o bobl ateb naill ai 'na', 'amherthnasol', 'fel uchod' neu 'dim'.

### Cafwyd cyfanswm o 43 sylw arall.

- “Nid yw'n agor ar y penwythnosau [enw'r lleoliad].”
- “Os wyf am alw i mewn amser cinio gall fod yn anodd am eu bod yn cau.”
- “Ie. Diffyg masgiau'n cael eu defnyddio gan sawl aelod o staff. [Enw'r fferyllfa a'r lleoliad].”
- “Dylent fod ar agor fwy gyda'r nos ac ar benwythnosau.”
- “Mae fy hen fferyllfa bellach ond ar agor rhwng 9-12 a rhwng 2-4, felly mae ciwiau hir iawn i lawr y stryd fawr er mwyn i bobl allu cael eu meddyginiaethau. Gan fod y feddygfa ar agor yn ystod oriau arferol, credaf y dylai'r fferyllfa fod hefyd. Rhoddwyd presgripsiwn i fi ar gyfer fy mhlentyn oedd yn sâl am 6pm, a bu'n rhaid i fi yrru i archfarchnad mewn sir arall i gael y feddyginiaeth gan nad oedd unrhyw le ar agor yn [enw'r lleoliad].”
- “Ciwiau hir iawn, yna oherwydd bod y staff mor brysur gwnaethant golli fy mhresgripsiwn a bu'n rhaid i mi ddychwelyd y diwrnod nesaf a chiwio eto, a hyd yn oed wedyn roedd pethau ar goll y bydd yn rhaid i fi aros 4 diwrnod arall amdanynt!!”
- “Nid yw'n achosi problem i fi ond bydd agor ar y penwythnos yn beth da mewn un fferyllfa leol.”
- “Cau amser cinio.”

- “Ar gau ar ddydd Sadwrn ac amser cinio rhwng 1 a 2, sy’n gallu bod yn anghyfleus i bobl.”
- “Dewis personol.”
- “Oherwydd problem iechyd meddwl rwy’n ei chael yn anodd mynd i mewn i’r siop pan fydd tipyn o bobl yno. Rwyf fel arfer yn aros y tu allan ac yn edrych i weld pryd fydd gen i’r cyfle iawn i fynd i mewn.”
- “Ar hyn o bryd, gyda’r cyfyngiadau, mae ciw weithiau y tu allan, ac er nad yw hynny’n broblem i fi, nid yw’n dda i’r sawl sy’n fregus, yr henoed a phobl sy’n sâl. Efallai bod angen un o’r systemau tocynnau yna arnynt, lle mae’n dweud am ba hyd y mae’n rhaid i bobl aros, neu osod cysgodfan y tu allan.”
- “Mae’n rhaid i chi ffonio’r fferyllfa cyn casglu eich meddyginiaeth, ond mae’r ffôn bob amser yn brysur, neu nid ydynt yn ateb. Neu os ydych yn mynd yno, nid yw eich presgripsiwn rheolaidd byth ar gael, neu mae rhan ohono ar goll.”
- “Yn hanesyddol, roedd gan Gaerdydd rota o fferyllfeydd a oedd ar gael 24 awr y dydd, credaf y dylai hyn ddigwydd eto. Rwy’n gweithio ar gyfer gwasanaeth 24 awr ac ni all cleifion gael mynediad at feddyginiaeth dros nos, felly maent yn mynd i’r adran damweiniau ac achosion brys yn y pen draw, fel dinas fawr, mae cael mynediad 24 awr at fferyllfeydd yn hanfodol.”
- “Mae ganddynt ramp ond nid yw’n gadarn iawn, ac nid wyf yn teimlo’n gyfforddus yn ei ddefnyddio.”
- “Ar wahân i’r amser teithio yn y car. Mae’n rhaid i ni deithio i’r practis meddyg teulu hefyd.”
- “Ddim yn siŵr a yw mor gyfrinachol â’r feddygfa, gyda chwsmeriaid eraill yn y siop!”
- “Mae rhai o’r meddyginiaethau yn barod i’w casglu bob mis, ond nid yw eraill yn barod. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i fi ffonio fy meddyg bob mis i ofyn am bresgripsiwn rheolaidd. Nid wyf yn siŵr pam mae rhai meddyginiaethau’n cael eu rhoi’n awtomatig tra nad yw eraill yn cael eu rhoi felly.”
- “Mae’r fferyllfa agosaf filltiroedd i ffwrdd ohonof, yn [enw’r lleoliad].”
- “Pellter teithio a mynediad ar y bus.”
- “Gan nad wyf yn berchen ar gar, rwy’n dueddol o gerdded i’r rhan fwyaf o leoedd. Ar rai achlysuron, rwy’n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, ni allaf fforddio tacsis. Mae gan Cardiff Bus wasanaethau bysiau cyfyngedig, felly ni allaf ddibynnu ar drafndiaeth gyhoeddus i gyrraedd fferyllfa.”
- “Mae fferyllfeydd sy’n agosach ataf ond maent yn fach, heb lawer o le, na phreifatrwydd, mae’n anodd parcio ac mae un ohonynt yn frwnt iawn.”
- “Nid wyf am giwio allan yn y tywydd oer.”
- “Gallant fod yn araf iawn yn delio â phobl felly mae’r ciw y tu allan yn mynd yn hir iawn yn gyflym.”
- “Mae’r oriau y mae fferyllfeydd lleol ar agor yr un peth â fferyllfa’r ysbty yr wyf yn gweithio ynddi, felly mae’n anodd i fi gael presgripsiynau ar gyfer fy hun heb golli gwaith.”
- “Oriau agor, fel yn y cwestiwn blaenorol, ni fyddai llawer o bethau yn cael eu gwneud yn y cyfnod yn union cyn cau.”
- “Fel uchod, cyfrinachedd, a ddim yn hollol ymwybodol o wybodaeth y Fferyllfeydd, felly ddim am roi gormod o wybodaeth breifat iddo, os mai’r cyfan fydd yn ei wneud yw fy anfon at feddyg teulu neu nyrs.”
- “Drws trwm - mae hyn yn anodd mewn cadair olwyn.”
- “Nid oes diddordeb gan y fferyllfeydd mewn ymgysylltu â’r cyhoedd.”

- “Nid yw bob amser yn hawdd gwneud apwyntiad gyda’r meddyg teulu i gasglu presgripsiynau.”
- “Amseroedd agor.”
- “Ciwiau y tu allan, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.”
- “Byddwn ddim yn teimlo’n gyfforddus yn trafod materion preifat oherwydd y diffyg preifatrwydd.”
- “Dylent gael y cyfle i wneud mwy. Dylai clystyrau ymgysylltu â hwy yn fwy. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid a chyfleoedd. Ystafelloedd ymgynghori ac ati.”
- “Cyfathrebu â’r staff, a nhw’n cadw’r neges a gweithredu arni. Yn anffodus, nid yw hon yn broses systemig. Rydym yn teimlo’n gaeth i fferyllfa oherwydd ei bod mewn lleoliad cyfleus ar ein cyfer yn [enw’r fferyllfa], [enw’r lleoliad]. Mae’n gyfleus, ond nid ymddengys ei bod yn darparu gwasanaeth da. Nid oes fferyllfa arall yn agos. Nid oes dull o reoli ansawdd ac nid ofynnir am adborth ar gyfer gwella.”
- “Byddai’n llawer haws pa bai system rhagnodi electronig o’r feddygfa i’r fferyllfa.”
- “Mae rhai staff yn anghwrtais.
- “COVID-19 wedi newid amseroedd agor.”
- “Ydyn, o ganlyniad i COVID, mae fy meddyginiaethau bellach yn rhai ar hap, ac rwyf wedi cael problemau ers misoedd. O ganlyniad i broblemau staff cyn y Nadolig, roeddent 3 wythnos yn hwyr gyda’r feddyginiaeth ac yn anghwrtais iawn gyda fi ar y ffôn. Gwnaethant addo y byddwn yn cael y feddyginiaeth ar noswyl Nadolig, ond ni ddigwyddodd hynny. O ganlyniad, nid oedd gennyf ddigon o fath penodol o feddyginiaeth dros y Nadolig nes i’r fferyllfa ailagor. Rwy’n parhau i brofi problemau parhaus h.y. dywedwyd wrthyf y mis hwn na allwn gasglu presgripsiwn untro hyd nes ei bod yn amser ar gyfer fy meddyginiaeth arferol ar ddiwedd y mis. Rwy’n poeni am ffonio oherwydd rwy’n amlwg yn boendod. Rwy’n gallu deall ei fod yn gysylltiedig â’r pandemig, ond nid wyf yn gwybod beth i’w wneud.”
- “Gofyn am gyfeiriad neu god post o flaen pobl eraill/darllen cyfeiriadau o flaen eraill (fel rhywun sydd wedi goroesi trais domestig ac wedi dioddef trosedd casineb nid wyf am i bobl wybod fy nghyfeiriad cartref). Yn gwrthod derbyn ID fel dewis arall i ddweud y cyfeiriad. Gofyniad i siarad (rwy’n defnyddio BSL i gyfathrebu).”
- “Gwisgo masg - rwy’n fyddar. Dim opsiynau e-bost i wirio a yw presgripsiynau’n barod. Y staff o dan straen ofnadwy a ddim yn groesawgar iawn, os aiff presgripsiynau ar goll rhoddir esgus yn aml.”
- “Mae ganddynt naws hen ffasiwn iawn. Ni allaf ddychmygu y byddai pobl ifanc yn teimlo’n hyderus i fynd i mewn yno i ofyn am ddulliau atal cenhedlu er enghraifft.”
- “Mae’n system sydd â photensial mawr i helpu pobl i fyw’n dda. Mae llawer o fferyllfeydd yn lleol ac maent oll yn siopau pwysig iawn yn y gymuned. Ond nid ydynt wedi’u trefnu mewn ffordd sy’n gwneud gwaith cynghori yn hawdd.”

## 22. Beth oedd eich oedran ar eich pen-blwydd diwethaf? Ticiwch un blwch.

		Canran	Cyfanswm
1	O dan 16	0.00%	0
2	16-24	2.59%	8
3	25-34	6.80%	21
4	35-44	15.86%	49
5	45-54	28.80%	89
6	55-64	26.54%	82
7	65+	18.77%	58
8	Gwell gen i beidio â dweud	0.65%	2
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	2

**23. Pa derm yw'r disgrifiad gorau o'ch rhywedd? Ticiwch un blwch.**

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	Menyw	80.19%	247
2	Dyn	17.86%	55
3	Anneuaid	0.65%	2
4	Gwell gen i beidio â dweud	0.65%	2
5	Arall	0.65%	2
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	3

Cafwyd cyfanswm o ddau sylw:

- Dim ond 2 rhyw sydd
- Mae rhyw yn lluniad cymdeithasol. Mae bioleg o bwys ar gyfer meddyginiaeth, gofynnwch y cwestiwn iawn.

**24. Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson Traws? Ticiwch un blwch.**

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	Ydw	0.33%	1
2	Nac ydw	98.68%	300
3	Gwell gen i beidio â dweud	0.99%	3
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	7

**25. Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl? Ticiwch un blwch.**

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	Ydw	12.17%	37
2	Nac ydw	85.53%	260
3	Gwell gen i beidio â dweud	2.30%	7
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	7

## 26. Ticiwch bob un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi.

(Roedd hi'n bosibl rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn)

		Ymateb		
		Canran yr Ymatebion	Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm
1	Byddar/Wedi colli eich clyw/Trwm eich clyw	10.38%	13.66%	22
2	Nam ar eich golwg	1.42%	1.86%	3
3	Cyflwr iechyd neu salwch hirdymor (e.e. cancer, diabetes neu asthma)	49.06%	64.60%	104
4	Anawsterau iechyd meddwl	17.92%	23.60%	38
5	Defnyddiwr cadair olwyn	1.89%	2.48%	4
6	Nam / anawsterau dysgu	0.47%	0.62%	1
7	Nam ar y symudedd	10.38%	13.66%	22
8	Gwell gen i beidio â dweud	5.19%	6.83%	11
9	Arall	3.30%	4.35%	7
		<b>Cyfanswm yr Ymatebion</b>		212
		<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>		161
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>		150

### Cafwyd cyfanswm o saith sylw:

- Bod â phwysedd gwaed uchel ers cyfnod hir
- Warfarin rheolaidd
- Clefyd seliag
- ASD
- Gorbwysedd
- Awtistig
- Cyflwr ar y croen a phroblem treulio y mae gen i feddyginiaeth hirdymor ar ei gyfer

**27. Ydych chi'n gofalu am ffrind neu aelod o'r teulu na all ymdopi heb eich cefnogaeth o ganlyniad i salwch, anabled, problem iechyd meddwl neu ddibyniaeth? Ticiwch un blwch.**

Ymateb

		Canran	Cyfanswm
1	Ydw	19.41%	59
2	Nac ydw	79.28%	241
3	Gwell gen i beidio â dweud	1.32%	4
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	304
			7

28. Ydych chi'n ystyried eich bod chi'n perthyn i grefydd penodol? Ticiwch un blwch.

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	Bwdhydd	0.74%	1
2	Cristion (gan gynnwys yr Eglwys yng Nghymru, Catholig, Protestannaidd a phob enwad Cristnogol arall)	94.12%	128
3	Hindŵ	2.21%	3
4	Iddew	0.74%	1
5	Mwslim	0.74%	1
6	Sïc	0.00%	0
7	Arall (nodwch):	1.47%	2
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	136
			175

**Cafwyd cyfanswm o ddau ymateb:**

- Wiccan
- Salvation Army

29. Sut fydddech chi'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol? Ticiwch un blwch.

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	Deurywiol	2.96%	9
2	Menyw hoyw / Lesbiad	1.64%	5
3	Dyn hoyw	1.97%	6
4	Heterorywiol / Syth	87.83%	267
5	Gwell gen i beidio â dweud	5.59%	17
6	Arall (nodwch):	0.00%	0
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	304
			7

30. Ydych chi'n ystyried eich hun yn Gymro neu'n Gymraes? Ticiwch un blwch.

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	Ydw	75.82%	232
2	Nac ydw	22.55%	69
3	Gwell gen i beidio â dweud	1.63%	5
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	306
			5

**31. Beth yw eich grŵp ethnig? Ticiwch un blwch. Lle defnyddir y term Prydeinig, cyfeirir at bob un o'r 4 o wledydd cartref, sef Cymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain.**

		Ymateb	
		Canran	Cyfanswm
1	Gwyn – Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig o Ogledd Iwerddon/Prydeinig	91.88%	283
2	Gwyn – Gwyddelig	0.65%	2
3	Gwyn – Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	0.32%	1
4	Gwyn – Unrhyw gefndir gwyn arall (rhowch fanylion isod)	1.30%	4
5	Grwpiau Cymysg/Amlethnig – Gwyn ac Asiaidd	0.65%	2
6	Grwpiau Cymysg/Amlethnig – Gwyn a Du Caribiaidd	0.32%	1
7	Grwpiau Cymysg/Amlethnig – Gwyn a Du Affricanaidd	0.32%	1
8	Grwpiau Cymysg/Amlethnig – Arall (rhowch fanylion isod)	0.00%	0
9	Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Tsieineaidd	0.97%	3
10	Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Pacistanaidd	0.00%	0
11	Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Bangladeshaidd	0.32%	1
12	Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Indiaidd	1.30%	4
13	Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Arall (rhowch fanylion isod)	0.00%	0
14	Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Affricanaidd	0.00%	0
15	Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Caribiaidd	0.00%	0
16	Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Arall (rhowch fanylion isod)	0.00%	0
17	Arabaidd	0.00%	0
18	Gwell gen i beidio â dweud	1.95%	6
19	Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch eich ateb isod)	0.00%	0
		<b>Cyfanswm</b>	100.00%
		<b>Wedi mynd heibio'r cwestiwn</b>	308
			3

**Cafwyd cyfanswm o bum sylw:**

- Gwyn Cymreig

- Cernyweg
- Hil gymysg
- Groegaidd
- Iseldireg

## Atodiad I - holiadur i fferyllwyr ar contract

### Manylion y safle

Cod y contractwr (cod ODS)	
Enw'r contractwr (h.y. enw'r unigolyn, partneriaeth neu gwmni sy'n berchen ar fusnes y fferyllfa)	
Enw masnachu	
Cyfeiriad y fferyllfa	
Cyfeiriad e-bost y fferyllfa	
Rhif ffôn y fferyllfa	
Ffacs y fferyllfa (os yn gymwys)	
Cyfeiriad gwefan y fferyllfa (os yn gymwys)	
All y bwrdd iechyd storio'r wybodaeth uchod a'i defnyddio i gysylltu â chi?	Gall <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> Na all

### Cyfleusterau ymgynghori

A oes modd cyrraedd y safle mewn cadair olwyn?

Oes/Nac oes

Mae ardal ymgynghori (ticiwch fel sy'n briodol)

Nac oes, neu	<input type="checkbox"/>
Ar gael (yn cynnwys mynediad i gadeiriau olwyn), neu	<input type="checkbox"/>
Ar gael (heb fynediad i gadeiriau olwyn), neu	<input type="checkbox"/>
Wedi'i gynllunio o fewn y 12 mis nesaf, neu	<input type="checkbox"/>
Arall (nodwch)	
Lle mae ardal ymgynghori ar gael;	
A yw'n ystafell sydd ar gau?	Ydy <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> Nac ydy
A yw'n ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferylllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd?	Ydy <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> Nac ydy
A yw'r claf a'r fferylllydd yn gallu siarad gyda thôn arferol heb fod staff neu ymwelwyr â'r fferyllfa yn eu clywed?	Ydy <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> Nac ydy
A yw wedi'i dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghori cyfrinachol, sydd ar wahân i ardaloedd cyhoeddus y fferyllfa?	Ydy <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> Nac ydy
Os nad oes ardal ymgynghori, a oes trefniadau amgen ar gyfer trafodaethau cyfrinachol?	Ydy <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> Nac ydy
leithoedd a siaredir (yn ogystal â Saesneg)	

### Gwasanaethau

A yw'r fferyllfa'n gweinyddu cyfarpar?

Ydy - pob math, neu	<input type="checkbox"/>
Ydy, ac eithrio cyfarpar stoma, neu	<input type="checkbox"/>
Ydy, ac eithrio cyfarpar anymataliaeth, neu	<input type="checkbox"/>
Ydy, ac eithrio cyfarpar stoma ac anymataliaeth, neu	<input type="checkbox"/>
Ydy, gorchuddion yn unig, neu	<input type="checkbox"/>
Arall [nodwch]	
Dim	<input type="checkbox"/>

### Gwasanaethau heb eu comisiynu

A yw'r fferyllfa'n darparu unrhyw un o'r canlynol?

Casglu presgripsiynau gan bractisau meddyg teulu	<input type="checkbox"/>
Dosbarthu meddyginiaethau wedi'u gweinyddu - am ddim ar gais	<input type="checkbox"/>
Dosbarthu meddyginiaethau heb eu gweinyddu - grwpiau cleifion dethol (rhestrwch y meini prawf)	
Dosbarthu meddyginiaethau wedi'i gweinyddu - ardaloedd dethol (rhestrwch yr ardaloedd)	
Dosbarthu meddyginiaethau wedi'i gweinyddu - codir tâl	<input type="checkbox"/>

Yn eich barn chi, a oes gofyn am wasanaeth ychwanegol sy'n bodoli eisoes na chaiff ei ddarparu yn eich ardal ar hyn o bryd? Os felly, beth yw'r gofyniad penodol a pham.	
Yn eich barn chi a oes gofyn am wasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd? Os felly, beth yw'r gofyniad penodol a pham.	

### Capasiti

Mae'r galw am wasanaethau fferyllol yn gyffredinol yn cynyddu. Gan feddwl am eich fferyllfa chi, atebwch y canlynol:

	OES
A oes gennych gapasiti digonol o fewn eich lleoliad presennol a digon o staff i allu rheoli'r cynnydd mewn galw yn eich ardal?	
Ddim digon o gapasiti yn y lleoliad na digon o staff ar hyn o bryd, ond gellid gwneud addasiadau i reoli'r cynnydd mewn galw yn eich ardal?	
Ddim digon o gapasiti yn y lleoliad na digon o staff a byddai'n anodd rheoli cynnydd mewn galw?	

(Ticiwch un opsiwn)

### Datblygu busnes

A oes gennych unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eich safle neu'r gwasanaeth a ddarperir gennych? Oes/Nac oes

Os 'oes', rhowch fanylion yma
-------------------------------

**Rhowch fanylion yr unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen hon:**

Enw cyswllt y person sy'n cwblhau'r holiadur, os bydd cwestiynau'n codi	Rhif ffôn cyswllt

## Atodiad J - holiadur practisau sy'n gweinyddu

### Asesiad o anghenion fferyllol Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn paratoi ei asesiad cyntaf o anghenion fferyllol, neu PNA, y bwriedir ei gyhoeddi erbyn 1 Hydref 2021, ac mae angen eich help arnom i gasglu rhywfaint o wybodaeth i gefnogi ei ddatblygiad.

Wrth ddatblygu'r holiadur, rydym ond yn gofyn am wybodaeth sydd ei hangen ond na chaiff ei chadw na'i chasglu'n rheolaidd. Fel y gwelwch, rydym wedi cadw'r holiadur mor fyr â phosibl.

Er ei fod ar gael tan [insert date], byddem yn eich annog i gwblhau'r holiadur nawr.

Ar gyfer ymholiadau ynghylch y wybodaeth y gwnaed cais amdani neu'r atebion sy'n ofynnol, anfonwch e-bost at [email address] gyda'r teitl 'arolwg practisau sy'n gweinyddu PNA BIPCAF'.

Rhowch enw'r practis rydych yn cwblhau'r holiadur ar ei ran:

Rhowch gyfeiriad neu gyfeiriadau'r safle y mae mae gan y practis gymeradwyaeth safle i weinyddu ohono:

**1 Cwblhewch y tabl isod o ran yr amseroedd y mae'r fferyllfa ar agor gan ddefnyddio'r cloc 24 awr.**

	Cyfeiriad -	Cyfeiriad -	Cyfeiriad -
Dydd Llun			
Dydd Mawrth			
Dydd Mercher			
Dydd Iau			
Dydd Gwener			
Dydd Sadwrn			

Dydd Sul			
----------	--	--	--

## 2 A yw'r safle hwn yn gweinyddu cyfarpar?

Ystod o gyfarpar: un ateb 'ydy' yn unig	YDY
Ydy - pob math, neu	
Ydy, ac eithrio cyfarpar stoma, neu	
Ydy, ac eithrio cyfarpar anymataliaeth, neu	
Ydy, ac eithrio cyfarpar stoma ac anymataliaeth, neu	
Ydy, gorchuddion yn unig, neu	
Dim	

## 3 Dosbarthu eitemau wedi'u gweinyddu

A yw'r fferyllfa'n darparu unrhyw un o'r canlynol?

Dosbarthu meddyginiaethau wedi'u gweinyddu - am ddim ar gais	<input type="checkbox"/>
Dosbarthu meddyginiaethau heb eu gweinyddu - grwpiau cleifion dethol (rhestrwch y meini prawf)	
Dosbarthu meddyginiaethau wedi'i gweinyddu - ardaloedd dethol (rhestrwch yr ardaloedd)	
Dosbarthu meddyginiaethau wedi'i gweinyddu - codir tâl	<input type="checkbox"/>

## 4 Pa ieithoedd sydd ar gael i gleifion gan staff ar y safle bob dydd - rhestrwch y prif ieithoedd a siaredir

<b>Rhestr o'r ieithoedd a siaredir:</b>

## 5 Capasiti

Mae'r galw am wasanaethau fferyllol yn gyffredinol yn cynyddu. Gan ystyried eich gwasanaeth gweinyddu yn unig, atebwch y canlynol:

	<b>OES</b>
A oes gennych gapasiti digonol o fewn eich lleoliad presennol a digon o staff i allu rheoli'r cynnydd mewn galw yn eich ardal?	
Ddim digon o gapasiti yn y lleoliad na digon o staff ar hyn o bryd, ond gellid gwneud addasiadau i reoli'r cynnydd mewn galw yn eich ardal?	
Ddim digon o gapasiti yn y lleoliad na digon o staff a byddai'n anodd rheoli cynnydd mewn galw?	

(Ticiwch un opsiwn)

### **6 Gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â gweinyddu**

Allwch chi roi manylion unrhyw weithgareddau eraill rydych chi'n eu darparu sy'n ymwneud â'ch gwasanaeth gweinyddu, er enghraifft, siartiau MAR, 'pecynnau rhag ofn' a chyfarpar miniog cleifion.

### **7 Darparu gwasanaethau ar ôl COVID-19**

Rydym yn cydnabod eich bod wedi gwneud nifer o newidiadau i'r ffordd y darperir eich gwasanaeth gweinyddu o ganlyniad i COVID-19. Allwch chi roi gwybodaeth i ni am y newidiadau hynny y byddwch yn eu cyflwyno yn eich 'normal newydd'?

### **8 Rhowch eich manylion cyswllt i ni.**

**Enw:**

**Teitl Swydd:**

**E-bost:**

**Rhif ffôn:**

**Atodiad K - adroddiad ymgynghori**

## Atodiad L - oriau agor

Cod ODS	Clwstwr	Enw'r fferyllfa/contractwr cyfarpar gweinyddu	Oriau safonol		Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener	Dydd Sadwrn	Dydd Sul
602030A	Dwyrain Caerdydd	Fferyllfa G S Bhogal	40.00	Craidd	09:00 - 13:00 14.00 - 18.00	09:00 - 13:00 14.00 - 18.00	09:00 - 13:00 14.00 - 18.00	09:00 - 13:00 14.00 - 18.00	09:00 - 13:00 14.00 - 18.00	-	-
				Cyfanswm	08:00 - 18.30	08:00 - 18.30	08:00 - 18.30	08:00 - 18.30	08:00 - 18.30	09:00 - 13:00	-
602816K	Dwyrain Caerdydd	Boots Llanrhymni	40.00	Craidd	09:30 - 13.00 14.00 - 17.30	09:30 - 13.00 14.00 - 17.30	09:30 - 13.00 14.00 - 17.30	09:30 - 13.00 14.00 - 17.30	09:30 - 13.00 14.00 - 17.30	09:30 - 13.00 14.00 - 15.30	-
				Cyfanswm	09:00 - 13.00 14.00 - 17.30	09:00 - 13.00 14.00 - 17.30	09:00 - 13.00 14.00 - 17.30	09:00 - 13.00 14.00 - 17.30	09:00 - 13.00 14.00 - 17.30	09:00 - 13.00 14.00 - 17.30	-
602265A	Dwyrain Caerdydd	Fferyllfa Hopwoods	40.00	Craidd	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	-	-
				Cyfanswm	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00	-
602807D	Dwyrain Caerdydd	Lloyds Pharmacy Llaneirwg	40.00	Craidd	08:45 - 11:45 16:00 - 19:00	08:45 - 11:45 16:00 - 19:00	08:45 - 11:45 16:00 - 19:00	08:45 - 11:45 16:00 - 19:00	08:45 - 11:45 16:00 - 19:00	09:00 - 12:00 14:30 - 17:30	10:00 - 12:00 14:00 - 16:00
				Cyfanswm	08:30 - 19.30	08:30 - 19.30	08:30 - 19.30	08:30 - 19.30	08:30 - 19.30	09:00 - 17:30	10:00 - 16:00
602807J	Dwyrain Caerdydd	Lloyds Pharmacy Llanrhymni	40.00	Craidd	09:00 - 13:00 15:00 - 18:00	09:00 - 13:00 15:00 - 18:00	09:00 - 13:00 15:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00	-
				Cyfanswm	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 13:00	-
602856N	Dwyrain Caerdydd	Well Pharmacy Tredelerch	40.00	Craidd	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	-	-
				Cyfanswm	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 13:00	-
602856M	Dwyrain Caerdydd	Well Pharmacy Trowbridge	40.00	Craidd	09:00 - 13.00 13.30 - 17.30	09:00 - 13.00 13.30 - 17.30	09:00 - 13.00 13.30 - 17.30	09:00 - 13.00 13.30 - 17.30	09:00 - 13.00 13.30 - 17.30	-	-
				Cyfanswm	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 13:00	-
602819C	Dwyrain Caerdydd	Boots Llaneirwg	40.00	Craidd	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	-	-
				Cyfanswm	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13:00	-

602853G	Dwyrain Caerdydd	Well Pharmacy Llanrhymni	40.00	Craidd	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	-	-
				Cyfanswm	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 13:00	-
602051A	Dwyrain Caerdydd	Wellness Pharmacy	42.50	Craidd	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	-	-
				Cyfanswm	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	-	-
602806A	Gogledd Caerdydd	Fferyllfa Asda Pontprennau	40.00	Craidd	09:00 - 12.30 14.30 - 18.00	09:00 - 12.30 14.30 - 18.00	09:00 - 12.30 14.30 - 18.00	09:00 - 12.30 14.30 - 18.00	09:00 - 12.30 14.30 - 18.00	09:00 - 12.30 14.30 - 16.00	
				Cyfanswm	08:00 - 12.30 14.30 - 22.00	08:00 - 12.30 14.30 - 22.00	08:00 - 12.30 14.30 - 22.00	08:00 - 12.30 14.30 - 22.00	08:00 - 12.30 14.30 - 22.00	08:00 - 12.30 14.30 - 22.00	10.00 - 12.30 14.30 - 16.00
602819O	Gogledd Caerdydd	Boots Llanisien	40.00	Craidd	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00	
				Cyfanswm	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 19:00	10:30 - 16:30
602043A	Gogledd Caerdydd	Brookes Pharmacy	40.00	Craidd	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00		-
				Cyfanswm	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:00	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30		
602004B	Gogledd Caerdydd	Central Pharmacy	40.00	Craidd	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	-	-
				Cyfanswm	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 17:30	-
602679B	Gogledd Caerdydd	Cyncoed Pharmacy	40.00	Craidd	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	-	-
				Cyfanswm	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00		-
602663A	Gogledd Caerdydd	AJ Hales Pharmacy	40.00	Craidd	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	-	-
				Cyfanswm	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00	09:00 - 13.00 14.00 - 18.00		
602287A	Gogledd Caerdydd	Insync Pharmacy	42.50	Craidd	08:30 - 13:00 13:30 - 17:30	08:30 - 13:00 13:30 - 17:30	08:30 - 13:00 13:30 - 17:30	08:30 - 13:00 13:30 - 17:30	08:30 - 13:00 13:30 - 17:30		-

				<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 13:00 13:30 - 18:00	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	09:00 - 12:00	
602807L	Gogledd Caerdydd	Lloyds Pharmacy Heol Wellfield	40.00	<b>Craidd</b>	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00 15:30 - 17:30	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 17:30	-
602807A	Gogledd Caerdydd	Lloyds Pharmacy Birchgrove	40.00	<b>Craidd</b>	09:00-13:00 14:00-18:00	09:00-13:00 14:00-18:00	09:00-13:00 14:00-18:00	09:00-13:00 14:00-18:00	09:00-13:00 14:00-18:00		
				<b>Cyfanswm</b>	09:00-18:00	09:00-18:00	09:00-18:00	09:00-18:00	09:00-18:00		
602807B	Gogledd Caerdydd	Lloyds Pharmacy Rhiwbina	40.00	<b>Craidd</b>	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 11:30 15:00 - 17:30	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 17:30	-
602868D	Gogledd Caerdydd	Lloyds Pharmacy Ltd @ Sainsburys Thornhill	40.00	<b>Craidd</b>	08:30 - 11:30 15:30 - 19:00	08:30 - 11:30 15:30 - 19:00	08:30 - 11:30 15:30 - 19:00	08:30 - 11:30 15:30 - 19:00	08:30 - 11:30 15:30 - 19:00	09:00 - 11:30 15:30 - 17:30	10:00 - 12:00 15:00 - 16:00
				<b>Cyfanswm</b>	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	10:00 - 16:00
6025450	Gogledd Caerdydd	MW Phillips Chemist Llanisien	40.00	<b>Craidd</b>	09:00 - 12:00 14.30 - 18.30	09:00 - 12:00 14.30 - 18.30	09:00 - 12:00 14.30 - 18.30	09:00 - 12:00 14.30 - 18.30	09:00 - 12:00 14.30 - 18.30	09:00 - 14:00	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:30	09:00 - 18:30	09:00 - 18:30	09:00 - 18:30	09:00 - 18:30	09:00 - 14:00	-
602853E	Gogledd Caerdydd	Well Pharmacy Pentwyn	40.00	<b>Craidd</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 13:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	-	-
602853H	Gogledd Caerdydd	Well Pharmacy Rhiwbina	40.00	<b>Craidd</b>	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 13:00	-
602512B	Gogledd Caerdydd	Pearn's Pharmacy Wedal Road	40.00	<b>Craidd</b>	09:00 - 12:30 13.30 - 18.00	09:00 - 12:30 13.30 - 18.00	09:00 - 13:00 13.30 - 17.30	09:00 - 12:30 13.30 - 18.00	09:00 - 12:30 13.30 - 18.00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:45 - 12.30 13.30 - 18.15	08:45 - 12.30 13.30 - 18.15	08:45 - 13.00 13.30 - 17.30	08:45 - 12.30 13.30 - 18.15	08:45 - 12.30 13.30 - 18.15	-	-
602679C	Gogledd Caerdydd	Fferyllfa Pontprennau	40.00	<b>Craidd</b>	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	-	-

				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	-	-
602856O	Gogledd Caerdydd	Well Pharmacy Birchgrove	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00		
602222A	Gogledd Caerdydd	Fferyllfa Lakeside	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00		-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00		
602003A	De-ddwyrain Caerdydd	Fferyllfa Crwys	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00		-
				<b>Cyfanswm</b>	08:45 - 18:15	08:45 - 18:15	08:45 - 18:15	08:45 - 18:15	08:45 - 18:15	09:15 - 17:15	-
602816H	De-ddwyrain Caerdydd	Boots Heol Albany	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:30 - 13:00 14:00 - 17:30	09:30 - 13:00 14:00 - 17:30	09:30 - 13:00 14:00 - 17:30	09:30 - 13:00 14:00 - 17:30	09:30 - 13:00 14:00 - 17:30	09:30 - 13:00 14:00 - 15:30	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 13:00 14:00 - 18:00	08:30 - 13:00 14:00 - 18:00	08:30 - 13:00 14:00 - 18:00	08:30 - 13:00 14:00 - 18:00	08:30 - 13:00 14:00 - 18:00	08:30 - 13:00 14:00 - 18:00	10:30 - 16:30
602139A	De-ddwyrain Caerdydd	City Pharmacy @ Ysbyty Brenhinol Caerdydd	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 12:30 13:30 - 18:30	08:30 - 12:30 13:30 - 18:30	08:30 - 12:30 13:30 - 18:30	08:30 - 12:30 13:30 - 18:30	08:30 - 12:30 13:30 - 18:30		
602139B	De-ddwyrain Caerdydd	Clifton Pharmacy	<b>47.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 17:00	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 12:30 13:30 - 18:00	08:30 - 12:30 13:30 - 18:00	08:30 - 12:30 13:30 - 18:00	08:30 - 12:30 13:30 - 18:00	08:30 - 12:30 13:30 - 18:00	09:00 - 17:00	-
602526C	De-ddwyrain Caerdydd	WJ Powell Chemists	<b>41.50</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 14:00 - 17:30	09:00 - 13:00 14:00 - 17:30	09:00 - 13:00 14:00 - 17:30	09:00 - 13:00 14:00 - 17:30	09:00 - 13:00 14:00 - 17:30	09:00 - 13:00	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 13:00 14:00 - 17:30	09:00 - 13:00 14:00 - 17:30	09:00 - 13:00 14:00 - 17:30	09:00 - 13:00 14:00 - 17:30	09:00 - 13:00 14:00 - 17:30	09:00 - 13:00	-
602870M	De-ddwyrain Caerdydd	Fferyllfa Tesco Western Avenue	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 14:00 - 17:00	09:00 - 13:00 14:00 - 17:00	09:00 - 13:00 14:00 - 16:30	09:00 - 13:00 14:00 - 16:30	09:00 - 13:00 14:00 - 16:30	09:00 - 13:00 14:00 - 16:30	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:00 - 21:00	08:00 - 21:00	08:00 - 21:00	08:00 - 21:00	08:00 - 21:00	08:00 - 22:00	10:00 - 16:00
602856L	De-ddwyrain Caerdydd	Well Pharmacy Clifton Street	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:30 14:00 - 17:30	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00		-

				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 17:30	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 13:00	-
602852E	De-ddwyrain Caerdydd	Well Pharmacy 219-221 City Road	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	09:00 - 13:00	-
602852H	De-ddwyrain Caerdydd	Well Pharmacy 180 City Road	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 12.30 13.30 - 18:00	09:00 - 12.30 13.30 - 18:00	09:00 - 12.30 13.30 - 18:00	09:00 - 12.30 13.30 - 18:00	09:00 - 12.30 13.30 - 18:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 13.00 13.30 - 18:00	09:00 - 13.00 13.30 - 18:00	09:00 - 13.00 13.30 - 18:00	09:00 - 13.00 13.30 - 18:00	09:00 - 13.00 13.30 - 18:00	-	-
602597A	De-ddwyrain Caerdydd	Fferyllfa Heol y Gogledd	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	-	-
602514J	De-ddwyrain Caerdydd	Pearn's Pharmacy Tremorfa	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:30 - 11:30	-
602735A	De-ddwyrain Caerdydd	Fferyllfa Heol Woodville	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	09:00 - 13:00 14.00 - 18:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	-	-
602545L	De-ddwyrain Caerdydd	MW Phillips Chemist Splott Road	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 13.30 - 18:00	09:00 - 13:00 13.30 - 18:00	09:00 - 13:00 13.30 - 15.30	09:00 - 13:00 13.30 - 18:00	09:00 - 13:00 13.30 - 18:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 13:00 13.30 - 18:00	09:00 - 13:00 13.30 - 18:00	09:00 - 13:00 13.30 - 17:00	09:00 - 13:00 13.30 - 18:00	09:00 - 13:00 13.30 - 18:00	09:00 - 13:00	-
602545F	De-ddwyrain Caerdydd	MW Phillips Chemists Whitchurch Road	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 13:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 17:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	-	-
602545K	De-ddwyrain Caerdydd	MW Phillips Chemists South Park Road	<b>44.00</b>	<b>Craidd</b>	08:30 - 13:30 14.00 - 18:00	08:30 - 13:30 14.00 - 18:00	08:30 - 13:30 14.00 - 17:00	08:30 - 13:30 14.00 - 18:00	08:30 - 13:30 14.00 - 18:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 13:30 14.00 - 18:00	08:30 - 13:30 14.00 - 18:00	08:30 - 13:30 14.00 - 17:00	08:30 - 13:30 14.00 - 18:00	08:30 - 13:30 14.00 - 18:00	-	-
602648D	De-ddwyrain Caerdydd	Superdrug Ltd	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 15:00 - 17:30	09:00 - 13:00 15:00 - 17:30	09:00 - 13:00 15:00 - 17:30	09:00 - 13:00 15:00 - 17:30	09:00 - 13:00 15:00 - 17:30	09:00 - 13:30 14:30 - 17:30	-

				<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 13:30 14:00 - 17:30	08:30 - 13:30 14:00 - 17:30	08:30 - 13:30 14:00 - 17:30	08:30 - 13:30 14:00 - 17:30	08:30 - 13:30 14:00 - 17:30	09:00 - 13:30 14:00 - 17:30	-
602818I	De-orllewin Caerdydd	Boots Sanatorium Road	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:45 - 13:00 14:00 - 18:00	08:45 - 13:00 14:00 - 18:00	08:45 - 13:00 14:00 - 18:00	08:45 - 13:00 14:00 - 18:00	08:45 - 13:00 14:00 - 18:00	-	-
602816J	De-orllewin Caerdydd	Boots Cowbridge Road East	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:30 - 12:00 13:00 - 17:30	09:30 - 12:00 13:00 - 17:30	09:30 - 12:00 13:00 - 17:30	09:30 - 12:00 13:00 - 17:30	09:30 - 12:00 13:00 - 17:30	09:30 - 12:00 13:00 - 15:30	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 12:00 13:00 - 18:00	08:30 - 12:00 13:00 - 18:00	08:30 - 12:00 13:00 - 18:00	08:30 - 12:00 13:00 - 18:00	08:30 - 12:00 13:00 - 18:00	08:30 - 12:00 13:00 - 17:30	-
602818J	De-orllewin Caerdydd	Boots Canolfan Iechyd Riverside	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	08:00 - 13:00 14:00 - 18:00	08:00 - 13:00 14:00 - 18:00	08:00 - 12:00	08:00 - 13:00 14:00 - 18:00	08:00 - 13:00 14:00 - 18:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:00 - 13:00 14:00 - 18:00	08:00 - 13:00 14:00 - 18:00	08:00 - 13:00 14:00 - 16:30	08:00 - 13:00 14:00 - 18:00	08:00 - 13:00 14:00 - 18:00	-	-
602514D	De-orllewin Caerdydd	Caerau Lane Pharmacy	<b>42.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:00	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 17:30	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 13:00	-
602870D	De-orllewin Caerdydd	Fferyllfa Tesco Croes Cwrlwys	<b>42.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 14:00 - 17:00	09:00 - 13:00 14:00 - 17:00	09:00 - 13:00 14:00 - 17:00	09:00 - 13:00 14:00 - 17:00	09:00 - 13:00 14:00 - 17:00	09:00 - 13:00 14:00 - 17:00	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	10:00 - 16:00
602807H	De-orllewin Caerdydd	Lloyds Pharmacy Wilson Road	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 12:30 15:00 - 18:00	09:00 - 12:30 15:00 - 18:00	09:00 - 12:30 15:00 - 18:00	09:00 - 12:30 15:00 - 18:00	09:00 - 12:30 15:00 - 18:00	09:00 - 12:00 13:00 - 17:30	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 17:30	-
602514K	De-orllewin Caerdydd	Pearn's Pharmacy Wilson Road	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	08:45 - 12:45 13:30 - 17:30	08:45 - 12:45 13:30 - 17:30	08:45 - 12:45 13:30 - 17:30	08:45 - 12:45 13:30 - 17:30	08:45 - 12:45 13:30 - 17:30	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:45 - 12:45 13:30 - 18:30	08:45 - 12:45 13:30 - 18:30	08:45 - 12:45 13:30 - 17:30	08:45 - 12:45 13:30 - 18:30	08:45 - 12:45 13:30 - 18:30	09:00 - 12:00	-
602514L	De-orllewin Caerdydd	Pearn's Pharmacy Mill Road	<b>40.75</b>	<b>Craidd</b>	08:45 - 13:00 14:00 - 18:00	08:45 - 13:00 14:00 - 18:00	08:45 - 13:00 14:00 - 17:30	08:45 - 13:00 14:00 - 18:00	08:45 - 13:00 14:00 - 18:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 13:00 14:00 - 18:15	08:30 - 13:00 14:00 - 18:15	08:30 - 13:00 14:00 - 18:15	08:30 - 13:00 14:00 - 18:15	08:30 - 13:00 14:00 - 18:15	-	
602568A	De-orllewin Caerdydd	Canna Pharmacy	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	-	-

				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30		-
602016K	De-orllewin Caerdydd	Fferyllfa Pontcanna	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	08:30 - 13:00 13:30 - 17:30	08:30 - 13:00 13:30 - 17:30	08:30 - 14:30	08:30 - 13:00 13:30 - 17:30	08:30 - 13:00 13:30 - 17:30	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 13:00 13:30 - 17:30	08:30 - 13:00 13:30 - 17:30	08:30 - 14:30	08:30 - 13:00 13:30 - 17:30	08:30 - 13:00 13:30 - 17:30	-	
602806F	Gorllewin Caerdydd	Fferyllfa Asda Coryton	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 12.30 14.30 - 18.00	09:00 - 12.30 14.30 - 18.00	09:00 - 12.30 14.30 - 18.00	09:00 - 12.30 14.30 - 18.00	09:00 - 12.30 14.30 - 18.00	09:00 - 12.30 14.30 - 16.00	
				<b>Cyfanswm</b>	08:00 - 12.30 14.30 - 22.00	08:00 - 12.30 14.30 - 22.00	08:00 - 12.30 14.30 - 22.00	08:00 - 12.30 14.30 - 22.00	08:00 - 12.30 14.30 - 22.00	08:00 - 12.30 14.30 - 22.00	10.00 - 12.30 14.30 - 16.00
602019A	Gorllewin Caerdydd	Bainbridge Pharmacy	<b>40.50</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13.00 14.00 - 17.30	09:00 - 13.00 14.00 - 17.30	09:00 - 13.00 14.00 - 17.30	09:00 - 13.00 14.00 - 17.30	09:00 - 13.00 14.00 - 17.30	09:00 - 12:00	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 13:00	-
602816N	Gorllewin Caerdydd	Boots yr Eglwys Newydd	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:30 - 13.00 14.00 - 17.30	09:30 - 13.00 14.00 - 17.30	09:30 - 13.00 14.00 - 17.30	09:30 - 13.00 14.00 - 17.30	09:30 - 13.00 14.00 - 17.30	09:30 - 13.00 14.00 - 15.30	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:00 - 13:00 14:00 - 18:30	08:00 - 13:00 14:00 - 18:30	08:00 - 13:00 14:00 - 18:30	08:00 - 13:00 14:00 - 18:30	08:00 - 13:00 14:00 - 18:30	09:00 - 13:00 14:00 - 17:30	-
602489A	Gorllewin Caerdydd	Fferyllfa Creigiau	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13.00 13.30 - 17.30	09:00 - 13.00 13.30 - 17.30	09:00 - 13.00 13.30 - 17.30	09:00 - 13.00 13.30 - 17.30	09:00 - 13.00 13.30 - 17.30	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 13:00 13:30 - 18:00	09:00 - 13:00 13:30 - 18:00	09:00 - 13:00 13:30 - 18:00	09:00 - 13:00 13:30 - 18:00	09:00 - 13:00 13:30 - 18:00		
602512A	Gorllewin Caerdydd	Fferyllfa Danescourt	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	08:45 - 12.45 14.00 - 18.00	08:45 - 12.45 14.00 - 18.00	08:45 - 12.45 14.00 - 18.00	08:45 - 12.45 14.00 - 18.00	08:45 - 12.45 14.00 - 18.00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 12.45 14.00 - 18.15	08:30 - 12.45 14.00 - 18.15	08:30 - 12.45 14.00 - 18.15	08:30 - 12.45 14.00 - 18.15	08:30 - 12.45 14.00 - 18.15	-	-
602223A	Gorllewin Caerdydd	Fferyllfa Llandaf	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 13:30 - 17:30	09:00 - 13:00 13:30 - 17:30	09:00 - 13:00 13:30 - 17:30	09:00 - 13:00 13:30 - 17:30	09:00 - 13:00 13:30 - 17:30	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 13:00	
602623A	Gorllewin Caerdydd	Fferyllfa Health Plus	<b>50.50</b>	<b>Craidd</b>	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	09:00 - 17:30	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	09:00 - 13:00	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	09:00 - 17:30	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	09:00 - 13:00	
602807K	Gorllewin Caerdydd		<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00 13:00 - 18:00	09:00 - 13:00	-

		Lloyds Pharmacy, Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd		<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 18:30	08:30 - 18:30	08:30 - 18:30	08:30 - 18:30	08:30 - 18:30	09:00 - 13:00	-
602807C	Gorllewin Caerdydd	Lloyds Pharmacy Heol y Parc, Yr Eglwys Newydd	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:30 15:30 - 18:00	09:00 - 13:30 15:30 - 18:00	09:00 - 13:30 15:30 - 18:00	09:00 - 13:30 15:30 - 18:00	09:00 - 13:30 15:30 - 18:00	09:00 - 12:00 15:30 - 17:30	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 17:30	-
602808E	Gorllewin Caerdydd	Lloyds Pharmacy Y Tyllgoed	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 12:00 14:30 - 18:00	09:00 - 12:00 14:30 - 18:00	09:00 - 12:00 14:30 - 18:00	09:00 - 12:00 14:30 - 18:00	09:00 - 12:00 14:30 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 17:30	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 17:30	-
602852I	Gorllewin Caerdydd	Well Pharmacy Radur	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 13:00	-
602516B	Gorllewin Caerdydd	Pentyrch Pharmacy	<b>43.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 12:00	-
602568B	Gorllewin Caerdydd	Fferyllfa Tongwynlais	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 12:30 13:00 - 17:30	09:00 - 12:30 13:00 - 17:30	09:00 - 12:30 13:00 - 17:30	09:00 - 12:30 13:00 - 17:30	09:00 - 12:30 13:00 - 17:30	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 12:30 13:00 - 17:30	09:00 - 12:30 13:00 - 17:30	09:00 - 12:30 13:00 - 17:30	09:00 - 12:30 13:00 - 17:30	09:00 - 12:30 13:00 - 17:30	-	-
602175A	Canol y Fro	Evans Pharmacy Cei'r Gorllewin	<b>44.00</b>	<b>Craidd</b>	09.00-17.00	09.00-17.00	09.00-17.00	09.00-17.00	09.00-17.00	09.00-13.00	-
				<b>Cyfanswm</b>	08.30-18.00	08.30-18.00	08.30-18.00	08.30-18.00	08.30-18.00	09.00 - 13.00	-
602816I	Canol y Fro	Boots Holton Road	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09.30 - 13.00 14.00 - 17.30	09.30 - 13.00 14.00 - 17.30	09.30 - 13.00 14.00 - 17.30	09.30 - 13.00 14.00 - 17.30	09.30 - 13.00 14.00 - 17.30	09.30 - 13.00 14.00 - 15.30	-
				<b>Cyfanswm</b>	08.30 - 17.30	08.30 - 17.30	08.30 - 17.30	08.30 - 17.30	08.30 - 17.30	08.30 - 17.30	10.00 - 16.00
602517D	Canol y Fro	Evans Pharmacy Park Crescent	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	09.00 - 13.00 14.00 - 17.00	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	09.00 - 12.00	-
				<b>Cyfanswm</b>	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 17.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 12.00	-
602435B	Canol y Fro	Brockway Pharmacy	<b>40.25</b>	<b>Craidd</b>	09.00 - 13.00 14.15 - 17.30	09.00 - 13.00 14.15 - 17.30	09.00 - 13.00 14.15 - 17.30	09.00 - 13.00 14.15 - 17.30	09.00 - 13.00 14.15 - 17.30	09.00 - 13.00	-

				<b>Cyfanswm</b>	09.00 - 13.00 14.15 - 17.30	09.00 - 13.00 14.15 - 17.30	09.00 - 13.00 14.15 - 17.30	09.00 - 13.00 14.15 - 17.30	09.00 - 13.00 14.15 - 17.30	09.00 - 13.00	
602180A	Canol y Fro	High Street Pharmacy	46.50	<b>Craidd</b>	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 13.00	
				<b>Cyfanswm</b>	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 13.00	
602808G	Canol y Fro	Lloyds Pharmacy Court Road	40.00	<b>Craidd</b>	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00		
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00		
602808H	Canol y Fro	Lloyds Pharmacy Waterfront	40.00	<b>Craidd</b>	09.00-17.00	09.00-17.00	09.00-17.00	09.00-17.00	09.00-17.00		
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00		
602807E	Canol y Fro	Lloyds Pharmacy, Canolfan Siopa Stirling Road	40.00	<b>Craidd</b>	09.00 - 12.00 15.30 - 19.00	09.00 - 12.00 15.30 - 19.00	09.00 - 12.00 15.30 - 19.00	09.00 - 12.00 15.30 - 19.00	09.00 - 12.00 15.30 - 19.00	09.00 - 11.00 16.00 - 17.30	10.00 - 12.00 14.00 - 16.00
				<b>Cyfanswm</b>	09.00 - 19.00	09.00 - 19.00	09.00 - 19.00	09.00 - 19.00	09.00 - 19.00	09.00 - 17.30	10.00 - 16.00
602805E	Canol y Fro	Lloyds Pharmacy Holton Road	40.00	<b>Craidd</b>	09.00 - 12.00 14.00 - 17.30	09.00 - 12.00 14.00 - 17.30	09.00 - 12.00 14.00 - 17.30	09.00 - 12.00 14.00 - 17.30	09.00 - 12.00 14.00 - 17.30	09.00 - 12.00 13.00 - 17.30	
				<b>Cyfanswm</b>	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	
602852A	Canol y Fro	Well Pharmacy Holton Road	40.00	<b>Craidd</b>	09.00 - 17.00	09.00 - 17.00	09.00 - 17.00	09.00 - 17.00	09.00 - 17.00		
				<b>Cyfanswm</b>	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 13.00	
602545I	Canol y Fro	MW Phillips Chemist Vere Street	40.00	<b>Craidd</b>	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00	-
602545J	Canol y Fro	MW Phillips Chemist Barry Road	40.00	<b>Craidd</b>	09.00 - 13.00 13.30 - 17.30	09.00 - 13.00 13.30 - 17.30	09.00 - 13.00 13.30 - 17.30	09.00 - 13.00 13.30 - 17.30	09.00 - 13.00 13.30 - 17.30	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09.00 - 13.00 13.30 - 17.30	09.00 - 13.00 13.30 - 17.30	09.00 - 13.00 13.30 - 17.30	09.00 - 13.00 13.30 - 17.30	09.00 - 13.00 13.30 - 17.30	-	-
602521A	Canol y Fro	St Brides Pharmacy	40.00	<b>Craidd</b>	08.30 - 17.30	08.30 - 17.30	08.30 - 12.30	08.30 - 17.30	08.30 - 17.30		

				<b>Cyfanswm</b>	08.30 - 17.30	08.30 - 17.30	08.30 - 12.30	08.30 - 17.30	08.30 - 17.30		
602703A	Canol y Fro	Fferyllfa Sili	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09.00 - 17.00	09.00 - 16.30	09.00 - 17.00	09.00 - 17.30	09.00 - 17.00		
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 17:00	09:00 - 16:30	09:00 - 17:00	09:00 - 17:30	09:00 - 17:00		
602855M	Dinas a De Caerdydd	Well Pharmacy Bute Street	<b>39.50</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 17:30	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	08:30 - 18:00	09:00 - 13:00	-
602816P	Dinas a De Caerdydd	Boots Canolfan Capitol	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:30 - 13:00 14:00 - 17:30	09:30 - 13:00 14:00 - 17:30	09:30 - 13:00 14:00 - 17:30	09:30 - 13:00 14:00 - 17:30	09:30 - 13:00 14:00 - 17:30	09:30 - 13:00 14:00 - 15:30	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:00 - 18:00	08:00 - 18:00	08:00 - 18:00	08:00 - 18:00	08:00 - 18:00	08:30 - 18:00	-
602816M	Dinas a De Caerdydd	Boots Stryd y Frenhines	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:30 - 17:30	09:30 - 17:30	09:30 - 17:30	09:30 - 17:30	09:30 - 17:30		-
				<b>Cyfanswm</b>	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 19:00	11:00 - 17:00
602816O	Dinas a De Caerdydd	Boots y Sgwâr Darlledu	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:30 - 13:00 14:00 - 17:30	09:30 - 13:00 14:00 - 17:30	09:30 - 13:00 14:00 - 17:30	09:30 - 13:00 14:00 - 17:30	09:30 - 13:00 14:00 - 17:30	09:30 - 13:00 14:00 - 15:30	-
				<b>Cyfanswm</b>	07:00 - 19:00	07:00 - 19:00	07:00 - 19:00	07:00 - 19:00	07:00 - 19:00	08:00 - 19:00	10:00 - 16:00
602818G	Dinas a De Caerdydd	Boots Bae Caerdydd	<b>54.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	11:00- 17:00
				<b>Cyfanswm</b>	08:00 - 22:30	08:00 - 22:30	08:00 - 22:30	08:00 - 22:30	08:00 - 22:30	08:00 - 22:30	11:00 - 22:30
602808C	Dinas a De Caerdydd	Lloyds Pharmacy Grangetown	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 12:00 14:00 - 18:30	09:00 - 12:00 14:00 - 18:30	09:00 - 12:30 14:00 - 18:30	09:00 - 13:00 14:00 - 18:30	09:00 - 13:00 14:00 - 18:30		-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:30	09:00 - 18:30	09:00 - 18:30	09:00 - 18:30	09:00 - 18:30		-
602853F	Dinas a De Caerdydd	Well Pharmacy Holmesdale Street	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 13:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 12:00	-
602856C	Dinas a De Caerdydd	Well Pharmacy Clare Road	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00		-

				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 18:00	09:00 - 15:00	-
602852C	Dinas a De Caerdydd	Well Pharmacy Quayside	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 -17:00	09:00 -17:00	09:00 -17:00	09:00 -17:00	09:00 -17:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	-	-
602698A	Dinas a De Caerdydd	Virdee Pharmacy	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:15 - 13.00 14.00 - 18:15	09:15 - 13.00 14.00 - 18:15	09:15 - 13.00 14.00 - 18:15	09:15 - 13.00 14.00 - 18:15	09:15 - 13.00 14.00 - 18:15	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:15 - 13.00 14.00 - 18:15	09:15 - 13.00 14.00 - 18:15	09:15 - 13.00 14.00 - 18:15	09:15 - 13.00 14.00 - 18:15	09:15 - 13.00 14.00 - 18:15	-	-
602816L	Dwyrain y Fro	Boots Penarth	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09.30 - 13.00 14.00 - 17.30	09.30 - 13.00 14.00 - 17.30	09.30 - 13.00 14.00 - 17.30	09.30 - 13.00 14.00 - 17.30	09.30 - 13.00 14.00 - 17.30	09.30 - 13.00 14.00 - 15.30	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	08:30 - 13:00 14:00 - 18:00	08:30 - 13:00 14:00 - 18:00	08:30 - 13:00 14:00 - 18:00	08:30 - 13:00 14:00 - 18:00	09:00 - 13:00 14:00 - 18:00	10:00 - 16:00
602870E	Dwyrain y Fro	Fferyllfa Tesco Penarth	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 14:00 - 16:40	09:00 - 13:00 14:00 - 16:40	09:00 - 13:00 14:00 - 16:40	09:00 - 13:00 14:00 - 16:40	09:00 - 13:00 14:00 - 16:40	09:00 - 13:00 14:00 - 16:40	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	08:00 - 20:00	10:00 - 16:00
602694B	Dwyrain y Fro	Ivor Owen Pharmacy	<b>40.25</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 13:00 14.15 - 17.30	09:00 - 13:00 14.15 - 17.30	09:00 - 13:00 14.15 - 17.30	09:00 - 13:00 14.15 - 17.30	09:00 - 13:00 14.15 - 17.30	09:00 - 13:00	-
				<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 13:00 14:00 - 17:30	08:30 - 13:00 14:00 - 17:30	08:30 - 13:00 14:00 - 17:30	08:30 - 13:00 14:00 - 17:30	08:30 - 13:00 14:00 - 17:30	09:00 - 13:00	-
602514C	Dwyrain y Fro	Pearn's Pharmacy Penarth	<b>42.50</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	-
602422C	Dwyrain y Fro	Mayberry Pharmacy	<b>46.50</b>	<b>Craidd</b>	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 13:00	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 17:30	09:00 - 13:00	-
602381A	Dwyrain y Fro	TH & L Jones Cardiff Road	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00-17:00	09:00-17:00	09:00-17:00	09:00-17:00	09:00-17:00	-	-
				<b>Cyfanswm</b>	09:00-17:30	09:00-17:30	09:00-17:30	09:00-17:30	09:00-17:30	09:00 - 13:00	-
602381B	Dwyrain y Fro	The Murch Pharmacy	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09:00-17:00	09:00-17:00	09:00-17:00	09:00-17:00	09:00-17:00	-	-

				<b>Cyfanswm</b>	08.30-18.30	08.30-18.30	08.30-18.30	08.30-18.30	08.30-18.30		
602694A	Dwyrain y Fro	Varus Pharmacy	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	08:30 - 13:00 14:00 - 17:30	08:30 - 13:00 14:00 - 17:30	08:30 - 13:00 14:00 - 17:30	08:30 - 13:00 14:00 - 17:30	08:30 - 13:00 14:00 - 17:30		
				<b>Cyfanswm</b>	08:30 - 13:00 14:00 - 17:30	08:30 - 13:00 14:00 - 17:30	08:30 - 13:00 14:00 - 17:30	08:30 - 13:00 14:00 - 17:30	08:30 - 13:00 14:00 - 17:30		
602123A	Dwyrain y Fro	Washington Pharmacy	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	09.30 - 12.00	
				<b>Cyfanswm</b>	09.00 - 18.00	09.00 - 18.00	09.00 - 18.00	09.00 - 18.00	09.00 - 18.00	09.00 - 17.30	
602572A	Gorllewin y Fro	Fferyllfa Y Rhws	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 16.00	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	09.00 - 12.30	
				<b>Cyfanswm</b>	09.00 - 17.30	09.00 - 18.00	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 12.30	
602807F	Gorllewin y Fro	Lloyds Pharmacy Y Bont-faen	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09.00 - 12.30 14.30 - 18.00	09.00 - 12.30 14.30 - 18.00	09.00 - 12.30 14.30 - 18.00	09.00 - 12.30 13.30 - 18.00	09.00 - 12.30 13.30 - 18.00	09.00 - 12.00	
				<b>Cyfanswm</b>	08.30 - 18.30	08.30 - 18.30	08.30 - 18.30	08.30 - 18.30	08.30 - 18.30	09.00 - 12.00	
602853B	Gorllewin y Fro	Well Pharmacy Llanilltud Fawr	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00	09.00 - 13.00 14.00 - 18.00		
				<b>Cyfanswm</b>	08.30 - 18.00	08.30 - 18.00	08.30 - 18.00	08.30 - 18.00	08.30 - 18.00	09.00 - 17.30	
602819B	Gorllewin y Fro	Boots Llanilltud Fawr	<b>41.50</b>	<b>Craidd</b>	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	09.00 - 13.00	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	09.00 - 13.00 14.00 - 17.30	
				<b>Cyfanswm</b>	08.30 - 13.00 14.00 - 18.00	08.30 - 13.00 14.00 - 18.00	08.30 - 13.00 14.00 - 18.00	08.30 - 13.00 14.00 - 18.00	08.30 - 13.00 14.00 - 18.00	08.30 - 13.00 14.00 - 17.30	
602060A	Gorllewin y Fro	Fferyllfa Sain Tathan	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09.00 - 17.00	09.00 - 17.00	09.00 - 17.00	09.00 - 17.00	09.00 - 17.00		
				<b>Cyfanswm</b>	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 18.00	09.00 - 17.30	09.00 - 17.30	09.00 - 12.30	
602755B	Gorllewin y Fro	Sylvia Williams Chemist	<b>40.00</b>	<b>Craidd</b>	09.00 - 17.00	09.00 - 17.00	09.00 - 17.00	09.00 - 17.00	09.00 - 17.00		
				<b>Cyfanswm</b>	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 17:00	09:00 - 12:00	

